

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD:	24 th January 2024
LLEOLIAD:	O bell drwy Gynhadledd Fideo
TEITL:	Adroddiadau'r Rheoleiddwyr ac Arolygiaeth ac Ymatebion y Cyngor
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd adroddiadau rheolyddion/arolygiaeth ac ymatebion y Cyngor
Er:	Penderfyniad

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi Adroddiadau a diweddariadau Rheoleiddwyr ac Arolygon , ynghyd ag ymatebion y Cyngor ynghylch cynnydd a wnaed yn erbyn cynigion ac argymhelliad. Mae ganddo 3 rhan:

- Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*
- Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*
- Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru*

Y Sefyllfa Bresennol:

a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Archwilio Cymru – Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru (atodiad1)

b) Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Archwilio Cymru – Asesu Sicrwydd a Risg – Cyngor Sir Ceredigion (atodiad 2)
- Archwilio Cymru – Adolygiad Strategaeth Ddigidol – Cyngor Sir Ceredigion (atodiad 3a)
- YS – Adolygiad Strategaeth Ddigidol – Cyngor Sir Ceredigion (atodiad 3b)
- Archwilio Cymru – Craciau yn y Sylfeini Diogelwch Adeladau yng Nghymru (atodiad 4a)
- FYC – Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru (atodiad 4b)
- Archwilio Cymru – Assesiadau or efaith ar gydraddoldeb (atodiad 5a)
- FYC – Assesiadau or Effaith ar gydraddoldeb – Mwy nag Ymarfer Bwlch ticio (atodiad 5b)
- Archwilio Cymru – Llamu Ymlaen – Rheoli'r Gweithlu'n Strategol – Cyngor Sir Ceredigion (atodiad 6a)
- FYC – Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reolir Gweithlun Strategol (atodiad 6b)
- Archwilio Cymru – Gosod Amcanion Llesiant -Cyngor Sir Ceredigion (atodiad 7a)
- MRF – Gosod Amcanion Llesiant – Cyngor Sir Ceredigion (atodiad 7b)
- Archwilio Cymru – Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru (atodiad 8a)

- FYC – Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru (atodiad 8b)
- Archwilio Cymru – Diweddariad ‘Gwella ein Perfformiad’ – Mynd i’r Afael â Thwyll yng Nghymru – Aros am y diweddariad 2024

c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru

- Archwilio Cymru – Cyd-bwyllgor Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd (atodiad 9)
- Archwilio Cymru – Cyfle wedi’i golli – Mentrau Cymdeithasol (atodiad 10a)
- FYC – Cyfle Wedi’i Golli’ – Mentrau Cymdeithasol (atodiad 10b)

ARGYMHELLIAD: 1) Ystyried adroddiadau’r Rheoleiddir a’r Arolygiaeth a Diweddariadau
2) Ystyried ymateb y Cyngor (Ffurffenni Ymateb Rheolwyr/Sefydliadol)

Rheswm dros yr Argymheliad: Rhoi gwybod i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiadau, cynigion a’r gwaith yr ymgymerir ag ef

- **Atodiadau:**
 - Atodiad 1** Archwilio Cymru – Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru
 - Atodiad 2** Archwilio Cymru – Asesu Sicrwydd a Risg – Cyngor Sir Ceredigion
 - Atodiad 3a** Archwilio Cymru – Adolygiad Strategaeth Ddigidol – Cyngor Sir Ceredigion
 - Atodiad 3b** YS – Adolygiad Strategaeth Ddigidol – Cyngor Sir Ceredigion
 - Atodiad 4a** Archwilio Cymru – Craciau yn y Sylfeini Diogelwch Adeladau yng Nghymru
 - Atodiad 4b** FYC – Craciau yn y Sylfeini Diogelwch Adeladau yng Nghymru
 - Atodiad 5a** Archwilio Cymru – Asesiadau or effaith ar gydraddoldeb
 - Atodiad 5b** FYC – Asesiadau or effaith ar gydraddoldeb – Mwy nag ymarfer Bwlch ticio
 - Atodiad 6a** Archwilio Cymru – Llamu Ymlaen – Rheoli’r Gweithlu’n Strategol – Cyngor Sir Ceredigion
 - Atodiad 6b** FYC – Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reolir Gweithlu’n Strategol – Cyngor Sir Ceredigion
 - Atodiad 7a** Archwilio Cymru – Gosod Amcanion Llesiant
 - Atodiad 7b** FYC – Gosod Amcanion Llesiant
 - Atodiad 8a** Archwilio Cymru – Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru
 - Atodiad 8b** FYC – Amser am Newid – Tlodi yng Nghymru
 - Atodiad 9** Archwilio Cymru – Cyd-bwyllgorau Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd
 - Atodiad 10a** Archwilio Cymru – Cyfle wedi’i golli’ – Menatrau Cymdeithasol
 - Atodiad 10b** FYC – Cyfle wedi’i golli’ – Mentrau Cymdeithasol

Enw Cyswllt: Elin Prysor

Teitl: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro

Dyddiad yr Adroddiad: 24/01/2024

Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ceredigion

Diweddariad chwarterol: 30 Medi 2023

Crynodeb Archwilio Blynyddol

Disgrifiad	Amserlen	Statws
Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022.	Mawrth 2023	Wedi'i gwblhau Cyngor Sir Ceredigion – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022

Gwaith Archwilio Ariannol

Disgrifiad	Amserlen	Statws	Disgrifiad
Archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2022-23 y Cyngor	I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn cynnig safbwynt gwir a theg.	Barn Archwilio erbyn 28 Chwefror 2024	Ar y gweill
Archwilio Datganiad Blynyddol 2022-23 ar gyfer Harbwr Ceredigion	I gadarnhau bod y datganiad wedi'i gwblhau yn briodol.	Barn Archwilio erbyn 28 Chwefror 2024	Ar y gweill
Archwiliad o Ddatganiadau Blynyddol 2022-3 ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru	I gadarnhau bod y datganiadau wedi'u cwblhau yn briodol.	Barn Archwilio erbyn 28 Chwefror 2024	Ar y gweill

Disgrifiad	Amserlen	Statws	Disgrifiad
Archwiliad o Grantiau a Datganiadau 2022-23 y Cyngor	Archwiliad o'r grantiau a'r datganiadau fel sy'n ofynnol o dan eu telerau ac amodau.	Yn unol â'r terfynau amser ar gyfer pob grant a datganiad unigol.	Heb gychwyn eto

Gwaith Archwilio Perfformiad

Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
Sicrwydd ac Asesu Risg	<p>Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.</p> <ul style="list-style-type: none"> Sefyllfa ariannol 	<p>Parhaus</p> <p>Monitro'r sefyllfa ariannol yn barhaus</p>	<p>Ar y gweill</p> <p>Parhaus</p>

Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
	<ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="416 689 751 723">• Rheoli rhaglenni cyfalaf <li data-bbox="416 1301 807 1429">• Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – â phwyslais ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth <li data-bbox="416 1503 762 1536">• Pennu amcanion llesiant 	<p data-bbox="938 689 1126 752">Medi – Rhagfyr 2023</p> <p data-bbox="938 1301 1075 1364">Chwefror – Medi 2023</p> <p data-bbox="938 1503 1070 1565">Gorffennaf 2023</p>	<p data-bbox="1185 689 1374 1229">Ni fydd AC yn gwneud gwaith manwl ym mhob cyngor yn rhan o'n rhaglen waith ar gyfer 2022-23. Rydym wrthi'n archwilio ein hopsiynau ar gyfer gwneud darn manwl o waith ar y pwnc hwn naill ai yn 2023-24 neu yn y dyfodol.</p> <p data-bbox="1185 1301 1374 1364">Adroddiad yn cael ei ddrafftio</p> <p data-bbox="1185 1503 1374 1630">Wedi'i gwblhau Gosod Amcanion Llesiant</p>

Gwaith Archwilio Perfformiad 2022-23	Cwmpas	Amserlen	Statws
Adolygiad Thematig – Gofal heb ei drefnu	Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i fod o gymorth i ryddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal ag atal derbyniadau i'r ysbyty. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddarparu atebion tymor canolig i dymor hwy.	Awst 2022 – Gorffennaf 2023	Gwaith maes bron â'i gwblhau, gan adrodd o fis Medi 2023 ymlaen.
Adolygiad thematig – Digidol	Adolygiad o ddull strategol cynghorau tuag at ddigidol, ac i ba raddau y datblygwyd hwn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r cynghorau.	Ionawr – Medi.	Adroddiad yn cael ei gwblhau
Gwaith risg lleol: Adolygiad cynllunio – gwaith dilynol	I wneud gwaith dilynol ar gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn ein hadolygiad Cynllunio a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021. <u>Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Sir Ceredigion</u>	Hydref 2022 – Haf 2023	Adroddiad wedi'i Gyhoeddi <u>Adolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio</u>

Gwaith Archwilio Perfformiad 2023-24	Cwmpas	Amserlen	Statws
Sicrwydd ac Aseu Risg	Prosiect i nodi lefel sicrwydd archwilio a/neu le gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn cysylltiad â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.	Parhaus	Ar y gweill
Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol	Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cyngorau gan gynnwys canolbwyntio ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau mewn cyllid a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig.	Mawrth – Mehefin 2024	Cwmpasu
Adolygiad thematig – comisiynu a rheoli contractau	Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cyngorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.	Ionawr – Gorffennaf 2024	Cwmpasu

Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

Astudio	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi ei gynllunio yng Nghyngor Sir Ceredigion
Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – adfywio Adfywio tir Llwyd	Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo ac yn galluogi defnyddio anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd yn well	Hydref 2022 – Medi 2023	Drafftio adroddiadau – disgwylir cyhoeddi Tachwedd/Rhagfyr 2023	Oes – cyfweiliad gyda swyddog enwebedig mewn saith cyngor ac arolwg.
Llywodraethu awdurdodau diben arbennig – Parciau Cenedlaethol	Adolygiad o systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant	Tachwedd 2022 – Medi 2023	Drafftio adroddiadau – disgwylir cyhoeddi Tachwedd/Rhagfyr 2023.	Nac oes

Astudio	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi ei gynllunio yng Nghyngor Sir Ceredigion
Cyd-bwyllgorau Corfforedig	Asesu cynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithredu rhanbarthol.	Medi 2022 – Awst 2023	Mae llythyrau unigol wedi'u rhoi i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. Adroddiad cryno cenedlaethol i'w gyhoeddi Hydref/Tachwedd 2023.	Oes – Fe wnaethom archwilio safbwynt y Cyngor drwy ein cyfarfodydd cyswllt arferol. Roedd y gwaith maes yn cynnwys cyfweiliadau gyda'r prif weithredwr, cyfarwyddwr cyllid a chadeirydd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig
Llywodraethiant mewn Awdurdodau Tân ac Achub	Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethiant	Medi 2023 – Mawrth 2024	Cyhoeddi briff prosiect	Nac oes
Digartrefedd	Archwilio sut mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r ymateb i ddigartrefedd.	I'w gadarnhau	Cwmpasu	I'w gadarnhau

Estyn

Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol. Cafodd awdurdod lleol Wrecsam ei dynnu o'r categori achosi pryder sylweddol yn dilyn ymweliad monitro ym mis Gorffennaf. Fe wnaethom ni arolygu Gwynedd yn yr wythnos yn dechrau 26 Mehefin a Sir Gaerfyrddin yn yr wythnos yn dechrau 10 Gorffennaf. Mae'r ddau adroddiad wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Byddwn yn arolygu gwasanaeth addysg llywodraeth leol Conwy yr wythnos sy'n dechrau 6 Tachwedd.

Mae gwaith maes sy'n cael ei wneud ar draws awdurdodau lleol yn ystod tymor yr hydref yn cynnwys canolbwyntio ar bresenoldeb, gwella ysgolion a gwaith yr awdurdod lleol i liniaru effaith tlodi ar gyrhaeddiad dysgwyr.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwaith arfaethedig AGC 2023-25	Cwmpas	Amserlen	Statws
Adolygiadau thematig			
Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol	Gan weithio gyda AGIC, byddwn yn cwblhau sampl fach o arolygiadau Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol ar y cyd yn 2024. Byddwn yn defnyddio'r dull hwn i werthuso ac ystyried ein dull o arolygu ar y cyd.	2024-25	Cynllunio
Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid – 10 mlynedd yn ddiweddarach	Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag AGIC i ystyried ein dull gweithredu a'n gwaith yn dilyn yr adroddiad: Adolygiad Cenedlaethol o'r Defnydd o'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid Yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2014.	2024-25	Cwmpasu

Gwaith arfaethedig AGC 2023-25	Cwmpas	Amserlen	Statws
<p>Llwybr Strôc</p> <p>Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus</p>	<p>Gan weithio ar y cyd ag AGIC, cyhoeddwyd Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion: taith drwy'r llwybr strôc yn ddiweddar.</p> <p>Diben yr adolygiad Rhoi proses graffu allanol ar waith, rhoi sicrwydd a hyrwyddo gwelliannau o ran ansawdd arferion mewn cysylltiad â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus cyn-achos.</p> <p>I ystyried i ba raddau y mae arferion wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad Cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn-achos yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus' AGC a chyhoeddi adroddiad gweithgor yr amlinelliad cyfraith gyhoeddus 2021 gan gynnwys canllawiau arferion gorau.</p>	<p>Wedi'i Gwblhau</p> <p>Ar y gweill</p>	<p>Wedi'i Gyhoeddi</p> <p>Cyhoeddi Tachwedd 2023</p>
<p>Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-23</p>	<p>Cyhoeddwyd adroddiad 2020-21 ar 7 Chwefror 2021</p> <p>Mae adroddiad 2021-2022 wedi'i ddechrau</p>	<p>Wedi'i gyhoeddi</p> <p>I'w gadarnhau</p>	<p>Wedi'i gyhoeddi</p> <p>Yn cael ei baratoi</p>

Gwaith arfaethedig AGC 2023-25	Cwmpas	Amserlen	Statws
<p>Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)</p>	<p>Byddwn yn cwblhau dau arolygiad amlasiantaeth arall.</p> <p>Cyhoeddwyd y canfyddiadau yn dilyn Cyngor Sir Ddinbych - Adolygiad ar y Cyd gan Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Sir Ddinbych 2023 Arolygiaeth Gofal Cymru</p> <p>Mae'r canfyddiadau yn dilyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'u cyhoeddi – Adolygiad ar y Cyd Arolygiaethau o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA): Pen-y-bont ar Ogwr 2023 Arolygiaeth Gofal Cymru</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol ddiwedd gwanwyn 2024.</p>	<p>Ebrill 2023 – Ebrill 2024</p>	<p>Cyflawni</p>
<p>Adolygiad perfformiad o Awdurdodau Lleol</p>	<p>Rydym yn parhau i arolygu Awdurdodau Lleol yn unol â'n Cod Ymarfer wedi'i ddiweddarau ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol Arolygiaeth Gofal Cymru</p> <p>Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Parhaus</p>

Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers mis Medi 2022

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Gweithlu'r GIG – briff data	Medi 2023
Arallgyfeirio incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru	Medi 2023
Dulliau o sicrhau sero net ledled y DU	Medi 2023
Llamu ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau (mewn llywodraeth leol)	Medi 2023
Diweddariad Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol (diweddariad pellach wedi'i gynllunio ar gyfer hydref 2023)	Medi 2023
Offeryn data cyllid GIG Cymru – hyd at 31 Mawrth 2023	Medi 2023
Adroddiadau er budd y cyhoedd – Cyngor Tref Rhydaman a Chyngor Cymuned Llanferres	Medi 2023
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd	Awst 2023
'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru	Awst 2023
Gwneud y mwyaf o arian gan yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig	Mehafin 2023
Cynhwysiant digidol yng Nghymru (gan gynnwys cwestiynau allweddol i gyrrff cyhoeddus)	Mawrth 2023

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros	Mawrth 2023
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd	Chwefror 2023
Prynu Fferm Gilestone gan Lywodraeth Cymru	Ionawr 2023
Gyda'n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau	Ionawr 2023
Darlun o Reoli Perygl Llifogydd	Rhagfyr 2022
'Cyfle wedi'i gollu' – Mentrau Cymdeithasol	Rhagfyr 2022
Offeryn Data Tlodi	Tachwedd 2022
'Amser am newid' – Tlodi yng Nghymru	Tachwedd 2022
Dysgu o ymosodiadau seiber	Hydref 2022 (wedi'i ddsbarthu'n breifat i gyrff archwiliedig)
Y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21	Hydref 2022
Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus	Hydref 2022
Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth	Medi 2022

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Hwyluso Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i fod yn fwy nag Ymarfer blwch ticio	Medi 2022
Pennu amcanion llesiant – Llywodraeth Cymru	Medi 2022
Cynllunio a rheoli gweithlu'r gan Lywodraeth Cymru	Medi 2022

Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/cynlluniedig)^{1, 2}

Teitl	Dyddiad cyhoeddi dangosol
Trefniadau cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon – dilyniant (llythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus)	Hydref 2023
Llywodraethu ansawdd y GIG	Hydref/Rhagfyr 2023
A465 Adran 2 – diweddariad	Tachwedd/Rhagfyr 2023
Gwasanaethau ffoaduriaid o Wcráin	Rhagfyr 2023/Ionawr 2024

¹ Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, fel y gall gwaith archwilio lleol arall hefyd pan ydym o'r farn fod rhinwedd mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath.

² Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur ar ein gwefan – [Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026](#) – sy'n rhoi manylion ychwanegol am ein gwaith cenedlaethol (gan gynnwys adolygiadau thematig lleol). Yn ogystal â'r gwaith newydd y byddwn yn ei wneud yn 2023-24, mae'r papur yn cynnwys manylion am bynciau dangosol ar gyfer gwaith i ddechrau yn 2024-24 neu 2025-26.

Teitl	Dyddiad cyhoeddi dangosol
Adolygiad o strategaeth ddigidol llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol	Ionawr 2024
Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, canlyniadau a phersbectif defnyddwyr gwasanaethau – crynodeb cenedlaethol	Tachwedd/Rhagfyr 2024
Tai fforddiadwy	Chwefror/Mawrth 2024
Teithio llesol	Gwanwyn 2024
Gwasanaethau canser	I'w gadarnhau (cwmpasu)
Canolfan Ganser Felindre	I'w gadarnhau (cwmpasu)
Buddsoddiad cyfalaf a seilwaith Llywodraeth Cymru	I'w gadarnhau (cwmpasu)
Mynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth (sector cyhoeddus ac yn Cyfoeth Naturiol Cymru)	Gwaith ymchwil a datblygu ar y gweill rhwng Medi a Rhagfyr 2023. Casglu data gyda grwpiau cynrychioliadol. Bydd allbynnau'n llywio unrhyw waith archwilio pellach.
Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac uwch – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	I'w gadarnhau (cwmpasu)
Yr Uwch Wasanaeth Cyhoeddus	I'w gadarnhau (cwmpasu ar ddechrau 2024)
Heriau i'r sector diwylliannol	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)

Teitl	Dyddiad cyhoeddi dangosol
Ailgydbwysio gofal a chymorth	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24)
Pwyllgorau Archwilio. 'Sut olwg sydd ar dda?' Mae Ymchwil a Datblygu yn gweithio i ddeall tirwedd eang y pwyllgor archwilio ar draws pob sector yng Nghymru. Allbynnau i gefnogi digwyddiadau y Gyfnewidfa Arfer Da a gwaith archwilio posibl yn y dyfodol.	Gwaith Ymchwil a Datblygu Medi - Rhagfyr 2023 Digwyddiad Arfer Da Gwanwyn 2024

Digwyddiadau ac adnoddau y Gyfnewidfa Arfer Da

Title	Link to resource
O'r Strategaeth i Fodolaeth: Sut mae'r digidol yn gwneud gwahaniaeth i fywyd bob dydd Bydd y digwyddiad yma yn edrych yn onest ac ymarferol ar y dirwedd ddigidol yng Nghymru ac yn cynnig syniadau ymarferol ar gyfer sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector er mwyn cyflawni'r gwerth am arian gorau.	27 Medi 2023 09:00 – 13:00 – Gogledd Cymru – I gofrestru ar gyfer Gogledd Cymru 5 Hydref 2023 09:00 – 13:00 – Caerdydd – I gofrestru ar gyfer Caerdydd
Cydweithio er mwyn gwella llesiant: Bydd y digwyddiad yma yn dod â Phartneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chymuned C4C at ei gilydd i rannu cynlluniau llesiant ar draws ardal Gogledd Cymru, yn ogystal â rhannu'r gwaith arloesol sy'n cael ei wneud gan sawl sector ym maes llesiant yn ein cymunedau. Bydd y digwyddiad yn rhoi cyfleoedd i drafod sut y gellir cysylltu'r gwaith yma gyda'i gilydd er mwyn creu gwir newid.	24 Hydref 2023 09:30 – 16:30 I gofrestru ar gyfer Gogledd Cymru Dyddiad Caerdydd i'w gadarnhau

Title	Link to resource
<p>Gonestrwydd yn y sector cyhoeddus: <i>‘Trust is built and maintained through competence, reliability, and honesty, as well as the building of genuine and sound relationships between the public sector and the public it serves. That means the public sector must be accountable for the management and delivery of public services and outcomes, for the direction and control of the work it does, the resources it manages, and for its behaviour and ethics.’</i> Bydd y digwyddiad hwn yn edrych ar sut y gall gwasanaethau cyhoeddus hybu diwylliant o uniondeb.</p>	<p>5 Rhagfyr 2023 10:00 – 12:00 Ar-lein I gofrestru</p>
<p>Podlediad: Archwilio Cydnerthedd Cymunedol: Yn y rhifyn hwn o'r Gyfnewidfa, mae ein tîm Llywodraeth Leol yn trafod rhai o'r ffactorau sy'n achosi tlodi yng Nghymru, yn ogystal â'r gwerth a ddarperir gan fentrau cymdeithasol, a phwysigrwydd cadw cyfoeth mewn cymunedau.</p>	<p>I wrando</p>

Blogiau diweddar Archwilio Cymru

Teitl	Dyddiad cyhoeddi
<p>Diogelwch Adeiladau – A ydym ni wedi dysgu o Grenfell?</p>	<p>1 Awst 2023</p>
<p>Helpu pobl i helpu eu hunain</p>	<p>15 Chwefror 2023</p>
<p>Storm berffaith – yr argyfwng costau byw a cham-drin domestig</p>	<p>21 Tachwedd 2022</p>
<p>Mae mynd i'r afael â thlodi yn golygu mynd i'r afael â'r data ar dlodi</p>	<p>11 Tachwedd 2022</p>
<p>Costau Byw a rhoi'r Fidog i gadw</p>	<p>21 Medi 2022</p>
<p>Mae pethau'n poethi i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd</p>	<p>18 Awst 2022</p>
<p>Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru</p>	<p>15 Mehefin 2022</p>

Teitl	Dyddiad cyhoeddi
<u>Gofal heb ei drefnu yng Nghymru - system o dan bwysau cynyddol</u>	21 Ebrill 2022

Briff Prosiect – Aseu Sicrwydd a Risg – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2023

Cyfeirnod: 3659A2023

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ceredigion fel rhan o'r gwaith sydd i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni chymerir cyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod Adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Cefndir	4
Sail ddeddfwriaethol	4
Amcanion archwilio	4
Cwestiynau a meini prawf archwilio	4
Cwmpas yr archwiliad	5
Dulliau archwilio	5
Allbwn	5
Amserlen	6
Cysylltiadau Archwilio Cymru	6
Gwaith maes	7
Cais am ddogfennau	7
Cyfweliadau	7
Atodiadau	
Cwestiynau a meini prawf archwilio	8
Hysbysiad Preifatrwydd	10

Briff y prosiect

Cefndir

- 1 Mae dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) i sicrhau ei hun bob blwyddyn bod cynghorau wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Mae prosiect tebyg yn cael ei gynnal ym mhob cyngor i helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon drwy adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith, yn ogystal â nodi trefniadau lle rydym yn bwriadu gwneud gwaith archwilio manylach. Rydym yn cynnal prosiect tebyg ar draws pob prif gyngor yng Nghymru. Bydd yr archwiliad hwn hefyd yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol i sicrhau ei hun bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac i nodi ble rydym yn bwriadu gwneud rhagor o waith i brofi ei gais.

Sail ddeddfwriaethol

- 2 Mae'r prosiect hwn yn cael ei wneud i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gall hefyd lywio gwaith archwilio a wneir o dan bwerau a dyletswyddau eraill.
- 3 Mae ein hysbysiad preifatrwydd wedi'i gynnwys ar dudalennau 10-11 o'r briff prosiect hwn ac mae'n rhoi gwybodaeth am y posibilrwydd o gasglu gwybodaeth bersonol gan yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'r gwaith hwn.

Amcanion archwilio

- 4 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:
 - helpu i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i fodloni ei hun bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
 - helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a
 - llywio ein gwaith cynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

- 5 Mae **Arddangosyn 4** yn cynnwys y cwestiynau archwilio a'r meini prawf archwilio.

Cwmpas yr archwiliad

- 7 Bydd y prosiect hwn yn ymdrin â threfniadau corfforaethol a gwasanaeth allweddol, er bod i ba raddau yr ydym yn adolygu pob trefniant bob blwyddyn yn amrywio yn unol â'n hasesiad o risg archwilio.
- 8 Fel rhan o'n gwaith Asesu Sicrwydd a Risg (ARA), efallai y byddwn hefyd yn ymgymryd â gwaith dilynol ar gynigion ar gyfer gwella/argymhellion a gyhoeddwyd yn adroddiadau blaenorol Archwilio Cymru.

Dulliau archwilio

- 9 Byddwn yn dilyn dull sy'n seiliedig ar risg o adolygu trefniadau'r Cyngor. Ar gyfer rhai agweddau ar drefniadau'r Cyngor, gall ein gwaith gael ei gyfyngu i adolygiadau dogfen lefel uchel. Ar gyfer trefniadau eraill, efallai y byddwn yn ymgymryd â gwaith mwy sylweddol gan gynnwys, er enghraifft, cyfweiliadau ac arsylwadau cyfarfodydd. O leiaf, byddwn yn cyfweld â'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a rhai Swyddogion Arweiniol Corfforaethol. Rydym yn bwriadu cyflawni'r gwaith hwn yn barhaus yn ystod 2023-24.
- 10 Wrth ymgymryd â'r prosiect hwn, byddwn hefyd yn tynnu ar ganfyddiadau ein gwaith parhaus a diweddar arall, canfyddiadau Arolygwyr a Rheoleiddwyr eraill, a gwaith mecanweithiau adolygu mewnol y Cyngor ei hun, megis archwilio mewnol a swyddogaethau trosolwg a chraffu'r Cyngor.
- 11 Byddwn hefyd yn cynnal gweithdy gydag uwch reolwyr i drafod crynodeb o'n canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ein gwaith arfaethedig yn y dyfodol, a chael persbectif uwch reolwyr ar risgiau a meysydd ffocws allweddol y Cyngor. Bydd y gweithdy hwn hefyd yn cynnwys Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru ac mae'n debygol o fod yn gynnar yn 2024.

Allbwn

- 12 Byddwn yn bwydo canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith hwn i'r Cyngor yn ôl fel y bo'n briodol ac yn crynhoi ein hasesiad o risgiau archwilio allweddol yn y gweithdy y cyfeirir ato uchod.

Amserlen

13 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos amserlen lefel uchel y prif gamau archwilio.

Arddangosyn 1: amserlen archwilio

Cam	Dyddiad
Fi Briff prosiect SSUE	Gorffennaf 2023
Adolygiadau o ddogfennau	Yn parhau dros 2023-24
Cyfweliadau gydag uwch swyddogion	Medi – Rhagfyr 2023
Gweithdy gydag uwch swyddogion	Dechrau 2024

Cysylltiadau Archwilio Cymru

14 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi tîm Archwilio Cymru a fydd yn gweithio ar yr archwiliad hwn.

Arddangosyn 2: Cysylltiadau Archwilio Cymru

Enw	Manylion cyswllt
Gary Emery – Cyfarwyddwr Archwilio	Gary.Emery@archwilio.cymru
Non Jenkins	Non.Jenkins@archwilio.cymru
Bethan Roberts	Bethan.Roberts@archwilio.cymru
Jason Blewitt	Jason.Blewitt@archwilio.cymru

Gwaith maes

- 15 Byddwn yn gwneud ein gwaith maes yn unol â dewis iaith datganedig y sefydliad. Byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i ddarparu ar gyfer dewisiadau iaith unigolion yn ystod yr archwiliad os byddwn yn derbyn y rhain ar adeg sefydlu gwaith maes.

Cais am ddogfennau

- 16 Byddwn yn adolygu amrywiaeth o ddogfennau fel rhan o'n hadolygiadau parhaus o ddogfennau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn debygol o fod eisoes yn gyhoeddus. Os hoffem ofyn am ddogfennau ychwanegol neu os nad ydym yn ymwybodol o ble i gael mynediad atynt, byddwn yn cyfathrebu hyn drwy ein cysylltiadau(au) arferol ar gyfer gwaith archwilio perfformiad.

Cyfweliadau

- 17 Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r rhestr gychwynnol o bobl yr hoffem eu cyfweld yn ystod ein gwaith. Byddwn yn cadarnhau manylion penodol pwy yr hoffem eu cyfweld yn ystod cyfarfod sefydlu'r prosiect ac yn cysylltu â chi eto i drefnu dyddiadau ac amseroedd cyfleus i'r ddwy ochr pan fyddwn yn dechrau'r cam casglu tystiolaeth.

Arddangosyn 3: cyfweleion

Teitl
Prif Weithredwr
Cyfarwyddwyr Corfforaethol
Swyddogion Arweiniol Corfforaethol

Atodiad 1

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Prif gwestiwn archwilio: **A yw trefniadau'r Cyngor yn dangos bod y Cyngor yn defnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

Arddangosyn 4: cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiwn Lefel 2	Meini prawf
1. A yw trefniadau llywodraethu'n dangos bod y Cyngor yn defnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?	<ul style="list-style-type: none">• Mae trefniadau ar waith.• Mae goruchwyliaeth briodol o drefniadau.• Tystiolaeth bod trefniadau'n effeithiol.
2. A yw trefniadau cynllunio strategol yn dangos bod y Cyngor yn defnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?	<ul style="list-style-type: none">• Mae trefniadau ar waith.• Mae goruchwyliaeth briodol o drefniadau.• Tystiolaeth bod trefniadau'n effeithiol.
3. A yw trefniadau Cynllunio a Rheoli Adnoddau yn dangos bod y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?	Mae trefniadau ar waith. Mae goruchwyliaeth briodol o drefniadau. Tystiolaeth bod trefniadau'n effeithiol.

Cwestiwn Lefel 2	Meini prawf
<p>4. A yw trefniadau cydweithio a phartneriaeth yn dangos bod y Cyngor yn defnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae trefniadau ar waith. • Mae goruchwyliaeth briodol o drefniadau. • Tystiolaeth bod trefniadau'n effeithiol.
<p>5. A yw trefniadau Rheoli Perfformiad yn dangos bod y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae trefniadau ar waith. • Mae goruchwyliaeth briodol o drefniadau. • Tystiolaeth bod trefniadau'n effeithiol.
<p>6. A yw trefniadau Rheoli Risg yn dangos bod y Cyngor yn defnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae trefniadau ar waith. • Mae goruchwyliaeth briodol o drefniadau. • Tystiolaeth bod trefniadau'n effeithiol.
<p>7. A yw perfformiad gwasanaeth yn dangos bod trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian ar waith a A yw'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei chymhwyso?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae trefniadau ar waith. • Mae goruchwyliaeth briodol o drefniadau. • Tystiolaeth bod trefniadau'n effeithiol.

Atodiad 2

Hysbysiad prosesu teg

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2021

Archwilydd Cyffredinol Cymru – Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthy ch sut mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth bersonol a gesglir mewn cysylltiad â'n gwaith.

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith. Mae 'Archwilio Cymru' yn nod masnach Swyddfa Archwilio Cymru, a dyma hunaniaeth ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Swyddog Diogelu Data (DPO)

Gellir cysylltu â'n DPO dros y ffôn ar 029 2032 0500 neu drwy e-bost yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y deddfau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR). Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu yw'r pwerau a'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn dibynnu ar y pŵer neu'r swyddogaeth benodol, mae'r seiliau statudol hyn yn perthyn i Erthygl 6(c) ac (e) o brosesu GDPR y DU sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol.

Pwy fydd yn gweld y data?

Bydd gan yr Archwilydd Cyffredinol a staff perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, fel y tîm astudio, fynediad i'r wybodaeth a roddwch.

Gall ein hadroddiad cyhoeddedig gynnwys peth o'ch gwybodaeth, ond byddwn yn cysylltu â chi cyn cyhoeddi unrhyw wybodaeth sy'n eich adnabod—gweler hefyd 'eich hawliau' isod.

Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda:

- a) uwch reolwyr yn y corff/cyrff a archwilir cyn belled ag y mae hyn yn angenrheidiol er mwyn arfer ein pwerau a'n dyletswyddau; a
- b) rhai cyrff cyhoeddus / cyrff adolygu gwasanaethau cyhoeddus eraill megis Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Arolygiaeth Gofal Cymru (Gweinidogion Cymru), Estyn ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, lle mae'r gyfraith yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i hyn, megis o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Am ba hyd y byddwn yn cadw'r data

Yn gyffredinol, byddwn yn cadw eich data am chwe blynedd, er y gall hyn gynyddu i 25 mlynedd os yw'n cefnogi adroddiad cyhoeddedig—byddwn yn cysylltu â chi cyn unrhyw gyhoeddiad o wybodaeth sy'n eich adnabod—gweler hefyd 'eich hawliau' isod. Ar ôl 25 mlynedd, mae'r cofnodion naill ai'n cael eu trosglwyddo i Archif Genedlaethol y DU neu eu dinistrio'n ddiogel. Yn ymarferol, ychydig iawn o wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw y tu hwnt i chwe blynedd.

Ein hawliau

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawliau i wybodaeth, esboniad a chymorth o dan baragraff 17 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 52 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 26 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 98 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gall fod yn drosedd, y gellir ei gosbi drwy ddirwy, i berson fethu â darparu gwybodaeth.

Eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol a gedwir amdanoch chi ac i wrthwynebu prosesu data sy'n achosi difrod a thralod diangen a sylweddol.

I gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi neu i drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, ysgrifennwch at y Swyddog Gwybodaeth, Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Chwarter Prifddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu e-bostiwch swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru. Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad hwn.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am gyfraith diogelu data neu i gwyno am sut rydym yn trin eich data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF, neu drwy e-bost yn casework@ico.gsi.gov.uk neu dros y ffôn 01625 545745.



Archwilio Cymru

1 Chwarter Cyfalaf

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Adolygiad Strategaeth Ddigidol – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod dogfennau: 3941A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Crynodeb o'r adroddiad	4
Adroddiad manwl	
Yr hyn yr edrychom arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn	6
Pam yr ymgwymerwyd â'r archwiliad hwn	6
Strategaeth ddigidol y Cyngor	7
Yr hyn a ganfuom: mae'r Cyngor yn cymryd ymagwedd integredig at ddatblygu ei strategaeth ddigidol ac mae'n defnyddio data mewnol ac allanol i'w hysbysu, ond nid oes ganddo drefniadau ar waith eto i asesu ei werth am arian neu effaith.	7
Atodiadau	
Atodiad 1: cwestiynau allweddol a meini prawf archwilio	11

Crynodeb o'r adroddiad

Crynodeb o'r adroddiad

Arddangosyn 1: crynodeb o'r adroddiad

Mae'r arddangosyn isod yn crynhoi'r rheswm y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol a'n hargymhellion ar gyfer y Cyngor.

Pam mae dull strategol o ymdrin â digidol yn bwysig

- 1 Mae technoleg ddigidol yn allweddol i ddarparu ystod eang o wasanaethau'r cyngor mewn ffordd fwy economaidd, effeithlon ac effeithiol, mae hefyd yn ffordd bwysig i gynghorau gyflawni eu hamcanion lles ac yn cyflawni datblygu cynaliadwy.
- 2 Gall cael dull strategol clir o ymdrin â digidol ddod â sawl budd megis:
 - sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer defnyddio digidol a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer cymunedau lleol sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y Cyngor;
 - helpu i sicrhau bod defnydd cynghorau o dechnoleg ddigidol yn cyd-fynd â'u hamcanion strategol allweddol a chynlluniau a strategaethau eraill a'i fod yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol;
 - lleihau'r risg o ddyblygu o fewn cynghorau a chyda phartneriaid;
 - ystyried adnoddau digidol dros y tymor byr, canolig a hir gyda'n gilydd; a
 - darparu fframwaith i fonitro cynnydd yn ei erbyn dros y tymor byr, hir a chanolig.

Ffocws ein harchwiliad

- 3 Gwnaethom edrych i ba raddau y datblygwyd dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

Ein canfyddiadau allweddol

- 4 Canfuom nad oes gan y Cyngor strategaeth ddigidol gyfredol a'i fod wrthi'n datblygu ei strategaeth ddigidol nesaf. Er mwyn llywio ei strategaeth yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn defnyddio data mewnol perthnasol ac yn ystyried data a deallusrwydd allanol, ond nid yw'r Cyngor yn sicr ynghylch cynnwys y cyhoedd. Er nad oes ganddo strategaeth, mae'r Cyngor yn cyd-fynd â phwysigrwydd digidol i gefnogi cyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Er gwaethaf absenoldeb strategaeth, dyrannodd y Cyngor adnoddau penodol i ariannu'r gwaith o'i gyflawni unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i fonitro, asesu ac adrodd ar gynnydd ac nid oedd y trefniadau hyn ar waith ar gyfer strategaeth flaenorol y Cyngor a

ddaeth i ben yn 2022. Heb y trefniadau hyn, mae'n anodd i'r Cyngor ddangos effaith a gwerth am arian ei ddull.

Ein hargymhelliad ar gyfer y Cyngor

A1 Er mwyn helpu i sicrhau bod strategaeth ddigidol nesaf y Cyngor yn cefnogi cyflawni ei amcanion ac yn sicrhau gwerth am arian, wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor:

- ennill dealltwriaeth o anghenion dinasyddion trwy eu cynnwys wrth ddylunio ei strategaeth nesaf; ac
- adolygu ei strategaeth ddigidol flaenorol gan gynnwys ei threfniadau llywodraethu, monitro ac adrodd i lywio trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei strategaeth nesaf i gynnwys ei galluogi i:
 - monitro ei effaith;
 - monitro i ba raddau y mae'n darparu gwerth am arian; ac
 - asesu os yw'r buddion a fwriedir yn cael eu gwireddu.

Adroddiad manwl

Yr hyn yr edrychom arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn

- 1 Gwnaethom adolygu dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.
- 2 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o Aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn ym mis Mehefin 2023.
- 3 Aethom ati i ateb y cwestiwn **'Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?'** Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:
 - A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol?
 - A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol?
 - A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol?
 - A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau i gyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddarparu manteision hirdymor/ataliol?
 - A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?
 - Ydy'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio?
- 4 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr oeddem yn bwriadu eu hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

Pam yr ymgwymerwyd â'r archwiliad hwn

- 5 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 6 Rydym yn ceisio:
 - rhoi sicrwydd y bydd strategaethau digidol cynghorau yn helpu i gyflawni amcanion llesiant mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;
 - rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio eu strategaethau digidol;

- esbonio sut mae cynghorau'n defnyddio/cynllunio i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau gwell canlyniadau; ac
- ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu engreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle bo hynny'n berthnasol.

Strategaeth ddigidol y Cyngor

- 7 Nid oes gan y Cyngor strategaeth ddigidol gyfredol. Daeth strategaeth flaenorol y Cyngor, 'Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu a Strategaeth Ddigidol 2018-2022' i ben yn 2022.
- 8 Adeg ein gwaith maes ym mis Mehefin 2023, roedd y Cyngor wrthi'n paratoi strategaeth ddigidol newydd. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu cynnydd y Cyngor bryd hynny tra'n cydnabod bod gan y Cyngor fwy o waith i'w wneud cyn y byddai'r strategaeth newydd ar gael i graffu ar aelodau. Ym mis Mehefin 2023, roedd Swyddogion yn bwriadu cyflwyno strategaeth ddigidol newydd i aelodau yn hydref 2023.

Yr hyn a ganfuom: mae'r Cyngor yn cymryd ymagwedd integredig at ddatblygu ei strategaeth ddigidol ac mae'n defnyddio data mewnol ac allanol i'w hysbysu, ond nid oes ganddo drefniadau ar waith eto i asesu ei werth am arian neu effaith

Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol nesaf, mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i amcanion strategol, blaenoriaethau ei bartneriaid ac yn defnyddio data mewnol ac allanol i'w hysbysu.

- 9 Er gwaethaf absenoldeb strategaeth ddigidol gyfredol, mae tystiolaeth gref o ymrwymiad y Cyngor i ddigidol ac alinio â phartneriaid. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn ymrwmo i wella cysylltedd digidol a seilwaith digidol yn ogystal ag alinio ag ymrwymadau digidol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn ei Gynllun Lles Lleol 2023-2028. Mae ffocws clir ar gefnogi Amcan Llesiant y Cyngor o 'Hybu'r Economi, cefnogi busnes a galluogi cyflogaeth'. Mae'r 'Hwb i Economi Ceredigion - Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35' yn nodi'n glir bwysigrwydd digidol yn ogystal â nodi digidol fel galluogwr allweddol yn Strategaeth Gweithio Hybrid y Cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ymgynghori â'i gilydd ar eu huchelgeisiau digidol sy'n dod i'r amlwg gyda'r bwriad o sicrhau integreiddio rhwng y ddau gorff cyhoeddus. Ar adeg y gwaith maes, nid oedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau. Mae'r Cyngor hefyd yn adolygu partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Strategaeth

Ddigidol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru wrth iddo ystyried ei uchelgeisiau a'i flaenoriaethau digidol ei hun. Gall ystyried bwriadau digidol rhanddeiliaid eraill ac alinio strategaethau mewnol ac allanol helpu'r Cyngor i rannu adnoddau, osgoi dyblygu ymdrechion a helpu i nodi cyfleoedd i gyflawni manteision lluosog.

- 10 Mae'r Cyngor yn ennill dealltwriaeth dda o'i sefyllfa bresennol i helpu i lywio ei strategaeth ddigidol yn y dyfodol. Comisiynodd y Cyngor ymgynghorydd allanol i gwblhau archwiliad digidol o'i holl wasanaethau gan gynnwys trefniadau digidol cyfredol gwasanaethau, asesu aeddfedrwydd digidol y rhain yn ogystal â deall gofynion digidol gwasanaethau yn y dyfodol. Yn ogystal, comisiynodd y Cyngor adolygiad aeddfedrwydd data ar ei lwyth gwaith presennol ac yn y dyfodol gan arwain at argymhellion i'r Cyngor eu hystyried ar gyfer ei ymagwedd at ddata yn y dyfodol. Mae'r Cyngor hefyd wedi cwblhau hunanwerthusiad digidol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac wedi treialu hunanasesiad Fframwaith Seiberasesu. Mae'r wybodaeth hon yn allweddol wrth helpu'r Cyngor i ddeall ei sefyllfa bresennol a ddylai lywio ei strategaeth ddigidol yn y dyfodol.
- 11 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn defnyddio data mewnol ac yn archwilio ffynonellau allanol o ddata a deallusrwydd er mwyn cael golwg ehangach ar y sefyllfa bresennol yn y Sir. Mae'r Cyngor yn adolygu canlyniadau'r cyfrifiad diweddaraf er mwyn cael gwell dealltwriaeth o broffil demograffig y Sir. Mae hefyd yn adolygu gwahanol fathau o argaeledd band eang ar draws y Sir a ffactorau economaidd sy'n dylanwadu ar fynediad at dechnoleg ddigidol. Gan dynnu ar wybodaeth o ystod eang o ffynonellau a thrwy weithgaredd cydweithredol, mae hyn yn cynyddu gallu'r Cyngor i gynllunio ei ddull strategol yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o dueddiadau presennol a thebygol y dyfodol yn y Sir.
- 12 Wrth i'r Cyngor ddatblygu ei strategaeth ddigidol yn y dyfodol, mae'n bwysig i'r Cyngor ddeall pwy fydd yn cael ei effeithio'n uniongyrchol ganddo. Mae'r Cyngor yn ansicr a ddylid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch ei strategaeth ddigidol nesaf. Felly, mae'r Cyngor yn wynebu'r risg o beidio â chynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl y gallai ei strategaeth ddigidol yn y dyfodol effeithio arnynt i helpu i sicrhau bod y strategaeth yn diwallu eu hanghenion. Mae peidio â chynnwys dinasyddion wrth ddatblygu dull digidol strategol y Cyngor, neu ei gyflawni, yn peryglu dylunio dulliau nad ydynt yn diwallu anghenion dinasyddion, ac felly efallai na fyddant yn sicrhau gwerth am arian.
- 13 Ar hyn o bryd nid yw'n glir pa mor bell i'r dyfodol y mae'r Cyngor yn cynllunio ar ei gyfer o ran digidol. Gyda diffyg strategaeth ddigidol gyfredol, nid oes gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer digidol ac nid oes ganddo fesurau a cherrig milltir sy'n adlewyrchu canlyniadau tymor byr, canolig a hirdymor ar gyfer digidol. Unwaith y bydd gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer digidol ac wedi nodi'r canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni, bydd yn bwysig i'r Cyngor gyfathrebu'n glir â hyn ar draws y sefydliad, gan gynnwys aelodau etholedig yn ogystal â'r cyhoedd ehangach a phartneriaid i sicrhau bod dealltwriaeth eang a chyffredin o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni.

- 14 Ar y cam hwn o'i ddatblygiad strategaeth ddigidol yn y dyfodol, nid yw'r Cyngor wedi cwblhau sut y bydd yn cyfrannu at y nodau Llesiant Cenedlaethol.

Nid oes gan y Cyngor drefniadau i asesu na monitro effaith a gwerth am arian o'i ddull strategol o ymdrin â digidol

- 15 Mae'r Cyngor wedi neilltuo £1 miliwn am gyfnod amhenodol i helpu i ariannu'r gwaith o gyflawni ei strategaeth ddigidol yn y dyfodol. Er bod hyn yn dangos ymrwymiad a chydnyddiaeth y Cyngor o bwysigrwydd digidol, dyrannodd y Cyngor y swm hwn heb gael strategaeth ddigidol. Felly, ni all y Cyngor fod yn sicr ei fod wedi dyrannu swm addas o gyllid i gyflawni ei uchelgeisiau digidol. Nid yw'r Cyngor chwaith wedi cwblhau'r trefniadau ar gyfer sut y gall gwasanaethau gael gafael ar y cyllid hwn, ac nid yw'r Cyngor ychwaith wedi cwblhau'r trefniadau monitro ac adrodd a fydd yn pennu cynnydd a gwerth am arian prosiectau a adnoddwyd o'r gronfa hon.
- 16 Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd y Cyngor wedi dyrannu unrhyw gyllid o'r gronfa hon. Byddai sefydlu trefniadau monitro priodol yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei hun bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau o'r gronfa.
- 17 Nid oes unrhyw oruchwyliaeth gorfforaethol ffurfiol ar gyfer monitro ac adolygu cynnydd ar y cyd, effaith a gwerth am arian yr holl brosiectau digidol cyfredol. Mae gan y Cyngor Banel Rheoli Prosiectau Corfforaethol (CPMP), ond nid oes ganddo rôl wrth fonitro unrhyw brosiectau, gan gynnwys prosiectau digidol. Gall y Bwrdd Perfformiad Corfforaethol a'r pwyllgorau craffu unigol ofyn am adolygu a herio cynnydd prosiectau digidol unigol. Fodd bynnag, heb fonitro'r cynnydd a'r effaith gyfunol, bydd yn anodd i'r Cyngor gael sicrwydd mai ei ddull strategol digidol yw sicrhau gwerth am arian.
- 18 Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn ystyried y CPMP fel y fforwm cywir i asesu, monitro a goruchwyllo'r strategaeth ddigidol yn y dyfodol, neu a oes angen iddo sefydlu Bwrdd Digidol penodol sy'n gyfrifol am y goruchwyliaeth gorfforaethol. Mae'r diffyg trefniadau monitro cyfredol yn golygu na all y Cyngor roi sicrwydd bod manteision prosiectau digidol unigol, neu eu budd ar y cyd yn cael eu cyflawni.
- 19 Elfen allweddol wrth ddeall llwyddiant ac effaith prosiect digidol a strategaeth ehangach yn y dyfodol yw deall y manteision ariannol a/neu anariannol canfyddedig ar y dechrau. Mae'r Cyngor yn cydnabod na fynegwyd y buddion a fwriadwyd yn glir ar gyfer ei Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Digidol blaenorol. Heb fynegi'n glir fanteision arfaethedig ei strategaeth ddigidol a'i brosiectau digidol unigol, mae'n anodd i'r Cyngor fonitro cynnydd wrth eu cyflawni, ac i ba raddau y mae'r strategaeth yn helpu'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian.
- 20 Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn adolygu ei strategaeth ddigidol flaenorol i helpu i lywio ei strategaeth ddigidol yn y dyfodol trwy asesu'r hyn a gyflawnodd y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei gamau gweithredu a'i brosiectau digidol blaenorol. Dylai'r Cyngor achub ar y cyfle hwn i gryfhau ei adolygiad ac ystyried effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r strategaeth flaenorol. Gallai hyn gynnwys ystyried monitro ac adrodd ar gynnydd ac a oedd gan y Cyngor ddigon o

wybodaeth ar ddechrau'r strategaeth, er mwyn gallu deall a monitro ei effaith arfaethedig. Gall y dysgu hwn helpu'r Cyngor i lunio'r trefniadau priodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei strategaeth ddigidol yn y dyfodol.

Atodiad 1

Cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio

Isod mae'r cwestiynau y gwnaethom geisio eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn archwilio: **Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

Arddangosyn 2: cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio

Cwestiwn Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf
1. A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol?	1.1 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' (h.y. y galw/materion cyfredol i'w datrys) a'r rhesymau pam/achosion sylfaenol?	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r Cyngor wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r 'fel y mae' a sut mae'n debygol o newid. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth (gan gynnwys data) sy'n ymwneud â:<ul style="list-style-type: none">– Cynaliadwyedd gwasanaeth/gwytnwch a heriau adnoddau.– Anghenion y cyhoedd a'r gymuned.– achosion sylfaenol y galw/materion cyfredol i'w datrys.– Dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol a sut y gallent effeithio, e.e. cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol. Gallent gynnwys tueddiadau hysbys ee poblogaeth sy'n heneiddio, lleihau adnoddau naturiol ac yn enwedig datblygiadau technolegol. Efallai y byddan nhw hefyd yn cynnwys y rhai sydd â lefel uwch o ansicrwydd, e.e. swyddi a sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol.• Mae'r dadansoddiad o'r 'fel y mae' a sut mae'n debygol o newid yn cael ei lywio'n dda gan weithgarwch cyfranogi, fel y bo'n briodol, sy'n adlewyrchu arfer da cydnabyddedig (e.e. Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer)
	1.2 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau hirdymor a fydd yn effeithio a'r heriau a'r cyfleoedd a allai arwain (e.e. risgiau a chyfleoedd)?	

Cwestiwn Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf
		<p><u>Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru</u>, cyngor ac arweiniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth yn effeithiol i: <ul style="list-style-type: none"> – nodi camau yn ei ddull strategol o ymdrin â digidol sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallent fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau; – llywio penderfyniadau ynghylch ei ddefnydd o dechnoleg ddigidol sy'n ceisio cydbwysu'r angen i gyflawni amcanion tymor byr a thymor hwy.
<p>2. A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae am ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol?</p>	<p>2.1 A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o ymdrin â digidol - hy pa mor bell ymlaen y gall / y dylai gynllunio a pham (o leiaf ddeng mlynedd gan ystyried tueddiadau tymor hwy fel y bo'n briodol). • Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall camau gweithredu sicrhau'r effaith orau dros yr amserlen honno o ran canlyniadau a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Gallai hyn gynnwys ystyried pwyntiau ymyrraeth priodol sy'n gysylltiedig â diffiniad y Comisiynydd o atal. (Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn: <u>Gan ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebol – The Future Generations Commissioner for Wales</u>). • Mae'r Cyngor wedi nodi mesurau ar gyfer ei strategaeth ddigidol sy'n adlewyrchu effeithiau tymor byr a hirdymor a gwerth am arian, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol. • Mae'r Cyngor wedi nodi sut y bydd ei strategaeth ddigidol yn cael adnoddau dros y tymor hwy cyn belled ag sy'n ymarferol (gweler meini prawf sy'n ymwneud ag integreiddio hefyd).

Cwestiwn Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf
	<p>2.2 A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei strategaeth ddigidol eu cael, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol? • sut y bydd cyflawni yn effeithio ar y pethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni (h.y. ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)? • sut y bydd cyflawni yn effeithio ar eraill yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (h.y. eu hamcanion llesiant)? 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol wneud cyfraniad ar draws y nodau llesiant. • Mae staff sy'n datblygu'r strategaeth ddigidol yn deall beth mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut mae eu gwaith yn ymwneud â nhw, ac wedi ceisio integreiddio eu gwaith gyda gwaith eu cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor a chyda sefydliadau partner. • Mae integreiddio yn amlwg wrth alinio'r strategaeth ddigidol â strategaethau corfforaethol allweddol eraill a chynlluniau gwasanaeth. Er enghraifft, cynllun ariannol tymor canolig, cynllun gweithlu, strategaethau rheoli asedau, datganiad llesiant a chynlluniau lleihau carbon. • Mae'r strategaeth ddigidol yn cyd-fynd â dibenion strategol eraill fel: <ul style="list-style-type: none"> – profiad y cwsmer; – rheoli galw/gostyngiadau mewn methiant ac atal galw; a – dylunio a gweithredu modelau cyflenwi gwasanaeth newydd. • Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cyd-fynd â chynlluniau/strategaethau partneriaid lleol a chenedlaethol gan gynnwys strategaeth ddigidol a chynlluniau llesiant Strategaeth Ddigidol i Gymru Llywodraeth Cymru .
	<p>2.3 A oes dealltwriaeth eang a chyffredin o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan gynghorwyr ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ddigidol ddealltwriaeth gyffredin a chlrir o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni a'r effaith a fwriedir ar ddarparu gwasanaethau. • Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei chyfleu'n glir i staff a phartneriaid a allai helpu i'w chyflawni.

Cwestiwn Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf
<p>3. A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol</p>	<p>3.1 A yw'r Cyngor wedi nodi pwy sydd angen ei gynnwys?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o bwy fydd yn cael ei effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan ei strategaeth ddigidol a phwy y mae angen iddo ei gynnwys. • Mae'r Cyngor i bob pwrpas wedi cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, gan gynnwys o ffynonellau anhraddodiadol ac o'r rhai y gallai fod wedi methu â chyrraedd o'r blaen.
	<p>3.2 A yw'r Cyngor i bob pwrpas yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl y mae ei strategaeth ddigidol yn effeithio arnynt?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd gwirioneddol i bobl ddylanwadu ar ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol o gam cynnar, gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. • Mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau cyfranogiad i lunio dyluniad a chyflwyniad ei strategaeth ddigidol.
	<p>3.3 A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol â'r partneriaid cywir?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn cydweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni gwell canlyniadau a gwerth am arian drwy ei strategaeth ddigidol ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi hyn, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> – rhannu neu rannu arbenigedd ac adnoddau; – rhannu gwybodaeth; – sicrhau monitro, gwerthuso ac atebolrwydd effeithiol gan gynnwys ystyried gwerth am arian.

Cwestiwn Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf
<p>4. A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau i gyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddarparu manteision hirdymor/ataliol?</p>	<p>4.1 A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau tymor hir?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi asesu costau a manteision defnyddio technoleg ddigidol i fuddsoddi mewn dulliau ataliol tymor hir a'r gost (yn ariannol ac o ran canlyniadau) peidio â gwneud hynny. • Mae'r Cyngor wedi meddwl am yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes cyfan) a sut y gallai reoli risgiau/cwrdd â'r costau hynny, gan gynnwys, er enghraifft, cynlluniau 'buddsoddi i arbed' a gostyngiadau rheoledig mewn dyled dechnegol. • Mae'r Cyngor wedi cyfrifo a nodi unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud drwy weithredu ei strategaeth ddigidol.
	<p>4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau i sicrhau gwell canlyniadau dros y tymor hir?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a/neu ddefnydd o adnoddau dros y tymor hwy yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi, hyd yn oed: <ul style="list-style-type: none"> – lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion tymor byr; – lle mae'r buddion yn debygol o gael eu cronni gan, neu eu priodoli i sefydliad arall.

Cwestiwn Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf
5. A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd?	5.1 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a thymor hwy?	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn monitro costau a manteision cyflawni ei strategaeth ddigidol o safbwynt gwerth am arian. Mae'r Cyngor yn mesur y cyfraniad ehangach y mae'r strategaeth ddigidol yn ei wneud ar draws ei amcanion ei hun/partneriaeth. Caiff cynnydd ei fesur yn erbyn amcanion tymor byr, canolig a thymor hir.
6. Ydy'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio?	6.1 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol?	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol yn rheolaidd, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> – effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol; – effeithiolrwydd ei weithgarwch cyfranogi, gan gynnwys effaith y strategaeth ar ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol; – effaith y strategaeth ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig; – economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strategaeth ddigidol yn gyffredinol wrth helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol. Mae'r Cyngor wedi adolygu gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r pandemig ac mae'n cymhwyso'r dysgu hwn i'w strategaeth ddigidol.
	6.2 A yw'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgwyd o'i ymagwedd at ei strategaeth ddigidol?	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o ddatblygu a chyflwyno ei strategaeth ddigidol yn eang ar draws y sefydliad, a gyda phartneriaid lle bo hynny'n berthnasol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Ymateb sefydliadol

Teitl yr adroddiad: Adolygiad Strategaeth Ddigidol – Cyngor Sir Ceredigion

Dyddiad cwblhau: Tachwedd 2023

Cyfeirnod dogfennau: 3941A2023

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	<p>Er mwyn helpu i sicrhau bod strategaeth ddigidol nesaf y Cyngor yn cefnogi cyflawni ei amcanion ac yn sicrhau gwerth am arian, wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ennill dealltwriaeth o anghenion dinasyddion trwy eu cynnwys wrth ddylunio ei strategaeth nesaf; ac • adolygu ei strategaeth ddigidol flaenorol gan gynnwys ei threfniadau llywodraethu, monitro ac adrodd i lywio trefniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei strategaeth nesaf i gynnwys ei galluogi i; <ul style="list-style-type: none"> – monitro ei effaith; – monitro i ba raddau y mae'n darparu gwerth am arian; ac – asesu os yw'r buddion a fwriedir yn cael eu gwireddu. 	<p>Bydd ymgynghoriad ar ein strategaeth ddigidol nesaf yn cael ei gynnal.</p> <p>Mae gwaith yn parhau i adolygu ein strategaeth flaenorol a bydd y gwaith hwn, ynghyd ag argymhellion Archwilio Cymru, yn bwydo i mewn i ddatblygiad ein strategaeth sydd ar ddod a'i threfniadau llywodraethu.</p>	31/03/2024	Alan Morris

'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Awst 2023



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2006.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Cynnwys	4
Rheoli Adeiladu a Diogelwch Adeiladau yng Nghymru	4
Trychineb Grenfell ac Ymchwiliad Hackitt	6
Casgliadau Allweddol	8
Ffeithiau Allweddol	10
Argymhellion	12

Adroddiad manwl

1	Nid yw cyrff cyfrifol wedi datblygu cynlluniau cynhwysfawr eto sy'n nodi sut y bwriedir ymdrin â'r cyfrifoldebau newydd a diwygiedig a gyflwynwyd gan y Ddeddf Diogelwch Adeiladau	16
2	Mae materion o ran darparu adnoddau'n ei gwneud yn annhebygol y gall awdurdodau lleol roi'r gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd ar waith yn llwyddiannus neu fod gwasanaethau'n addas ar gyfer y diben	24
3	Nid oes rhyw lawer o waith yn cael ei wneud i werthuso gwasanaethau rheoli adeiladu ledled Cymru ac nid oes system gynhwysfawr genedlaethol o sicrwydd diogelwch adeiladau	40

Atodiadau

1	Ymagwedd a Dulliau Archwilio	47
2	Dogfennau Cymeradwy'r Rheoliadau Adeiladu	49
3	Y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a'r Person Atebol	50
4	Dull yr Alban	52
	Model gweithredu	52
	Ymateb i Grenfell	53
	Model hybiau lleo	55



Adroddiad cryno

Cyd-destun

Rheoli Adeiladu a Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

- 1 Set o ofynion cyfreithiol ar gyfer dylunio a chodi adeiladau newydd, codi estyniadau i adeiladau presennol a gwneud addasiadau sylweddol iddynt a rhai newidiadau i'w defnydd, yw Rheoliadau Adeiladu. Mae rheoliadau adeiladu'n helpu i sicrhau bod adeiladau newydd, addasiadau, adnewyddiadau ac estyniadau (yn rhai domestig neu fasnachol) yn ddiogel, yn hygyrch ac yn rhad ar ynni.
- 2 Diffinnir y rheoliadau adeiladu gan Lywodraeth Cymru ac maent yn cynnwys testunau penodol gan gynnwys cyfanrwydd strwythurol, diogelu rhag tân, hygyrchedd, perfformiad ynni, dyfeisiau trydanol a gosod dyfeisiau hylosgi. Maent hefyd yn gosod, er enghraifft, safonau ar gyfer draeniau, awyru, diogelu rhag dŵr yn dod i mewn a diogelu rhag halogiad gan gynnwys nwy methan a radon. Er mwyn helpu pobl i gydymffurfio â hwy, mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu Dogfennau Cymeradwy sy'n cynnig arweiniad manwl ac yn dangos ffyrdd o sicrhau cydymffurfiaeth, a fynegir mewn datganiadau swyddogaethol syml – gweler **Atodiad 2** am ragor o wybodaeth.
- 3 Dylunwyr, adeiladwyr a pherchnogion adeiladau sy'n bennaf gyfrifol am gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu, ac mae dau lwybr yn agored iddynt wrth geisio cymeradwyaeth i'w gwaith¹. Gallant ddewis talu am naill ai:
 - arolygydd awdurdod lleol o'r cyngor a chyfundrefn a weithredir trwy Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC); neu
 - arolygydd cymeradwy o gwmni rheoli adeiladu preifat a gymeradwywyd gan y Llywodraeth.

1 Mae'r system yng Nghymru'n adlewyrchu'r un yn Lloegr ac mae wedi bod yn ddigynfnewid i raddau helaeth ers mabwysiadu Rhan 2 o Ddeddf Adeiladu 1984 a oedd yn darparu ar gyfer cyflwyno arolygwyr cymeradwy fel dewis arall yn lle cael cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu gan awdurdod lleol. Yn yr Alban, mae'r holl weithgareddau rheoli adeiladu yn nwylo llywodraeth leol ac nid oes arolygwyr cymeradwy ar gyfer adeiladau preifat.

- 4 Yn ymarferol, os cynigir gwaith adeiladu, rhaid i'r gwaith gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Er y gall gwaith ar adeilad newydd neu estyniad fynd rhagddo cyn unrhyw ganiatâd ffurfiol, ni all unrhyw beth symud ymlaen y tu hwnt i'r camau arolygu heb gymeradwyaeth arolygydd. Pan fo'r adeilad wedi'i gwblhau wrth fodd arolygydd, dyroddir Tystysgrif Cwblhau neu Derfynol (gan ddibynnu pwy sydd wedi cymeradwyo'r gwaith). Dim ond pan fo'r holl waith wedi cael ei gymeradwyo a bod arolygiad terfynol o'r safle wedi digwydd y darperir y dystysgrif hon.
- 5 Mae'r ddau'n gweithio yn yr un ffordd, gan wirio cynlluniau cyn i'r gwaith ddechrau, arolygu gwaith yn ffisegol yn ystod y datblygiad, cynghori ynghylch unrhyw newidiadau yn ôl yr angen i sicrhau cydymffurfiaeth, cyn ail-arolygu'r gwaith cyn cymeradwyo'r prosiect. Fodd bynnag, dim ond awdurdod lleol sydd â phwerau gorfodi ac erlyn lle ceir achosion o dorri'r Rheoliadau. Dylai arolygydd cymeradwy drosglwyddo'r prosiect i'r awdurdod lleol os oes problemau gyda'r prosiect na ellir eu datrys yn anffurfiol. Gall fod cosbau trwm, gan gynnwys dirwyon a charchariad, am achosion o dorri'r Rheoliadau, er mai anaml iawn y mae hyn yn digwydd yn ymarferol.

Trychineb Grenfell ac Ymchwiliad Hackitt

- 6 Roedd y gyfundrefn rheoliadau adeiladu'n ddigyfnawid am nifer o flynyddoedd tan Dân Tŵr Grenfell yn 2017, y bu farw 72 o bobl ynddo. Yn dilyn y trychineb hwn, comisiynwyd adolygiad annibynnol o Reoliadau Adeiladu a diogelwch tân gan Lywodraeth y DU (y Deyrnas Unedig). Dan gadeiryddiaeth y Fonesig Judith Hackitt, cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad² ym mis Mai 2018 ac fe amlygodd faterion hirsefydlog a difrifol³ gyda'r system diogelwch adeiladau, gan gynnwys:
- **Anwybodaeth** – nid oedd rheoliadau a chanllawiau wastad yn cael eu darllen gan y rhai yr oedd angen iddynt eu darllen, a phan oeddent yn gwneud roedd y canllawiau'n cael eu camddeall a'u camddechongli.
 - **Difaterwch** – prif gymhellid y system oedd gwneud pethau mor gyflym ac mor rad â phosibl yn hytrach na darparu cartrefi o ansawdd sy'n ddiogel i bobl fyw ynddynt. Pan godwyd pryderon gan eraill a oedd yn gysylltiedig â gwaith adeiladu neu gan drigolion, roeddent yn aml yn cael eu hanwybyddu. Roedd rhai o'r bobl a oedd yn gwneud gwaith adeiladu'n methu â blaenoriaethu diogelwch, gan ddefnyddio amwysedd rheoliadau a chanllawiau i 'chwarae'r' system.
 - **Diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau** – roedd amwysedd ynghylch ble'r oedd cyfrifoldeb yn gorwedd, a hynny'n cael ei waethygu gan rywfaint o natur dameidiog o fewn y diwydiant, ac yn rhagwahardd perchnogaeth gadarn ar atebolrwydd.
 - **Goruchwyliaeth reoleiddiol ac offer gorfodi annigonol** – nid oedd maint neu gymhlethdod prosiect i'w gweld fel pe baent yn goleuo'r ffordd yr oedd yn cael ei oruchwyllo gan y rheoleiddiwr. Lle'r oedd angen camau gorfodi, yn aml nid oeddent yn cael eu cymryd. Lle'r oeddent yn cael eu cymryd, roedd y cosbau mor fach fel eu bod yn rhwystr aneffeithiol.
- 7 Argymhellodd yr adroddiad fframwaith newydd i ddisodli'r system gymhleth a oedd wedi tyfu dros ddegawdau, ynghyd â'r angen i newid diwylliant o un sy'n blaenoriaethu cyfanrwydd a dyluniad strwythurol i un sydd â phwyslais cyfartal ar reolaethau ansawdd diogelwch tân. Yn dilyn Ymchwiliad Hackitt, blaenoriaethodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU waith i fyn d i'r afael â chanfyddiadau'r adolygiad a phenllanw hynny oedd Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (y 'Ddeddf')⁴. Y Ddeddf yw'r broses fwyaf i ailwampio rheoliadau diogelwch adeiladau ers 1984 yng Nghymru a Lloegr.

2 Judit Hackitt, [Building a Safer Future](#), Mai 2018

3 Llundain Sir John Egan, [Rethinking Construction: Report of the Construction Task Force](#), November 1998

4 [Deddf Diogelwch Adeiladau 2022](#).

- 8 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid allweddol yn rhoi gofynion Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 ar waith. Bu ffocws ein hadolygiad ar asesu parodrwydd cyrff i ymgymryd â'u cyfrifoldebau newydd ac estynedig, cydnherthedd gwasanaethau presennol, a chadernid systemau sicrwydd diogelwch adeiladau. Mae **Atodiad 1** yn nodi ein hymagwedd a dulliau archwilio.



Casgliadau Allweddol

- 9 Ein casgliad ar y cyfan yw nad yw cyrff cyfrifol – yn enwedig awdurdodau lleol a thŷ ac achub – yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol a sicrhau bod adeiladau yng Nghymru'n ddiogel.
- 10 Yn **Rhan 1** o'r adroddiad, rydym yn ystyried y blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ddeddf a pha mor barod yw awdurdodau lleol i gyflawni'r rhain. Canfuom fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth i ymateb i drychineb Grenfell, gan weithio gyda Llywodraeth y DU. Arweiniodd hyn at Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog o ran rheoleiddio a goruchwyllo gwaith i ddylunio a chodi adeiladau.
- 11 Canfuom fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn dilyn llwybrau gwahanol o ran meysydd polisi allweddol, a bod peth amheuaeth o hyd ynghylch sut y bydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru, yn bennaf am nad yw penderfyniadau mewn meysydd allweddol wedi cael eu gwneud a'u cytuno eto. Mae hyn yn creu ansicrwydd, gyda'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyflawni'r newidiadau hyn a, thrwy estyniad o ran cydweithio, gwasanaethau tân ac achub, sydd eto i ddatblygu cynlluniau cynhwysfawr sy'n nodi sut y maent yn bwriadu cyflawni eu cyfrifoldebau newydd a diwygiedig.
- 12 Yn **Rhan 2** rydym yn ystyried cryfder gwasanaethau rheoli adeiladu a gorfodi awdurdodau lleol, effeithiolrwydd y drefn pennu ffioedd a sut mae gwasanaethau'n newid i gryfhau cydnerthedd. Rydym yn dod i'r casgliad, fel proffesiwn, bod rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau'n wynebu heriau staffio sylweddol. Mae gweithlu sy'n heneiddio (gweler y Ffeithiau Allweddol isod), cynllunio gwael ar gyfer olyniaeth, diffyg buddsoddi ehangach mewn gwasanaethau a hyfforddi a datblygu'n amlygu nad yw'r gwasanaethau hyn yn gydnerth nac yn addas ar gyfer y dyfodol.
- 13 Mae gennym hefyd bryderon ynghylch rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu, a ninnau wedi dod i'r casgliad y gallai arferion cyfredol rhai awdurdodau fod yn anghyfreithlon gyda gwasanaethau'n peidio â gweithredu yn unol â rheoliadau a chanllawiau. Er bod y pandemig wedi helpu awdurdodau lleol i foderneiddio eu gwasanaethau, gan ddefnyddio TG (Technoleg Gwybodaeth) seiliedig ar gwmwl a threfniadau gweithio o bell, mae eu cydnerthedd yn dal i fod yn wan. Nid yw cyfleoedd i gryfhau gwasanaethau trwy gydweithredu a rhanbartholi yn cael eu blaenoriaethu ac ychydig o waith sydd wedi digwydd yn y meysydd hyn.

- 14 Yn olaf, yn **Rhan 3** rydym yn archwilio trefniadau sicrhau diogelwch adeiladau. Canfuom fod diffyg fframwaith cenedlaethol i fonitro a gwerthuso gwasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau'n golygu nad yw awdurdodau lleol a'u partneriaid yn gweithio i fesurau deilliant, targedau na meincnodau priodol y cytunwyd arnynt. Ar y cyd â gweithgarwch cyfyngedig i graffu ar reoli adeiladu a diogelwch adeiladau a'u gwerthuso, a'r ffaith bod risgiau'n cael eu rheoli'n wael, rydym yn dod i'r casgliad nad yw systemau sicrwydd yn ddigonol.



Roedd tân Tŵr Grenfell yn drasiedi cenedlaethol, ac rydym yn dal i deimlo'i effaith heddiw. Mae fy adroddiad yn amlygu pryderon mawr ynghylch rhoi'r system newydd ar gyfer Diogelwch Adeiladau ar waith. Er ei bod yn galonogol gweld yr awch ac ymrwymiad gan y rhai sy'n gweithio yn y sector, rwy'n pryderu nad oes digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r gwasanaethau hyn ar lawr gwlad. Mae'r diffyg cynlluniau cadarn, prosesau penderfynu eglur ac adnoddau digonol yn codi pryderon go iawn na fydd y ddeddfwriaeth newydd yn cael ei chyflawni ac y bydd y problemau y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy'n dal i fodoli.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru




Ffeithiau Allweddol



177 cyfanswm y staff ym maes rheoli adeiladu


11 cyfanswm y staff y penodwyd rhywun yn eu lle yn 2021-22




0 nifer y syrfewyr neu reolwyr sydd ag anabledd

O'r **133** o syrfewyr a rheolwyr CagALL, mae **54.4%** dros 50 oed a dim ond **10%** sydd dan 30


96% cyfran y syrfewyr a'r rheolwyr sy'n wyn



21 cyfanswm y staff a adawodd faes rheoli adeiladu yn 2021-22



118 Nifer cyfartalog y ceisiadau y mae pob syrfewr/rheolwr yn ymdrin â hwy



100% cyfran y staff gweinyddol sy'n wyn

Mae'r tîm rheoli adeiladu cyffredin mewn awdurdod lleol yn cynnwys:



Rheolwr

Gwryw

50-60 mlwydd oed

Cymwysedig



Syrfëwr

Gwryw

Dros 50 mlwydd oed

Cymwysedig



Syrfëwr

Gwryw

Dros 50 mlwydd oed

Aelod cysylltiol



Syrfëwr

Gwryw

Dros 40 mlwydd oed

Heb gymhwyso



Syrfëwr

Gwryw

30-40 mlwydd oed

Heb gymhwyso



Syrfëwr

Gwryw

O dan 30 mlwydd oed

Cymwysedig





Gweinyddol

Benyw

Unrhyw oedran

Heb gymhwyso



Argymhellion

- 15 Mae ein hargymhellion wedi'u nodi isod. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol unigol ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn a'n hargymhellion a chwblhau ffurflen ymateb sefydliadol a chyhoeddi hon. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd pwyllgor llywodraethu ac archwilio pob awdurdod lleol yn derbyn yr adroddiad ac yn monitro eu hymateb i'n hargymhellion mewn modd amserol.

Arddangosyn 1: argymhellion

Argymhellion

- A1 Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurder ynghylch gweithredu a disgwyliadau'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau newydd. Dylai hyn gynnwys:
- egluro'r gofynion manwl ar gyfer cymhwysedd a chofrestru er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn;
 - amserlen benodol ar gyfer datblygu a mabwysiadu canllawiau ar gyfer Cymru i sicrhau y gall awdurdodau lleol ac eraill gyflawni eu dyletswyddau; a
 - dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, fel LABC Cymru, i roi cymorth i ddeall y canllawiau a'u rhoi ar waith pan gânt eu cyhoeddi.
- A2 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau i gyflawni'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi ar gyfer Diogelwch Adeiladau er mwyn lleihau risgiau i'w rhoi ar waith.

Argymhellion

- A3 Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dull marchnad gymysg o reoli adeiladu a dod i'r casgliad pa un a yw'n parhau i fod yn briodol ac yn effeithiol o ran cadw adeiladau yng Nghymru'n ddiogel. Dylai'r adolygiad hwn:
- asesu'r sefyllfa fel ag y mae yn erbyn newidiadau posibl, megis y model cyflawni yn yr Alban;
 - bod wedi'i fframio ar sail dadansoddiad SWOT o gostau, manteision, bygythiadau a risgiau;
 - manteisio ar ymchwil sy'n bodoli eisoes i adnabod arfer da; a
 - chael ei gyhoeddi gan gytuno ar ffordd ymlaen.
- A4 Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei gwaith i oruchwylio a rheoli'r sector rheoli adeiladu er mwyn sicrhau bod system sicrwydd gadarn ar waith ar gyfer rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau trwy:
- greu fframwaith perfformiad cenedlaethol gyda safonau gwasanaeth eglur i hybu cysondeb o ran y gwasanaethau. Dylai hyn hefyd gynnwys mesurau deilliant i fonitro perfformiad a fframwaith gwerthuso ac adrodd ar gyfer craffu.
 - datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau i fynd i'r afael â'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r sector. Dylai hyn gynnwys casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd, yn ogystal â chwmpasu blaenoriaethau, megis:
 - mwy o ffocws ar hyfforddeion i liniaru risgiau i olyniaeth;
 - sefydlu rolau swyddi cenedlaethol, cyson sy'n cyfateb i lefelau cymhwysedd;
 - cynyddu amrywiaeth y sector i sicrhau ei fod yn adlewyrchu Cymru fodern; a
 - dylid ystyried cyllid penodol hefyd i alluogi syrfewyr i ennill a chynnal cymhwysedd.
 - dylai Llywodraeth Cymru archwilio gyda'r sector addysg bellach sut orau i ddarparu hyfforddiant rheoli adeiladu yng Nghymru i roi cymorth i gynllunio ar gyfer olyniaeth, datblygu sgiliau a sicrhau cymhwysedd.

Argymhellion

- A5 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheoli adeiladu er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer rhoi gofynion y Ddeddf ar waith. Dylai'r Cynlluniau:
- fod yn seiliedig ar asesiad o risgiau lleol ac yn cynnwys camau lliniaru;
 - nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau rheoli adeiladu i gyflawni eu holl gyfrifoldebau statudol;
 - dangos rôl allweddol rheoli adeiladu o ran sicrhau adeiladau diogel a bod yn gysylltiedig ag amcanion llesiant ac amcanion corfforaethol eraill; a
 - chynnwys mesurau deilliant sy'n canolbwyntio ar yr holl wasanaethau rheoli adeiladu, nid strwythurau peryglus yn unig.
- A6 Dylai awdurdodau lleol fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau. Dylai hyn gynnwys:
- sefydlu amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd i sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu cost gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau;
 - adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi'r wybodaeth honno'n flynyddol yn unol â'r Rheoliadau;
 - sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r Rheoliadau ac yn dehongli adroddiadau ariannol yn gywir; a
 - diwygio ffioedd i sicrhau y codir am wasanaethau yn unol â'r Rheoliadau.

Argymhellion

- A7 Dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig trwy archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio a rhanbartholi i gryfhau cydnerthedd trwy ddadansoddiad cost a budd o bartneru gydag awdurdodau cyfagos, sefydlu cyd-fentrau a/neu fabwysiadu model rhanbarthol lle y bo hynny'n fuddiol.

- A8 Dylai awdurdodau lleol adolygu prosesau rheoli risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu cofnodi, eu hasesu, a'u lliniaru mewn modd systematig ac y gwneir gwaith rheolaidd i'w gwerthuso ac i graffu arnynt.



**Nid yw cyrff cyfrifol
wedi datblygu
cynlluniau cynhwysfawr
eto sy'n nodi sut
y bwriedir ymdrin
â'r cyfrifoldebau
newydd a diwygiedig
a gyflwynwyd
gan y Ddeddf
Diogelwch Adeiladau**

01

- 1.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i Grenfell a'r newidiadau a gyflwynwyd, ac sydd yn yr arfaeth, yn y Ddeddf. Rydym yn nodi sut y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn ac yn darparu dadansoddiad sy'n nodi i ba raddau y maent mewn sefyllfa i'w cyflawni.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwaith i ymateb i drychineb Grenfell a dewisodd weithio gyda Llywodraeth y DU ar Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022

- 1.2 Yn dilyn trychineb Grenfell a chanfyddiadau ymchwiliad y Fonesig Judith Hackitt, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Arbenigol Diogelwch Adeiladau. Barn y Grŵp Arbenigol oedd, er bod y diffygion yn y system yr un mor ddilys yng Nghymru ag ydynt yn Lloegr, bod y cyd-destun yn wahanol ac felly bod angen i'r atebion fod yn wahanol hefyd.
- 1.3 Nid yw maint y dirwedd adeiladau uchel yng Nghymru'n debyg i'r un yn Lloegr lle amcangyfrifir bod dros 11,000 o adeiladau uchel iawn. Ar adeg gwaith y Grŵp Arbenigol roedd 147⁵ o adeiladau preswyl uchel iawn yng Nghymru gyda hyd at bum adeilad uchel iawn ychwanegol yn cael eu codi bob blwyddyn.
- 1.4 Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd y Grŵp Arbenigol fap trywydd⁶ ar gyfer gwneud adeiladau yng Nghymru yn fwy diogel, gan nodi blaenoriaethau tymor hwy ond hefyd ymyriadau tymor byrrach y gellid eu rhoi ar waith ar unwaith i sicrhau na fyddai methiannau Grenfell yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol. Argymhellodd y Grŵp Arbenigol y dylid:
- egluro rolau a chyfrifoldebau allweddol;
 - sicrhau yr ymdrinnir â'r anghydbwysedd rhwng dylunwyr adeiladau, contractwyr a rheoleiddwyr;
 - creu un system â safonau cyson trwy fynd i'r afael ag economi gymysg y system ddwy haen ar gyfer rheoli adeiladu gyda chymffurfio rheoli adeiladu gyhoeddus a phreifat;
 - gwella capasiti a chymhwysedd swyddogion rheoli adeiladu;
 - creu cyfundrefn gorfodi a sancsiynau sy'n arwain at gydymffurfio effeithiol ac yn sicrhau diogelwch; a
 - chodi safonau gydag adeiladau nad ydynt yn ddiogel yn cael eu gwella.

5 O ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2023 mae 171 o adeiladau preswyl uchel iawn.

6 Y Grŵp Arbenigol Diogelwch Adeiladau, [Map tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru](#), Mawrth 2019.

- 1.5 Ym mis Ionawr 2021, yn dilyn gwaith y Grŵp Arbenigol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phapur gwyn 'Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru'.⁷ Cynigiodd y Papur Gwyn ddiwygiadau i'r gyfundrefn diogelwch adeiladau a bod rolau rhwng deiliaid dyletswyddau a phreswylwyr yn cael eu gwahanu. Yn dilyn ymgynghoriad, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig ond roedd arnynt eisiau, yn gymaint â phosibl, i gyfundrefn bolisi Cymru fod yn gyson â Lloegr. O ganlyniad, dewisodd Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen ar y cyd â rhai agweddau ar ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU, i fanteisio ar ddarbodion maint a sicrhau cysondeb priodol ledled Cymru a Lloegr.

Ceir ansicrwydd ynghylch sut y mae elfennau allweddol o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru

- 1.6 Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 28 Ebrill 2022 ac mae'n canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:
- diogelwch a safonau pob adeilad;
 - sicrhau diogelwch adeiladau risg uwch, o ran adeiladwaith a meddiannaeth;
 - gwella cymhwysedd y bobl sy'n gyfrifol am oruchwylio, rheoli a chyflawni gwaith i adeiladau risg uwch;
 - sicrhau safonau a chanllawiau mwy eglur; a
 - gwneud preswylwyr yn ganolog i system newydd o ddiogelwch adeiladau.
- 1.7 Ochr yn ochr â'r Ddeddf, bu newidiadau hefyd i gyfraith diogelwch tân ar gyfer adeiladau sy'n cynnwys dwy set neu fwy o fangreoedd domestig yng Nghymru a Lloegr. Mae Deddf Diogelwch Tân 2021⁸ yn egluro sut y cymhwysir y Gorchymyn Diogelwch Tân o ran pwy sy'n gyfrifol am reoli a lleihau risgiau tân mewn gwahanol rannau o adeiladau preswyl amlfeddiannaeth a'r rhannau o'r adeilad y mae'n ymwneud â hwy - er enghraifft, y wal allanol, a drysau rhwng mangreoedd domestig a rhannau cyffredin.
- 1.8 Trwy'r newidiadau hyn, mae ar Lywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod eglurder llwyr ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch adeilad ar bob adeg wahanol yn y broses. Mae Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015 eisoes yn nodi pwy yw'r bobl allweddol yn ystod prosiect adeiladu neu adnewyddu. Mae'r Cleient, y Prif Ddylunydd, y Prif gontractwr, dylunwyr a chontractwyr i gyd yn cael eu nodi fel 'deiliaid dyletswydd'.

7 Llywodraeth Cymru, Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru: Ymgynghoriad: Papur Gwyn Diogelwch Adeiladau, 12 Ionawr 2021


8 Deddf Diogelwch Tân 2021

- 1.9 Mae dyletswyddau ychwanegol bellach wedi'u gosod ar ddeiliaid dyletswydd mewn perthynas â diogelwch adeiladau. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd gofyn iddynt gydweithredu a rhannu gwybodaeth gyda chyrff rheoleiddio perthnasol a byddant yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau adeiladu. Bydd angen iddynt hefyd sicrhau eu bod nhw, a'r bobl maen nhw'n eu cyflogi, yn gymwys i wneud y gwaith maen nhw'n ei wneud. Bydd yn rhaid iddynt hefyd gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio a osodir arnynt.

Daeth Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 i rym ym mis Ebrill 2023. Mae pob agwedd ar y Ddeddf yn berthnasol i Loegr, ond dim ond Rhan 3 (gyda rhai mân eithriadau) sy'n berthnasol i Gymru. Mae is-ddeddfwriaeth a chanllawiau ynghylch Rhan 3 yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r bwriad y bydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn llawn ac y bydd yn ofynnol cydymffurfio'n llwyr â hi o fis Ebrill 2025. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru'n datblygu deddfwriaeth a fydd yn ymdrin â'r meysydd sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Rheoleiddiwr newydd i Gymru (nad yw wedi'i benderfynu eto) a rolau deiliaid dyletswydd cyfatebol megis y Person Atebol.



- 1.10 Mae'r diwygiadau hyn yn berthnasol i bob prosiect adeiladu cymwys, p'un ai prosiect i adeiladu estyniad, bloc o fflatiau ynteu canolfan siopa ydyw. Felly bydd Llywodraeth Cymru'n mynnu bod adeiladau risg uwch⁹ o fewn cwmipas y gwahanol newidiadau sy'n digwydd i'r amryw Gyfundrefnau Diogelwch Adeiladau yn mynd trwy bwyntiau stopio neu 'Byrth' cyn y gallant fynd ymlaen i gam nesaf y gwaith. Yn ôl ei hamserlen gyfredol, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y gyfundrefn dylunio ac adeiladu (rheoli adeiladu) newydd sy'n cynnwys Pwrth yn dod i rym ym mis Ebrill 2025. Y tri phorth yw:



- 1.11 Wrth fynd trwy Borth, bydd yn rhaid i'r rhai sy'n dylunio ac yn codi'r adeilad ddangos bod y dyluniad a'r adeiladwaith yn bodloni, ac yn parhau i fodloni, gofynion rheoleiddiol a sicrhau bod mesurau diogelwch digonol a gwybodaeth ddigonol am yr adeilad yn eu lle fel y gellir eu rheoli, eu cynnal a'u cadw a'u gwella'n briodol. Bydd yn rhaid iddyn nhw hefyd feddwl sut y bydd diogelwch yr adeilad yn cael ei reoli pan fydd yr adeilad yn cael ei feddiannu. O ganlyniad, nod y Ddeddf ac is-ddeddfwriaeth yw creu newid cyffredinol mewn cyfrifoldeb a diwylliant yn y diwydiant adeiladu trwy gyflwyno safonau a chanllawiau mwy eglur a sefydlu fframwaith rheoleiddio a chyfrifoldeb mwy effeithiol ar gyfer y diwydiant adeiladu.
- 1.12 Yn bwysig, mae'r Ddeddf yn egluro pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân ac adeiladau trwy gydol cylch oes adeilad risg uwch ac yn sefydlu dwy rôl newydd i wireddu'r uchelgais hon - yn Lloegr y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a'r Person Cyfrifol fydd y rhain. O ran y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau, mae Llywodraeth y DU wedi dewis penodi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gyflawni'r swyddogaeth hon (gweler **Atodiad 4** am ragor o fanylion).

9 Mae'r diffiniad o 'Adeilad risg uwch' yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr. Yn gynnar yn 2023, fe ymgyngorodd Llywodraeth Cymru ar ei diffiniad arfaethedig o adeilad sydd o leiaf 18 metr o uchder neu sydd ag o leiaf 7 llawr sydd hefyd yn cynnwys o leiaf un uned breswyl neu sy'n ysbyty neu'n gartref gofal'. Nid yw canlyniad yr ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi eto. Yn Lloegr, mae gofyn bod o leiaf ddwy uned breswyl mewn adeilad.

- 1.13 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud swyddogaethau Rheoli Adeiladu'r rheoleiddiwr ar gyfer adeiladau risg uchel yn rôl i awdurdodau lleol, ond nid yw wedi nodi eto sut y bydd yr elfen hon o'r gyfundrefn newydd yn gweithio na beth yw ei disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae'r rhai yr ydym ni wedi cyfweld â hwy'n teimlo'n anesmwyth ynglŷn â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud awdurdodau lleol yn Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau ar gyfer goruchwyllo adeiladau risg uchel. Cododd sawl corff arolygwyr cymeradwy (sy'n gweithio ar draws Cymru a Lloegr) a rhai aelodau o staff gwasanaethau tân ac achub bryderon nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau na phrofiad addas i gyflawni'r rôl hon. Yn hytrach, byddai'n well ganddyn nhw weld Cymru'n mabwysiadu'r system Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau sydd yn yr arfaeth yn Lloegr.
- 1.14 Ran amlaf o lawer, mae awdurdodau lleol a gwasanaethau tân ac achub yn pryderu ynghylch datblygiad hwyr a/neu hysbysu'n hwyr ynghylch penderfyniadau ac opsiynau polisi ar gyfer gweithredu'r newidiadau i'r gyfundrefn diogelwch adeiladau a gyflwynwyd gan y Ddeddf. Er enghraifft, fe gododd pob swyddog awdurdod lleol a gafodd ei gyfweld bryderon ynghylch diffyg manylion am y broses ar gyfer cofrestru'r proffesiwn Rheoli Adeiladu, un o nodweddion mwyaf arwyddocaol y Ddeddf, a rhywbeth a fydd yn effeithio ar holl awdurdodau lleol Cymru, nid dim ond y rhai ag adeiladau preswyl tal.
- 1.15 Cyn bo hir, bydd rhaid i bawb sy'n gweithio ym maes rheoli adeiladu, yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, gofrestru os ydynt am barhau i ymarfer. Hefyd, bydd angen i bob syrfëwr rheoli adeiladu mewn awdurdod lleol gwblhau asesiad ffurfiol rheolaidd o'i gymhwysedd. Bydd angen i syrfewyr a rheolwyr adeiladu fod â chymwysterau addas cyn y gallant ymarfer, er y gallai fod peth amser pontio i hyn ddigwydd. Os oes angen hyfforddiant cyn y gallant wneud gwaith, yna bydd hyn yn tynnu adnoddau allan o dimau sydd eisoes dan bwysau ac efallai y bydd angen darpariaeth ôl-lenwi ar gyfer hyn.
- 1.16 Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ar adeg ein harchwiliad nid oedd y system newydd wedi'i nodi mewn dogfen ddrafft ac nid oedd ymgynghoriad wedi cael ei gynnal arni. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r drefn ar gyfer cofrestru'r holl Arolygwyr Adeiladau a Chymeradwywyr Rheoli Adeiladu o fis Hydref 2023. Mae hyn yn creu ansicrwydd ac amwysedd ac mae'n lleihau'r gefnogaeth gan y rhai sydd â chyfrifoldebau diogelwch adeiladau, yn enwedig o ystyried bod llai a llai o gyfle wrth i amser fynd heibio.

1.17 Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru a gyfwelwyd gennym yn cydnabod nad ydynt wedi gallu darparu adnoddau ar gyfer gwaith polisi mor gyflym ag yr hoffent, ac nid yw hyn wedi cael ei helpu gan ymddeoliad diweddar dau aelod allweddol o staff sydd wedi bod yn ganolog i lywio'r newidiadau yng Nghymru. O ganlyniad, nododd llawer o swyddogion mewn awdurdodau lleol anesmwythyd cynyddol bod yr Alban ymhell ar y blaen i Gymru a Lloegr o ran y cynnydd sydd wedi cael ei wneud, ac mae Lloegr bellach yn symud ymlaen yn gyflymach na Chymru. Mae'r ansicrwydd hwn yn ychwanegu at eu hamgylchedd gweithredu sydd eisoes yn gryn her.

Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a gwasanaethau tân ac achub ddealltwriaeth dda am risgiau i ddiogelwch adeiladau lleol ond nid ydynt wedi nodi eto sut y maent yn bwriadu ateb gofynion y Ddeddf.

- 1.18 Mae goblygiadau'r Ddeddf yn eang ac mae angen i lywodraeth leol fod wedi symud ymlaen gryn dipyn gyda gwaith i baratoi ar gyfer cyflawni'r cyfrifoldebau estynedig hyn. Er nad oes penderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud eto ynglŷn â dewisiadau polisi allweddol yng Nghymru, byddem yn dal i ddisgwyl canfod bod y rhai sy'n rheoli timau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau'n deall effaith y Ddeddf, yn enwedig negeseuon cyson Llywodraeth Cymru am y lefel uwch o arbenigedd y bydd ei hangen yn awr i gyflawni a dangos cymhwysedd a chydymffurfiaeth.
- 1.19 Trwy ein gwaith maes canfuom, fel rheol, fod gan staff diogelwch adeiladau awdurdodau lleol a gwasanaethau tân ac achub ddealltwriaeth dda am nifer a lleoliadau'r adeiladau risg uchel. Fodd bynnag, mae llawer yn cyfaddef bod lefel y manylder a'r wybodaeth am ddyluniad, adeiladwaith a chynnal a chadw'r adeiladau hyn yn amrywio ac nid oedd pawb a gyfwelwyd gennym yn teimlo'n hyderus bod ganddynt ddarlun cywir a chyfoes. Er gwaethaf hyn, gwelsom mai ychydig o weithredu sy'n digwydd neu sydd yn yr arfaeth o ran diweddarau a gwella gwybodaeth am yr adeiladau risg uchel posibl ym mhob ardal.
- 1.20 Fe wnaeth llawer o'r rhai a gyfwelwyd dynnu sylw hefyd at ddiffyg dealltwriaeth am oblygiadau posibl y Ddeddf ar lefel gorfforaethol ond hefyd yn uniongyrchol mewn meysydd gweithgarwch gweithredol allweddol, fel gwasanaethau tai. Er bod y rhan fwyaf o swyddogion wedi nodi bod mwy o ymwybyddiaeth o ddiogelwch adeiladau yn syth ar ôl trychineb Grenfell, nododd y mwyafrif llethol fod sylw wedi pylu dros amser ers hynny. Yn wir, nododd y rhan fwyaf mai anaml y mae rheoli adeiladu fel maes gwaith yn flaenoriaeth gorfforaethol, a bod gwybodaeth a dealltwriaeth wael am oblygiadau'r Ddeddf.

- 1.21 Ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi datblygu cynllun penodol i weithredu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r gyfundrefn diogelwch adeiladau. Hefyd, ni allai unrhyw un a gyfwelwyd gennym mewn llywodraeth leol fynegi gweledigaeth glir ar gyfer yr hyn y bydd angen i'w gwasanaeth ei gyflawni o ran y Ddeddf a'u cyfrifoldebau estynedig, na map tuag at gyflawni. Mae hyn yn adlewyrchu'r flaenoriaeth gorfforaethol isel a roddir i reoli adeiladu. Mae hyn yn rhywbeth a adleisiwyd yn ein cyfweliadau gyda staff gwasanaethau tân ac achub, y gwnaeth nifer ohonynt nodi pryderon ynghylch y flaenoriaeth a roddir gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol i wasanaethau rheoli adeiladu.
- 1.22 Er enghraifft, nid yw rheoli adeiladu'n wasanaeth ar ei ben ei hun mewn 21 o'r 22 awdurdod lleol ac fel arfer mae wedi'i leoli o fewn y gwasanaethau cynllunio ac yn cael ei oruchwyllo gan y swyddog arweiniol ar gyfer cynllunio. Hefyd nid oes unrhyw aelod-hyrwyddwr ar gyfer rheoli adeiladu. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn aml yn profi diffyg cyfryngiad, proffil a chydabyddiaeth. Mae hyn yn cyfrannu at deimlad ymhlith swyddogion rheoli adeiladu eu bod yn ddi-rym, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu gadael i fwrw ymlaen â phethau ac ymdopi orau y gallant, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â materion o ddydd i ddydd, yn hytrach na gallu buddsoddi amser mewn cynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir.
- 1.23 Ar y cyfan, mae rheolwyr yn canolbwyntio ar barhau i ddarparu gwasanaethau ac nid ydynt yn paratoi nac yn cynllunio ar gyfer y modd y bydd y Ddeddf yn diwygio gwasanaethau. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ansicrwydd sylweddol sy'n parhau ynghylch sut y bydd y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru. Y canlyniad yw nad oes gan wasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol lawer o ddylanwad ac nad ydynt yn cael eu blaenoriaethu, a'u bod yn gweithio mewn amgylchedd ansicr iawn.



**Mae materion o ran
darparu adnoddau'n ei
gwneud yn annhebygol
y gall awdurdodau
lleol roi'r gyfundrefn
diogelwch adeiladau
newydd ar waith yn
llwyddiannus neu
fod gwasanaethau'n
addas ar gyfer y diben**

02

2.1 Yn **Rhan 2** o'r adroddiad, rydym yn nodi sut y darperir gwasanaethau rheoli adeiladu ar hyn o bryd, gan fwrw golwg yn bennaf ar yr amgylchedd gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol ond gan hefyd ystyried rôl arolygwyr cymeradwy. Rydym yn crynhoi'r heriau staffio ac adnoddau sy'n wynebu'r proffesiwn ac i ba raddau y mae gwasanaethau mewn sefyllfa dda i oresgyn y rhain.

Mae rheoli adeiladu fel proffesiwn yn wynebu heriau staffio sylweddol

2.2 Er mwyn rhoi'r Ddeddf ar waith yn effeithiol, mae gofyn i awdurdodau lleol ac eraill fod â staff sy'n gymwys, yn meddu ar gymwysterau priodol, ac yn cael cymorth digonol i gynnal a diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth. Hefyd, mae'n bwysig bod staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu profiad, yn enwedig mewn adeiladau mwy cymhleth a safonau adeiladu newidiol, er mwyn gallu darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol.

Nid yw rheoli adeiladu'n cael ei ystyried yn ddewis da o ran gyrfa mwyach ac mae'r ddemograffeg heriol yn effeithio'n ddifrifol ar gydnerthedd byrdymor a hirdymor gwasanaethau


2.3 Yn hanesyddol, roedd rheoli adeiladu'n cael ei ystyried yn rôl gadarnhaol i ddilyn gyrfa ynddi. Nododd llawer o reolwyr a gyfwelwyd gennym eu bod wedi ymuno â'u hawdurdod lleol fel hyfforddai a'u bod wedi cael budd o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u cyfrifoldebau dros amser a'u bod wedi cael cymorth i ddatblygu eu gyrfaedd yn y sefydliad. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi newid. Mae effaith cyni cyllidol wedi atal cyflogau rhag codi ac wedi lleihau nifer y staff i'r graddau nad yw rolau rheoli adeiladu mewn awdurdodau lleol bellach yn cael eu hystyried yn rhai deniadol yn ariannol a bod llai o gyfle staff i symud ymlaen yn eu gyrfa nag yn y gorffennol.

2.4 Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan yr her recriwtio barhaus sy'n wynebu awdurdodau lleol sy'n ei chael hi'n anodd llenwi swyddi gwag, hyd yn oed lle cynigir taliad atodol ar sail y farchnad. Er enghraifft, ar ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd 18.5 o rolau gwag Cyfwerth ag Amser Llawn (CagALI) ledled Cymru, gan gynnwys 14 o syrfewyr adeiladu. Er gwaethaf yr effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaethau, dim ond 2.2 o staff asiantaeth CagALI gafodd eu penodi i gryfhau gwasanaethau ac er gwaethaf y cynnydd mewn ceisiadau rheoli adeiladu a wnaed yn ystod y pandemig a 2021-22.

- 2.5 Yn ôl ein harolwg o wasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol, ar ddiwedd mis Mawrth 2022 roedd 133 o syrfewyr a rheolwyr adeiladu CagALI a 44 o staff gweinyddol yn gweithio yn y gwasanaethau hyn. Mae hyn yn trosi'n syrfêwr neu reolwr am bob 23,361 o drigolion yng Nghymru. O'i gymharu, roedd y data diweddaraf i gael ei gyhoeddi yn yr Alban yn nodi bod 498 o syrfewyr a rheolwyr adeiladu a 134 o staff gweinyddol¹⁰, sy'n cyfateb i un syrfêwr neu reolwr am bob 10,633 o drigolion.
- 2.6 Yn ogystal â'r her recriwtio a chadw barhaus, mae proffil oedran syrfewyr adeiladu awdurdodau lleol hefyd yn peri pryder. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos, o'r 133 o syrfewyr a rheolwyr CagALI, bod 54.4% dros 50 oed a dim ond 10% o dan 30 oed. Mae hyn yn amlygu risgiau gweithredol a risgiau i barhad gwasanaethau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n debygol o brofi colled fawr o ran profiad a gwybodaeth pan fydd pobl yn ymddeol yn y degawd nesaf.

Arddangosyn 1: rheolwyr a syrfewyr rheoli adeiladu yn ôl oedran ym mis Mawrth 2022

Mae'r gweithlu rheoli adeiladu sy'n heneiddio'n risg fawr ar gyfer gweithredu a chyflawni'r gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd.



Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru

10 Nid yw'r data ar gyfer 2021-22 ar gael eto. Nid oes data cymharol ar gyfer Lloegr yn bodoli. Llywodraeth yr Alban, [Building Standards Workforce Data Collection Analysis Report 2021](#), Mehefin 2022

- 2.7 Yn arbennig, mae colli profiad yn y garfan rheolwyr yn risg sylweddol. O'r holl reolwyr, mae 10 (46%) wedi gweithio mewn gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol am dros 30 mlynedd, tra bod 15 dros 50 oed. Ceir disgwyliad cyffredinol y bydd nifer sylweddol o reolwyr a syrfewyr yn ymddeol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y gofynion cofrestru a chymhwysedd (gweler uchod ym **mharagraffau 1.15 – 1.17**). Bydd hyn yn arwain at ostyngiad pellach mewn capasiti, a cholli profiad ac arweinyddiaeth yn ystod cyfnod tyngedfennol o newid pan fydd disgwyliadau a galwadau ar wasanaethau yn cynyddu.
- 2.8 Ym mhen arall y cylch gyrfa, ychydig iawn o hyfforddeion sy'n cael eu recriwtio i gryfhau gwasanaethau a mynd i'r afael â bylchau o ran adnoddau a phrofiad sydd ar y gorwel. Dim ond saith hyfforddai oedd yn 2022, gyda dim ond pedwar mewn rolau parhaol ar ôl cwblhau eu hastudiaethau¹¹. Cyfeiriodd rheolwyr at ddiffyg cefnogaeth gorfforaethol i gyflogi hyfforddeion a'r risg o golli staff sydd newydd gymhwyso i arolygwyr cymeradwy fel rhwystrau allweddol. Mae hyn yn gwneud cynllunio ar gyfer olyniaeth yn gryn her i bob awdurdod lleol. Yn ehangach, mae'r diffyg peirianwyr tân, prinder syrfewyr ac aseswyr sydd â digon o wybodaeth am systemau diogelwch strwythurol a chladin adeiladau uchel iawn yn parhau i fod yn bryder.
- 2.9 Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol¹² yn Lloegr wedi adrodd am faterion recriwtio a chadw tebyg, gan nodi bod 43% o awdurdodau yn ei chael hi'n anodd recriwtio swyddogion rheoli adeiladu. Yn yr un modd yn yr Alban, nodwyd materion tebyg o ran demograffeg ac olyniaeth hefyd, ond mae gweithredu newidiadau allweddol yn gynharach wedi arwain at ddull mwy cyfarwyddol gan Lywodraeth yr Alban.
- 2.10 Datblygodd Llywodraeth yr Alban strategaeth genedlaethol ar gyfer y gweithlu¹³ ac roedd ganddi weledigaeth i sefydlu gweithlu cynaliadwy, medrus sy'n gwneud rheoli adeiladu'n 'broffesiwn i bawb'. Er mwyn cefnogi'r uchelgais hwn yn yr Alban, cyflwynwyd Fframwaith Cymhwysedd Proffesiynol ym mis Mai 2021. Mae'r fframwaith yn helpu i sicrhau y gall dilyswyr adeiladu ar bob lefel ddangos eu bod yn ddigon cymwys ac mae wedi'i wreiddio trwy'r System Asesu Cymhwysedd¹⁴. Mae hyn yn sbarduno gwelliant yn seiliedig ar sgiliau cyfredol ac fe'i cefnogir gan ddatblygiadau eraill yn y sector, megis hyb awdurdodau lleol (gweler **Atodiad 4** am ragor o wybodaeth).

11 Darperir hyfforddiant i brentisiaid a newydd-ddyfodiaid yn bennaf o dan raglenni cenedlaethol LABC a letyir gan Brifysgol Wolverhampton. Gall y [Brentisiaeth Radd Syrfewr Rheoli](#) hyfforddi syrfewyr i lefelau cymhwysedd gwahanol sy'n gysylltiedig â'u rôl. Wrth i syrfewr symud ymlaen trwy'r lefelau, gall asesu adeiladau mwy cymhleth a chael rolau ar lefel uwch.

12 Cymdeithas Llywodraeth Leol, [Local Government Workforce Survey 2022](#), Mai 2022

13 Llywodraeth yr Alban, [Building standards verification service: workforce strategy](#), Hydref 2020


14 Llywodraeth yr Alban, [Building standards - verifiers: professional competency framework](#), Mai 2021

2.11 Mae swyddogion Llywodraeth yr Alban yn credu bod colli staff profiadol – fe ymddiswyddodd 48 o bobl (syrfewyr a rheolwyr adeiladu yn bennaf) o wasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol yr Alban yn 2021, yn dilyn rhoi'r gyfundrefn reoleiddio newydd ar waith yn gynt - bellach yn cael sylw. Trwy ei strategaeth ar gyfer y gweithlu a'i fframwaith cymhwysedd, mae awdurdodau lleol yn blaenoriaethu uwchsgilio pobl a recriwtio rhagor o brentisiaid. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gamau lliniaru tebyg i waith Llywodraeth yr Alban yn yr arfaeth yng Nghymru.

2.12 Mae diffyg amrywiaeth o fewn y gweithlu rheoli adeiladu hefyd ac nid yw'n cynrychioli Cymru fodern. Canfu ein harolwg fod 100% o staff gweinyddol a 96% o syrfewyr a rheolwyr adeiladu'n disgrifio'u hunain fel gwyn Cymreig neu wyn Prydeinig o safbwynt ethnig, ac mai dim ond 5% o staff gweinyddol sy'n nodi bod ganddynt anabledd tra bod dim syrfewyr adeiladu na rheolwyr wedi nodi bod ganddynt anabledd. Hefyd, mae'r rolau o fewn y gweithlu wedi'u rhannu'n glir ar hyd llinellau rhywedd – **Arddangosyn 2.**

Arddangosyn 2: rhywedd syrfewyr, rheolwyr, a staff gweinyddol adeiladu yn awdurdodau lleol Cymru ym mis Mawrth 2022

Dynion yw'r mwyafrif llethol o bobl mewn swyddi syrfewyr a rheolwyr adeiladu proffesiynol a menywod yw'r mwyafrif llethol mewn rolau gweinyddol â chyflogau is.




Mae mynediad at hyfforddiant yn gyfyngedig ac nid yw staff yn cael cymorth i wella a chynnal eu sgiliau a'u gwybodaeth

2.13 Er mwyn ateb gofynion cofrestru'r gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd a sicrhau bod staff yn gymwys i ymarfer, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid fuddsoddi mewn hyfforddiant digonol ac amserol. Mae datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant technegol a gynllunnir ac a gofnodir yn ofalus yn hanfodol er mwyn aros gyfuch â thechnoleg fodern a gofynion deddfwriaethol newidiol a sut y cânt eu cymhwyso'n ymarferol. Yn bwysig, cydnabyddir bod achrediad proffesiynol fel aelodaeth o'r Sefydliad Adeiladu Siartredig, Cymdeithas Siartredig y Peirianwyr Adeiladu a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yn hanfodol i ddangos cymhwysedd. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos bod llai na hanner y syrfewyr a rheolwyr adeiladu yng Nghymru ym mis Mawrth 2022 yn aelodau cymwysedig llawn o gorff proffesiynol cydnabyddedig a phriodol.

Arddangosyn 3: cyfran y syrfewyr a rheolwyr adeiladu sy'n aelodau o gyrff proffesiynol a'u gradd ar ddiwedd mis Mawrth 2022

Mae llai na 40% o syrfewyr a rheolwyr adeiladu yn gymwysedig ac yn aelodau llawn o gyrff proffesiynol.



- 2.14 Hefyd, nododd rhai aelodau o staff broblem gynyddol nad yw awdurdodau lleol yn talu am ffioedd tanysgrifiadau proffesiynol mwyach oherwydd pwysau ar gyllid. Fodd bynnag, mae'r angen i ddangos cymhwysedd i fodloni'r safonau cofrestru newydd yn debygol o osod gofynion ychwanegol ar gyllidebau awdurdodau lleol i gynyddu adnoddau mewn hyfforddiant a chymwysterau proffesiynol i sicrhau y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Nododd y rhan fwyaf o'r swyddogion awdurdodau lleol a gyfwelwyd gennym nad yw hyn yn cael ei ystyried wrth bennu cyllidebau ar gyfer y dyfodol.
- 2.15 Nifer cyfartalog y diwrnodau hyfforddi a gymerwyd gan staff awdurdodau lleol yn 2021-22 oedd pum niwrnod ar gyfer rheolwyr, chwe diwrnod ar gyfer syrfewyr adeiladu a dau ddiwrnod ar gyfer staff gweinyddol. Roedd swyddogion Rheoli Adeiladu a gyfwelwyd gennym yn glir, fodd bynnag, bod pwysau cyllidebol parhaus yn dal i gyfyngu ar gyfleoedd i hyfforddi a'u bod yn aml yn peidio â chael eu hyrwyddo'n weithredol i osgoi sefyllfa lle byddai staff rheng-flaen yn peidio â bod ar gael i ddarparu gwasanaethau, hyd yn oed am gyfnodau byr.
- 2.16 Mae'r canllawiau ynghylch pennu ffioedd rheoli adeiladu yn caniatáu i awdurdodau lleol gynyddu eu taliadau i dalu am hyfforddi a datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal gweithlu cymwys a medrus. Fodd bynnag, er bod swyddogion rheoli adeiladu yn amlygu pwysigrwydd cronni arian i ariannu hyfforddiant ar gyfer staff, fe wnaethant nodi bod gwargedion yn aml yn cael eu defnyddio i ariannu blaenoriaethau corfforaethol eraill.
- 2.17 Ym mis Mawrth 2023, darparodd Llywodraeth y DU grant o £16.5 miliwn i'r LABC i ariannu 110 o hyfforddeion rheoli adeiladu newydd ar gyfer Lloegr i gefnogi'r broses o roi'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau ar waith. Nid oes cyllid o'r fath wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf diffyg buddsoddiad, mae'r LABC yn Lloegr yn dal i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi ar gael i staff awdurdodau lleol Cymru.
- 2.18 Mae'r materion o ran cydnerthedd sy'n effeithio ar wasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol Cymru yn cael eu teimlo mewn rhannau eraill o'r diwydiant. Canfuom fod y materion cadw a recriwtio sy'n wynebu awdurdodau lleol yn cael eu profi yn yr un modd gan wasanaethau tân ac achub Cymru. Mae'r diffyg pecynnau gwobrwyo cystadleuol a gweithlu sy'n heneiddio gyda niferoedd cynyddol yn debygol o ymddeol yn y tymor byr yn her gynyddol. Yn yr un modd, ceir problemau parhaus o ran argaeledd peirianwyr tân cymhwysedig ac mae cystadleuaeth gyda'r sector preifat, sy'n cynnig gwell telerau, amodau a chyflogau, yn parhau i annog staff profiadol y gwasanaethau tân ac achub i adael.

2.19 Yn hanesyddol, lle mae staff awdurdodau lleol Cymru wedi gadael, fel arfer er mwyn ymuno ag arolygwyr cymeradwy yr oedd hynny, a hwythau'n cynnig cyflogau, telerau gwasanaeth, fel taliadau bonws a cheir cwmni, mwy deniadol; yn ysgwyddo llai o gyfrifoldeb am strwythurau peryglus ac achosion gorfodi; ac yn peidio â gorfod ymdopi â'r pwysau parhaus sy'n cael eu creu gan gynni cyllidol. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae llif staff o awdurdodau lleol i arolygwyr cymeradwy wedi lleihau ac mae gwasanaethau arolygu adeiladau'r sector preifat hefyd yn dechrau cael traferth recriwtio staff digon cymwysedig a phrofiadol. Nododd cynrychiolwyr nifer o gyrff arolygwyr cymeradwy a gyfwelwyd gennym eu bod bellach wedi dechrau canolbwyntio ar dyfu eu gweithlu yn y dyfodol trwy raglenni hyfforddeion oherwydd diffyg argaeledd staff cymwysedig yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r pandemig wedi helpu awdurdodau lleol i foderneiddio eu gwasanaethau, ond mae gorfodi'n dal i fod yn broblem

2.20 Er gwaethaf y pwysau o ran adnoddau a wynebier gan dimau rheoli adeiladu awdurdodau lleol, mae'r rhan fwyaf yn parhau i gyflawni eu gwaith yn effeithiol. Parhaodd hyn trwy gydol y pandemig, a helpodd i gyflymu gwelliannau mewn effeithlonrwydd gyda'r newid i weithio gartref a digideiddio gwasanaethau.

2.21 Ar adeg y pandemig roedd y rhan fwyaf o syrfewyr rheoli adeiladu'n arfer teithio i safleoedd, gan gwrdd â phobl wyneb yn wyneb a gwneud penderfyniadau ar lawr gwlad, ond gyda COVID-19 ni ellid parhau â'r rhan fwyaf o'r prosesau hyn. Yn hytrach, canolbwyntiodd gwasanaethau rheoli adeiladu ar ddod o hyd i atebion i'w ffyrdd traddodiadol o weithio trwy ddiweddarau a newid gwasanaethau. Er bod rhai awdurdodau yn gwbl ddiigidol, i eraill creodd y pandemig gyfle i wella eu defnydd o dechnoleg a newid i wasanaethau yn y cwmwl i optimeiddio effeithlonrwydd a pherfformiad, ond hefyd cysoni arferion gwaith â'r sector preifat. Nododd sawl un a gyfwelwyd gennym na fyddai'r datblygiadau hyn wedi digwydd mor gyflym, os o gwbl, heb y pandemig.

2.22 Mae gorfodi'n rhan bwysig o sicrhau bod adeiladau'n ddiogel ac yn cydymffurfio. Gall gweithgarwch amrywio o ddarbwylllo a deialog i roi anogaeth ar gyfer newid, i fesurau mwy caled fel erlyn neu wrthod dyroddi hysbysiad cwblhau. Trwy ein gwaith maes, canfuom fod gorfodi'n dal i fod yn broblemus, yn bennaf oherwydd bod gan wasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol ddwy swyddogaeth a allai fod yn gwrthdaro â'i gilydd.

- 2.23 Yn gyntaf, hwy yw rheoleiddiwr lleol yr holl waith adeiladu yn eu hardal sy'n sicrhau bod materion a godwyd wrth ddylunio a chodi adeiladau nad ydynt yn bodloni'r safon ofynnol yn cael sylw. Fodd bynnag, yn ail maent hefyd yn cystadlu gydag arolygwyr cymeradwy am waith ac mae angen iddynt gynhyrchu digon o incwm i dalu am eu holl wasanaethau. Mae hyn yn wendid cynhenid yn system y farchnad gymysg a gyflwynwyd yn y 1980au ac mae'n adlewyrchu rôl groestynnol awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am blismona'r gyfundrefn rheoli adeiladu ond sydd hefyd mewn cystadleuaeth ag arolygwyr cymeradwy i sicrhau gwaith.
- 2.24 O ystyried ei bod yn ofynnol i arolygwyr cymeradwy gyfeirio achosion unigol o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau adeiladu at awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi, mae anghymhellion tebyg ar waith hefyd. Fel gydag awdurdodau lleol, mae cynnal perthnasoedd yn ystyriaeth bwysig wrth geisio cynyddu incwm i'r eithaf a gall annog arolygwyr cymeradwy i beidio â bod eisiau cymryd camau gorfodi.
- 2.25 Mae capasiti, adnoddau a gallu hefyd yn rhwystrau sylweddol a all gyfyngu ar gamau gorfodi. Cyfeiriodd swyddogion at ofynion a chost mynd â datblygwyr, perchnogion eiddo neu reolwyr i'r llys fel rhwystr i awdurdodau lleol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Adleisiodd sawl arolygydd cymeradwy y safbwyntiau hyn, gan fynegi amheuaeth bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau neu'r capasiti i orfodi safonau yn effeithiol a chymryd camau cyflym a phenderfynol.
- 2.26 Ar y cyfan, canfuom fod y berthynas rhwng awdurdodau lleol ac arolygwyr cymeradwy, sy'n hanfodol i sicrhau bod adeiladau'n ddiogel, ar y gorau'n gyfyngedig ac ar y gwaethaf wedi'i nodweddu gan ddiffyg ymddiriedaeth ac amheuaeth ynghylch gweithredoedd ei gilydd. Yn wir, cododd nifer o swyddogion gwasanaethau tân ac achub a gyfwelwyd gennym bryderon ynghylch cadernid rheoleiddio gorfodaeth adeiladu'n fwy cyffredinol, o fewn awdurdodau lleol ond hefyd o ran arolygwyr cymeradwy.

Mae'n ymddangos bod rhai arferion rheolaeth ariannol mewn perthynas â rheoli adeiladu'n anghyfreithlon

- 2.27 Mae Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010 (y 'Rheoliadau') yn gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer trefniadau llywodraethu ariannol gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol. Mae'r Rheoliadau wedi'u bwriadu i alluogi awdurdodau lleol i fod yn deg ac yn dryloyw o ran sut y codir ffioedd am wasanaethau.

2.28 Egwyddor allweddol y Rheoliadau yw y dylai awdurdodau adennill eu costau llawn ac na ddylai defnyddwyr gwasanaethau ond talu am y gwasanaeth y maent yn ei gael. O ganlyniad, mae'r Rheoliadau'n rhannu gweithgareddau yn waith y gellir codi tâl amdano, gwaith na ellir codi tâl amdano a gwasanaethau rheoli adeiladu eraill. Mae'n rhaid i weithgarwch y gellir codi tâl amdano gael ei ariannu gan ffioedd, a dylai gweithgarwch na ellir codi tâl amdano a gwasanaethau rheoli adeiladu eraill gael eu hariannu o gronfa gyffredinol yr awdurdod lleol. Mae **Arddangosyn 4** yn darparu enghreifftiau o weithgareddau.

Arddangosyn 4: enghreifftiau o weithgareddau rheoli adeiladu y gellir codi tâl amdanynt, na ellir codi tâl amdanynt a rhai eraill

Gweithgaredd y gellir codi tâl amdano	Gweithgaredd na ellir codi tâl amdano	Gwasanaethau rheoli adeiladu eraill
Cymeradwyo neu wrthod cynlluniau	Cysylltu ag awdurdodau eraill, e.e. y Gwasanaethau Tân ac Achub	Adeiladau peryglus
Arolygiadau o safleoedd	Gorfodi ar ran Arolygwyr Cymeradwy	Dymchweliadau
Ystyried gwaith a gyfeiriwyd gan AC (Arolygwyr Cymeradwy)	Adnabod gwaith adeiladu heb awdurdod	Cyngor i adrannau eraill
Ystyried tystysgrif unioni	Swyddogaethau i gefnogi pobl anabl	Gweinyddu diogelwch mewn meysydd chwaraeon
Mwy na 30 munud o gyngor cyn ymgeisio	30 munud cyntaf o gyngor cyn ymgeisio	Enwi neu rifo strydoedd

Ffynhonnell: CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth), [Local authority building control accounting](#), 2010

2.29 Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i bennu eu ffioedd a'u taliadau a rhoi cyfrif yn briodol amdanynt, datblygodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ganllawiau manwl¹⁵. Gyda'i gilydd, mae'r Rheoliadau a chanllawiau CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol:

- bennu a chyhoeddi ffioedd safonol a modd i gyfrifo ffioedd arbennig;
- pennu ffioedd sy'n seiliedig ar gyfradd fesul awr ar gyfer swyddogion a ffactorau gosod, penodol;
- monitro sefyllfa adennill costau'r gwasanaeth gyda'r nod o adennill costau dros 'gyfnod rhesymol';
- diwygio ffioedd i atal gwargedion neu ddiffygion;
- cyhoeddi datganiad ariannol blynyddol ar gyfer rheoli adeiladu; ac
- ystyried sefydlu cronfa wedi'i chlustnodi os bydd gwarged neu ddiffyg.

2.30 Hefyd, mae canllawiau CIPFA yn cyfeirio at gynigion ar gyfer monitro rheolaidd o 2010 gan 'yr Adran/y Cynulliad Cenedlaethol' i asesu effaith y Rheoliadau ar y cyfan ac yn arbennig i weld a oedd awdurdodau lleol yn bodloni'r egwyddor adennill costau. O ystyried bod y swyddogaethau rheoli adeiladu o dan y Rheoliadau y gellir eu harfer gan y Cynulliad Cenedlaethol wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006¹⁶, ac yr ymddengys fod y cyfeiriad at 'yr Adran' yn gyfeiriad at Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y DU ar y pryd, byddai'n ymddangos bod y cyfeiriad at 'y Cynulliad Cenedlaethol' yn anghywir ac y dylai fod wedi bod yn gyfeiriad at Lywodraeth Cymru. [Rydym yn deall, fodd bynnag, nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol (y Senedd bellach) na Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith monitro o'r fath.]

Mae dulliau pennu ffioedd yn amrywio'n sylweddol ac nid yw llawer ohonynt yn cydymffurfio â Rheoliadau

2.31 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu ffioedd bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod yr incwm o weithgarwch y gellir codi amdano mor agos at y costau a ysgwyddir wrth ddarparu gwasanaethau â phosibl. Mae hyn yn golygu bod monitro'r sefyllfa adennill costau'n barhaus ac ailgyfrifo ffioedd yn rheolaidd yn hanfodol bwysig. Byddai'n groes i'r Rheoliadau pe bai ffioedd yn fwriadol yn cael eu ar lefel sydd uwchlaw'r costau yr amcangyfrifir y byddant yn cael eu hysgwyddo (gan ystyried unrhyw warged neu ddiffyg blaenorol a amcangyfrifwyd) neu pe caniateid yn fwriadol iddynt ostwng islaw'r hyn y mae'n ei gostio i ddarparu gwasanaethau.

15 CIPFA, [Local authority building control accounting](#), 2010

16 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 11, paragraff 30

- 2.32 Caiff ffactorau y dylid eu hystyried wrth bennu ffioedd eu nodi yn y rheoliadau. Ar wahân i'r egwyddor adennill costau a chostau staff, mae'r ffactorau yn cynnwys defnydd o'r adeilad, maint y llawr, a chost. Fodd bynnag, nid yw ystyriaethau posibl eraill megis cystadleurwydd ffioedd a chymharu ag eraill wedi'u nodi yn y Rheoliadau. Felly, ymddengys nad yw ystyriaethau eraill o'r fath yn ystyriaethau perthnasol y gellir eu hystyried. Mae canllawiau CIPFA yn nodi'r broses ar gyfer cyfrifo'r ffioedd ac yn rhoi enghreifftiau sut i wneud hyn.
- 2.33 Canfuom fod y broses ar gyfer penderfynu ar ffioedd gan awdurdodau lleol yn wahanol, yn aml yn sylweddol wahanol, i'r canllawiau a'r Rheoliadau. O'r 12 awdurdod a ymatebodd i'n hymarfer casglu data ac a ddarparodd wybodaeth yn disgrifio eu proses pennu ffioedd, nid oedd naw yn cydymffurfio. Gan amlaf oherwydd eu bod wedi cymhwyso ymgodiadau chwyddiannol penodedig; wedi copïo diwygiadau o ffioedd gan awdurdodau cyfagos; wedi defnyddio rhestrau cenedlaethol cyfartalog o gyfraddau i bennu eu taliadau hwy eu hunain; a/neu heb dangos sut yr oeddent wedi ystyried amgylchiadau lleol penodol sy'n sail i godi tâl megis eu strwythur staffio, ailgodi tâl yn ganolog a'r cyd-destun gweithredu lleol.
- 2.34 Ar adeg ein gwaith maes, nododd nifer o awdurdodau nad oeddent yn adolygu ffioedd yn flynyddol ac fe gyfaddefodd nifer lai nad oeddent wedi addasu ffioedd i adlewyrchu cost wirioneddol gwasanaethau am nifer o flynyddoedd. Mewn un achos, nid oedd ffioedd wedi newid ers 2012. Hefyd, er gwaethaf y gofyniad i seilio ffioedd ar gyfraddau fesul awr, nid oedd dau awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth hon. Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw gwasanaethau rheoli adeiladu llawer o awdurdodau lleol yn codi tâl ac yn pennu ffioedd yn unol â'r Rheoliadau a chanllawiau CIPFA. Nodwn hefyd fod graddfeydd y ffioedd cyhoeddedig yn dangos amrywiadau sylweddol ar gyfer gweithgareddau unigol – **Arddangosyn 5**.

Arddangosyn 5: enghraifft o wahaniaethau rhwng ffioedd gwasanaethau Rheoli Adeiladu awdurdodau lleol Cymru 2022-23

Math o ffi	Ffi isaf	Ffi uchaf	Gwahaniaeth	Canolrif
Ffi cynllun annedd sengl	£117	£288	145.6%	£210
Ffi arolygu annedd sengl	£274	£510	86.4%	£414
Ffi hysbysiad annedd sengl	£391	£915	134.1%	£671
Ffi gyfansawdd annedd sengl	£495	£1,830	269.7%	£1,155

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o raddfeydd ffioedd cyhoeddedig

2.35 Cymysg oedd ymwybyddiaeth o'r mater hwn ymhlith swyddogion. Nid yw rhai yn ymwybodol o berfformiad ariannol eu gwasanaeth yn bennaf oherwydd bod rheolaeth ar gyllid yn nwylo arbenigwyr y tu allan i'r gwasanaeth nad ydynt yn ymwneud â rheoli adeiladu. Roedd eraill yn ymwybodol o ofynion y rheoliadau ond yn disgrifio'r pwysau ar gyllidebau a oedd yn eu rhoi anogaeth i godi ffioedd neu ddiffyg gwybodaeth am ofynion y rheoliadau yn gorfforaethol. Mae hyn yn peri pryder mawr ac yn peri risgiau sylweddol i sicrhau gwerth am arian o'r gwasanaeth.

Mae rheolaeth ariannol ar wargedion a diffygion yn aneglur ac o bosibl yn anghyfreithlon

2.36 Canfu ein harolwg o swyddogion awdurdodau lleol, o'r 15 a ddarparodd ymateb, mai dim ond pump a nododd fod eu hincwm sy'n dod o godi tâl am weithgarwch yn cael ei ddiogelu (h.y. yn cael ei glustnodi i'w gymhwyso i wasanaethau rheoli adeiladu), fod un wedi dweud mai dim ond peth ohono sy'n cael ei ddiogelu a bod naw wedi nodi nad oes unrhyw incwm yn cael ei ddiogelu.

2.37 Pan fydd gwargedion yn digwydd, anogir awdurdodau i greu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi, ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny. Canfu ein hadolygiad mai dim ond pedwar awdurdod lleol a ddatgelodd gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer rheoli adeiladu, er y gallai eraill fod wedi ystyried bod y symiau cysylltiedig yn amherthnasol yn ariannol ac wedi peidio ac adrodd arnynt. O ran perfformiad ariannol gwasanaethau, canfuom fod gan 11 awdurdod ddiffyg ar ddiwedd 2021-22 a bod gan saith warged. Nid oedd pedwar ohonynt yn gallu darparu'r wybodaeth hon.

2.38 Mae egwyddorion Rheoliadau 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i incwm rheoli adeiladu, gan gynnwys gwargedion, gael ei ddefnyddio i ddarparu gweithgareddau rheoli adeiladu. Mae canllawiau CIPFA yn nodi, wrth gyfrifo cyfanswm costau'r swyddogaeth rheoli adeiladu, y caniateir i awdurdodau gynnwys hyfforddiant fel cost anuniongyrchol mewn perthynas â chyflogeion wrth gyfrifo ffioedd. Hefyd, lle ceir gwargedion, gellir defnyddio'r rhain i fuddsoddi yn ansawdd y gwasanaeth neu i fynd i'r afael â newidiadau rheoleiddiol.

2.39 Canfuom nad oedd y rhan fwyaf o swyddogion rheoli adeiladu'n cynyddu eu ffioedd i adlewyrchu'r angen i ariannu hyfforddiant a datblygiad i'w staff oherwydd pwysau corfforaethol ehangach ar y gyllideb. Yn wir, nododd rhai swyddogion a gyfwelwyd gennym yn anecdotaidd fod ffioedd rheoli adeiladu yn cael eu defnyddio i greu gwargedion i dalu am wasanaethau eraill y cyngor, er na welsom unrhyw dystiolaeth o hyn yn ymarferol.

2.40 Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r modd y rhoddir y Rheoliadau ar waith ac y pennir taliadau rheoli adeiladu yn fwy cyffredinol gan awdurdodau lleol yn ateb gofynion cyfreithiol ac ymarferol. Mae ein dadansoddiad yn amlygu nad yw'r rhan fwyaf o ffioedd yn cael eu pennu'n gywir a, lle mae gwargedion a diffygion yn digwydd, nad yw'r rhain yn cael eu rheoli'n weithredol nac yn cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd. Mae hyn yn peri pryder arbennig oherwydd bod y Rheoliadau wedi'u cyflwyno i gefnogi rheolaeth ariannol dda a threfniadau llywodraethu da mewn gwasanaethau rheoli adeiladu ac y byddai eu rhoi ar waith yn gywir yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion o ran y gweithlu, recriwtio a hyfforddiant a nodwyd uchod.

Ym mron pob achos, nid yw adroddiadau ariannol yn ateb gofynion rheoleiddiol ac mae hyn yn rhwystr i graffu ar brosesau gosod ffioedd, incwm a gwariant Rheoli Adeiladu

2.41 Er mwyn dangos eu trefniadau llywodraethu ariannol ar gyfer incwm a gwariant rheoli adeiladu, mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi datganiadau ariannol blynyddol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol, fel lleiafswm, bod y Datganiadau hyn yn datgelu'r costau y gellir codi amdanynt a'r incwm a ddaw o hynny, unrhyw warged neu ddiffyg, eu bod yn cael eu cyhoeddi o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol a'u bod yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y swyddog Adran 151. Mae canllawiau CIPFA yn cynnwys templed sy'n adlewyrchu'r gofynion hyn ac enghraifft wedi'i chwblhau i helpu awdurdodau lleol i ddangos eu bod yn cydymffurfio. Gan bod cyhoeddi datganiad ariannol yn un o ofynion y rheoliadau, mae methu â gwneud hynny yn anghyfreithlon.

2.42 O'n hadolygiad o wefannau a datganiadau ariannol awdurdodau lleol, canfuom mai dim ond pedwar sydd â datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd a dim ond dau o'r rhain a gydymffurfiodd â'r terfyn amser ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad. Fel a nodwyd uchod, mae canllawiau CIPFA yn cyfeirio at gynigion ar gyfer craffu i ganfod a yw awdurdodau'n dilyn yr egwyddor adennill costau. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau wrthym ni nad yw'r gwaith monitro hwn wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae diffyg goruchwyliaeth o hyd ar berfformiad ariannol a phrosesau pennu ffioedd gwasanaethau rheoli adeiladu ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae'r cynnydd gyda chydweithio a rhanbartholi wedi bod yn araf

- 2.43 Ar y cyfan, nid yw gwasanaethau rheoli adeiladu awdurdodau lleol wedi newid yn sylweddol er gwaethaf y pwysau ar adnoddau, capasiti a sgiliau. Mae rhai awdurdodau wedi gwneud rhai datblygiadau arloesol, fel Sir Fynwy sydd wedi partneru gydag asiant tai i ddod o hyd i gleientiaid newydd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau hefyd yn gweithredu'r cynllun Awdurdod Partneriaeth. Mae hyn yn caniatáu i weithwyr proffesiynol, fel penseiri, ddefnyddio awdurdod lleol o'u dewis i gymeradwyo cynlluniau a'r awdurdod lleol lle mae'r safle wedi'i leoli i gynnal yr arolygiadau ar y safle. Er enghraifft, efallai y bydd cadwyn archfarchnad wedi'i lleoli yn Lloegr a gall ddewis defnyddio eu tîm LABC lleol i gymeradwyo cynlluniau ond yna defnyddio awdurdod yng Nghymru i arolygu siop newydd yng Nghymru.
- 2.44 Er bod gwaith LABC Cymru – y rhwydwaith swyddogion Cymru gyfan - yn cael ei ystyried yn gadarnhaol, gan gynnig cymorth, proses ddysgu a'r cyfle i rannu gwybodaeth, nid yw hyn wedi trosi'n newid mwy ffurfiol i helpu i wella effeithlonrwydd a chryfhau cydnheredd. Mae'r grŵp wedi profi'n llwyddiannus o ran hysbysu timau'n gyson a'u cefnogi, ac mae sawl enghraifft unigol gadarnhaol o 'gydweithio mewn argyfyngau'. Er enghraifft, awdurdodau cyfagos yn helpu i gynnal arolygiadau a gweithgareddau cymeradwyo cynlluniau ym Mlaenau Gwent i helpu i fynd i'r afael â phwysau byrdymor o ran adnoddau yn yr awdurdod hwnnw. Er ein bod yn cydnabod bod y rhain yn gamau cadarnhaol i'r cyfeiriad cywir, nid ydynt yn mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r sector, ac mae angen mwy o newid, a hwnnw'n newid mwy sylfaenol.
- 2.45 Mae cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau trwy fwy o gydweithio a rhanbartholi gwasanaethau. Gall hyn helpu awdurdodau lleol i gystadlu'n fwy effeithiol, ymateb i her y gyfundrefn diogelwch adeiladau newydd a darparu atebion i fynd i'r afael â nifer o faterion difrifol y sector lle mae darparu adnoddau yn y cwestiwn. Er enghraifft:
- cyfuno staff i leddfu problemau capasiti ac i liniaru'r risgiau o ymddeoliadau sy'n gynhenid yn nemograffeg y sector;
 - cynyddu'r gallu i wario a chyfleoedd i wneud arbedion trwy gomisiynu a chaffael nwyddau a gwasanaethau ar y cyd a sefydlu taliadau unffurf am weithgareddau sy'n costio'r un faint (er enghraifft, hyfforddiant allanol);
 - galluogi staff i ddatblygu arbenigeddau, fel diogelwch tân, i reoli adeiladau risg uchel yn well; a
 - chryfhau'r capasiti mewn swyddogaethau cefn swyddfa.

- 2.46 Er bod rhanddeiliaid ar draws y sectorau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau'n cydnabod ac yn sôn am fanteision cydweithio a rhanbartholi, canfuom mai ychydig iawn o gynnydd sydd wedi cael ei wnaed i symud hyn ymlaen. Er y gall llawer o staff rheoli adeiladu a gyfwelwyd gennym nodi manteision posibl cydweithio gyda thimau rheoli adeiladu eraill, nid yw hyn wedi arwain at bartneriaethau mwy ffurfiol fel timau ymchwilio ar y cyd. Rydym yn cydnabod bod y gofynion sy'n cael eu rhoi ar reolwyr rheoli adeiladu fel unigolion ar hyn o bryd, a'u capasiti llai i flaenoriaethu'r gweithgareddau hyn, yn amlwg yn cyfyngu ar gyfleoedd i lywio newid. Ond o ystyried yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau rheoli adeiladu, mae angen newid i atal y materion sydd eisoes yn bresennol yn y sector rhag gwaethygu.
- 2.47 Yn yr Alban, o'i gymharu, mae Safonau Adeiladu Awdurdodau Lleol yr Alban (LABSS) wedi sefydlu model hyb i'r 32 o awdurdodau lleol gydweithio a gweithredu argymhellion ar gyfer gwella (gweler **Atodiad 4**). Mae'r Hyb yn gweithredu fel canolfan gydweithredol ganolog i symud y sector yn yr un cyfeiriad mewn ymateb i argymhellion ar gyfer gwella. Mae gan hyn y potensial i osod gwasanaeth a safon sy'n gyson ledled yr Alban, a ategir gan fframweithiau gweithredol a pherfformiad Llywodraeth yr Alban. Mae hefyd yn helpu awdurdodau sy'n profi problem staffio i frocera cymorth gan un arall.
- 2.48 Mewn ymateb i'r heriau tebyg y maent yn eu hwynebu, mae Gwasanaethau Tân ac Achub yn newid y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi newid o fod â thîm arbenigol pwrpasol i dîm mwy o swyddogion Diogelwch Tân i Fusnesau. Mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i reoli effaith trosiant staff yn well a chreu gweithlu mwy cydnerth, trwy ehangu'r gronfa o staff sy'n cael profiad o ddyluniad ac adeiladwaith sy'n gwella diogelwch tân adeiladau. Yn yr un modd, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi newid o wasanaeth lle mae swyddogion tân mewn lifrai yn gwneud gwaith diogelwch tân i wasanaeth sy'n gynyddol yn defnyddio staff corfforaethol i gryfhau perfformiad. Mae hyn yn helpu i wella effeithlonrwydd a chynyddu capasiti.



**Nid oes rhyw lawer
o waith yn cael ei
wneud i werthuso
gwasanaethau rheoli
adeiladu ledled
Cymru ac nid oes
system gynhwysfawr
genedlaethol o
sicrwydd diogelwch
adeiladau**

03

- 3.1 Yn y Rhan olaf hon o'r adroddiad, rydym yn nodi sut y gwneir gwaith i reoli a gwerthuso perfformiad gwasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau a sut y mae risgiau'n cael eu hadnabod a'u lliniaru.

Cyfyngedig yw'r ddealltwriaeth am ba mor dda yw perfformiad gwasanaethau

- 3.2 Mae rheoli perfformiad ac adrodd ar hynny'n elfen hanfodol o lywodraethu da. Mae bod ag ystod dda o ddata allweddol yn eich galluogi i ddeall y gwasanaethau yr ydych yn eu rheoli ac mae'n helpu i danategu penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth trwy ddarparu mewnwleidiad a gwybodaeth. Mae data cywir hefyd yn rhagflaenydd i gynlluniau rhagolygol ac yn helpu sefydliadau i ddysgu o'r gorffennol i oleuo'r dyfodol.

Mae diffyg fframwaith rheoli perfformiad cenedlaethol ar gyfer rheoli adeiladau a diogelwch adeiladau'n ei gwneud hi'n anodd gwerthuso perfformiad gwasanaethau

- 3.3 Ar adeg ein gwaith nid oes fframwaith cenedlaethol cytunedig ar gyfer adrodd ar berfformiad gwasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau yng Nghymru. Yn niffyg cyfres gadarn o fesurau cenedlaethol i reoli a gwerthuso perfformiad gwasanaethau, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar adrodd yn erbyn grŵp cul o fesurau. Canfuom fod y dangosyddion allweddol a ddefnyddir fwyaf yn ymwneud â:
- mesurau amseroldeb megis faint o amser a gymerir i gydnabod a gwirio ceisiadau, pa un a gynhelir ymweliad â'r safle ar y dyddiad y cytunwyd arno, cofnodi nodiadau'r ymweliad â'r safle o fewn dau ddiwrnod i arolygiad a nifer y tystysgrifau cwblhau a gyhoeddwyd o fewn cyfnod penodol.
 - monitro lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid gydag ymateb y gwasanaeth; a hefyd
 - cyfran o'r farchnad – y gyfran o'r farchnad rheoli adeiladu y mae awdurdod lleol yn ei gwasanaethu.
- 3.4 Er bod pob un o'r rhain yn bwysig ac yn berthnasol, nid ydynt yn darparu digon o fanylion i ddeall na barnu effeithiolrwydd gwasanaethau rheoli adeiladu. Er bod amseroldeb yn ffactor allweddol wrth weinyddu system rheoli adeiladu effeithlon, mae'r mesur yn rhoi pwys ar ymdrin â llawer iawn o geisiadau yn yr amser byrraf posibl, heb unrhyw ystyriaeth i ansawdd y gwaith a wneir ac nad yw'n rhoi unrhyw sicrwydd bod y gwaith wedi'i wneud yn ddiogel, bod risgiau wedi'u lleihau, a bod diogelwch cyffredinol deiliaid adeilad wedi'i wella.

- 3.5 Oherwydd y gwendidau hyn, nid yw awdurdodau lleol yn gallu dangos bod gwaith rheoli adeiladu yn lleihau risg ac yn gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol ac ansawdd bywyd yn yr ardal. Er enghraifft, canfuom fel a ganlyn:
- nid oes unrhyw ddata yn cael ei gasglu ar waith arolygwyr cymeradwy a gwasanaethau tân ac achub, ac nid yw meincodi i gymharu perfformiad yn cael ei wneud fel mater o drefn. O ganlyniad, mae'r broses o adrodd ar berfformiad yn dal i fod yn dameidiog ac nid yw'n rhoi sicrwydd digonol – risg fawr a amlygwyd yn Adroddiad Hackitt.
 - mae adroddiadau cyhoeddus - sy'n hysbysu rhanddeiliaid allweddol am effeithiolrwydd gwasanaethau ac 'arlwy' gwasanaethau – yr un mor gyfyngedig. Nid yw hyn yn helpu i ddarparu trosolwg gynhwysfawr ar yr holl weithgarwch rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau mewn ardal, neu'n genedlaethol.
 - er bod rhai mesurau sy'n ymwneud â risg, mae'r rhain yn gyfyngedig i adeiladau sydd wedi'u cofnodi fel strwythurau peryglus. Nid yw risg, yn enwedig risg i gydnerthedd gwasanaethau, yn rhywbeth sy'n cael ei ymgorffori yn y fframwaith perfformiad fel ystyriaeth ganolog lle mae effeithiolrwydd yn y cwestiwn.
 - ychydig o sylw a roddir i reoli perfformiad ariannol yn weithredol ac adrodd yn erbyn gofynion y rheoliadau cyllid, pennu ffioedd, cymharu costau, ailgodi tâl a diffygion.
- 3.6 Hefyd, dywedodd timau rheoli adeiladu wrthym fod y broses adrodd yn ymatebol yn bennaf pan fo pryderon yn cael eu codi yn hytrach nag yn rhan arferol o'u rôl. Lle caiff mesurau perfformiad eu cofnodi a'u monitro, gwneir hyn yn aml ar fenter tîm ei hun, at eu dibenion eu hunain, a gall fod yn broses faith a gyflawnir â llaw, oherwydd integreiddio gwael rhwng platfformau TG. Lle mae offer TG ar gyfer adroddiadau awtomatig yn bodoli, clywsom am enghreifftiau lle'r edd y system yn cael ei thandefnyddio neu lle'r oedd yn cael ei defnyddio'n anghyson, oherwydd prosesau gwan neu anawsterau gweithredu. Mewn sawl achos, caiff dadansoddiad ei lunio ar daenlenni a ddelir yn lleol gan unigolion, gan beri risg i gydnerthedd a pharhad pan fydd staff yn absennol.
- 3.7 Mae gan Lywodraeth yr Alban fframwaith cenedlaethol i fonitro a dadansoddi perfformiad. Cyflwynwyd mesurau yn 2012 gan ymgorffori gwersi o ymchwil a oedd yn dadansoddi adolygiadau blaenorol o berfformiad. Mae diogelwch adeiladau yn gyfrifoldeb gweinidogol yn yr Alban ac mae darparwyr yn cael eu 'penodi' fel dilyswyr (gweler **Atodiad 4**). Er bod awdurdodau lleol yn cael eu dewis fel rheol, mae'r broses benodi ac ailbenodi yn ysgogi cysondeb a safonau, ac yn darparu fframwaith cadarn i asesu perfformiad.

Mae rhai awdurdodau lleol yn gweithio i safon rheoli ansawdd ISO 9001, ond nid yw hyn yn rhoi sicrwydd digonol bod gwasanaethau'n gweithio'n effeithiol

- 3.8 Mae nifer o awdurdodau lleol wedi ennill achrediad ISO 9001, y safon ryngwladol ar gyfer Rheoli Ansawdd. Mae'r safon yn defnyddio saith egwyddor rheoli ansawdd sy'n canolbwyntio ar:
- ffocws ar y cwsmer;
 - arweinyddiaeth;
 - ymgysylltu â phobl;
 - dull proses;
 - gwelliant;
 - gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth; a
 - rheoli perthnasoedd.
- 3.9 Nod y mesurau yw hybu dealltwriaeth a darparu cysondeb, gan ychwanegu gwerth, perfformiad effeithiol, a gwelliant mewn prosesau. Mae'r safon hefyd yn annog sefydliadau i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg, gan sicrhau bod mesurau ataliol yn cael eu cymryd cyn i risgiau godi. Unwaith y bydd sefydliad yn cael achrediad, mae'n ofynnol iddo werthuso'r modd y mae'n cydymffurfio â'r safon yn flynyddol.
- 3.10 Er bod yr awdurdodau wedi cael ISO 9001 yn ddefnyddiol ar gyfer codi safonau a lefelau cysondeb, gwelsom fod rhai awdurdodau wedi dewis rhoi'r gorau i ddefnyddio'r safon oherwydd cost a her gwerthuso parhaus i ddangos eu bod yn cydymffurfio. Mae hefyd yn amheus pa mor ddefnyddiol yw'r safon i farnu effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chadernid gwasanaethau o ystyried yr heriau niferus sy'n wynebu gwasanaethau rheoli adeiladu fel a nodwyd gennym.

Cyfyngedig yw gweithgarwch i graffu ar wasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau a'u gwerthuso

- 3.11 Mae craffu effeithiol yn elfen hanfodol o lywodraethu da ac mae'n helpu i roi sicrwydd bod pethau'n gweithio'n dda neu fod angen iddynt wella. Heb system rheoli perfformiad gadarn, ni all craffu ond bod mor effeithiol â'r wybodaeth a'r mesurau y creffir yn rheolaidd arnynt. Canfuom nad yw gwasanaethau rheoli adeiladu llawer o awdurdodau lleol yn cyflwyno adroddiadau ffurfiol rheolaidd i bwyllgor craffu i ddangos y gwaith, yr effaith a'r risgiau sy'n wynebu'r gwasanaeth.

- 3.12 Er enghraifft, canfuom fod craffu'n anghyson ledled Cymru, ac mai dim ond ddwywaith y flwyddyn ac yn erbyn set gul iawn o fesurau a gwybodaeth y mae'n ofynnol i lawer o dimau adrodd ar eu perfformiad. Mewn sawl awdurdod, nid oes unrhyw graffu ffurfiol ar wasanaethau. Nododd sawl swyddog awdurdod lleol a gyfwelwyd gennym, o'u profiad hwy, ar ôl y diddordeb cynyddol cychwynnol mewn rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau a ddeilliodd o drychineb Grenfell, bod cyswllt rhwng aelodau ac uwch swyddogion yn gyfyngedig gan mwyaf ac yn canolbwyntio ar faterion unigol sy'n peri pryder - strwythur peryglus neu gais rheoli adeiladu gan etholwr. Nododd sawl un fod gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau am reoli adeiladu yn isel a'r risgiau a'r materion sy'n wynebu gwasanaethau'n anhysbys gan mwyaf.
- 3.13 Mewn cyferbyniad, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yr Alban adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad yn erbyn cyfres o ganlyniadau perfformiad allweddol. Yna caiff y canlyniadau hyn eu hasesu ochr yn ochr ag adborth cwsmeriaid a datblygir cynlluniau i helpu i ysgogi gwelliant. Anogir staff i gysylltu'r rhain â champau gwella y gellir eu defnyddio i fonitro cynnydd ac adnabod trywyddion ymholi allweddol i'r rhai sy'n gyfrifol am graffu. Mae allbwn yr asesiad wedi'i fwriadu i fod yn hygyrch i randdeiliaid ar amryw lefelau, gan hysbysu'r llywodraeth am dueddiadau strategol, hyrwyddo gwelliant yn weithredol i ddilyswyr, a chan hefyd ddarparu asesiad tryloyw ar gyfer y cyhoedd.

Mae prosesau rheoli risg yn annigonol

- 3.14 Ceir dull cymysg o asesu risg, gyda rhai timau'n cynnal eu cofrestrau risg eu hunain, rhai yn bwydo i mewn i gofrestrau corfforaethol, a rhai'n peidio â chofnodi risgiau'n ffurfiol nac yn tracio'r modd y maent yn eu lliniaru. Yn wir, nododd sawl swyddog a gyfwelwyd gennym fod risgiau hysbys yn aml yn cael eu nodi'n anffurfiol o fewn timau a bod y rhain yn cael eu hystyried ar wahân i risgiau eraill ar draws y gorfforaeth.
- 3.15 Mae'r dull seilo hwn yn fygythiad i gydnerthedd gan bod y system yn dibynnu'n ormodol ar nifer fach o unigolion sydd â symiau sylweddol o wybodaeth nad yw'n cael ei chofnodi'n ffurfio, yn cael ei rhannu'n ffurfiol gyda chydweithwyr er gwybodaeth, neu'n cael ei huwchgyfeirio ar gyfer gweithredu. Dim ond lleiafrif bach o awdurdodau lleol y siaradom ni gyda hwy allai ddisgrifio'r weithdrefn ffurfiol ar gyfer uwchgyfeirio risgiau, gyda llawer yn cydnabod nad yw protocolau o'r fath yn bodoli. Heb adnabod a chofnodi risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn modd priodol, ni all awdurdodau wneud cynlluniau tymor hwy a pharatoi ar gyfer senarios yn y dyfodol.

- 3.16 Gan nad yw gwybodaeth gyd-destunol yn cael ei hintegreiddio'n rheolaidd â meysydd gwasanaeth eraill, nid yw'n glir bod digon o ddealltwriaeth yn bresennol ymhlith swyddogion atebol ar bob lefel uwchgyfeirio. Pan godir risgiau, anaml y byddant yn cyrraedd y trothwy sy'n ofynnol i gael eu hystyried yn risg gorfforaethol. Mae trywyddion archwilio gwael yn golygu nad yw risgiau'n cael eu lliniaru'n rhagweithiol, a hynny mewn amgylchedd lle mae'r capasiti i ddarparu'r mesur lliniaru hwn yn aml yn gyfyngedig.
- 3.17 Gyda thimau'n aml yn cael eu gadael i weithredu ar wahân, mae codi risgiau corfforaethol ac arwyddocaol eraill yn debygol o fod yn fwy o her nag ar gyfer gwasanaethau uwch eu proffil sy'n cael sylw mwy amlwg ac sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â'r strwythur adrodd corfforaethol. O ganlyniad, efallai na fydd awdurdodau lleol ar eu lefel uchaf yn cael gweld y risgiau niferus sy'n wynebu'r gwasanaeth rheoli adeiladu – cynllunio gwael ar gyfer olyniaeth, gweithlu sy'n heneiddio, diffyg amrywiaeth, cymysgedd sgiliau annigonol, ynghyd â goblygiadau'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau newydd.



Atodiadau

- 1 Ymagwedd a Dulliau Archwilio
- 2 Dogfennau Cymeradwy'r Rheoliadau Adeiladu
- 3 Y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a'r Person Atebol
- 4 Dull yr Alban

1 Ymagwedd a Dulliau Archwilio

Ymagwedd

Ar gyfer y gwaith hwn ein hymagwedd fu deall pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid yn cryfhau ac yn gwella gwasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau yn dilyn Deddf Diogelwch Adeiladau 2022. Rydym wedi bwrw golwg ar gadernid gwybodaeth am anghenion, strategaethau, cynlluniau a pholisïau anghenion; wedi asesu cadernid y gwasanaethau presennol a chynlluniau i gryfhau'r rhain; ac wedi ystyried cadernid systemau sicrwydd.

Gwnaethom archwilio pob un o'r 22 o brif awdurdodau lleol yng Nghymru ar lefel uchel, gan reoli'r modd y cyflawnwyd ein harchwiliad i fod yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar swyddogion awdurdodau lleol yn ystod adferiad ar ôl y pandemig a'r argyfwng costau byw. Fe wnaethom sicrhau bod y gwaith yn ddigonol i gael darlun o'r sector cyfan ond heb iddo dynnu'n sylweddol oddi wrth gyfrifoldebau swyddogion am ddarparu gwasanaethau. Roedd ein hymagwedd yn hyblyg i gyd-fynd ag ymrwymïadau swyddogion wrth gytuno ar ein gwaith maes a'i gyflawni.

Dulliau

Fe wnaethom gwblhau ein hadolygiad rhwng mis Ionawr 2023 a mis Awst 2023 a defnyddio ystod o ddulliau i gyflawni ein gwaith:

- **adolygiad o ddogfennau:** fe wnaethom adolygu dogfennaeth gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Gwasanaethau Tân ac Achub a sefydliadau perthnasol eraill. Roedd hyn yn cynnwys cofnodion pwyllgorau perthnasol, strategaethau corfforaethol, cynlluniau busnes a dogfennau polisi. Fe wnaethom hefyd adolygu gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.
- **cyfweiliadau** – fe gynhaliom ni amrywiaeth o gyfweiliadau gwahanol:
 - **cyfweiliadau gyda swyddogion** – fe wnaethom gyfweild â swyddogion arweiniol Diogelwch Adeiladau ym mhob un o'r 22 o brif awdurdodau lleol yng Nghymru a phob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub. Cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2023.
 - **cyfweiliadau cenedlaethol** – fe wnaethom gyfweild â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, arolygwyr adeiladau cymeradwy'r sector preifat, melinau trafod, sefydliadau academaidd, a chyrrff ymchwil. Digwyddodd y rhain rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2023.
- **grwpiau ffocws** – yn unol â'n hymagwedd, roedd rhai awdurdodau lleol yn teimlo ei bod yn fwy priodol i ni siarad gydag amrywiaeth o swyddogion mewn grwpiau ffocws i leihau ein heffaith ar ddarparu gwasanaethau.
- **casglu data** – fe wnaethom gynnal ymarfer casglu data gyda swyddogion awdurdodau lleol. Fe wnaed hyn rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2023, ac fe gawsom ymatebion gan bob awdurdod lleol. Nid oedd rhai awdurdodau lleol yn gallu darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, ac rydym yn nodi hyn yng nghorff yr adroddiad lle y bo hynny'n berthnasol.
- **arolwg** – gan weithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru fe gynhaliom ni arolwg gyda phob cymdeithas dai yng Nghymru ond dim ond dau ymateb a gafwyd. O ganlyniad, nid ydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon wrth lunio ein canfyddiadau.
- **gwefannau** – awdurdodau lleol ac adnoddau allanol, e.e. CICAIR (Cofrestr Arolygwyr Cymeradwy Cyngor y Diwydiant Adeiladu), LABC, ac ati.

2 Dogfennau Cymeradwy'r Rheoliadau Adeiladu

Mae'r dogfennau cymeradwy yn ymdrin â'r materion canlynol ac fe'u diweddarwyd ddiwethaf ar y dyddiad a restrir:

- Rhan A – [Diogelwch strwythurol](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan B – [Diogelwch Tân](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Rhagfyr 2021
- Rhan C - [Ymwrthedd i halogyddion a lleithder](#) - Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan D - [Sylweddau gwenwynig](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan E - [Ymwrthedd i sŵn](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2022
- Rhan F – [Awyru](#) - Diweddarwyd ddiwethaf Hydref 2022
- Rhan G – [Glanweithdra, diogelwch dŵr poeth ac arbed dŵr](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Mai 2023
- Rhan H – [Systemau draenio a gwaredu gwastraff](#) – diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan J - [Dyfeisiau sy'n cynhyrchu gwres](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan K - [Diogelu rhag syrthio, gwrthdaro a tharo](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan L - [Arbed tanwydd ac ynni](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Mawrth 2023
- Rhan M – [Mynediad i adeiladau a defnydd ohonynt](#) – diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan N – [Diogelwch gwydr](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan O - [Gorgynhesu](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Hydref 2022
- Rhan P – [Diogelwch gyda thrydan](#) – diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2017
- Rhan Q - [Diogelwch](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Mai 2018
- Rhan R - [Seilwaith ffisegol ar gyfer rhwydweithiau cyfathrebu electronig cyflym](#) – Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2016

3 Y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a'r Person Atebol

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dwy rôl newydd - y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau a'r Person Atebol - sydd i fod i ddod i rym ym mis Hydref 2023.

Y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau

Bydd gan y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau dri phrif gyfrifoldeb: goruchwylio diogelwch a safonau pob adeilad; helpu ac annog diwydiant yr amgylchedd adeiledig a gweithwyr rheoli adeiladu proffesiynol i wella eu cymhwysedd; ac arwain y broses o roi'r fframwaith rheoleiddio newydd ar waith ar gyfer adeiladau uchel iawn yn Lloegr. Mae'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau hefyd yn gyfrifol am berfformiad y sector rheoli adeiladu i sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd, ac am osod safonau adeiladu.

Bydd y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau (BSR) yn gyfrifol am oruchwylio systemau diogelwch a pherfformiad pob adeilad. Bydd yn cael pwerau i orfodi'r rheolau a gweithredu yn erbyn y rhai sy'n eu torri. Ac ar gyfer eiddo risg uchel, bydd yn gallu gweithredu rheolau llymach, gan gynnwys sut y cânt eu dylunio, eu hadeiladu a'u meddiannu. Tair prif swyddogaeth y Rheolwr Diogelwch Adeiladau yw:

- goruchwylio'r system diogelwch a pherfformiad ar gyfer pob adeilad: bydd hyn yn cael ei wneud trwy oruchwylio perfformiad cyrff rheoli adeiladu ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, a thrwy ddeall a chynghori ar safonau adeiladu a risgiau i ddiogelwch sy'n bodoli eisoes ac yn dod i'r amlwg;
- rhoi anogaeth ar gyfer mwy o gymhwysedd trwy osod y cyfeiriad ar gyfer pwyllgor cymhwysedd dan arweiniad y diwydiant a sefydlu gofynion cymhwysedd ar gyfer cofrestru gweithwyr proffesiynol rheoli adeiladu; ac
- arwain y broses o roi'r gyfundrefn reoleiddio newydd ar waith ar gyfer adeiladau risg uwch, gan gynnwys meddu ar y pwerau i gynnwys timau eraill, gan gynnwys y Gwasanaeth Tân, wrth wneud penderfyniadau rheoleiddiol ynghylch Diogelwch Adeiladau.

Mae'r Rheolwr Diogelwch Adeiladau newydd o dan reolaeth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) sy'n gyfrifol am oruchwylio a llywio gwelliannau yn diogelwch a pherfformiad pob adeilad, ac am orfodi cyfundrefn fwy llym ar gyfer adeiladau risg uwch.

Yn bwysig, dim ond yn rhannol y mae darpariaethau'r Ddeddf sy'n ymwneud â'r Rheoleiddiwr newydd yn berthnasol i Gymru ac mae union sefyllfa'r llywodraethau datganoledig yn dal heb ei phennu ar hyn o bryd.

Person Atebol

Ar gyfer pob adeilad risg uwch, bydd 'Person Cyfrifol' adnabyddadwy yn cael ei benodi i fod yn gyfrifol am sicrhau bod diogelwch tân a diogelwch strwythurol yn cael eu rheoli'n effeithiol ar gyfer yr adeilad cyfan.

Bydd gan y Person Atebol (perchennog yr adeilad, rhydd-ddeiliad neu gwmni rheoli) ddyletswydd barhaus i asesu risgiau i Ddiogelwch yr Adeilad a darparu 'Adroddiad Achos Diogelwch' sy'n dangos sut y mae risgiau i Ddiogelwch yr Adeilad yn cael eu hadnabod, eu lliniaru, a'u rheoli'n barhaus. Bydd yn rhaid iddynt hefyd ddangos sut y maent yn sicrhau diogelwch preswylwyr. Mewn adeiladau lle mae strwythurau perchnogaeth yn gymhleth, efallai y bydd mwy nag un Person Atebol, ac os felly bydd Prif Person Atebol wedi'i benodi.

4 Dull yr Alban

Model gweithredu

O fewn system yr Alban, penodir dilyswyr adeiladu (syrfewyr) gan y Gweinidog Grymuso a Chynllunio Llywodraeth Leol o dan Ddeddf Adeiladu (Yr Alban) 2003. Mae hyn yn caniatáu i'r Gweinidog benodi unrhyw ddilyswyr adeiladu am gyfnod o chwe blynedd. Ers rhoi'r Ddeddf ar waith yn 2005, dim ond awdurdodau lleol sydd wedi cael eu penodi i gyflawni'r rôl hon.

Cyn eu penodi, rhaid i'r Gweinidog ystyried cymhwysedd, cymwysterau, atebolrwydd cyhoeddus, a didueddrwydd y dilyswyr posibl. Er mwyn dangos y rhain, cyhoeddwyd Fframwaith Gweithredu i egluro sut y gall dilyswyr ddangos yr ymddygiadau hyn.

Ar ôl eu penodi'r dilyswyr, caiff perfformiad ei fonitro o dan Fframwaith Perfformiad. Mae saith deilliant perfformiad allweddol o fewn y fframwaith wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd yn 2021:

- lleihau i'r eithaf yr amser a gymerir i gyhoeddi adroddiad cyntaf neu i ddyroddi gwarant adeiladu neu ddiwygiad i warant adeiladu;
- cynyddu ansawdd yr asesiad o gydymffurfiaeth yn ystod y prosesau adeiladu;
- ymrwymo i'r siarter cwsmeriaid safonau adeiladu;
- deall ac ymateb i brofiad cwsmeriaid;
- cynnal rheolaeth ariannol;
- ymrwymo i eBuildingStandards; ac
- ymrwymo i amcanion a amlinellir yn yr adroddiad blynyddol o berfformiad dilysu.

Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Weinidogion yr Alban bennu rheoliadau adeiladu, y broses ar gyfer cymeradwyo, gorfodi a phennu ffioedd. Pennir ffioedd yn ganolog ac fe'u pennir gan y Gweinidog ar gyfer yr holl awdurdodau. Darperir cyfrifydd o fewn y system eBuildingStandards ar-lein i alluogi ymgeiswyr i gael mynediad at y system a phenderfynu ar eu ffi.24

Ymateb i Grenfell

Yn dilyn Grenfell, sefydlwyd gweithgor gweinidogol ym mis Gorffennaf 2017 i oruchwylio adolygiadau o ddiogelwch adeiladau a thân. Ffurfiwyd paneli adolygu i ymdrin â gwahanol faterion a gwnaethant gyfres o argymhellion ar gyfer rhanddeiliaid. Sefydlwyd y Bwrdd Rhaglen Dyfodol Safonau Adeiladu (Building Standards Futures Programme Board - BSFPB) i ddarparu arweiniad a chyfarwyddyd ynghylch gweithredu'r argymhellion hyn.

Dan gadeiryddiaeth prif weithredwr awdurdod lleol, mae'r Bwrdd yn cynnwys:

- Safonau Adeiladu Awdurdodau Lleol yr Alban (LABSS);
- Homes for Scotland;
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig;
- Construction Scotland;
- Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban;
- Scottish Futures Trust;
- Y Sefydliad Adeiladau Siartredig;
- Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr;
- Royal Incorporation of Architects in Scotland; a
- Llywodraeth yr Alban.

Mae gan y Bwrdd saith ffrwd waith ar y gweill i roi cymorth i roi'r argymhellion ar waith – **Arddangosyn 6**.

Arddangosyn 6: Ffrydiau gwaith Bwrdd Rhaglen Dyfodol Safonau Adeiladu'r Alban

Ffrwd waith	Esboniad
Strategaeth y gweithlu	Rhoi cymorth i fabwysiadu strategaeth y gweithlu a ddatblygwyd mewn ymateb i'r heriau demograffig a wynebir gan y sector.
Cynllun cydymffurfio	Datblygu dull gweithredu ar gyfer adeiladau cyhoeddus cymhleth a gwerth uchel er mwyn sicrhau dull wedi'i gynllunio o gydymffurfio trwy gydol y cyfnod datblygu.
Strategaeth ardystio	Datblygu strategaeth ar gyfer penodi dilyswyr yn y dyfodol.
Trawsnewid digidol	I gefnogi gweithrediad y platfform eBuildingStandards, a lanswyd yn 2016.
Strategaeth dechnegol	Adolygiad o sut mae safonau adeiladu yn cael eu datblygu a'u cyfleu i hyrwyddo cydymffurfiaeth.
Safonau dilysu	Adolygiad o'r fframweithiau gweithredu a pherfformiad i helpu i asesu dilyswyr yn erbyn gofynion a chan gysylltu â sgiliau.
Modelau cyflawni	Adolygiad i ystyried newidiadau i fodelau busnes o fewn y 32 o awdurdodau lleol, gan gynnwys y prosiect hybiau.

Ffynhonnell: [BSFPB](#)

Hefyd, er mwyn sicrhau mwy o gydymffurfio ac ymateb i argymhellion, cyflwynwyd Fframwaith Cymhwysedd Proffesiynol ym mis Mai 2021. Sefydlodd hyn rolau swyddi safonedig sy'n cyfateb i ddyfarniadau addysgol a chymwysterau proffesiynol. Mae hefyd yn darparu enghreifftiau o gymhwyseddau yn seiliedig ar brofiad i gyfateb i staff presennol, megis sgiliau rheoli a llywodraethu ariannol profedig neu hyfforddiant arbenigol penodol fel diogelwch ar feysydd chwaraeon. Mae'r fframwaith yn helpu i sicrhau bod dilyswyr adeiladu ar bob lefel yn gallu dangos eu bod yn ddigon cymwys.

Er mwyn gwreiddio'r Fframwaith, cyhoeddwyd System Asesu Cymhwysedd (CAS). Mae hon yn galluogi unigolion i nodi eu bylchau o ran dysgu a phrofiad er mwyn gallu targedu hyfforddiant a datblygiad y gweithlu yn well.

Model hybiau lleol

O'r BSFPB, datblygwyd model cyflawni newydd trwy'r Grŵp Datblygu Model Cyflawni (DMDG), a hwnnw'n cynnwys Is-adran Safonau Adeiladu Llywodraeth yr Alban, Safonau Adeiladu Awdurdodau Lleol yr Alban (LABSS), yr awdurdod lleol lletyol (Cyngor Fife) a Chyfarwyddwyr yr Hybiau, i feithrin cydweithio a gweithredu'r argymhellion ar gyfer gwella diogelwch adeiladau a chynyddu cydymffurfiaeth. Lanswyd hwn ym mis Mai 2022 ac mae'n cael ei gyflwyno fesul cam ac mae'n canolbwyntio ar chwe uned fusnes – **Arddangosyn 7**.

Arddangosyn 7: Ffrydiau gwaith Bwrdd Rhaglen Dyfodol Safonau Adeiladu'r Alban

Uned fusnes	Swyddogaeth a gwasanaethau
Uned Partneriaeth Weithredol	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal rhwydwaith o gyrff • Rhannu llwyth gwaith • Mynediad at strwythur arbenigol a hybiau tân • Hwyluso arfer gorau
Uned Cynllun Cymeradwyaeth Teip yr Alban	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli'r cynllun • Marchnata • Pennu ffioedd
Uned Gweithdrefn a Thechnegol	<ul style="list-style-type: none"> • Ymchwil dechnegol • Cynhyrchu papurau gwybodaeth • Cefnogaeth dechnegol i'r hyb
Uned Trawsnewid Digidol	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi'r grŵp cyflawni digidol • Rolau cyswllt a chymorth gyda rhanddeiliaid, LABSS, a rhanddeiliaid eraill

Uned fusnes**Swyddogaeth a gwasanaethau**

Uned Dysgu a Datblygu

- Rheoli a gweithredu amgylchedd dysgu rhithwir
- Rheoli a gweithredu system rheoli dysgu
- Cymorth gyda chynlluniau prentisiaid
- Cymorth gyda DPP (Datblygiad Proffesiynol Parhaus)
- Rheoli swydd y dilysydd mewn perthynas â'r Cynllun Asesu Cymhwysedd (CAS)

Uned Fusnes Graidd

- Rheoli'r hyb
- Cymorth busnes a gweinyddol
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Ffynhonnell: BSFPB



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2023

Cyfeirnod y ddogfen:

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A1	<p>Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurder ynghylch gweithredu a disgwyliadau'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau newydd. Dylai hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Egluro'r gofynion manwl ar gyfer cymhwysedd a chofrestru er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn; 	Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.	Amherthnasol	Amherthnasol

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> • Amserlen benodol ar gyfer datblygu a mabwysiadu canllawiau ar gyfer Cymru i sicrhau y gall awdurdodau lleol ac eraill gyflawni eu dyletswyddau; a • dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, fel LABC Cymru, i roi cymorth i ddeall y canllawiau a'u rhoi ar waith pan gânt eu cyhoeddi. 			
A2	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau i gyflawni'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi ar gyfer Diogelwch Adeiladau er mwyn lleihau risgiau i'w rhoi ar waith.	Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.	Amherthnasol	Amherthnasol
A3	Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dull marchnad gymysg o reoli adeiladu a dod i'r casgliad pa un a yw'n parhau i fod yn briodol ac yn effeithiol o ran cadw adeiladau yng Nghymru'n ddiogel. Dylai'r adolygiad hwn: <ul style="list-style-type: none"> • asesu'r sefyllfa fel ag y mae yn erbyn newidiadau posibl, megis y model cyflawni yn yr Alban; • bod wedi'i fframio ar sail dadansoddiad SWOT o gostau, manteision, bygythiadau a risgiau; • manteisio ar ymchwil sy'n bodoli eisoes i adnabod arfer da; a • chael ei gyhoeddi gan gytuno ar ffordd ymlaen. 	Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.	Amherthnasol	Amherthnasol

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A4	<p>Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei gwaith i oruchwylio a rheoli'r sector rheoli adeiladu er mwyn sicrhau bod system sicrwydd gadarn ar waith ar gyfer rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • greu fframwaith perfformiad cenedlaethol gyda safonau gwasanaeth eglur i hybu cysondeb o ran y gwasanaeth. Dylai hyn hefyd gynnwys mesurau deilliant i fonitro perfformiad a fframwaith gwerthuso ac adrodd ar gyfer craffu. • datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau i fynd i'r afael â'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r sector. Dylai hyn gynnwys casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd, yn ogystal â chwmpasu blaenoriaethau, megis: <ul style="list-style-type: none"> - mwy o ffocws ar hyfforddeion i liniaru risgiau i olyniaeth; - sefydlu rolau swyddi cenedlaethol, cyson sy'n cyfateb i lefelau cymhwysedd; - cynyddu amrywiaeth y sector i sicrhau ei fod yn adlewyrchu Cymru fodern; a - dylid ystyried cyllid penodol hefyd i alluogi syrfewyr i ennill a chynnal cymhwysedd. 	Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.	Amherthnasol	Amherthnasol

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> dylai Llywodraeth Cymru archwilio gyda'r sector addysg bellach sut orau i ddarparu hyfforddiant rheoli adeiladu yng Nghymru i roi cymorth i gynllunio ar gyfer olyniaeth, datblygu sgiliau a sicrhau cymhwysedd. 			
A5	<p>Dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheoli adeiladu er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer rhoi gofynion y Ddeddf ar waith. Dylai'r Cynlluniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> fod yn seiliedig ar asesiad o risgiau lleol ac yn cynnwys camau lliniaru; nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau rheoli adeiladu i gyflawni eu holl gyfrifoldebau statudol; dangos rôl allweddol rheoli adeiladu o ran sicrhau adeiladau diogel a bod yn gysylltiedig ag amcanion llesiant ac amcanion corfforaethol eraill; a chynnwys mesurau deilliant sy'n canolbwyntio ar yr holl wasanaethau rheoli adeiladu, nid strwythurau peryglus yn unig. 	<p>Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sefydlu Gweithgor a fydd yn datblygu cynllun ar gyfer yr Adran Rheoli Adeiladu er mwyn sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd hyn yn rhoi ystyriaeth lawn i natur y diwydiant adeiladu yng Ngheredigion ac anghenion y boblogaeth leol, a bydd yn darparu gwasanaethau yn unol â gofynion y safonau gweithredu newydd ar gyfer rheoli adeiladu yng Nghymru ac amcanion corfforaethol yr awdurdod.</p>	Mawrth 2024	Roger Turner (RT)
A6	<p>Dylai awdurdodau lleol fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau. Dylai hyn gynnwys:</p>	<p>Mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati ar frys i adolygu holl elfennau ein rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010.</p>	Rhagfyr 2023	RT

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> • sefydlu amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd i sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu cost gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau; • adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi'r wybodaeth honno'n flynyddol yn unol â'r Rheoliadau; • sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r Rheoliadau ac yn dehongli adroddiadau ariannol yn gywir; a • diwygio ffioedd i sicrhau y codir am wasanaethau yn unol â'r Rheoliadau. 			
A7	<p>Dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig trwy archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio a rhanbartholi i gryfhau cydnerthedd trwy ddadansoddiad cost a budd o bartneru gydag awdurdodau cyfagos, sefydlu cyd-fentrau a / neu fabwysiadu model rhanbarthol lle y bo hynny'n fuddiol.</p>	<p>Sir wledig yw Ceredigion ac er nad yw'n unigryw mae'n wahanol iawn i'r awdurdodau mwy poblog sy'n llai yn ddaearyddol a geir yn y gogledd ac yn benodol yn ne'r wlad. Yn gyffredinol, mae'r canolfannau poblogaeth wedi'u lleoli i ffwrdd o'r ffiniau mwy gwledig ag awdurdodau cyfagos. Mae'r amgylchiadau hyn yn atal cydweithio trawsffiniol ar swyddogaethau sy'n 'seiliedig ar safleoedd'.</p> <p>Efallai y bydd cyfleoedd yn codi i gydweithio ar ddigwyddiadau hyfforddi a gwirio cynlluniau. Mae'r olaf o'r rhain eisoes yn digwydd i raddau oherwydd ymddengys fod mwyafrif yr awdurdodau wedi cofrestru ar gynllun</p>	Rhagfyr 2023	RT


Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		<p>Partneriaeth Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol a byddai gwelliant pellach yn bosib pan fydd y sefyllfa o ran adnoddau'n golygu bod angen cymorth trawsffiniol.</p> <p>Rhagwelir y byddai angen cymorth trawsffiniol os bydd unrhyw Adeiladau Risg Uchel yn cael eu hadeiladu, sy'n annhebygol, gan nad yw'n debygol y bydd staff Rheoli Adeiladu Ceredigion yn mynd ati i geisio ennill cymhwysedd ar lefel na phroffir yn y sir ar hyn o bryd.</p> <p>Er gwaethaf y cyfyngiadau a amlinellir uchod, mae Ceredigion yn parhau i fod yn agored i ddichonoldeb dulliau cyflenwi amgen os daw rhai i'r amlwg.</p>		
A8	Dylai awdurdodau lleol adolygu prosesau rheoli risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu cofnodi, eu hasesu, a'u lliniaru mewn modd systematig ac y gwneir gwaith rheolaidd i'w gwerthuso ac i graffu arnynt.	<p>"Mae'r Cyngor yn adolygu ei Bolisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg bob 3 blynedd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r arfer gorau. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf yn ddiweddar a bydd y Cyngor yn ymgynghori ar ddrafftiau diwygiedig y Polisi, y Strategaeth a'r Fframwaith gyda rhanddeiliaid allweddol rhwng mis Gorffennaf a mis Awst, cyn mynd drwy'r broses ddemocrataidd yn yr hydref. Mae'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg yn darparu fframwaith a phroses gynhwysfawr a gynlluniwyd i gefnogi Aelodau a Swyddogion i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli risg yn llawn. Mae hyn yn cynnwys dull safonol o nodi, asesu ac ymateb i risgiau.</p>	Rhagfyr 2023	Rob Starr

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		<p>Mae'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau newydd wedi cyflwyno risgiau ychwanegol sy'n benodol i'r swyddogaeth Rheoli Adeiladu. I'r perwyl hwn bydd staff yn cael eu cefnogi i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn meddu ar y cymwysterau priodol i gynnal a diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth fel y gellir cyflawni'r swyddogaethau statudol.</p> <p>Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei gwerthuso'n barhaus gan y Grŵp Arweiniol ac yn chwarterol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r dogfennau diwygiedig yn cynnwys cryfhau'r dull o fonitro risgiau i'r gwasanaeth, egluro rolau a chyfrifoldebau, ac arweiniad pellach ar ddwysáu / dad-ddwysáu risgiau. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod bod dull rhagweithiol o reoli risg yn hanfodol ar gyfer cyflawni ei weledigaeth a gwella llesiant ei gymunedau a'i drigolion.</p> <p>Cam Gweithredu: Cyhoeddi Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg wedi'u diweddarau erbyn mis Rhagfyr 2023."</p>		

Aseidiadau o'r effaith ar gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Medi 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer cyflwyniad i'r Senedd o dan adran 145A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol	4
Ffeithiau allweddol	6
Negeseuon allweddol	7
Argymhellion	17
Adroddiad manwl	
1 Trefniadau cefnogi ar gyfer cynnal Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.	19
2 Asesu effeithiau	30
3 Adrodd a monitro effeithiau	41
Atodiadau	
Dull a methodoleg yr archwiliad	47



Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol

Mae gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn parhau i effeithio ar ansawdd bywyd a chyfleoedd bywyd pobl yng Nghymru. Amlygodd fy adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 fod pandemig COVID-19 wedi dangos rhai o'r anghydraddoldebau sydd wedi ymwreiddio yn ein cymunedau. Mae mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, MeToo a mudiadau cymdeithasol eraill wedi dod â materion gwahaniaethu ac anghydraddoldeb i amlygrwydd ym maes polisi a thrafodaeth gyhoeddus.

Mae Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan bwysig o'r dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i osgoi gwahaniaethu yn y penderfyniadau y maent yn eu gwneud ac i hybu cyfle cyfartal a chydlyniant.

Wedi'i wneud yn dda, mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fwy na modd o ddangos cydymffurfiaeth. Maent yn cefnogi twf meddylfryd a diwylliant sy'n rhoi materion cydraddoldeb wrth wraidd gwneud penderfyniadau a datblygu polisi.

Mae ein gwaith yn dangos bod enghreifftiau da o agweddau ar y broses o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o fewn cyrff cyhoeddus unigol. Drwy'r adroddiad hwn, rwyf eisiau helpu pob corff cyhoeddus i ddysgu gan y rhai sy'n gwneud hyn yn dda ac yn rhoi cynnig ar ddulliau newydd.

Fodd bynnag, mae'r hyn yr ydym wedi'i weld a'i glywed yn dweud wrthym ni fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn tueddu i ddefnyddio eu Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn amddiffynol. Yn rhy aml, maen nhw'n ymddangos fel ymarfer blwch ticio i ddangos bod y corff wedi meddwl am faterion cydraddoldeb rhag ofn y bydd her i hynny. Er bod her gyfreithiol yn risg bwysig i'w rheoli wrth gwrs, mae'r dull hwn yn golygu nad yw cyrff cyhoeddus yn defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'w llawn botensial, yn enwedig o ran hybu cydraddoldeb a chydlyniant.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i unrhyw un sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus ac sydd â diddordeb mewn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hybu cydraddoldeb. Er hynny, rwyf eisiau i'r gwaith hwn fod yn fwy na diddorol. Mae angen iddo gael effaith. Yn benodol, rwy'n disgwyl:

- i Lywodraeth Cymru ymateb i'r argymhellion i weithio gyda phartneriaid i wella a diweddarau'r dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- i bob corff cyhoeddus ymateb i'r argymhelliad eu bod yn adolygu eu dulliau eu hunain o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys meddylfryd a diwylliant, gan ddefnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn; ac
- i'r rhai sy'n ymwneud â chraffu ddefnyddio'r adroddiad hwn i herio dull cyffredinol eu sefydliad o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb unigol a ddefnyddir i lywio eu penderfyniadau.

Mae'n dda gennyf ddweud bod y gwaith hwn eisoes wedi cael effeithiau cadarnhaol. Mae ein cwestiynau gwaith maes wedi ysgogi rhai cyrff cyhoeddus i wirio agweddau ar eu trefniadau eu hunain. Ac rydym wedi rhannu canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gyda rhai cyrff cyhoeddus a oedd yn diweddarau eu dull o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Yn nes at adref, yn Archwilio Cymru, rydym yn edrych yn fanwl ar ein prosesau a'n gweithdrefnau ein hunain i adlewyrchu'r gwersi a nodwyd yn y gwaith hwn.




Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol
Cymru

Ffeithiau allweddol

Fe nodir isod rai ffeithiau allweddol am y boblogaeth yng Nghymru yng nghydestun y naw nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.



Ffynonellau:

1. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd, Cyfrifiad 2021, Mehefin 2022
2. StatsCymru, Anabledd yn ôl oedran a rhyw (diffiniad Deddf Cydraddoldeb) (2018-2020)
3. StatsCymru, Statws priodasol fesul oedran a rhyw (2018-2020)
4. StatsCymru, Statws crefydd yn ôl oedran (2018-2020)
5. ONS, Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl grŵp ethnig, Cymru a Lloegr Rhagfyr 2021 (data ar gyfer 2019)
6. StatsCymru, Hunaniaeth Rywiol yn ôl blwyddyn, 2019
7. Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, Arolwg Cenedlaethol LHDT, Gorffennaf 2018 (cynhaliwyd yr arolwg am 12 wythnos o fis Gorffennaf 2017)
8. StatsCymru, Dangosyddion asesiad cychwynnol Cymru, yn ôl oedran y fam, 2021

Negeseuon allweddol

Cyd-destun

- 1 Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn nod hirsefydlog gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos yn amlwg yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 sy'n cynnwys yr amcan i 'ddathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math'¹. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud 'Cymru sy'n fwy cyfartal' yn nod cenedlaethol. Mae'n diffinio hyn fel 'cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol)'.
- 2 Mae Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan bwysig o'r dull o fynd i'r afael â gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb yng Nghymru. Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) ar draws Prydain Fawr (**Arddangosyn 1**). Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei rheoliadau ei hun² sy'n nodi rhai dyletswyddau penodol i Gymru y mae angen i gyrff a restrir yn y Ddeddf eu dilyn i fodloni'r DCSC. Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf asesu effeithiau tebygol polisïau neu arferion arfaethedig neu newidiadau arfaethedig i bolisïau neu arferion presennol ar eu gallu i fodloni'r DCSC. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion penodol i ymgysylltu â grwpiau sy'n debygol o gael eu heffeithio a monitro effeithiau gwirioneddol.

1 Llywodraeth Cymru, Y Rhaglen Lywodraethu: diweddariad, Rhagfyr 2021

2 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Arddangosyn 1: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a nodweddion gwarchoddedig

Mae'r DCSC yn gofyn i gyrrff cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyladwy i'r angen i:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- cynyddu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Y nodweddion gwarchoddedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Ddeddf a'r dyletswyddau penodol i Gymru yn berthnasol i gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys cynghorau, cyrff y GIG, gwasanaethau tân ac achub, parciau cenedlaethol, cyrff addysg (cyrff addysg bellach ac addysg uwch ac ysgolion a gynhelir), a Llywodraeth Cymru a rhai o'i chyrrff a noddir.

- 3 Gall Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ddarparu tystiolaeth bod y corff wedi bodloni'r DCSC. Bu heriau cyfreithiol i benderfyniadau ar sail diffyg neu ddigonolrwydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Ar ben hynny, mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cefnogi polisi a gwneud penderfyniadau da yn fwy cyffredinol drwy:
 - **sicrhau bod penderfyniadau'n effeithio ar grwpiau gwarchoddedig mewn ffordd deg** – gall Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ddangos pa gamau, os o gwbl, y gellid eu cymryd i liniaru'r effaith ar un neu ragor o grwpiau gwarchoddedig yr effeithir arnynt yn negyddol gan benderfyniad ac i hybu cydraddoldeb a chydlyniant;
 - **cefnogi polisi neu benderfyniadau ar sail tystiolaeth** – mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ffordd glir a strwythuredig o gasglu, asesu a chyflwyno tystiolaeth berthnasol i gefnogi penderfyniadau; a
 - **gwneud penderfyniadau'n fwy tryloyw** – rhaid cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan fyddant yn dangos bod neu'n debygol o fod effaith sylweddol.

- 4 Yn ogystal â'r DCSC, roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus³. Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, 'wrth wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut byddant yn cyflawni eu swyddogaethau, yn ystyried pa mor briodol yw eu harfer mewn ffordd sydd wedi cael ei dylunio i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.' Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori cyrff cyhoeddus i ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fel rhan o'r prosesau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys asesiadau effaith. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu gwaith llywodraeth leol er mwyn mynd i'r afael â thlodi, gan gynnwys agweddau o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a phrofiad bywyd pobl sy'n profi tlodi.

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 5 Gwnaethom edrych yn gyffredinol ar y dull o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Er mwyn rhoi pwyslais i'n gwaith, gwnaethom ganolbwyntio ar y 44 corff cyhoeddus a oedd yn wreiddiol yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y prif grŵp sy'n cael sylw gan yr DCSC na wnaethom eu cynnwys oedd y cyrff addysg - sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ac ysgolion a gynhelir – a Chyd-bwyllgorau Corfforedig.
- 6 Canolbwyntiwyd yn bennaf ar ddeall dulliau cyrff cyhoeddus gyda'r bwriad o ddod o hyd i arferion da neu ddiddorol a nodi unrhyw feysydd cyffredin i'w gwella. Ni wnaethom werthuso dulliau cyrff cyhoeddus unigol yn fanwl. Mae rhagor o fanylion yn **Atodiad 1** am ein dull archwilio a'n methodoleg. Pan fyddwn yn nodi arferion cyrff unigol, nid yw hyn yn golygu eu bod o reidrwydd ar eu pennau eu hunain o ran bod ag arferion da neu ddiddorol yn y maes hwnnw.
- 7 Mae rhannau un i dri o'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ein hystyriaeth o'r broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn y 44 corff cyhoeddus. Isod, rydym yn nodi'r prif feysydd ar gyfer gwella a nodwyd gennym. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i sut mae cyrff cyhoeddus yn cynnal rhannau penodol o'r prosesau ac yn cynnig cipolwg ar y dull cyffredinol o asesu effeithiau polisïau ac arferion a'r meddylfryd a'r diwylliant sy'n sail iddynt.

3 Gwnaeth y ddyletswydd orwedd yn segur ar y llyfr statud gan na wnaeth Llywodraeth y DU ei chychwyn. Rhoddodd Deddf Cymru 2017 bwerau newydd i Weinidogion Cymru a chaniatáu iddynt gychwyn ar y ddyletswydd yn Cymru. Mae'n cwmpasu y rhan fwyaf o fathau o gyrff cyhoeddus cyrff sy'n ddarostyngedig i'r DCSC.

- 8 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu rheoliadau penodol DCSC Cymru. Rydym wedi fframio ein meysydd gwella allweddol a'n hargymhellion yng nghyd-destun y cyfle y mae'r adolygiad yn ei gynnig i egluro agweddau ar y dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng Nghymru.

Meysydd gwella allweddol

- 9 Yn gadarnhaol, mae enghreifftiau o arfer da mewn agweddau ar y broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar draws y cyrff cyhoeddus y gwnaethom edrych arnynt. Yn ogystal â hyn, mae canllawiau anstatudol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol⁴ ac ar Dudalennau Arferion Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yng Nghymru (Tudalennau Arferion) am y prosesau manwl ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn defnyddio'r canllawiau hyn i lywio eu dulliau gweithredu. Fodd bynnag, mae meysydd i'w gwella (**Arddangosyn 2**).

4 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Asesu Effaith a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb: Arweiniad i Awdurdodau Cyhoeddus Rhestredig yng Nghymru, Hydref 2014; a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Canllawiau Technegol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus: Cymru, Awst 2014.

Arddangosyn 2: meysydd gwella allweddol ar gyfer Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb



Mwy o eglurder ynglŷn â pha fath o bolisiâu ac arferion y mae'n rhaid asesu eu heffaith



Mwy o eglurder am y trefniadau ar gyfer asesu effaith polisiâu ac arferion cydweithredol



Mwy o eglurder ynglŷn â disgwyliadau i ystyried y DCSC fel rhan o aseiad effaith integredig



Nodi yn well ac yn fwy amserol effeithiau ymarferol penderfyniadau ar bobl a sut mae gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn croestorri



Mwy o ymgysylltu a chynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig



Monitro'n well gwir effeithiau polisiâu ac arferio ar bobl



Newid yn y meddylfryd a'r diwylliannau i symud Aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb i ffwrdd o gael ei weld fel ymarfer 'blwch ticio' ychwanegol

Mwy o eglurder ynglŷn â pha fath o bolisïau ac arferion y mae'n rhaid asesu eu heffaith

- 10 Mae lle i Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid, egluro ei disgwyliadau o ran pa fath o bolisïau ac arferion y mae'n rhaid asesu eu heffaith. Fel y'u drafftwyd, mae'r dyletswyddau penodol i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu'r holl bolisïau neu arferion newydd, neu'r rhai sy'n cael eu hadolygu. Ond mae canllawiau anstatudol y Comisiwn Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod 'polisïau ac arferion' yn gategori eang ac yn dweud efallai bod angen i gyrff cyhoeddus flaenoriaethu. Mae'n cyflwyno cysyniadau 'cymesuredd' a 'pherthnasedd', ac mae'n dweud y gall gyrff cyhoeddus eu cymhwyso drwy broses a elwir yn 'sgrinio'.
- 11 Rydym yn credu bod y sefyllfa bresennol yn agored i'w dehongli o ran a yw cymesuredd a pherthnasedd yn golygu y dylai gyrff cyhoeddus: (a) flaenoriaethu penderfyniadau mawr, fel penderfyniadau cyllideb neu newid gwasanaeth mawr; neu (b) blaenoriaethu penderfyniadau sydd yn debygol o gael effaith fawr ar rai grwpiau, er enghraifft, gallai penderfyniadau ar raddfa fach gael effaith fawr ar un rhan o'r boblogaeth. Ar ben hyn, mae llawer o gyrff wedi dehongli cymesuredd fel penderfynu faint o waith sydd angen ei wneud i asesu effeithiau, yn hytrach nag a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bolisi neu arfer.
- 12 Yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu'r penderfyniadau sgrinio y mae gyrff cyhoeddus yn eu cyhoeddi fel arfer yw'r rhai sy'n mynd i'w byrddau neu eu cabinetau. Maen nhw felly'n tueddu i fod ar ben mwy strategol neu lawn effaith y raddfa. Er na wnaethom archwilio arferion manwl mewn gyrff unigol, rydym yn credu bod risg y gallai gyrff cyhoeddus fod yn hidlo polisïau ac arferion sydd ar raddfa lai yn anffurfiol nad oes angen penderfyniadau gan fwrdd neu gabinet, er y gallant effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Mwy o eglurder am y trefniadau ar gyfer asesu effaith polisiau ac arferion cydweithredol

- 13 Mae lle i egluro sut y dylai cyrff cyhoeddus wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn amgylchedd o gydweithio cynyddol. Mae'r gyfraith yn gosod dyletswyddau ar gyrf cyhoeddus unigol. Ers i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, mae cyrff cyhoeddus yn datblygu cynlluniau a darparu gwasanaethau fwyfwy trwy drefniadau cydweithredol. Diweddarodd Llywodraeth Cymru'r ddeddfwriaeth i ymestyn dyletswyddau DCSC a dyletswyddau penodol i Gymru i Gyd-bwyllgorau Corfforedig mewn llywodraeth leol, ond mae trefniadau cydweithredol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys. Mae'r rhain yn cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ogystal â nifer o gydweithrediadau penodol i wasanaethau.
- 14 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau annibynnol ar ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy drefniadau cydweithredol, er bod canllawiau ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn tynnu sylw at ofynion Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cyrff cyhoeddus unigol⁵. Mae canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2014 yn rhagddyddio creu llawer o'r trefniadau hyn ac yn cynnig cyngor ar lefel uchel y dylid bod â dull a rennir ond nid yw'n dweud sut y dylai hyn weithio'n ymarferol.

5 Llywodraeth Cymru, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (RhPRhD 3: Rôl Gytûn (byrddau gwasanaethau cyhoeddus)), Chwefror 2016.

Mwy o eglurder ynglŷn â'r disgwyliadau i ystyried y DCSC fel rhan o asesiad effaith integredig

- 15 Yn gynyddol, mae cyrff cyhoeddus yn integreiddio eu Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ag aseidiadau effaith eraill. Er nad oes gofyniad cyfreithiol i integreiddio aseidiadau, mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)⁶ yn pwysleisio'r cyfleoedd i gyrff integreiddio eu hagwedd at wahanol ddyletswyddau, gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dywedodd llawer o'r swyddogion cydraddoldeb⁷ y buom yn siarad â nhw fod integreiddio aseidiadau effaith wedi arwain at broses symlach a dull mwy llyfn o feddwl am effeithiau. Prif anfantais hyn yw bod yr asesiad yn hirach a gall ymddangos yn frawychus. Nododd ein hadolygiad o Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd risg bod aseidiadau effaith integredig yn gwanhau'r pwyslais ar effeithiau polisïau ac arferion ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- 16 Mae cyrff cyhoeddus yn anghyson yn yr hyn y maen nhw'n ei gynnwys mewn asesiad effaith integredig. Yn bennaf, maen nhw'n casglu aseidiadau ar wahân mewn un ddogfen, yn hytrach na chynhyrchu dadansoddiad gwirioneddol integredig o effeithiau. Nid oes canllawiau penodol i gefnogi cyrff cyhoeddus i gynnal aseidiadau effaith integredig. Byddai llawer o swyddogion cydraddoldeb yn croesawu canllawiau cliriach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'i disgwyliadau.

6 Llywodraeth Cymru, Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (RhPRhD 2: Rôl Unigol (cyrff cyhoeddus)), Chwefror 2016.

7 Rydym wedi defnyddio'r term 'swyddog cydraddoldeb' drwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio at staff mewn cyrff cyhoeddus sydd â swyddogaethau arbenigol arweiniol penodol ar gyfer cydraddoldeb, boed hynny eu swydd llawn amser neu'n rhan o'u swydd. Mae'r ffordd y mae'r swyddi hyn wedi'u strwythuro, a'u lefel yn y sefydliad, yn amrywio.

Nodi yn well ac yn fwy amserol effeithiau ymarferol penderfyniadau ar bobl a sut mae nodweddion gwarchoddedig gwahanol yn croestorri

- 17 Ceir enghreifftiau o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n nodi effeithiau tebygol ar grwpiau o bobl yn glir. Fodd bynnag, roedd llawer o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a adolygwyd gennym yn ddisgrifiadol. Fe wnaethon nhw nodi y gallai polisi neu'r arferion effeithio ar grŵp o bobl. Ond nid oeddynt yn dangos sut y byddai'n effeithio ar fywydau pobl yn ymarferol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau asesu pa mor bwysig yw'r effeithiau tebygol ac os byddai unrhyw fesurau lliniarol a gynigir yn ddigonol.
- 18 Yn gyffredinol, mae cyrff cyhoeddus yn tueddu i nodi effeithiau negyddol y mae angen iddyn nhw eu lliniaru pan fo hynny'n bosibl. Maent yn llai tebygol o nodi ffyrdd posibl y gallai'r polisi neu'r arferion hybu cyfle cyfartal a chydlyniant yn gadarnhaol, er bod hyn yn ofyniad i'r DCSC.
- 19 Prin yw'r cyrff cyhoeddus sydd wedi llwyr afael yn y cymhlethdod o nodi effeithiau tebygol polisiâu ac arferion. Nid oedd yr un o'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yr edrychom ni arnynt yn ystyried yr hyn a elwir yn 'croestoriadedd'; y ffordd y mae gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn cyfuno. Er enghraifft, er bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o bosibl yn nodi effeithiau ar bobl Fwslimaidd, efallai na fydd yn cydnabod y gallai effeithiau fod yn wahanol iawn i fenyw Fwslimaidd o'i gymharu â dyn Mwslimaidd.
- 20 Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn meddwl am sut i nodi effeithiau cronus sawl penderfyniad ond ychydig sy'n gwneud hynny. Nid oes gan y rhan fwyaf systemau ategol a fyddai'n galluogi'r rhai sy'n cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen am benderfyniadau eraill.
- 21 Mae prosesau a chanllawiau ffurfiol y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn dweud y byddan nhw'n dechrau meddwl am effeithiau yn gynnar iawn yn y broses datblygu polisi. Fodd bynnag, roedd llawer o'r swyddogion cydraddoldeb yn cydnabod bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ymarferol, yn aml yn dechrau'n hwyr yn y broses, weithiau'n fuan iawn cyn y bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Mae hyn yn lleihau'r cwmpas i lywio'r polisi neu'r arferion ac i liniaru effeithiau.

Mwy o ymgysylltu a chynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig

- 22 Mae enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn ceisio barn gan bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ac yn defnyddio eu profiad bywyd fel rhan o'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Ond mae rhai gyrff trydydd sector yn poeni nad yw hyn yn digwydd yn ddigonol. Gwelsom, pan fo gyrff cyhoeddus yn gofyn am farn, bod y rhain yn aml yn rhan o ymgynghoriad agored ehangach yn hytrach nag yn canolbwyntio ar grwpiau penodol sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- 23 Dywedodd rhai sefydliadau yn y trydydd sector mai gwranddo ar bobl â nodweddion gwarchoddedig oedd y weithred a fyddai'n gwella Aseiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fwyaf. Ni allai gyrff cyhoeddus cynrychioliadol cenedlaethol bob amser ymateb i nifer y ceisiadau i gymryd rhan yn Aseiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y maent yn eu derbyn ac nid oedd ganddynt y ddealltwriaeth na'r wybodaeth bob amser i ymateb i faterion lleol.

Monitro'n well gwir effeithiau polisiau ac arferion ar bobl

- 24 Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud mwy i fonitro effaith polisiau neu benderfyniadau ar grwpiau gwarchoddedig. Nododd swyddogion cydraddoldeb mewn gyrff cyhoeddus unigol mai ychydig iawn o enghreifftiau o gyrff cyhoeddus sy'n monitro gwir effeithiau polisi neu benderfyniad ar ôl eu gweithredu. Roedd yr enghreifftiau hynny a gyflwynwyd yn gyffredinol yn adlewyrchu monitro ehangach o amcanion polisi yn hytrach nag a oedd yr effeithiau a nodwyd yn yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu gwireddu neu a oedd effeithiau eraill nas rhagwelwyd.

Newid yn y meddylfryd a'r diwylliannau sy'n symud Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ffwrdd o gael ei weld fel ymarfer 'blwch ticio' ychwanegol

- 25 O'r hyn rydyn ni wedi'i weld does dim newid digonol wedi bod yn y meddylfryd a'r diwylliant mewn gwasanaethau cyhoeddus i roi materion cydraddoldeb wrth wraidd llunio polisiau. Mae'r meddylfryd a ddatgelwyd gan yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn aml yn amddiffynol: defnyddio Aseiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i brofi bod y corff wedi talu sylw dyladwy i gydraddoldeb rhag ofn y bydd her wleidyddol neu gyfreithiol. Yn aml, mae'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymddangos fel ymarfer 'blwch ticio' ychwanegol i gydymffurfio ag ef yn hytrach nag yn fodd o hyrwyddo cydraddoldeb.

Argymhellion

Argymhellion

Egluro cwrpas y ddyletswydd i asesu effaith polisïau ac arferion

- A1 Mae lle i ddrysu ynghylch pa fath o bolisïau ac arferion y mae'n rhaid iddynt fod yn destun asesiad o'u heffaith ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.
- Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei dehongliad o'r ddyletswydd, gan gynnwys a yw'n disgwyl i gyrff cyhoeddus ddefnyddio unrhyw brawf o gymesuredd a pherthnasedd a sut i wneud hynny.**

Creu darlun o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da

- A2 Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnal asesiadau effaith integredig sy'n cynnwys ystyried y DCSC ochr yn ochr â dyletswyddau eraill. Ond mae'r arfer yn anghyson ac yn aml yn cynnwys coladu nifer o asesiadau mewn un lle, yn hytrach na'u bod wir wedi'u hintegreiddio, i helpu i sicrhau cymaint o'r manteision a fwriadwyd â phosibl yn sgil asesiadau effaith integredig, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant yn y meysydd a gwmpesir yn gyffredin gan asesiadau effaith integredig a'r rhai sydd â phrofiadau byw, i rannu yr hyn a ddysgwyd a gweithio tuag at ddealltwriaeth gyffredin o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da.

Argymhellion

Cymhwyso'r dyletswyddau cydraddoldeb i gydweithrediadau cyrff cyhoeddus a phartneriaethau

A3 Mae tirwedd y sector cyhoeddus wedi newid ers cyflwyno'r DCSC a dyletswyddau penodol i Gymru, ac mae pwyslais cynyddol ar gynllunio a chyflawni cydweithredol. **Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oes angen diweddar rheoliadau penodol i Gymru i gwmpasu ystod ehangach o drefniadau cydweithredol a phartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus, byrddau partneriaethau rhanbarthol a phartneriaethau eraill sy'n benodol i wasanaethau.**

Adolygu dull presennol cyrff cyhoeddus o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

A4 Er bod enghreifftiau o arfer da sy'n gysylltiedig â chamau penodol o broses Asesu'r effaith ar Gydraddoldeb, mae gan bob corff cyhoeddus wersi i'w dysgu am eu dull cyffredinol. **Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r canllawiau manwl sydd ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ar y Tudalennau Arferion. Rydym yn cydnabod y gallai datblygiadau mewn ymateb i'n hargymhelliad arall ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau DCSC penodol i Gymru fod â goblygiadau ar gyfer y canllawiau presennol maes o law.**



**Trefniadau ategol
ar gyfer cynnal
Aseidiadau o'r Effaith
ar Gydraddoldeb**

01

- 1.1 Gall cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fod yn gymhleth. Gall cefnogaeth dda helpu i wneud y broses o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn haws ac yn fwy effeithiol drwy fod â dull a phroses wedi'i hegluro'n glir, a ategir gan ganllawiau a hyfforddiant clir. A gall cyrff cyhoeddus fod â chyngor arbenigol wrth law i gefnogi'r rhai sy'n ymwneud ag asesu effeithiau penderfyniadau.

Nodi dull y sefydliad o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Dull sydd wedi'i egluro'n glir o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y sefydliad, gan gynnwys a ddylai'r Asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb fod yn rhan o asesiad effaith integredig ehangach.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Roedd gan bron bob corff cyhoeddus broses benodol ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ond roedd y rhain yn amrywio o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb annibynnol i gynhyrchu asesiadau effaith integredig sy'n cwmpasu ystod eang ac amrywiol o ddyletswyddau cyfreithiol a blaenoriaethau polisi eraill.

Cynlluniau cydraddoldeb strategol

- 1.2 Fe wnaeth pob un o'r 44 corff cyhoeddus fodloni'r gofyniad i lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS). Rhaid i'r CCS gynnwys amcanion cydraddoldeb sefydliad, sut y bydd yn mesur cynnydd ar gyflawni amcanion, a sut y bydd yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gyffredinol a phenodol. Rhaid i'r CCS hefyd nodi trefniadau'r cyrff cyhoeddus ar gyfer asesu effaith debygol polisiâu ac arferion ar eu gallu i fodloni'r DCSC. Fodd bynnag, yn ein hadolygiad o CCSau gwelsom mai dim ond 17 o'r 44 corff wnaeth hynny ac i amrywiol raddau o fanylder.
- 1.3 Mae ambell i gorff cyhoeddus wedi mynd ymhellach na disgrifio trefniadau yn unig. Er enghraifft, mae CCS Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn disgrifio'n fanwl ei broses ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, sut mae ei Gabinet yn defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gefnogi penderfyniadau, a rôl pwyllgorau craffu wrth sicrhau ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae CCS y Cyngor hefyd yn esbonio sut mae wedi defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i lywio ei amcanion cydraddoldeb.

Dull sefydliadol – asesiadau integredig ac annibynnol

- 1.4 Mae gan bron pob corff cyhoeddus (42 o'r 44) broses sefydledig ar gyfer ymgymryd ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn rhoi gwybodaeth ar safleoedd mewnwyd, ochr yn ochr â dogfennau ategol, cysylltiadau a gan amlaf templed Word i'w gwblhau. Ni ddaeth ein hadolygiad o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o hyd i unrhyw fformat safonol ar draws cyrff cyhoeddus, er bod y rhan fwyaf yn dilyn y dull a nodir ar y Tudalennau Arferion. Mae aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu templed safonol y mae'r rhan fwyaf o aelodau'r rhwydwaith wedi ei fabwysiadu, o leiaf yn rhannol, ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb⁸.
- 1.5 Mewn tua dwy ran o dair (30 o'r 44) o gyrff cyhoeddus y gwnaethom siarad â nhw, mae'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan o aseiad effaith integredig ehangach. Nid oes dull cyffredin o asesu effaith integredig a dim canllawiau cenedlaethol ar yr hyn y dylid ei gynnwys. Ceir rhai asesiadau y mae cyrff cyhoeddus yn eu cynnwys yn gyffredin ochr yn ochr â'r DCSC (**Arddangosyn 3**). Mae rhai'n cynnwys dyletswyddau cyfreithiol eraill yn ogystal â blaenoriaethau polisi ac ystyriaethau ymarferol, megis cyllid. Er enghraifft, mae asesiadau effaith integredig Llywodraeth Cymru weithiau'n ymdrin ag effeithiau newid hinsawdd, effeithiau iechyd ac effeithiau economaidd yn ogystal ag ystod eang o ddyletswyddau cyfreithiol eraill, yn dibynnu ar natur y polisi neu'r arferion.

8 Mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru yn rhwydwaith anffurfiol o gyrff cyhoeddus sy'n cydweithio i ddatblygu cydraddoldeb. Mae'r gynrychiolaeth yn cynnwys awdurdodau lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a'r Awdurdod Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Arddangosyn 3: aseidiadau sy'n cael eu cynnwys yn gyffredin mewn asesiad effaith integredig ochr yn ochr â'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 saith nod llesiant i Gymru. Sefydlodd hefyd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio – hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal – i ddangos cymhwyso'r egwyddor. Gall asesiad effaith integredig hefyd gynnwys asesiad o'r polisi neu'r arferion o'u cymharu â'r saith nod, amcanion llesiant unigol cyrff cyhoeddus a/neu'r pum ffordd o weithio a bennir yn y Ddeddf.
Y Gymraeg	Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'n gwneud darpariaeth er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy safonau'r Gymraeg. Mae rhan o gymhwyso'r safonau yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried effeithiau eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.
Effeithiau amgylcheddol	Mae dyletswyddau amrywiol i gynnal aseidiadau effaith amgylcheddol yn ddibynnol ar natur y polisi neu'r arferion arfaethedig. Mae'r rhain yn amrywio o aseidiadau strategol o gynlluniau a rhaglenni i aseidiadau o brosiectau a allai effeithio ar gynefinoedd a bioamrywiaeth.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn	Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ymgorffori ystyriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r protocolau dewisol yng nghyfraith Cymru. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys 41 o erthyglau, sy'n nodi ystod eang o fathau o hawliau gan gynnwys hawliau i fywyd ac anghenion goroesi sylfaenol, hawliau i ddatblygu gan gynnwys addysg a chwarae, hawliau i amddiffyniad, gan gynnwys diogelu rhag cam-drin a cham-fanteisio, a hawliau i gymryd rhan a mynegi barn.
Economaidd-gymdeithasol	Daeth y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i rym ar 31 Mawrth 2021. Wrth wneud penderfyniadau strategol, megis penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried sut y gallant leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

- 1.6 Mae'r rhan fwyaf o asesiadau effaith integredig yn cynnwys casglu asesiadau effaith ar wahân ar ddogfen dampled. Ychydig sy'n ymddangos fel asesiad effaith wirioneddol integredig. Mae rhai gyrff cyhoeddus yn ceisio gwneud y cysylltiadau rhwng asesiadau a lleihau dyblygu. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Gâr, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi datblygu, neu yn datblygu, datrysiad TG i ddwyn ynghyd yr wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i lywio asesiad effaith integredig.
- 1.7 Ychydig iawn o gyrff cyhoeddus sy'n asesu'r effaith ar y DCSC yn unig hyd yn oed pan nad ydynt yn ystyried bod eu hasesiadau wedi'u hintegreiddio. Yn y gyrff cyhoeddus hynny sy'n dweud bod ganddyn nhw broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb annibynnol, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn aml hefyd yn cynnwys effeithiau ar y Cymraeg ac effeithiau economaidd-gymdeithasol.

- 1.8 Mae ymchwil flaenorol wedi canfod bod hyd yn rhwstr i ddefnyddio asesiadau effaith wrth wneud penderfyniadau⁹. Roedd yn anodd i ni farnu bod unrhyw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu effaith integredig yn rhy hir gan fod llawer o ffactorau'n effeithio ar yr hyd gan gynnwys natur y polisi neu'r penderfyniad a nifer yr asesiadau a gynhaliwyd. Fe wnaethom adolygu rhai dogfennau a oedd yn hir iawn; er enghraifft, roedd asesiad effaith integredig o bolisi gweithio o bell Llywodraeth Cymru yn 45,000 o eiriau (amser darllen cyfartalog 2.5 awr). Roedd y mwyafrif y gellid nodi cyfrif geiriau yn hawdd ar eu cyfer rhwng 2,500 a 7,500 o eiriau (amser darllen cyfartalog 8 i 25 munud).
- 1.9 Roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus sydd wedi dewis peidio ag integreiddio eu hasesiadau wedi ystyried yr opsiwn hwnnw. Roedd y rhesymau dros beidio integreiddio asesiadau yn cynnwys pryder na fyddai digon o sylw i'r DCSC. Gall hyn fod yn bryder dilys. Mae ein hadolygiad yn awgrymu, mewn rhai achosion, fod y DCSC wedi'i chynnwys mewn ychydig iawn o fanylder ac yn ymddangos yn eilradd i ystyriaethau eraill er bod yr holl gyrff cyhoeddus y gwnaethom siarad â nhw sy'n cynnal asesiadau effaith integredig yn credu eu bod wedi ymdrin yn ddigonol â'r elfen gydraddoldeb.

Cefnogaeth ac arbenigedd

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Bod cefnogaeth ac arbenigedd ar gael yn y sefydliad i'r rhai sy'n cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Yn y rhan fwyaf o achosion, arweinwyr polisi sy'n gyfrifol am gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gallant gael cefnogaeth gan gydweithwyr sydd â gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a dealltwriaeth fanwl o broses y sefydliad ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.



9 Gras, C., Reducing Complexity and Adding Value: A Strategic Approach to Impact Assessment in the Welsh Government, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Chwefror 2016.

- 1.10 Yn bron pob corff cyhoeddus, mae'r cyfrifoldeb dros gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gorwedd gyda'r prif swyddog sy'n datblygu neu'n adolygu polisi neu arferion. Mae hyn yn rhannol ymarferol, oherwydd nifer yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y mae cyrff cyhoeddus yn eu cynnal. Dywedodd swyddogion cydraddoldeb wrthym fod y dull hwn yn golygu bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi elwa o arbenigedd arweinwyr polisi yn y maes pwnc. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi anfanteision, gan gynnwys anhawster sicrhau cysondeb, dechrau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr adeg iawn a sicrhau ansawdd.
- 1.11 Mae gan bob corff cyhoeddus swyddogion cydraddoldeb (neu gyfatebol) â gwybodaeth mewn materion cydraddoldeb cyffredinol a dealltwriaeth fanwl o broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb y sefydliad. Ym mhob corff cyhoeddus, gall staff sy'n cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ofyn i swyddogion cydraddoldeb am arweiniad pan fo angen. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal gan amlaf heb gyfraniad swyddog cydraddoldeb. Mae'r broses ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn un eithriad i hyn, lle mai'r cam cyntaf i unrhyw un sy'n credu bod angen iddynt ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cysylltu â'r arbenigwr Amrywiaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant i drafod y polisi neu'r arferion arfaethedig a chytuno ar ba gamau sydd angen iddynt eu cymryd, a chymorth parhaus hefyd yn cael ei ddarparu. Mewn cyrff cyhoeddus llai, lle mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fwy tebygol o ymwneud â pholisïau a phenderfyniadau staff, mae'r arweinydd ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn aml yn swyddog Adnoddau Dynol sydd hefyd yn swyddog cydraddoldeb.

Canllawiau i gefnogi'r rhai hynny sy'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Bod yna ganllawiau i gefnogi'r rhai hynny sy'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan nodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud a phryd, yn unol â'r dyletswyddau a'r dull a ddewiswyd gan eu sefydliad.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Mae canllawiau a chefnogaeth genedlaethol anstatudol ar gael sy'n nodi rhywfaint o arferion da yng nghamau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, er bod bylchau, yn arbennig o ran asesiadau effaith integredig. Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus hefyd wedi cynhyrchu eu canllawiau eu hunain i gefnogi eu proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.



Canllawiau allanol

- 1.12 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gymhwyso'r DCSC yng Nghymru na dyletswyddau penodol i Gymru. Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ganllawiau anstatudol ar ddyletswyddau penodol i Gymru yn 2014. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn annog cyrff cyhoeddus i integreiddio dyletswyddau gwahanol. Ond nid oes canllawiau cenedlaethol penodol ar sut i gynnal asesiadau effaith integredig a beth ddylid ei gynnwys.
- 1.13 Datblygodd Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG y Tudalennau Arferion ar y cyd yn 2015-16. Mae'r adnodd ar-lein hwn yn darparu gwybodaeth a chymorth i gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ymgymryd ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'n cynnig canllaw wyth cam manwl i arferion da wrth ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn rhoi gwybodaeth am y dyletswyddau penodol i Gymru.

Canllawiau mewnol

- 1.14 Yn fewnol, mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus wedi llunio canllawiau i gefnogi eu proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae fformat a manylion y canllawiau ac ansawdd yn amrywio ar draws y cyrff cyhoeddus. Mae rhai'n darparu canllawiau cam wrth gam sy'n amlinellu'r broses a'r camau ar gyfer cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae rhai yn ymgorffori gwybodaeth ymarferol a dolenni o fewn templedi.
- 1.15 Ceir ambell i gorff cyhoeddus nad ydynt yn rhoi arweiniad ar eu prosesau unigol. Mae rhai o'r rhain yn rhoi cymorth unigol uniongyrchol gan swyddog cydraddoldeb (neu gyfatebol) i'r unigolyn sy'n cwblhau'r asesiad. Mae eraill yn cyfeirio staff at y canllawiau allanol ar y Tudalennau Arferion.

Hyfforddiant

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Mae'r hyfforddiant hwnnw ar gynnal Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael i staff sy'n ymwneud â datblygu Aseuadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r rhai sy'n eu defnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cynnig hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud ag Aseuadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy amrywiaeth o gyfryngau.



- 1.16 Mae tua dwy ran o dair (31 o'r 44) o gyrff cyhoeddus y gwnaethom siarad â nhw yn darparu hyfforddiant ffurfiol i swyddogion sy'n debygol o gwblhau neu sydd â diddordeb yn yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r hyfforddiant hwn yn aml yn ymestyn i aelodau etholedig, aelodau'r bwrdd a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- 1.17 Mae dulliau hyfforddi yn amrywio. Mae rhai'n cynnig darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb, a llawer o hyn drwy alwadau fideo ers dechrau'r pandemig COVID-19. Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnwys modiwlau ar-lein ac offer e-ddysgu ar gydraddoldeb, ac Aseuadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'u hyfforddiant staff cyffredinol. Mae'r gyrff cyhoeddus hynny nad ydynt yn cynnig hyfforddiant ffurfiol serch hynny yn rhoi cefnogaeth unigol i unigolion sy'n cynnal Aseuadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn gwella eu sgiliau drwy'r broses.


Sicrwydd ansawdd

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Dull o sicrhau ansawdd y broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Yr hyn ddaethom o hyd iddo

Roedd gan hanner y cyrff cyhoeddus ddull o sicrhau ansawdd, a oedd yn amrywio o gymeradwyo Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb unigol i ddysgu mwy cynhwysfawr gan gymheiriaid i gefnogi gwella'r broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb gyfan.



- 1.18 Mae gan hanner (22) o'r cyrff cyhoeddus broses sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer eu Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r dull gweithredu yn amrywio'n fawr. I rai, mae sicrwydd ansawdd yn ymwneud ag ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb unigol. Mae rhai yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei gymeradwyo gan uwch swyddog. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, bydd y prif swyddog sy'n cynnal yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gweithio gyda swyddog cydraddoldeb a chynrychiolydd o Iechyd Cyhoeddus Cymru i adolygu a chwestiynu cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod ei ddatblygiad. Mae cyrff cyhoeddus eraill wedi dechrau cymryd agwedd 'adolygiad gan gymheiriaid' i ddatblygu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda chyfraniad arbenigwyr o bob rhan o'r sefydliad.
- 1.19 Mae nifer fach o gyrff cyhoeddus yn defnyddio sicrwydd ansawdd i brofi ansawdd eu dull cyffredinol. Er enghraifft, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal adolygiad sampl blynyddol o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn defnyddio'r canfyddiadau i wella'r broses.



Asesu effeithiau



02

- 2.1 Mae'r dyletswyddau penodol i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus rhestredig asesu effaith debygol polisiâu ac arferion arfaethedig, neu'r rhai sy'n cael eu hadolygu, ar eu gallu i gydymffurfio â'r DCSC. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt roi sylw i rai mathau o wybodaeth sydd ganddynt a bodloni gofynion penodol i ymgysylltu â phobl neu sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ag un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig. Mae canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Tudalennau Arferion yn nodi yn fanwl y camau y gall cyrrff cyhoeddus eu cymryd i gyflawni'r gofynion hyn.

Sgrinio

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Dull clir o benderfynu a oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Mae gan ychydig dros hanner y cyrrff cyhoeddus broses sgrinio ond mae llawer wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio sgrinio, rhai oherwydd risg o ddrwschwch neu 'chwarae' gan staff.



- 2.2 Nid oes eithriadau statudol yn nodi polisiâu ac arferion nad oes angen eu hasesu. Fodd bynnag, mae canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Tudalennau Arferion yn cynnwys proses 'sgrinio' i benderfynu pa bolisiâu neu arferion ddylai gael Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn.
- 2.3 Dywedodd ychydig dros hanner (24 o'r 44) y cyrrff cyhoeddus y gwnaethom siarad â nhw bod ganddyn nhw broses sgrinio. Gan amlaf, dogfen dempled yw'r broses sgrinio y mae swyddog sy'n datblygu neu sy'n adolygu proses neu bolisi yn ei ddefnyddio i benderfynu a ydynt yn rhagweld unrhyw effaith ar grwpiau gwarchoddedig. Mae'r dull gweithredu'n amrywio'n ymarferol o asesiad effaith fer ar wahân i set o gwestiynau sgrinio ar ddechrau'r templed asesu llawn sy'n penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

- 2.4 Pan fydd corff yn penderfynu nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn arno, fel arfer byddant yn cadw copi o'r offeryn sgrinio fel tystiolaeth ei fod wedi ystyried y DCSC. Bydd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus sydd â phroses sgrinio yn cofnodi'r penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen gydag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn yn y papurau ategol sy'n mynd i'r cabinet neu'r bwrdd.
- 2.5 Gan amlaf, mae arweinydd y polisi yn cadw'r cofnod manwl o'r broses sgrinio. Ond mae ambell i gorff cyhoeddus yn ceisio cryfhau eu harferion a sicrhau bod cofnodion canolog yn cael eu cynnal. Er enghraifft, mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu dull asesu ar-lein i gefnogi arweinwyr polisi drwy'r broses ac annog ystyried effaith ar gamau cynharaf datblygu polisi. Yn ogystal ag anfon cyngor a chanllawiau i'r swyddog sy'n cwblhau'r asesiad ar-lein, mae'r offeryn hefyd yn anfon copi o'r wybodaeth sgrinio at y swyddogion cydraddoldeb.
- 2.6 Roedd yr 20 corff cyhoeddus sydd heb broses sgrinio yn aml wedi dileu'r cam sgrinio yn ymwybodol. Dywedodd llawer bod sgrinio'n gam diangen, gan mai ychydig iawn o'u penderfyniadau na fydd â photensial i effeithio ar y DCSC. Dywedodd rhai cyrff cyhoeddus bod lle i ddryswch hefyd, a swyddogion arweiniol yn cwblhau ffurflen sgrinio, gan feddwl ei fod yn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd eraill yn pryderu y gallai rhai swyddogion 'chwarae' y broses: teilwra eu hymatebion i'r broses sgrinio mewn ffordd sydd wedi'i gynllunio i arwain at benderfyniad nad oedd angen asesiad pellach.
- 2.7 Mae'r cyrff cyhoeddus hynny nad oes ganddynt broses sgrinio fel arfer yn darparu arweiniad ychwanegol neu siart broses, yn egluro pryd i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn. Mae pob corff cyhoeddus hefyd yn cynnig cyfle i'r prif swyddog ymgynghori â swyddog cydraddoldeb.

Amseriad

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei ddechrau yn gynnar er mwyn llywio datblygiad polisi neu benderfyniad.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Mae pob corff cyhoeddus yn bwriadu cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mor gynnar â phosib, ond mae llawer yn cydnabod nad yw hyn yn aml yn wir yn ymarferol, ac mewn rhai achosion mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn hwyr iawn yn y broses o ddatblygu polisi neu wneud penderfyniadau.



- 2.8 Mae pob un o'r 44 corff cyhoeddus yn bwriadu dechrau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mor gynnar yn natblygiad neu adolygiad polisi â phosib. Ond roedd llawer o gyrff cyhoeddus yn cydnabod nad yw hyn yn aml yn digwydd yn ymarferol.
- 2.9 Mae amseriad Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei effeithio gan a yw'r arweinwyr polisi yn gwybod bod gofyn iddyn nhw gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac os oes adnoddau - staff ac amser - ar gael ar yr adeg briodol. Weithiau, os oes rhaid i gyrff cyhoeddus wneud penderfyniadau'n gyflym iawn, naill ai dydyn nhw ddim yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu maent yn gwneud hynny yn hwyr yn y broses o wneud penderfyniadau. Gall hyn fod yn rhy hwyr i ystyried newid polisi i leihau unrhyw effaith negyddol bosib neu i ategu effeithiau cadarnhaol.

- 2.10 Roedd penderfyniadau ar ddechrau pandemig COVID-19 yn aml yn cael eu gwneud heb Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd hyn yn adlewyrchu'r brys i wneud penderfyniadau ond yn golygu nad oedd yr effaith ar bobl agored i niwed yn cael ei asesu'n ffurfiol. Ym mis Awst 2020, argymhellodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau¹⁰ y Senedd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb effeithiol yn cyd-fynd â phob polisi neu benderfyniad deddfwriaethol mawr, a dadansoddiad o'r effaith ar hawliau dynol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad, ac ers mis Awst 2020 mae wedi cyhoeddi dwsinau o asesiadau effaith yn ymwneud â phandemig COVID-19 ar ei gwefan.
- 2.11 Yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus, mae papurau sy'n cyd-fynd â phenderfyniadau sy'n mynd i gabinetau neu fyrddau yn cynnwys blwch neu adran sy'n cyfeirio at ystyried y dyletswyddau cydraddoldeb. Mae hyn yn gwasanaethu fel modd o atal gyrff cyhoeddus rhag gwneud penderfyniadau heb unrhyw ystyriaeth i'r dyletswyddau, er y byddai hyn yn gyffredinol yn hwyr iawn yn y broses.

Defnyddio tystiolaeth

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Defnydd o ystod o dystiolaeth i gefnogi'r asesiad, gan gynnwys barn y rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio a data ar brofiad bywyd.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Mae gyrff cyhoeddus yn defnyddio cymysgedd o dystiolaeth, er bod bylchau yn y data sydd ar gael am rai nodweddion gwarchoddedig ac mae cynnwys safbwyntiau a phrofiadau byw pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn dameidiog.



¹⁰ Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru, Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig, mis Awst 2020.

Data meintiol

- 2.12 Mae angen sylfaen dystiolaeth gadarn ar Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i lywio eu casgliadau. Mae dyfnder a manylder y sylfaen wybodaeth yn amrywio ar draws sefydliadau a fesul asesiad. Mae dyfnder gwybodaeth a dadansoddiad yn aml yn dibynnu ar raddfa'r penderfyniad ac os oes dystiolaeth berthnasol a phenodol ar gael.
- 2.13 Mae pob corff cyhoeddus yn disgwyl cynnwys rhywfaint o ddata meintiol, megis gwybodaeth ddemograffig neu ddata lefel gwasanaeth. Mae tua dwy ran o dair (29 o'r 44) o'r cyrff cyhoeddus yn cynnwys o leiaf rhai Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel enghreifftiau o ffynonellau gwybodaeth fewnol ac yn cyfeirio at ddata sydd ar gael yn gyhoeddus yn eu canllawiau a'u templedi. Mae rhai yn mynd ymhellach. Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynnwys yn ei arweiniad rhestr fanwl o ffynonellau lle y gall arweinwyr polisi ddod o hyd i dystiolaeth berthnasol, ac mae dolenni i ffynonellau data allanol wedi'u hymgorffori.
- 2.14 Mae rhai bylchau data sylweddol yn y data sydd ar gael i gyrff cyhoeddus. Yn gyffredinol, nid oes llawer o wybodaeth ar gael am rai nodweddion gwarchoddedig, yn enwedig cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, a beichiogrwydd a mamolaeth. Weithiau, nid yw'r data sydd ar gael ar lefel genedlaethol ar gael mewn bwrdd iechyd, cyngor, neu ar lefel ward, sydd yn ei gwneud hi'n anodd i gyrff cyhoeddus ddeall eu poblogaethau lleol sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Gwybodaeth ansoddol

- 2.15 Mae cynnwys gwybodaeth ansoddol yn seiliedig ar farn a phrofiadau pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig hefyd yn dameidiog. Wrth gyflwyno polisiâu newydd neu newid gwasanaethau mae cyrff cyhoeddus yn aml yn ymgymryd ag ymarfer ymgynghori. Yn yr enghreifftiau a welsom, roedd y rhain yn aml yn cael eu targedu at y cyhoedd yn gyffredinol, ac roedd yn anodd gweld a oedd y corff cyhoeddus wedi ceisio ymgysylltu'n benodol â phobl o grwpiau gwarchoddedig.
- 2.16 Er hynny, gwelsom enghreifftiau o Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a oedd yn cynnwys dystiolaeth o ymgysylltu â grwpiau. Er enghraifft, pan oedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnal Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ei strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu, bu'r asesiad yn ystyried sut y gallai'r strategaeth ymgysylltu â phobl sy'n siarad ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg. Fe wnaeth hefyd ystyried effeithiau ar y rhai sydd wedi eu heithrio'n ddigidol, grŵp sy'n fwy tebygol o gynnwys pobl hŷn a mwy o ferched na dynion.

- 2.17 Dywedodd rhai ymatebwyr i'n galwad cyffredinol am dystiolaeth y byddai defnyddio mwy ar farn a phrofiad pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn gwella ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau ar lawr gwlad yn ogystal â sefydliadau cenedlaethol sy'n cynrychioli grwpiau gwarchoddedig. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai cyrff cyhoeddus wneud mwy i roi cyhoeddusrwydd i ymgynghoriadau trwy ystod o ddulliau, gan gynnwys ond heb fod wedi'u cyfyngu i'r cyfryngau cymdeithasol.
- 2.18 Dywedodd rhai o gyrff trydydd sector Cymru gyfan a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth eu bod yn aml yn cael cais i roi eu barn ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a bod rhai na allant ymateb i'r holl geisiadau y maen nhw'n eu derbyn. Weithiau nid oes ganddynt wybodaeth am wasanaethau ac effeithiau lleol.
- 2.19 Mae ambell i gorff cyhoeddus yn ceisio defnyddio brofiad bywyd pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig trwy wahanol fathau o ymgynghori. Mae rhai yn defnyddio rhwydweithiau presennol ar gyfer staff sydd â nodweddion gwarchoddedig i ddeall safbwyntiau gwahanol. Mae eraill, yn defnyddio y berthynas bresennol gyda grwpiau'r trydydd sector i ddeall y profiad bywyd.

Nodi a lliniaru effeithiau tebygol

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano


Nodi effeithiau tebygol yn glir, gan gynnwys effeithiau cadarnhaol wrth hyrwyddo cydraddoldeb, yn ogystal â rhai negyddol.

Mae rhai ystyriaethau o effeithiau cronus sy'n deillio o benderfyniadau eraill sy'n effeithio ar yr un grŵp neu grwpiau a sut mae nodweddion gwarchoddedig gwahanol yn cyfuno (croestoriadedd).

Argymhellion clir ar gyfer lliniaru effeithiau negyddol sydd wedi cael eu gweithredu cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Er bod enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn nodi effeithiau penodol, yn aml mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn disgrifio effeithiau mewn termau eang iawn. Ychydig iawn sy'n nodi effeithiau cronus penderfyniadau lluosog ar grwpiau neu'n ystyried sut mae gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn croestorri. Ychydig iawn sy'n gallu dangos sut mae argymhellion ar gyfer lliniaru effeithiau yn cael eu gweithredu.



Effeithiau penodol

- 2.20 Yn gadarnhaol, daeth ein hadolygiad o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o hyd i enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn nodi'n glir effaith debygol benodol ar bolisiau neu arferion ar grwpiau gwarchoddedig. Fodd bynnag, roedd llawer o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys ystadegau i ddisgrifio poblogaeth pobl â nodweddion gwarchoddedig heb fod yn glir sut y byddai'r polisi neu'r arfer yn debygol o effeithio arnynt. Gwelsom hefyd dueddiad i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ganolbwyntio ar effeithiau negyddol, a thrwy hynny golli effeithiau a chyfleoedd cadarnhaol i wella cydlyniant a lleihau angydraddoldebau.
- 2.21 Gwelsom fod y rhan fwyaf o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a adolygwyd yn darparu data a gwybodaeth am bob grŵp gwarchoddedig ar wahân. Er enghraifft, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar Brosiect Cyllid a Chomisiynu Gofal Cartref Pobl Hŷn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn nodi'r effaith debygol ar bobl â phob nodwedd warchoddedig.

2.22 Mae dulliau'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys gwneud argymhellion i oresgyn effeithiau negyddol. Dylai cyrff cyhoeddus ymgorffori camau lliniaru yn y broses datblygu polisi, gan gydnabod nad yw bob amser yn bosibl lliniaru pob effaith negyddol, megis gyda gostyngiadau mewn gwasanaeth. Ychydig iawn o gyrff cyhoeddus sydd â phroses ar waith i olrhain a ydynt wedi gweithredu'r camau lliniarol, ar ôl i benderfyniad gael ei wneud. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, mae gan yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gynllun gweithredu cysylltiedig a dyddiad adolygu. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mae'r arbenigwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant yn cadw cronfa ddata o gamau gweithredu sy'n deillio o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb at ddibenion monitro.

Croestoriadedd

2.23 Yn gynyddol, deallir fod anghydraddoldeb yn croestorri. Mae nodweddion pobl yn rhyngweithio mewn ffordd gymhleth er mwyn rhoi profiad unigryw o anghydraddoldeb. Er enghraifft, ni all profiad menyw Fwslimaidd wahanu 'benywaidd' a'i phrofiad fel Mwslim. Bydd yn wahanol i brofiad dyn Mwslimaidd a phrofiad menyw nad yw'n Fwslemaidd. Fodd bynnag, ni welsom enghreifftiau o ddealltwriaethau mor fanwl o anghydraddoldeb yn yr enghreifftiau a adolygwyd gennym.

Effeithiau cronrus

2.24 Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud llawer o benderfyniadau bob blwyddyn sydd, gyda'i gilydd, yn gallu bod yn niweidiol iawn i bobl o grwpiau gwarchoddedig. Er enghraifft, roedd un ymatebwr i'n galwad am dystiolaeth yn rhoi enghraifft o sut y cafodd penderfyniadau unigol i leihau neu gau cyfleusterau a gwasanaethau fel toiledau cyhoeddus, gwasanaethau llyfrgelloedd, canolfannau dydd, a gwasanaethau bws effaith gronrus ar lawer o bobl hŷn sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Er efallai nad oedd pob penderfyniad unigol yn sylweddol, meddai, gyda'i gilydd roedden nhw'n golygu bod rhai pobl hŷn yn mynd yn ynysig.

2.25 Mae'r ychydig achosion a ddarganfuwyd lle mae cyrff cyhoeddus wedi dechrau rhoi ystyriaeth i effeithiau cronrus yn tueddu i fod pan fo cyrff cyhoeddus yn gwneud sawl penderfyniad ar yr un pryd. Er enghraifft, mae cynghorau fel arfer yn ymgymryd â dull cronrus o asesu effeithiau eu cyllideb arfaethedig bob blwyddyn. Asesir newidiadau unigol i wasanaethau oherwydd newidiadau i'r gyllideb ar yr un pryd gan ganiatáu trosolwg gwell o effeithiau posibl ar gyfer y gyllideb.

2.26 Fel arfer, fodd bynnag, mae cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ar wahân. Amlygodd un o'r ymatebwyr i'n galwad am dystiolaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ei bod yn anodd mewn egwyddor rhagweld effeithiau tebygol penderfyniadau lluosog mewn tirwedd gymhleth. Yn ymarferol, mae'r gallu i ystyried effeithiau penderfyniadau eraill yn dibynnu ar y polisi sy'n arwain gan wybod am benderfyniadau eraill o fewn sefydliad a chael mynediad at yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae nifer fach o gyrff cyhoeddus yn ceisio mynd i'r afael â'r bwch gwybodaeth hwn drwy ddefnyddio datrysiaid TG i ymgymryd â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (**paragraff 1.6**). Fel hyn, mae'r asesiad o effaith ar gyfer pob newid polisi a phenderfyniad yn cael ei gynnal yn ganolog, gan ei gwneud hi'n haws i bolisi arwain at ddod â'r wybodaeth at ei gilydd.

Gwneud penderfyniadau

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r effeithiau tebygol y mae'n eu nodi yn cael eu hystyried ar adeg gwneud penderfyniadau.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Roedd barn swyddogion cydraddoldeb yn amrywio o ran i ba raddau yr oedd eu sefydliadau'n blaenoriaethu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'n galwad cyffredinol am dystiolaeth yn dweud nad oedd cyrff cyhoeddus yn rhoi digon o ystyriaeth i nodweddion gwarchoddedig. Mae'r nifer fechan o ymatebion gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn awgrymu barn bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei ystyried yn 'ymarfer blwch ticio'.



2.27 Mae'r ystyriaeth a roddir i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym maes gwneud penderfyniadau yn amrywio ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Yn gyffredinol, roedd swyddogion cydraddoldeb o'r farn bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cael sicrwydd o wybod bod arweinydd y polisi wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gweld crynodeb o'r Asesiad neu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn sy'n cyd-fynd â phob penderfyniad yn eu papurau cabinet neu fwrdd.

- 2.28 Roedd gan y swyddogion cydraddoldeb y buom yn siarad â nhw farn gymysg o ran y graddau y rhoddodd eu sefydliadau ddigon o bwysau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau. Roedd dros dri chwarter yr ymatebwyr i'n galwad cyffredinol am dystiolaeth a atebodd y cwestiwn (29 o'r 37) yn anghytuno bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi sylw priodol i bobl â nodweddion gwarchoddedig wrth ddatblygu polisiau neu newid i wasanaethau.
- 2.29 Yn gyffredinol, nid oedd swyddogion cydraddoldeb yn ymwybodol o achosion lle'r oedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn herio cynnwys neu argymhellion Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar adeg gwneud penderfyniad. Roedd y rhan fwyaf o'r farn y dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r penderfyniad fod wedi ystyried a llywio'r polisi'n ddigonol fel na fyddai angen her o'r fath mor hwyr â hynny.
- 2.30 Dim ond deg ymateb a gawsom i'n galwad am dystiolaeth gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Er ei bod yn anodd dod i gasgliadau o sylfaen dystiolaeth gyfyngedig o'r fath, mae'n nodedig bod tri o'r deg wedi cyfeirio at Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu defnyddio fel ymarfer 'blwch ticio'.



Adrodd a monitro effeithiau

03

- 3.1 Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau am yr asesiadau sy'n dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) ar eu gallu i fodloni'r DCSC. Rhaid iddynt hefyd fonitro gwir effaith y polisiau a'r arferion sy'n destun asesiad effaith ar gydraddoldeb.

Adrodd

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Gwybodaeth gyhoeddus am benderfyniadau a disgrifiad clir o sut mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi dylanwadu ar y penderfyniadau.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cyhoeddi rhai o'u Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o set ehangach o bapurau ac yn aml nid ydynt yn hawdd dod o hyd iddynt.

- 3.2 Mae bron pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn cyhoeddi eu Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o leiaf yn rhannol. Fel arfer, maen nhw'n cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda phapurau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau, fel papurau cabinet neu fwrdd. Fel arfer mae adran ar wefan y corff sy'n cadw'r holl bapurau ar gyfer pob cyfarfod ac yn hygyrch i'r cyhoedd. Mae ambell eithriad yn rhai o'r cyrff cyhoeddus llai, nad ydynt yn cyhoeddi eu Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel mater o drefn¹¹.

11 Mewn rhai achosion, nid yw cyrff yn cyhoeddi asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb os ydynt yn rhan o bapur sy'n cael ei ddal yn ôl rhag ei gyhoeddi oherwydd ei natur gyfrinachol neu sensitif. Fodd bynnag, weithiau gellir cael yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb hyn trwy gais Rhyddid Gwybodaeth os oes gan rywun ddiddordeb arbennig mewn eu gweld.

- 3.3 Yn aml gall fod yn anodd dod o hyd i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ymwneud â phenderfyniad penodol ar wefannau cyrff cyhoeddus. Mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd i'w gweld yn fwy amlwg ac yn haws eu lleoli yn aml yn ymwneud â phenderfyniadau strategol megis cyllidebau neu strategaethau corfforaethol allweddol. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ceisio dod ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i leoliad canolog ar eu gwefan i'w gwneud yn haws i'w cyrraedd, gan gydnabod bod y dull hwn yn dibynnu ar yr unigolion sy'n cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn eu rhannu i'w cyhoeddi, nad yw'n digwydd bob tro.

Monitro effeithiau

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Mae dull clir o fonitro effeithiau'r penderfyniad ar ôl iddo gael ei weithredu, gan gynnwys y rhai a nodwyd fel rhan o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ogystal ag unrhyw effeithiau annisgwyl.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Ychydig iawn o gyrff cyhoeddus sy'n monitro effaith y penderfyniadau yng nghyd-destun y DCSC.



- 3.4 Mae rhai cyrff cyhoeddus yn gofyn i'r rhai sy'n cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb nodi dyddiad adolygu pan fo monitro i fod i ddigwydd. Gwelsom enghreifftiau lle mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi cynlluniau ar gyfer monitro. Er enghraifft, roedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys cynlluniau ar gyfer monitro'r defnydd o wasanaethau ar ôl newid yn ystod oriau agor meddygfeydd ac ar gyfer gwerthuso'r newid gwasanaeth yn annibynnol. Hefyd, roedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer ei adolygiad o ofal cartref yn cynnwys trefniadau manwl ar gyfer monitro'r effaith gan ddefnyddio data a gwybodaeth sy'n cael eu hadrodd fel mater o drefn, gan gynnwys adborth unigol gan bobl sy'n derbyn gofal.

- 3.5 Fodd bynnag, nid oedd swyddogion cydraddoldeb wedi gweld llawer o dystiolaeth o effaith polisiâu ac arferion oedd yn cael eu monitro yn sgil yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd y cyrff cyhoeddus hynny a amlinellodd broses fonitro yn aml yn cyfeirio at fonitro gweithrediad polisi neu arferion o'u cymharu â'i amcanion neu ei dargedau, nid yr effaith a gafodd y penderfyniad ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.
- 3.6 Yn gyffredinol, nid yw cyrff cyhoeddus yn ystyried effeithiau polisiâu ac arferion o ran y DCSC nes bod angen gwneud penderfyniad arall ar yr un polisi neu arferion. Bryd hynny, mae'r corff yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb newydd. Roedd llawer o'r swyddogion cydraddoldeb y gwnaethom siarad â nhw yn ymddangos yn ansicr ynglŷn â sut, yn ymarferol, y bydden nhw'n monitro effaith penderfyniad ar grwpiau gwarchoddedig a byddent yn croesawu mwy o arweiniad.

Herio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Bod y sefydliad yn nodi ac yn defnyddio gwersi o unrhyw her i benderfyniadau ar sail cydraddoldeb neu ansawdd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Roedd llawer o swyddogion cydraddoldeb nad oeddynt yn credu y bu unrhyw heriau i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd gan eu sefydliad, ond pan fu her mae rhai cyrff cyhoeddus yn ei defnyddio fel cyfle i ddysgu.



- 3.7 Gellir herio penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus ar sail yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae cyrff cyhoeddus nad oes ganddynt gofnod clir sy'n dangos eu bod wedi ystyried effeithiau tebygol eu penderfyniadau ar bobl â nodweddion gwarchoddedig yn gadael eu hunain yn agored i herio. Gallai hyn o bosib gynnwys adolygiad barnwrol. Nid oedd rhai swyddogion cydraddoldeb yn gwybod pa broses y byddai rhywun yn ei defnyddio i herio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Dywedodd y mwyafrif y byddai unrhyw her yn mynd drwy eu proses gwynion gyffredinol, ac yn cynnwys y gwasanaeth perthnasol, swyddogion cydraddoldeb a'r tîm cyfreithiol.

- 3.8 Roedd llawer o swyddogion cydraddoldeb yn credu na fu unrhyw her i Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd gan eu sefydliad. Roedd y rhai a oedd yn ymwybodol y bu her yn dweud ei fod yn rhywbeth sy'n digwydd yn anaml. Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr i'n galwad cyffredinol am dystiolaeth a atebodd y cwestiwn (17 o'r 35) eu bod wedi herio rhyw agwedd ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Ni wyddom os oedd hon yn her ffurfiol neu anffurfiol.
- 3.9 Dywedodd swyddogion cydraddoldeb a oedd wedi profi her i Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y gall eu sefydliad ddatrys y materion naill ai drwy wneud newidiadau i bolisi neu arferion, neu drwy ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried yr effeithiau. Roedd ymatebwyr i'n galwad cyffredinol am dystiolaeth yn rhoi enghreifftiau o faterion roedden nhw'n eu codi yn cael eu datrys. Er enghraifft, roedd un wedi gwrthwynebu'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar gyfnewidfa fysiau newydd am nad oedd y cyngor wedi gofyn am farn pobl â nodweddion gwarchoddedig ar y cynigion. Yn dilyn eu hymyriad, ymwelodd pobl â nam ar eu golwg â'r safle gan awgrymu newidiadau i wneud y gyfnewidfa yn fwy hygyrch.
- 3.10 Er bod enghreifftiau cadarnhaol o gyrff cyhoeddus yn ymateb i her, dywedodd sawl ymatebwr i'n galwad cyffredinol am dystiolaeth a oedd wedi herio agweddau ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb nad oedden nhw wedi derbyn unrhyw ymateb i'w her. Dywedodd ychydig o swyddogion cydraddoldeb wrthym fod eu sefydliad wedi dysgu o'r profiad o gael her i Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd un wedi defnyddio enghreifftiau o her gan gyrff cyhoeddus eraill i lywio ei hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel ffordd arbennig o ddefnyddiol o wneud effeithiau'n haws eu deall i arwain swyddogion sy'n cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.



Atodiadau

1 Dull a Methodoleg yr Archwiliad

1 Dull a Methodoleg yr Archwiliad

Dull yr archwiliad

Ein prif nod oedd rhoi cipolwg ar y dull o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar draws y sector gyhoeddus yng Nghymru. Roeddem yn dymuno tynnu sylw at arferion da a nodi cyfleoedd i wella. Er mwyn helpu i lywio ein ffordd o feddwl ynghylch pa arferion da i chwilio amdanynt, fe wnaethom ddefnyddio llawer iawn o ddeunyddiau canllawiau presennol, yn arbennig y rhai hynny a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r [Tudalennau Arferion Asesu Effaith Cydraddoldeb yng Nghymru](#) a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Aethom ati i archwilio i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi integreiddio eu dull o ymgymryd ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd ac effaith gronnydd penderfyniadau. Buom hefyd yn archwilio pa anawsterau y mae cyrff cyhoeddus yn eu profi sy'n effeithio ar ansawdd a phrydlondeb Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Edrychwyd ar sut mae cyrff cyhoeddus yn monitro effaith penderfyniadau ar eu poblogaeth. Mae pob un o'r is-adrannau ym mhrif ran yr adroddiad hwn yn disgrifio'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano trwy ein gwaith.

Wrth edrych ar yr holl gyrff cyhoeddus, fe wnaethom ganolbwyntio ar y 44 corff cyhoeddus a oedd yn wreiddiol yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol pob un o'r gyrff hyn, sy'n cynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd a rhai ymddiriedolaethau GIG, parciau cenedlaethol, a gwasanaethau tân ac achub. Maent hefyd yn cynnwys Llywodraeth Cymru a rhai o'r gyrff a noddir. Nid oedd ein darpariaeth archwilio yn cynnwys cyrff addysg – addysg bellach, addysg uwch nac ysgolion a gynhelir – sy'n ddarostyngedig i'r DCSC. Hefyd, nid oedd yn cynnwys y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac sy'n ddarostyngedig i'r DCSC.

Dulliau archwilio

Adolygu dogfennau: Fe wnaethom adolygu dogfennau gan bob un o'r 44 corff cyhoeddus, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r cynlluniau cydraddoldeb a manylion proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb y sefydliad. Fe wnaethom hefyd adolygu manylion eu proses ar gyfer cynnal asesiadau effaith integredig. Fe wnaethom adolygu sampl o 29 o Swyddogion Cyswllt yr Undeb Ewropeaidd a ddarperir gan gyrff cyhoeddus: 11 gan awdurdodau lleol, wyth gan gyrff iechyd, dau awdurdod tân ac achub, dau barc cenedlaethol a chwech gan Lywodraeth Cymru neu ei chyrrff a noddir.

Cyfweliadau: Gwnaethom gyfweled â'r swyddogion cydraddoldeb neu'r rôl gyfatebol ym mhob un o'r 44 corff. Rydym wedi defnyddio'r term 'swyddog cydraddoldeb' drwy gydol yr adroddiad hwn i gyfeirio at staff mewn gyrff cyhoeddus sydd â swyddogaethau arbenigol arweiniol penodol ar gyfer cydraddoldeb, boed hynny'n swydd llawn amser neu'n rhan o'u swydd. Mae'r ffordd y mae'r swyddi hyn wedi'u strwythuro, a'u lefel yn y sefydliad, yn amrywio.

Galwad am dystiolaeth: Fe wnaethom ofyn am farn ehangach ar brofiad pobl o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy alw am dystiolaeth rhwng Hydref 2021 a Mehefin 2022. Gwnaethom roi cyhoeddusrwydd i hyn yn gyffredinol ac yn arbennig i sefydliadau'r trydydd sector. Fe gawsom 40 ymateb, 23 gan unigolion a 15 yn ymateb ar ran sefydliad (dau ddim yn dweud).

Fe wnaethom hefyd ofyn am farn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau drwy alwad ar wahân am dystiolaeth a oedd ar agor rhwng Chwefror a Mehefin 2022. Cawsom ddeg ymateb (wyth gan unigolion a oedd yn gweithio mewn awdurdodau lleol, un iechyd ac un tân ac achub).

Er nad yw'r ymatebion a gawsom i'r galwadau am dystiolaeth o reidrwydd yn gynrychioliadol o unigolion, y trydydd sector na'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, maent wedi darparu manylion defnyddiol yr ydym wedi'u cynnwys trwy'r adroddiad ac a lywiodd ein dadansoddiad cyffredinol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid: Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gyfrifol am hybu a gorfodi cydraddoldeb a deddfau nad ydynt yn gwahaniaethu. Cawsom gyfarfod â swyddogion yn Nhîm Cymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rheolaidd drwy gydol ein gwaith, gan drafod ein cwmpas a'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg. Gwnaethom hefyd gwrdd â rhwydwaith cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chadeirydd Grŵp Arweinyddiaeth Cydraddoldeb GIG Cymru Gyfan. Fe wnaethom gyfweld swyddogion o Lywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am bolisi cydraddoldeb.

Deallusrwydd archwilio ehangach: Gwnaethom ddefnyddio deallusrwydd presennol o'n gwaith archwilio ariannol a pherfformiad lleol, pan oedd hynny'n berthnasol i asesiadau effaith cydraddoldeb.



Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio?

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2022

Cyfeirnod y ddogfen:

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A1	<p>Egluro cwmpas y ddyletswydd i asesu effaith polisiau ac arferion</p> <p>Mae lle i ddrysu ynghylch pa fath o bolisiau ac arferion y mae'n rhaid iddynt fod yn destun asesiad o'u heffaith ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei</p>	<p>Nid yw'n berthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.</p>		

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	dehongliad o'r ddyletswydd, gan gynnwys a yw'n disgwyl i gyrff cyhoeddus ddefnyddio unrhyw brawf o gymesuredd a pherthnasedd a sut i wneud hynny.			
A2	<p>Creu darlun o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da</p> <p>Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnal asesiadau effaith integredig sy'n cynnwys ystyried y DCSC ochr yn ochr â dyletswyddau eraill. Ond mae'r arfer yn anghyson ac yn aml yn cynnwys coladu nifer o asesiadau mewn un lle, yn hytrach na'u bod wir wedi'u hintegreiddio, i helpu i sicrhau cymaint o'r manteision a fwriadwyd â phosibl yn sgil asesiadau effaith integredig, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant yn y meysydd a gwmpesir yn gyffredin gan asesiadau effaith integredig a'r rhai sydd â phrofiadau byw, i rannu yr hyn a ddysgwyd a gweithio tuag</p>	Nid yw'n berthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.		

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	at ddealltwriaeth gyffredin o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da.			
A3	<p>Cymhwyso'r dyletswyddau cydraddoldeb i gydweithrediadau cyrff cyhoeddus a phartneriaethau</p> <p>Mae tirwedd y sector cyhoeddus wedi newid ers cyflwyno'r DCSC a dyletswyddau penodol i Gymru, ac mae pwyslais cynyddol ar gynllunio a chyflawni cydweithredol. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oes angen diweddarau rheoliadau penodol i Gymru i gwmpasu ystod ehangach o drefniadau cydweithredol a phartneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus, byrddau partneriaethau rhanbarthol a phartneriaethau eraill sy'n benodol i wasanaethau.</p>	Nid yw'n berthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.		

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A4	<p>Adolygu dull presennol cyrff cyhoeddus o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb</p> <p>Er bod enghreifftiau o arfer da sy'n gysylltiedig â chamau penodol o broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae gan bob corff cyhoeddus wersi i'w dysgu am eu dull cyffredinol. Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn a'r canllawiau manwl sydd ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ar y Tudalennau Arferion. Rydym yn cydnabod y gallai datblygiadau mewn ymateb i'n hargymhelliad arall ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'r rheoliadau DCSC penodol i Gymru fod â goblygiadau ar gyfer y canllawiau presennol maes o law.</p>	<p>Mae ein templed presennol ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u strwythuro o amgylch y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r rhan ar gydraddoldeb yn cael ei llenwi fel rhan o'r nod o greu 'Cymru sy'n fwy cyfartal'.</p> <p>Rydym wedi adolygu ein hofferyn ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ac wedi defnyddio'r canfyddiadau o adroddiad Archwilio Cymru ac adolygiad Llywodraeth Cymru o'u canllawiau er mwyn bwydo i'r broses. O ganlyniad, rydym wedi newid fformat y templed ac wedi ychwanegu rhagor o ganllawiau a gwybodaeth gefndirol er mwyn hwyluso'r broses o gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.</p> <p>Cafodd yr offeryn diwygiedig ei graffu gan y Pwyllgor Trosolwg a chraffu ar 11/09/23 a'i awdurdodi gan Cabinet ar 03/10/23. Mae ar gael nawr ar ein mewnwyd i'w ddefnyddio gan staff.</p> <p>Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymuno â rhwydwaith y Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac rydym yn bwrw golwg yn rheolaidd ar y Tudalennau Arferion i sicrhau bod ein ffordd o weithio yn parhau i wella.</p>	Cwblhawyd	Alun Williams

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2023

Cyfeirnod y ddogfen:

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A1	<p>Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o eglurder ynghylch gweithredu a disgwyliadau'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau newydd. Dylai hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Egluro'r gofynion manwl ar gyfer cymhwysedd a chofrestru er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn; 	Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.	Amherthnasol	Amherthnasol

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> • Amserlen benodol ar gyfer datblygu a mabwysiadu canllawiau ar gyfer Cymru i sicrhau y gall awdurdodau lleol ac eraill gyflawni eu dyletswyddau; a • dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, fel LABC Cymru, i roi cymorth i ddeall y canllawiau a'u rhoi ar waith pan gânt eu cyhoeddi. 			
A2	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi ddigon o adnoddau i gyflawni'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi ar gyfer Diogelwch Adeiladau er mwyn lleihau risgiau i'w rhoi ar waith.	Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.	Amherthnasol	Amherthnasol
A3	Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dull marchnad gymysg o reoli adeiladu a dod i'r casgliad pa un a yw'n parhau i fod yn briodol ac yn effeithiol o ran cadw adeiladau yng Nghymru'n ddiogel. Dylai'r adolygiad hwn: <ul style="list-style-type: none"> • asesu'r sefyllfa fel ag y mae yn erbyn newidiadau posibl, megis y model cyflawni yn yr Alban; • bod wedi'i fframio ar sail dadansoddiad SWOT o gostau, manteision, bygythiadau a risgiau; • manteisio ar ymchwil sy'n bodoli eisoes i adnabod arfer da; a • chael ei gyhoeddi gan gytuno ar ffordd ymlaen. 	Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.	Amherthnasol	Amherthnasol

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A4	<p>Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei gwaith i oruchwylio a rheoli'r sector rheoli adeiladu er mwyn sicrhau bod system sicrwydd gadarn ar waith ar gyfer rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • greu fframwaith perfformiad cenedlaethol gyda safonau gwasanaeth eglur i hybu cysondeb o ran y gwasanaeth. Dylai hyn hefyd gynnwys mesurau deilliant i fonitro perfformiad a fframwaith gwerthuso ac adrodd ar gyfer craffu. • datblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu diogelwch adeiladau i fynd i'r afael â'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r sector. Dylai hyn gynnwys casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd, yn ogystal â chwmpasu blaenoriaethau, megis: <ul style="list-style-type: none"> - mwy o ffocws ar hyfforddeion i liniaru risgiau i olyniaeth; - sefydlu rolau swyddi cenedlaethol, cyson sy'n cyfateb i lefelau cymhwysedd; - cynyddu amrywiaeth y sector i sicrhau ei fod yn adlewyrchu Cymru fodern; a - dylid ystyried cyllid penodol hefyd i alluogi syrfewyr i ennill a chynnal cymhwysedd. 	Amherthnasol gan fod yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid yr Awdurdod Lleol.	Amherthnasol	Amherthnasol

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> dylai Llywodraeth Cymru archwilio gyda'r sector addysg bellach sut orau i ddarparu hyfforddiant rheoli adeiladu yng Nghymru i roi cymorth i gynllunio ar gyfer olyniaeth, datblygu sgiliau a sicrhau cymhwysedd. 			
A5	<p>Dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol sy'n mynegi gweledigaeth glir ar gyfer rheoli adeiladu er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer rhoi gofynion y Ddeddf ar waith. Dylai'r Cynlluniau:</p> <ul style="list-style-type: none"> fod yn seiliedig ar asesiad o risgiau lleol ac yn cynnwys camau lliniaru; nodi sut y bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer gwasanaethau rheoli adeiladu i gyflawni eu holl gyfrifoldebau statudol; dangos rôl allweddol rheoli adeiladu o ran sicrhau adeiladau diogel a bod yn gysylltiedig ag amcanion llesiant ac amcanion corfforaethol eraill; a chynnwys mesurau deilliant sy'n canolbwyntio ar yr holl wasanaethau rheoli adeiladu, nid strwythurau peryglus yn unig. 	<p>Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sefydlu Gweithgor a fydd yn datblygu cynllun ar gyfer yr Adran Rheoli Adeiladu er mwyn sicrhau bod gofynion y Ddeddf yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd hyn yn rhoi ystyriaeth lawn i natur y diwydiant adeiladu yng Ngheredigion ac anghenion y boblogaeth leol, a bydd yn darparu gwasanaethau yn unol â gofynion y safonau gweithredu newydd ar gyfer rheoli adeiladu yng Nghymru ac amcanion corfforaethol yr awdurdod.</p>	Mawrth 2024	Roger Turner (RT)
A6	<p>Dylai awdurdodau lleol fynd ati ar frys i adolygu eu rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau. Dylai hyn gynnwys:</p>	<p>Mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati ar frys i adolygu holl elfennau ein rheolaeth ariannol ar reoli adeiladu er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010.</p>	Rhagfyr 2023	RT

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> • sefydlu amserlen o adolygiadau ffioedd rheolaidd i sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu cost gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau; • adrodd ar berfformiad ariannol a chyhoeddi'r wybodaeth honno'n flynyddol yn unol â'r Rheoliadau; • sicrhau bod staff perthnasol yn cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn cymhwyso'r Rheoliadau ac yn dehongli adroddiadau ariannol yn gywir; a • diwygio ffioedd i sicrhau y codir am wasanaethau yn unol â'r Rheoliadau. 			
A7	<p>Dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig trwy archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio a rhanbartholi i gryfhau cydnerthedd trwy ddadansoddiad cost a budd o bartneru gydag awdurdodau cyfagos, sefydlu cyd-fentrau a / neu fabwysiadu model rhanbarthol lle y bo hynny'n fuddiol.</p>	<p>Sir wledig yw Ceredigion ac er nad yw'n unigryw mae'n wahanol iawn i'r awdurdodau mwy poblog sy'n llai yn ddaearyddol a geir yn y gogledd ac yn benodol yn ne'r wlad. Yn gyffredinol, mae'r canolfannau poblogaeth wedi'u lleoli i ffwrdd o'r ffiniau mwy gwledig ag awdurdodau cyfagos. Mae'r amgylchiadau hyn yn atal cydweithio trawsffiniol ar swyddogaethau sy'n 'seiliedig ar safleoedd'.</p> <p>Efallai y bydd cyfleoedd yn codi i gydweithio ar ddigwyddiadau hyfforddi a gwirio cynlluniau. Mae'r olaf o'r rhain eisoes yn digwydd i raddau oherwydd ymddengys fod mwyafrif yr awdurdodau wedi cofrestru ar gynllun</p>	Rhagfyr 2023	RT

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		<p>Partneriaeth Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol a byddai gwelliant pellach yn bosib pan fydd y sefyllfa o ran adnoddau'n golygu bod angen cymorth trawsffiniol.</p> <p>Rhagwelir y byddai angen cymorth trawsffiniol os bydd unrhyw Adeiladau Risg Uchel yn cael eu hadeiladu, sy'n annhebygol, gan nad yw'n debygol y bydd staff Rheoli Adeiladu Ceredigion yn mynd ati i geisio ennill cymhwysedd ar lefel na phroffir yn y sir ar hyn o bryd.</p> <p>Er gwaethaf y cyfyngiadau a amlinellir uchod, mae Ceredigion yn parhau i fod yn agored i ddichonoldeb dulliau cyflenwi amgen os daw rhai i'r amlwg.</p>		
A8	Dylai awdurdodau lleol adolygu prosesau rheoli risg i sicrhau bod risgiau'n cael eu hadnabod, eu cofnodi, eu hasesu, a'u lliniaru mewn modd systematig ac y gwneir gwaith rheolaidd i'w gwerthuso ac i graffu arnynt.	<p>“Mae'r Cyngor yn adolygu ei Bolisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg bob 3 blynedd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r arfer gorau. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf yn ddiweddar a bydd y Cyngor yn ymgynghori ar ddrafftiau diwygiedig y Polisi, y Strategaeth a'r Fframwaith gyda rhanddeiliaid allweddol rhwng mis Gorffennaf a mis Awst, cyn mynd drwy'r broses ddemocrataidd yn yr hydref. Mae'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg yn darparu fframwaith a phroses gynhwysfawr a gynlluniwyd i gefnogi Aelodau a Swyddogion i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli risg yn llawn. Mae hyn yn cynnwys dull safonol o nodi, asesu ac ymateb i risgiau.</p>	Rhagfyr 2023	Rob Starr

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		<p>Mae'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau newydd wedi cyflwyno risgiau ychwanegol sy'n benodol i'r swyddogaeth Rheoli Adeiladu. I'r perwyl hwn bydd staff yn cael eu cefnogi i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn meddu ar y cymwysterau priodol i gynnal a diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth fel y gellir cyflawni'r swyddogaethau statudol.</p> <p>Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei gwerthuso'n barhaus gan y Grŵp Arweiniol ac yn chwarterol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r dogfennau diwygiedig yn cynnwys cryfhau'r dull o fonitro risgiau i'r gwasanaeth, egluro rolau a chyfrifoldebau, ac arweiniad pellach ar ddwysáu / dad-ddwysáu risgiau. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod bod dull rhagweithiol o reoli risg yn hanfodol ar gyfer cyflawni ei weledigaeth a gwella llesiant ei gymunedau a'i drigolion.</p> <p>Cam Gweithredu: Cyhoeddi Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg wedi'u diweddarau erbyn mis Rhagfyr 2023."</p>		

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: Llamu Ymlaen – Adolygiad o Reoli'r Gweithlu'n Strategol

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2971A2022

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A1	<p>Gweledigaeth ar gyfer y gweithlu a chynllunio'r gweithlu</p> <p>Gallai gweledigaeth y Cyngor a'i drefniadau cynllunio a monitro ar gyfer y gweithlu gael eu cryfhau trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddiweddarau ei weledigaeth ar gyfer y gweithlu; • eu hintegreiddio'n fwy eglur â'i broses Cynllunio Busnes flynyddol haen un; • adolygiad blynyddol o'i gynlluniau strategol ar gyfer y gweithlu; • datblygu darlun mwy 	<p>Mae Cynllun Strategol pum mlynedd o hyd ar gyfer y Gweithlu 2022 – 2027 ar y gweill ac mae'n cyd-fynd â'r weinyddiaeth newydd a'r Strategaeth Gorfforaethol.</p> <p>Hefyd bydd y broses yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r dull adrodd blynyddol ar gyfer cynlluniau strategol ar gyfer y gweithlu a'r integreiddio â'r broses cynllunio busnes 	<p>Medi/Hydref 2022 - Gwasanaethau i gwblhau Pecyn Cymorth Cynllunio'r Gweithlu yn Strategol</p> <p>Cwblhawyd ym mis Hydref 2022</p> <p>Rhagfyr 2022 – Gweithredu targedau ac amserlenni'r Strategaeth Gweithio Hybrid</p>	Geraint Edwards

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<p>cynhwysfawr o sgiliau a chymwyseddau'r gweithlu;</p> <ul style="list-style-type: none"> dangos yn fwy eglur sut y mae'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn gyson i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu; a datblygu targedau ac amserlenni penodol ar gyfer mesurau llwyddiant ei Strategaeth Gweithio Hybrid. 	<ul style="list-style-type: none"> Adolygu'r Strategaeth Gweithio Hybrid gan gynnwys cyflwyno targedau ac amserlenni Ymchwilio ar gyfer fframwaith cymhwysedd sgiliau a datblygu proses asesu'r gweithlu 	<p>Cwblhawyd yr adolygiad o weithio hybrid ym mis Gorffennaf 2023. Cabinet i'w ystyried ym mis Medi 2023. Y dyddiad targed diwygiedig yw Mawrth 24.</p> <p>Mawrth 2023 – llunio a chymeradwyo Cynllun Strategol y Gweithlu ar gyfer 2022 – 2027</p> <p>Cwblhawyd Cynllun y Gweithlu ar gyfer 2023 -2028 ym mis Gorffennaf 2023. Awdurdodwyd y cynllun gan Y Cabinet ym mis Medi 2023. Cwblhawyd ym mis Medi 2023.</p> <p>Mawrth 2023 - Datblygu ac asesu fframwaith cymhwysedd sgiliau</p>	

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
			Wedi'i gynnwys yn y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu. Y dyddiad targed diwygiedig yw Mawrth 2024	
A2	<p>Meincnodi</p> <p>Dylai'r Cyngor fynd ati'n fwy fel rhan o'r drefn reolaidd i wneud gwaith meincnodi mewn perthynas â'r gweithlu er mwyn cryfhau ei drefniadau cynllunio busnes a hunanasesu</p>	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Cyngor yn adolygu ei fesurau meincnodi presennol a'i ddefnydd o ddata er mwyn llywio'r gwaith o baratoi cynlluniau a chynnig fframwaith ar gyfer gwella trefniadau hunanasesu yn y dyfodol. 	<p>Mawrth 2023</p> <p>Gweithio gydag awdurdodau lleol rhanbarthol i nodi meincnodi ar draws y sector. Yn dilyn rhaglen waith CLILC, nodwyd mesurau meincnodi a fydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer 2023/25.</p>	Geraint Edwards

Gosod amcanion llesiant – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2022-2023

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Cyfeirnod: 3624A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partion perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cynnwys

Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant	4
Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Ceredigion	5
Sut a phryd y mae Cyngor Sir Ceredigion yn gosod ei amcanion llesiant	5
Yr hyn a chanfuom	
Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant, fodd bynnag, gallai dynnu ar gyfranogiad mwy helaeth o ddinasyddion a gwella monitro ac adrodd	6
Argymhellion	9
Atodiadau	
Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano	10

Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant

- 1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 48 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyrff hynny osod a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf.¹ Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.
- 2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae gyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant.² Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r archwiliadau hyn, hyd at ddechrau 2025.³
- 3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal.⁴
- 4 Gwnaethom lunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae gyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut beth allai da edrych.
- 5 Wrth ddylunio ein dull gweithredu, gwnaethom ystyried yr hyn y gallem ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai gyrff cyhoeddus nawr fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod gyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant. Felly, mae'r arholiadau'n cynnwys ystyried sut mae gyrff cyhoeddus yn cymhwyso eu dysgu a sut y gallant wella yn y dyfodol.

¹ Y saith nod llesiant cenedlaethol yw; Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

² Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

³ Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arholiadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau flwyddyn cyn etholiad y Senedd ac sy'n dod i ben flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad y Senedd ganlynol.

⁴ Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Ceredigion

- 6 Nod yr archwiliad hwn oedd:
- esbonio sut y gwnaeth Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant;
 - rhoi sicrwydd i'r graddau y gweithredodd y Cyngor yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant; a
 - nodi cyfleoedd i'r Cyngor ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth osod amcanion llesiant yn y dyfodol.
- 7 Aethom ati i ateb y cwestiwn 'i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?'. Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:
- A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y Cyngor i osod ei amcanion llesiant wedi'u seilio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
 - A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
 - A yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?
- 8 Buom yn trafod amseriad yr archwiliad gyda'r Cyngor, ac fe wnaethom deilwra'r ddarpariaeth i adlewyrchu ei amgylchiadau penodol.
- 9 Rydym yn casglu ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:
- adolygu dogfennau allweddol;
 - cynnal gweithdy gyda swyddogion allweddol ac Aelodau a oedd yn ymwneud â gosod yr amcanion llesiant; a
 - chynnal cyfarfod eglurhad terfynol ar faterion sy'n weddill gydag unigolion allweddol yn ogystal â'r uchod.
- 10 Fe wnaethom hefyd ddarparu adborth anffurfiol i swyddogion ar ganfyddiadau allweddol ein gwaith cyn rhannu drafft cyntaf yr adroddiad hwn.

Sut a phryd mae'r Cyngor yn gosod ei amcanion llesiant

- 11 Mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2022-2027 (y Strategaeth) ym mis Tachwedd 2022. Mae'r Strategaeth wedi'i strwythuro o amgylch pedwar Amcan Llesiant Newydd y Cyngor, sef:
- hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
 - creu cymunedau gofalgwr ac iach
 - darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu ar bob oedran

- creu Cymunedau Cynaliadwy, Gwyrdd a Chysylltiadau Da
- 12 Strategaeth y Cyngor hefyd yw ei ddatganiad llesiant, y mae'n ofynnol iddo ei gyhoeddi o dan y Ddeddf.' Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi'r Strategaeth lawn ar eu gwefan, yn ogystal â Strategaeth Gryno a fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen'.
- 13 Wrth osod ei Amcanion Llesiant newydd (ALI) mae'r Cyngor wedi cymhwysu gwersi a ddysgwyd o'i leoliad blaenorol o ALI. Roedd y gwersi allweddol hyn yn cynnwys:
- datblygu ei flaenoriaethau ALI a Chorfforaethol newydd i ddod yn un yn yr un peth, gyda'r nod o sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i wneud y mwyaf o'i gyfraniad i'r Nodau Cenedlaethol.
 - bod yn gliriach ynghylch y rhesymeg a'r sail dystiolaeth ar gyfer ei ALI sydd wedi sicrhau bod ei ALI yn canolbwyntio ar y meysydd hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf ac yn mynd i'r afael â'r materion mwyaf arwyddocaol.
 - ffocws ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng ei Gynllun Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynlluniau Gwasanaeth Unigol. Mae hyn wedi sicrhau bod y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau yn cyd-fynd yn well â chyflawni ei ALI.

Yr hyn a chanfuom

Mae'r Cyngor wedi cymhwysu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant, fodd bynnag, gallai dynnu ar gyfranogiad mwy helaeth o ddinasyddion a gwella monitro ac adrodd

Y broses ar gyfer pennu amcanion llesiant

Sylfaen dystiolaeth

- 14 Tynnodd y Cyngor o set eang o ddata a deallusrwydd i ddeall ei anghenion presennol a'i anghenion yn y dyfodol. Er enghraifft:
- Yr Asesiad Llesiant rhanbarthol
 - Ei adolygiad blynyddol o berfformiad yn erbyn ei ALI
 - Ei hunanasesiad blynyddol
 - Asesiad Anghenion Poblogaeth Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru 2022
 - Cynllun Ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
 - Adroddiad tueddiadau'r dyfodol (Cymru) 2021
 - Tystiolaeth ar gyfer trydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (CCRA3): Crynodeb ar gyfer Cymru 2021

- 15 Mae'r wybodaeth eang hon wedi helpu'r Cyngor i roi rhesymeg glir dros osod ei ALL a'r camau y mae'n eu cymryd i'w cyflawni.
- 16 Mae'r Cyngor wedi defnyddio set gadarn o dystiolaeth i ddatblygu dealltwriaeth glir o achosion sylfaenol y materion allweddol. Er enghraifft, heriau ynghylch cyfleoedd cyflogaeth lleol ac argaeledd tai fforddiadwy, gan fod yn rhai o achosion sylfaenol mudo pobl ifanc allan o'r Sir. Defnyddiwyd y ddealltwriaeth hon wedyn i benderfynu pa gamau y mae'n ystyried fydd yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf.

Ymgynghori a chyfranogiad

- 17 Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd cynnwys dinasyddion, gan gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd, a rhanddeiliaid wrth osod a chyflawni ei ALI. Mae wedi ymgynghori ar ei Strategaeth Gorfforaethol yn uniongyrchol a thrwy ddefnyddio canlyniadau ymarferion ymgysylltu presennol, er enghraifft, ymgysylltu ynghylch Asesiad Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cydnabod bod ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn yn gyfyngedig ac nad oedd yn adlewyrchu amrywiaeth lawn dinasyddion.
- 18 Mae rhai enghreifftiau da yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor o ble mae ymgysylltu'n gweithio'n dda, ac mae dinasyddion yn ymwneud â chyflawni'r camau i gyflawni'r WO. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth yn natblygiad y Model Llesiant Trwy Oedran (TAWBM) a chynnwys pobl ifanc a Chymdeithasau Tai yn rhaglenni tai fforddiadwy ac oes y Cyngor.
- 19 Bydd datblygu a gweithredu ffyrdd arloesol a gwahanol o ymgysylltu â dinasyddion i lywio lleoliad ei Gydweithfa yn y dyfodol yn bwysig os yw'r Cyngor am wella lefelau ymgysylltu a chyrraedd amrywiaeth lawn y boblogaeth. Dylai Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu'r Cyngor a lanswyd yn ddiweddar ei helpu gyda hyn.
- 20 Mae'r naratif o fewn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yn tynnu sylw at y ffaith mai dim ond drwy gydweithio â dinasyddion y gellir cyflawni ar y Cyd â Chanolfan Gymdeithasol Cymru. Er enghraifft, bydd ei ALI "Creu Cymunedau Gofalu ac Iach" yn cael ei ategu gan ddarparu'r TAWBM sydd, yn ei dro, yn canolbwyntio ar ymgysylltu cynnar â dinasyddion a theuluoedd dinasyddion i nodi anghenion a lleihau'r risg o ddarparu pecynnau gofal dwysedd uchel yn y dyfodol.

Cynllunio i wella lles

- 21 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o sut mae ei ALI yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Nodau Cenedlaethol a chynhaliodd ymarfer mapio penodol i benderfynu sut mae ei ALI, a'r camau y mae'n eu cymryd i'w cyflawni orau yn cefnogi pob Nod. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu cydberthyniad clir rhwng Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ALI a'i Swyddfa Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o faterion a risgiau rhanbarthol a rennir a ddatblygwyd yn rhannol drwy'r asesiad llesiant BGC rhanbarthol.

- 22 Wrth ddatblygu ei ALI, archwiliodd y Cyngor flaenoriaethau strategol sefydliadau rhanbarthol eraill, gan gynnwys y rhai yng Nghynllun Heddlu a Throsedd Dyfed Powys 2021-2025 a Chynllun Ardal Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol), i alluogi a hyrwyddo dull cydgysylltiedig o wella llesiant yng Ngheredigion.
- 23 Mae nifer o enghreifftiau, gan gynnwys Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, y mae'r Cyngor wedi tynnu arnynt i helpu i lywio lleoliad ei ALI a bydd hefyd yn gweithio gyda nhw i helpu i'w cyflawni. Mae enghreifftiau hefyd, gan gynnwys TAWBM, sy'n dangos ble a sut mae'r Cyngor yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn gwella llesiant.
- 24 Mae pedwar ALI newydd y Cyngor yn defnyddio naratif sy'n eu helpu i'w gosod fel rhai sy'n berthnasol i ddarparu angen tymor byr a thymor hir. Ymhlith yr ardaloedd o fewn ei Strategaeth Gorfforaethol lle'r oedd hyn yn arbennig o gryf roedd newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon, yn ei ffocws ar dai fforddiadwy, yn ei ddull o adfywio economaidd a'i TAWBM.

Cyflawni'r amcanion llesiant

- 25 Rhan allweddol o'r broses bresennol i gyflawni ALI y Cyngor yw drwy ei Gynlluniau Busnes Gwasanaeth. Mae'r rhain yn rhan allweddol o 'edau aur' y Cyngor sy'n cydgysylltu cynlluniau staff unigol hyd at y blaenoriaethau yn y Strategaeth Gorfforaethol. Mae'r Cyngor yn parhau i wella'r ffordd y mae'r Cynlluniau Busnes Gwasanaeth hyn yn dangos yn glir sut mae gwasanaethau unigol yn cefnogi'r broses o ddarparu ALL.
- 26 Mae'r Cyngor wedi dangos sut y mae wedi dyrannu adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddarparu rhai rhannau o'i ALI. Mae enghreifftiau'n cynnwys dyrannu adnoddau penodol i TAWBM a chlustnodi dros £9m o gronfeydd wrth gefn i fod yn sail i brosiectau allweddol Bargen Twf Canolbarth Cymru. Mae'r Cyngor yn datblygu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) newydd - sydd i fod i gael ei chwblhau erbyn canol 2023 - ac mae wedi datblygu Strategaeth Gyfalaf aml-flwyddyn i wella aliniad hirdymor adnoddau i'r ALI. Mae datblygu effeithiol a gweithredu'r Strategaethau Cyfalaf a SATC newydd yn llwyddiannus yn amlwg yn sylfaenol i gyflawni'r ALI.
- 27 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod yr adnoddau hirdymor ar gyfer rhai o'r ALI, fel y ALI sy'n ymgorffori datgarboneiddio, yn parhau i fod yn risg. Bydd yn bwysig bod fersiwn newydd o'i SATC yn cynnwys asesiad o ble y gallai fod risg ariannol yn y dyfodol i gyflawni ei ALI.

Monitro'r amcanion llesiant

- 28 Proses bresennol y Cyngor ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn ei ALI yw drwy gyfuniad o'i drefniadau monitro Perfformiad Chwarterol a thrwy ei adroddiad adrodd blynyddol a hunanasesu. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen gwella ei

ddull monitro presennol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu monitro ei gynnydd yn y ALI yn fwy effeithiol ac yn fwy rheolaidd.

- 29 Er bod y Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys y gweithgaredd y bydd y Cyngor yn ymgymryd ag ef i wneud cynnydd o ran cyflawni ei ALI a hefyd yn cynnwys y Mesurau Atebolwydd Cyhoeddus Cenedlaethol, mae'n bwriadu cynnwys set fwy cynhwysfawr o fesurau i bennu ei gynnydd o fewn ei Gynlluniau Busnes Gwasanaeth unigol.
- 30 Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu ystod uwch o fesurau lefel uchel sy'n seiliedig ar ganlyniadau i fonitro cynnydd yn effeithiol yn erbyn ei SBO. Mae'n bwriadu ymgymryd â gwaith o amgylch monitro a mesurau fel rhan o'r gwelliannau parhaus y mae'n eu gwneud i'w drefniadau rheoli perfformiad. Gan fireinio, adrodd yn rheolaidd a chraffu yn gadarn, bydd y mesurau ALI yn gam allweddol wrth alluogi'r Cyngor i bennu'r cynnydd y mae'n ei wneud wrth gyflawni ei Swyddfa Archwilio a sut/a ydynt yn effeithio a gwella lles dinasyddion Ceredigion fel y bwriadwyd ac a gynlluniwyd.
- 31 Mae rhai enghreifftiau da o fesurau a chamau perfformiad, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â thlodi, megis "Creu a gweithredu Cynllun Gweithredu Amddifadedd Gwledig ac Ecwiti i gefnogi ysgolion, lleoliadau nas cynhelir a darparwyr gofal plant a chwarae i leihau effaith tlodi ar bob plentyn" sy'n ystyried yr effaith eang ar les ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Argymhellion

- R1 Dylai'r Cyngor adeiladu ar y cynnydd y mae wedi'i wneud wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant drwy:
- archwilio ffyrdd newydd o fanteisio ar amrywiaeth lawn ei phoblogaeth i lywio a chyflawni ei ALI.
 - sicrhau bod ei MTFs wedi'i adnewyddu yn dangos sut y bydd yn rhoi adnoddau i ddarparu ei ALI newydd dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy ac i adlewyrchu unrhyw risgiau ariannol posibl i'w cyflawni yn y dyfodol.
 - sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad datblygol yn nodi'r mesurau canlyniadau mwyaf priodol ac yn darparu monitro, adrodd a chraffu effeithiol ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni ei ALI.

Atodiad 1

Cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i arwain ein casglu tystiolaeth. Mae hefyd yn cynnwys rhai 'dangosyddion cadarnhaol' sydd wedi'u teilwra i'r archwiliad hwn, wedi'u haddasu o'r rhai rydym wedi'u defnyddio o'r blaen i lywio ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set o nodweddion darluniadol sy'n disgrifio sut beth allai da edrych.

I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?

Cynllunio: A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y corff i osod ei amcanion llesiant yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?

A yw'r corff wedi defnyddio data a gwybodaeth arall i ddeall anghenion, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?

Dangosyddion positif

- Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o'r cynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i lywio dealltwriaeth y corff o'r angen 'fel y mae'/tymor byr'.
- Mae'r corff wedi gosod amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o angen, risg a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei dynnu o amrywiaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:
 - Aseidiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
 - Aseidiadau poblogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
 - Canlyniadau ymarferion cyfranogiad lleol/ymgynghori

I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?

	<ul style="list-style-type: none">– Monitro a chwynion gwasanaethau– Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol– Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru (SoNaRR) ar gyfer Asesiadau Cymru ac Ardaloedd• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau rhwng cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant.
A yw'r corff wedi cynnwys eraill i ddatblygu ei amcanion llesiant?	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau cyfranogiad i helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r ymglymiad hwnnw - boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad - yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.• Mae cyfranogiad yn adlewyrchu arfer da a chyingor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
A yw'r corff wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella lles a chael effaith eang?	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.• Mae dealltwriaeth ddatblygedig o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar, neu'n ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i weithio gyda'i gilydd.
A yw'r corff wedi dylunio'r amcanion i sicrhau manteision tymor hwy, wedi'u cydbwysu â diwallu anghenion tymor byr?	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r corff wedi gosod amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi'u cynllunio i yrru gweithgaredd ar draws y sefydliad.• Mae'r amcanion wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion tymor byr a thymor hir. Pan osodir amcanion dros amserlen fer i ganolig, fe'u gosodir yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy.

I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?

Adnoddau a chyflawni: A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?

A yw'r corff wedi ystyried sut y gall roi adnoddau i'r amcanion llesiant?

- Dyrannwyd adnoddau i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion dros y tymor byr a'r tymor canolig, ond mae'r corff hefyd wedi ystyried adnoddau, risgiau a/neu sut y gall adnoddau adnoddau tymor hwy.
- Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i sicrhau buddion ataliol, lle mae'r rhain yn cael eu disgrifio yn ei amcanion llesiant.

A yw'r corff wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion?

- Mae'r corff yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a'i drefniadau cydweithredol i sicrhau y gall gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol.

Monitro ac adolygu: A yw'r corff wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?

Ydy'r corff wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?

- Mae mesurau perfformiad wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e., drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/sefydliadol ac sy'n sicrhau buddion lluosog (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hwy.
- Mae 'edau aur' a fydd yn caniatáu i'r corff adrodd yn glir ac yn dryloyw ar gynnydd i gyflawni'r amcanion.

A yw'r corff yn ceisio dysgu oddi wrth a gwella sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i bennu ei amcanion llesiant?

- Mae'r corff yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.
- Mae'r corff wedi dysgu o osod amcanion llesiant blaenorol a thrwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant newydd.
- Mae gan y corff neu'n bwriadu myfyrio ar sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch hwn o bennu amcanion llesiant.



Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Ebost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Mae'r ddogfen hon wedi'i gosod i'w darllen yn unig – ewch i *File>Save as / save a copy* i'w harbed.

Tetl yr Adroddiad: Gosod Amcanion Llesiant Gydol Oes

Dyddiad Cwblhau: [\[i'w gadarnhau\]](#)

Cyfeirnod y ddogfen: [3624A2023](#)

Cyf	Argymhelliad	Ymateb y Sefydliad Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad Cwblhau Nodwch pryd y caiff y camau gweithredu arfaethedig eu cwblhau	Swyddog cyfrifol (Teitl)
A1	<p>Dylai'r cyngor ddatblygu ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu egwyddor datblygu cynaliadwy fel rhan o'i amcanion lles trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> archwilio ffyrdd newydd o fanteisio ar amrywiaeth lawn ei phoblogaeth i lywio a chyflawni'r cynllun Llesiant Gydol Oes . <p>Sicrhau bod Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sydd wedi'i adnewyddu yn dangos sut y bydd yn cynnal gweithredu'r cynllun Llesiant Gydol oes newydd yn y tymor byr, canolig a'r tymor hir ac i uwchleuo unrhyw risgiau ariannol posibl wrth eu gweithredu yn y dyfodol.</p>	<p>Adnewyddu ein rhestr rhanddeiliaid a ddefnyddiwn wrth drefnu pob ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori.</p> <p>Gwaith wedi'i dargedu gyda Fforwm Anabledd Ceredigion, grwpiau LHDTTC+ a grwpiau BAME er mwyn gwella perthnasoedd a chyfathrebu cyson. (Hefyd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2024-2028).</p> <p>Cynnal Arolwg Rhanddeiliaid i gael barn ein poblogaeth ar sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a sut rydym yn mesur ein cynnydd.</p> <p>Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol a bydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Medi 2023. Bydd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn 'amlinellu'r risgiau i <i>gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol hyn tra hefyd yn nodi sut y bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio i reoli a</i></p>	<p>Rhagfyr 2023</p> <p>Yn parhau</p> <p>Medi 2023</p> <p>Medi 2023</p>	<p>Diana Davies</p> <p>Diana Davies</p> <p>Diana Davies</p> <p>Duncan Hall</p>

<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y mesurau newidiol o reoli perfformiadau yn canfod y mesuriadau mwyaf addas i ddarparu dulliau monitro, adrodd a chraffu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth i'r Llesiant Gydol Oes gael ei weithredu mewn modd effeithiol. 	<p><i>lliniaru'r risgiau hyn dros y tymor byr i'r tymor canolig.'</i></p> <p>Y Tîm Perfformiad ac Ymchwil i weithio gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a Rheolwyr Corfforaethol i ddatblygu a nodi mesurau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddangos cynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol.</p> <p>Datblygu dangosfwrdd Amcanion Llesiant Corfforaethol i fonitro, adrodd a chraffu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar gyflawni'r amcanion. Y Dangosfyrddau i'w cyflwyno, eu monitro a'u craffu mewn cyfarfodydd Bwrdd Perfformiad.</p> <p>Diweddarau Canllawiau Cynllunio Busnes ar gyfer 2024/25 i ddarparu cymorth pellach ar gyfer gosod mesurau perfformiad, yn enwedig mesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau</p>	<p>Yn parhau/Mawrth 2024</p> <p>Medi 2023</p> <p>Mawrth 2024</p>	<p>Diana Davies</p> <p>Diana Davies</p> <p>Diana Davies</p>
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------

'Amser am Newid' – Tlodi yng Nghymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Cyd-destun	4
Prif ganfyddiadau	5
Argymhellion	7
Prif adroddiad	
1 Mae tlodi'n amlddimensiynol, yn gymhleth, yn tyfu ac yn effeithio ar fwy o bobl yng Nghymru	13
2 Her mynd i'r afael â thlodi a lleddfu tlodi yng Nghymru	28
3 Darparu gwasanaethau llywodraeth leol i helpu pobl mewn tlodi	39
Atodiadau	
Dull ac ymagweddau archwilio	52

Cyd-destun

- 1 Mae tlodi yn llywio bywydau llawer o bobl yng Nghymru, gyda channoedd o filoedd o deuluoedd yn cael trafferth cael deupen llinyn ynghyd. Nid ffenomen newydd mo hon ac mae mynd i'r afael â thlodi, yn enwedig tlodi plant, wedi bod yn flaenoriaeth hirsefydlog i Lywodraeth Cymru ac i gynghorau yng Nghymru.
- 2 Gwyddom y gall effaith tlodi fod yn bellgyrhaeddol gyda llawer o effeithiau niweidiol. Po hwyaf y mae rhywun mewn tlodi, po anoddaf yw hi i dorri'n rhydd. Ac mae'r rhai sy'n byw mewn tlodi yn gallu ei chael hi'n eithriadol o anodd chwarae rhan lawn mewn cymdeithas a manteisio ar gyfleoedd addysg a bywyd y mae'r rhan fwyaf ohonom yn eu cymryd yn ganiataol.
- 3 Yn aml nid yw pobl sydd mewn argyfwng yn gallu dygymod ac ymdopi. Ac yn y cyfnod hwn y maen nhw'n edrych at lywodraeth – Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r 22 o gynghorau – am gymorth a chynhorthwy i ymdrin â'u trafferthion.
- 4 Fodd bynnag, mae'r argyfwng costau byw presennol, gyda chostau bwyd, tanwydd ac ynni i gyd yn codi'n sydyn, yn taro pocedi llawer mwy o bobl ac yn rhoi teuluoedd sydd wedi llwyddo i fyw'n gyfforddus mewn tlodi am y tro cyntaf. Canlyniad hyn yw creu disgwyliaid, ac angen, i lywodraeth wneud llawer mwy i helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd goroesi.
- 5 Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg ar her tlodi yng Nghymru a sut mae llywodraeth yn ymateb. Rydym yn cydnabod nad yw mynd i'r afael yn effeithiol â thlodi'n hawdd a'i fod yn eithriadol o anodd i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol. **Mae Atodiad 1** yn nodi ein hymagwedd a'n dulliau archwilio.
- 6 Hwn hefyd yw'r cyntaf o dri adolygiad o her mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu. Yn ein gwaith arall rydym yn canolbwyntio ar ddau ddatrysiad posibl. Yn gyntaf, sut y mae cynghorau'n gweithio i dyfu ac ehangu mentrau cymdeithasol i helpu llywodraeth leol i ddarparu mwy o wasanaethau a lleihau'r galw - yn y bôn a ydym yn gwneud y gorau o fentrau cymdeithasol ac yn sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chyfalaf cymdeithasol yn aros mewn cymunedau ac yn helpu pobl sydd mewn trafferthion. Ac yn ail, o ystyried y flaenoriaeth a roddir ar gydnerthedd cymunedol a hunanddibyniaeth yng nghynlluniau cynghorau, pa mor dda y mae cynghorau'n arfogi pobl i fod yn llai dibynnol ar y wladwriaeth a lleihau'r galw am wasanaethau sy'n aml wedi'u gorlethu.

Prif ganfyddiadau

- 7 Ein casgliad ar y cyfan yw bod **maint yr her a'r gwendidau mewn gwaith presennol yn ei gwneud hi'n anodd i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol gyflawni'r newid systemig y mae ei angen i fynd i'r afael â thlodi a'i leddfu.**
- 8 Yn **Rhan 1** o'r adroddiad hwn rydym yn tynnu sylw at y ffaith fod tlodi yn amlddimensiynol, yn gymhleth, yn tyfu ac yn effeithio ar fwy o bobl yng Nghymru. Mae effaith tlodi yn bellgyrhaeddol ac yn fwyfwy anodd i bobl ymdrin â hi. Mae pobl ym mhob rhan o Gymru'n dal i fyw mewn tlodi ac amcangyfrifir bod y nifer yn codi, gyda'r argyfwng costau byw yn gwthio mwy o bobl i mewn i dlodi. Mae ein dadansoddiad yn dangos mai tlodi yw'r her unigol fwyaf sy'n wynebu pob haen o lywodraeth.
- 9 Yn **Rhan 2** rydym yn ystyried sut y mae'r gwahanol haenau o lywodraeth yn blaenoriaethu camau gweithredu i leddfu tlodi. Mae mynd i'r afael â thlodi'n dal i fod yn flaenoriaeth ond mae nifer o'r ysgogiadau i leddfu tlodi y tu hwnt i reolaeth Cymru. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant yn 2011, a adolygwyd hefyd yn 2015, ond mae hon yn hen yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw sydd ohoni, ac fe wnaed i ffwrdd â'r targed i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Er hyn, mae cynghorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond mae'r cymysgedd o ddulliau a thirwedd partneriaethau sy'n gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n fawr. Yn benodol, mae deall angen a thynnu ar ystod eang o ddata i lunio ymatebion yn dal i fod yn faes i'w wella. Gan bod yr agenda mor eang, mae'n hawdd deall nad oes gan yr un cyngor dîm gwrth-dlodi cynhwysfawr, a bod gweithgarwch yn torri ar draws ystod o wasanaethau sy'n gallu atgyfnerthu'r arfer o weithio mewn seilos.
- 10 Mae Llywodraeth Cymru'n trefnu bod cyllid refeniw sylweddol ar gael i gynghorau i leddfu effaith tlodi ond oherwydd cymhlethdod a natur y materion, nid yw cyfanswm lefel y gwariant yn hysbys, ac ni wŷr yr un cyngor beth yw maint llawn ei wariant ar fynd i'r afael â thlodi a'i leddfu. Mae pob cyngor yn ddibynnol ar grantiau ond mae natur fyrdymor rhaglenni grant, gweinyddiaeth rhy gymhleth, gwendidau mewn canllawiau a chyfyngiadau grantiau, ac anawsterau gwario arian yn golygu nad yw cyllid yn cael yr effaith y gallai ei chael. Yn olaf, mae cynghorau'n ei chael hi'n anodd cyflawni gwaith ataliol oherwydd maint enfawr y galw o blith pobl mewn argyfwng.

- 11 Yn olaf, yn **Rhan 3** byddwn yn ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn darparu gwasanaethau i helpu pobl mewn tlodi. Canfuom mai dim ond un cyngor sy'n gwneud gwaith ffurfiol i fapio profiadau gyda defnyddwyr gwasanaethau i drefnu sut y mae'n darparu pob gwasanaeth i helpu pobl mewn tlodi. Er hyn, mae cynghorau'n newid y ffordd y maen nhw'n darparu gwasanaethau o ganlyniad i'r pandemig a phwysau parhaus ar gyllidebau. Ond nid yw'r modelau cyflenwi newydd bob amser yn helpu pobl mewn tlodi a'r rhai sydd mewn trafferthion oherwydd yr argyfwng costau byw.
- 12 Mae allgau digidol yn dal i fod yn her fawr ac mae data'n dangos bod pobl mewn tlodi'n gallu ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau ar-lein. Mae hybiau cymunedol yn cynnig cyfle i gynghorau helpu pobl pan ydynt mewn argyfwng. Gall gwasanaethau cyhoeddusrwydd, cyngor a gwybodaeth cynhwysfawr ac integredig helpu pobl sydd mewn trafferthion yn sylweddol ond cymysglyd yw'r darlun ledled Cymru. Mae pob cyngor yn cynnal rhyw fath o asesiad i bennu effaith gymdeithasol-economaidd debygol dewisiadau a phenderfyniadau polisi, ond mae'r dull yn amrywio ac nid yw bob amser yn effeithiol. Gydag ambell eithriad, mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn ei chael hi'n anodd dangos gwerth eu gwaith o ran lleddfu a mynd i'r afael â thlodi.



Rwy'n cydnabod graddfa'r her o dan sylw y mae tlodi yn ei chyflwyno. Mae'n hanfodol felly bod Llywodraeth Cymru a chynghorau yn gwneud y mwyaf o'u hymdrechion ac yn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn fy adolygiad i. Mae angen i ni sicrhau bod pob haen o'r llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i helpu pobl mewn angen ac mae fy argymhellion wedi'u targedu at ategu gwelliant.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol
Cymru



Argymhellion

- 13 Caiff ein hargymhellion eu nodi isod. Rydym yn disgwyl i bob cyngor ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn a'n hargymhellion, a bod ei bwyllogor llywodraethu ac archwilio'n cael yr adroddiad hwn ac yn monitro ei ymateb i'n hargymhellion mewn modd amserol.

Argymhellion

Strategaeth genedlaethol a thargedau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu

- A1 Ym **Mharagraffau 2.8 – 2.12** rydym yn nodi nad oes targed penodol ar gyfer lleihau tlodi yng Nghymru ar hyn o bryd a bod angen diweddarau'r strategaeth Tlodi Plant bresennol. Rydym bod Llywodraeth Cymru, wrth ddiweddarau ei strategaeth:
- yn pennu camau gweithredu cenedlaethol CAMPUS;
 - yn sefydlu cyfres o fesurau perfformiad i farnu'r modd y'i cyflawnir a'i heffaith;
 - yn gosod targed ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu; ac
 - yn mynd ati'n rheolaidd i gynnal gwerthusiad o berfformiad a chyhoeddi adroddiadau cyhoeddus.

Argymhellion

Strategaethau, targedau ac adroddiadau ar berfformiad lleol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu

A2 Ym **Mharagraffau 2.13 – 2.23** a **Pharagraffau 3.33 – 3.35** rydym yn amlygu bod cynghorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond bod y cymysgedd o ddulliau a thirwedd cyflawni gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n eang. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod gwerthuso gweithgarwch a'r modd yr adroddiad ar berfformiad hefyd yn amrywiol gyda llawer o fylchau. Rydym ni'n argymhell bod y cynghorau'n defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i roi ffocws cynhwysfawr ar fynd i'r afael â thlodi i gydlynu eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi'r targedau a'r camau gweithredu yn y cynllun cenedlaethol diwygiedig. Dylai hyn:

- gynnwys camau gweithredu lleol CAMPUS gyda mwy o bwyslais ar atal;
- cynnwys cynllun adnoddau manwl ar gyfer oes y strategaeth;
- cael ei ddatblygu gydag ymwneud gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a'r rhai sydd â phrofiad o dlodi;
- cynnwys set gadarn o ddangosyddion a mesurau canlyniadau cyson i gynyddu dealltwriaeth am dlodi yn lleol; a
- bod yn destun adroddiadau cyhoeddus blynyddol er mwyn gallu bod â golwg system gyfan ar dlodi'n lleol i helpu i wella'r broses gyflawni a chymorth.

Argymhellion

Arweinyddiaeth ar yr agenda tlodi

A3 Ym **Mharagraff 2.23** rydym yn nodi bod gan ychydig dros draean o'r cyngorau aelodau arweiniol a swyddogion arweiniol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. O ystyried pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol i yrru'r agenda tlodi yn ei blaen a thorri seilos o fewn cyngorau a rhwng cyrff cyhoeddus, rydym yn argymhell bod pob cyngor yn dynodi aelod cabinet fel hyrwyddwr tlodi'r cyngor ac yn dynodi uwch swyddog i arwain a bod yn atebol am yr agenda wrthlodi.

Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd rhaglenni sy'n cael eu hariannu â grantiau

A4 Ym **Mharagraffau 2.31 – 2.38** rydym yn nodi bod yr holl gynghorau'n ddibynnol ar grantiau ond bod gwendidau mewn rhaglenni'n golygu nad yw cyllid yn cael yr effaith y gallai ei chael. Er mwyn sicrhau bod cynghorau'n gallu manteisio i'r eithaf ar effaith cyllid a mynd i'r afael â'r problemau anos a hirsefydlog, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

- ddarparu graddfeydd amser hwy ar gyfer cyhoeddi a chael cynigion i'w gwneud yn bosibl cynllunio adnoddau'n well;
- newid o gylchoedd cynigion blynyddol i ddyraniadau amlflwyddyn;
- ei gwneud yn bosibl gwario cyllid yn fwy hyblyg er mwyn osgoi pwyslais ar brosiectau cyflymach, yn hytrach nag ymyriadau sy'n cael mwy o effaith ac sy'n cymryd mwy o amser i'w sefydlu;
- caniatáu i gynghorau gydgrynhoi cyllid i leihau biwrocratiaeth;
- symleiddio prosesau ac amodau grant i leihau'r baich gweinyddol; a
- chyfyngu i'r eithaf ar geisiadau am wybodaeth a deunyddiau ategol gan gynghorau.

Argymhellion

Mapio profiadau i greu gwasanaethau cynhwysol i bobl mewn tlodi

A5 Ym **Mharagraffau 3.2 – 3.6** rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl mewn tlodi yn aml mewn argyfwng, yn ymdrin â materion personol a materion sy'n llawn straen, ond maent yn aml yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth gan gynghorau oherwydd y ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu. Rydym yn argymhell bod cynghorau'n gwella eu dealltwriaeth am 'brofiad personol' eu trigolion trwy eu cynnwys mewn modd ystyrlon wrth wneud penderfyniadau gan 'fapio profiadau' a/neu ddefnyddio 'Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi' i adolygu a gwella hygyrchedd gwasanaethau'r cyngor a'r defnydd ohonynt.

Un dudalen lanio ar y wefan ar gyfer pobl sy'n chwilio am gymorth

A6 Ym **Mharagraff 3.14** rydym yn tynnu sylw at yr anawsterau y mae pobl mewn tlodi yn eu hwynebu wrth geisio mynediad at wasanaethau ar-lein a digidol. Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael yr wybodaeth a'r cyngor y mae eu hangen arnynt, rydym yn argymhell bod cynghorau'n optimeiddio eu gwasanaethau digidol trwy greu un dudalen lanio ar eu gwefan sydd:

- yn uniongyrchol hygyrch ar yr hafan;
- yn darparu dolenni i'r holl wasanaethau a ddarperir gan y cyngor sy'n ymwneud â thlodi; ac
- yn darparu gwybodaeth am waith partneriaid sy'n gallu cynorthwyo pobl mewn tlodi.

Argymhellion

Symleiddio a gwella gwasanaethau ymgeisio a gwybodaeth i bobl mewn tlodi

A7 Ym **Mharagraffau 3.15 a 3.16** rydym yn nodi nad yw'r un cyngor wedi creu un porth i mewn i wasanaethau. O ganlyniad, mae'n rhaid i bobl gwblhau ffurflenni cais lluosog sy'n aml yn cofnodi'r un wybodaeth wrth wneud cais am wasanaethau tebyg. Rydym yn amlygu, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, bod angen i gynghorau hefyd rannu data er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Rydym yn argymhell y dylai cynghorau:

- sefydlu safonau data a dull codio corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;
- cynnal archwiliad i ganfod pa ddata sy'n cael ei gadw gan wasanaethau a nodi unrhyw achosion o ddyblygu cofnodion a cheisiadau am wybodaeth;
- creu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau;
- cynnal archwiliad data i ddarparu hyfforddiant diweddarau i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data a pha ddata y gallant ac na allant ei rannu; ac
- adolygu a diweddarau protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.

Argymhellion

Cydymffurfio â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

A8 Ym **Mharagraffau 3.27 i 3.32** rydym yn nodi, er bod pob cyngor yn cynnal rhyw fath o asesiad i bennu effaith economaidd-gymdeithasol debygol dewisiadau a phenderfyniadau polisi, bod dulliau'n amrywio ac nad ydynt bob amser yn effeithiol. Rydym ni'n argymhell bod cyngorau yn adolygu eu hasesiadau effaith integredig neu ddogfennau cyfwerth er mwyn:

- sicrhau eu bod yn defnyddio data perthnasol, cynhwysfawr a chyfredol (dim byd dros 12 mis oed) i ategu dadansoddiad;
- sicrhau bod asesiadau effaith integredig yn casglu gwybodaeth am:
 - weithgarwch cynnwys sy'n nodi'r rhai y mae'r gwasanaeth wedi ymgysylltu â hwy wrth benderfynu ar ei bolisi strategol megis partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a'r rhai y mae'n cydgynhyrchu â hwy;
 - yr effaith gronnu/camau lliniaru i sicrhau bod yr asesiad yn ystyried materion yn eu crynswth a sut mae'n cysylltu ar draws gwasanaethau a ddarperir ar draws y cyngor;
 - sut y bydd y cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r effaith ac yn cymryd camau cywiro; a
 - chynllun gweithredu sy'n nodi'r gweithgareddau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Integredig.



**Mae tlodi'n
amldimensiynol, yn
gymhleth, yn tyfu ac
yn effeithio ar fwy o
bobl yng Nghymru**

01

- 1.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad rydym yn rhoi trosolwg fer o'r diffiniad o dlodi, sy'n nodi cymhlethdodau tlodi gan ddangos ei effaith o ddydd i ddydd ar bobl yng Nghymru. Rydym yn amlinellu sut y mae tlodi'n cael ei fesur, gan amlygu'r gwahaniaethau rhwng gwledydd y DU, ac rydym yn dangos bod tlodi yng Nghymru yn tyfu. Yn olaf, rydym yn ystyried yr argyfwng costau byw presennol a sut y mae hyn yn gwthio mwy o bobl i mewn i dlodi am y tro cyntaf, gan olygu mai tlodi yw'r her unigol fwyaf sy'n wynebu pobl a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Diffinio tlodi

- 1.2 Gellir disgrifio mewn gwahanol ffyrdd ac nid oes un diffiniad a dderbynnir gan bawb. Yn 1995, mabwysiadodd y Cenhedloedd Unedig ddau ddiffiniad cymharol o dlodi, gan fframio'r mater o ran y safonau byw isaf sy'n dderbyniol o fewn y gymdeithas y mae person penodol yn byw ynnddi, sef:
 - a **tlodi absoliwt** a ddiffinnir fel cyflwr a nodweddir gan amddifadedd difrifol o anghenion dynol sylfaenol, gan gynnwys bwyd, dŵr yfed diogel, cyfleusterau glanweithdra, iechyd, lloches, addysg a gwybodaeth. Mae'n dibynnu nid yn unig ar incwm, ond hefyd ar fynediad at wasanaethau.
 - b **tlodi cyffredinol** sydd ar amryw ffurfiau, gan gynnwys diffyg incwm ac adnoddau cynhyrchiol i sicrhau bywoliaeth gynaliadwy; newyn a diffyg maeth; afiechyd; gwasanaethau addysg a gwasanaethau sylfaenol eraill sy'n gyfyngedig, neu ddiffyg mynediad at y gwasanaethau hynny; mwy o forbidrwydd a marwolaethau oherwydd salwch; digartrefedd a thai annigonol; amgylcheddau anniogel a gwahaniaethu ac allgau cymdeithasol.
- 1.3 Felly mae tlodi'n digwydd ym mhob gwlad a bydd gan hyd yn oed y lleoedd mwyaf datblygedig bocedi o dlodi ynghanol cyfoeth. Er enghraifft, colli bywoliaeth o ganlyniad i ddirwasgiad economaidd, tlodi sydyn o ganlyniad i drychineb neu wrthdaro, tlodi ymysg gweithwyr sydd ar gyflog isel, a'r rhai sy'n cael trafferth ymdopi y tu allan i systemau cymorth teuluol, sefydliadau cymdeithasol a rhwydi diogelwch.
- 1.4 Gall achosion tlodi hefyd fod yn strwythurol, gyda thlodi'n deillio ac yn cael ei helaethu o ganlyniad i'r ffordd y mae cymdeithas a'r economi wedi'u fframio ac yn gweithio, sy'n helpu i greu cylch sy'n ei gwneud hi'n anos i rai pobl ddarparu ar gyfer eu teuluoedd ac sy'n eu cadw'n gaeth mewn caledi. Mae'r strwythurau hyn yn ysgogi anghyfartalwch o ran mynediad at gludiant, addysg, gofal plant, gofal iechyd, swyddi o ansawdd da, a thai fforddiadwy. Er enghraifft, gall pobl nad ydynt yn gallu cael hyfforddiant neu addysg yn hawdd gael trafferth sicrhau swydd ddiogel, sy'n ei gwneud hi'n anos dianc rhag tlodi. Yn yr un modd, gall gweithrediad, neu anhyblygrwydd, systemau lles ei gwneud hi'n anodd i'r rhai sydd mewn trafferth a'u cadw'n gaeth mewn tlodi.

- 1.5 O ganlyniad, mae angen ystyried tlodi fel mater amlddimensiynol sy'n ymgorffori agweddau ar, er enghraifft, amddifadedd, a lles seicolegol, megis iechyd meddwl a chywilydd. Mae bwrw golwg ar amddifadedd yn ei gwneud yn bosibl cynnwys ystod eang o agweddau ar safonau byw. Yma, ni ddylid ystyried amddifadedd yn nhermau amddifadedd materol yn unig ond hefyd yn nhermau allgau cymdeithasol o 'batrymau, arferion a gweithgareddau cyffredin' cymdeithas¹.

Mae effaith tlodi yn bellgyrhaeddol ac yn fwyfwy anodd i bobl ymdrin â hi

- 1.6 Felly nid dim ond bod heb yr arian y mae ar bobl ei angen i ddiwallu eu hanghenion yw tlodi. Mae hefyd yn ymwneud â chanlyniadau'r diffyg adnoddau hwn hefyd a sut mae hyn yn effeithio arnynt mewn ffyrdd y mae'r rhai nad ydynt mewn tlodi yn aml yn ei chael yn anodd dirnad. Gall rhai o'r canlyniadau hyn – er enghraifft arwahanrwydd ac allgau cymdeithasol, diymadferthedd, lles corfforol ac emosiynol – estyn a bytholi tlodi, gan ei gwneud hi'n anodd, os nad yn amhosibl, i bobl ddianc rhag ei effaith. Ac yn aml gall y ffordd y caiff polisïau a gwasanaethau eu trefnu a'u darparu wneud y sefyllfa'n llawer mwy o her.
- 1.7 Trwy ein gwaith maes, yn benodol siarad gyda phobl mewn tlodi, rydym wedi ceisio diffinio ei nodweddion neu ei ddimensiynau ar lefel ddynol – sut mae byw mewn tlodi'n teimlo ac yn edrych. O'n gwaith ni, mae rhai materion cyffredin sy'n digwydd dro ar ôl tro i bobl sy'n byw mewn tlodi. Rydym wedi nodi'r rhain o dan saith pennawd bras yn **Arddangosyn 1**. Ni fydd pawb yn dod ar draws y rhain i gyd, a gall pobl brofi problemau gwahanol ar adegau gwahanol. O'u hystyried yn eu cyfanrwydd, fodd bynnag, maent yn dangos pa mor amlddimensiynol y gall tlodi fod ac yn darparu ymdeimlad o'r hyn y mae'n ei olygu i fyw mewn tlodi ac, yn y pen eithaf, mewn amddifadedd.

1 Lansley, S. a Mack, J., Breadline Britain – the rise of mass poverty, Llundain, Oneworld, (2015).

Arddangosyn 1 – 'Dimensiynau' neu 'Nodweddion' byw mewn tlodi yng Nghymru

Materion tai

- Mae gen i brofiad o fod yn ddigartref, cysgu ar y stryd a/neu symud o sofffa i sofffa
- Mae fy nghartref yn ansicr, ac rwy'n ofni ei golli
- Nid wyf yn gallu fforddio talu fy rhent neu forgais
- Rwy'n byw mewn tŷ o ansawdd gwael/is-safonol
- Mae pobl yn fy nghartref yn rhannu ystafelloedd gwely ac nid oes digon o le ganddynt
- Ni allaf fforddio dodrefn na nwyddau gwynion yn fy nghartref



Materion dillad ac esgidiau


- Nid oes dillad cynnes gennyf yn y gaeaf
- Rwy'n dibynnu ar roddion ac elusennau ar gyfer dillad
- Dim ond dau bâr o esgidiau sydd gen i
- Does gen i ddim dillad ar gyfer gwaith nac ar gyfer cyfweiliadau am swyddi

Materion Tanwydd ac Ynni

- Mae gan fy nghartref effeithlonrwydd ynni gwael
- Mae'n rhaid i mi ddefnyddio mesuryddion rhagdalau a/neu dariffau cost uchel
- Rwy'n defnyddio llawer o ynni oherwydd fy afiechyd i/afiechyd fy nheulu
- Rwy'n defnyddio llawer o ynni oherwydd maint fy nheulu
- Rwy'n methu'n rheolaidd â fforddio defnyddio trydan neu nwy
- Rwy'n dibynnu ar gyflenwad ynni drutach, nad yw ar y grid – olew


Materion bwyd a dŵr

- Ni allaf warantu cyflenwad rheolaidd a digonol o fwyd a dŵr
- Nid wyf yn gallu prynu digon o fwyd a dŵr i ddiwallu fy anghenion i ac anghenion fy nheulu
- Nid wyf yn gallu bwyta'n iach
- O bryd i'w gilydd does gen i ddim bwyd ar gael
- Rwy'n colli prydau yn rheolaidd
- Rwy'n methu â fforddio ymolchi a/neu olchi fy nillad



Materion ariannol

- Does gen i ddim digon o incwm i fforddio talu fy nghostau byw
- Mae fy incwm yn ansefydlog, a dydw i ddim yn gwybod faint o arian sydd gen i o wythnos i wythnos
- Ni allaf gael credyd
- Does gen i ddim cynilion
- Rwyf mewn dyled
- Rwy'n dibynnu ar fudd-daliadau lles a/neu elusennau




Materion allgau o wasanaethau

- Ni allaf gofrestru ar gyfer gwasanaethau iechyd, deintyddol a gofal
- Mae cludiant yn annibynadwy ac rwy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at gludiant a/neu fforddio cludiant
- Does gen i ddim cyfrifiadur, ffôn clyfar na/neu lechen
- Does gen i ddim mynediad at y we gartref
- Rwy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gwasanaethau cyhoeddus hanfodol y mae eu hangen arnaf
- Rwy'n ei chael hi'n anodd cyfranogi mewn neu ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnaf – e.e. heb gofrestru i bleidleisio, neu ddim yn pleidleisio
- Rwy'n ei chael hi'n anodd cael y cyngor a'r wybodaeth y mae eu hangen arnaf i'm helpu
- Rwy'n teimlo fy mod wedi fy ymyleiddio gan y gwasanaethau yr wyf yn ceisio cymorth ganddynt

Materion emosiynol a pherthynas

- Mae gennyf ddiffyg hyder a hunan-fri
- Rwy'n ei chael hi'n anodd ymdrin â phroblemau
- Rwy'n ei chael hi'n anodd cyfathrebu gyda phobl a gwasanaethau
- Mae gen i sgiliau llythrennedd a rhifedd gwael
- Rwy'n ei chael hi'n anodd meithrin a/neu gynnal perthnasoedd
- Rwy'n profi teimladau o gywilydd a gwarthnod oherwydd fy amgylchiadau



Mae pobl ym mhob rhan o Gymru yn dal i fyw mewn tlodi ac amcangyfrifir bod y nifer yn codi

- 1.8 Nid oes un ffynhonnell dystiolaeth a ddefnyddir gan bawb er mwyn canfod lefelau tlodi yng Nghymru. O ganlyniad, rydym wedi seilio ein dadansoddiad ar dair set ddata allweddol, sef Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru; data ar gartrefi islaw'r incwm cyfartalog gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP); a gwybodaeth am dlodi parhaus, sydd eto'n cael ei chyhoeddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- 1.9 O'i hystyried gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn dangos i ni bod nifer sylweddol o bobl yn byw mewn tlodi yng Nghymru a bod amddifadedd yn cyrraedd pob rhan o'r wlad. Yn bwysig, mae lefelau tlodi yn dal i fod yn ystyfnig o uchel ac yn effeithio ar bob rhan o'r boblogaeth - plant, pobl o oedran gweithio a phensiynwyr. Yn arwyddocaol, mae llawer o bobl hefyd yn profi tlodi'n barhaus.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru


- 1.10 Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) i fesur amddifadedd cymharol ardaloedd bychain yng Nghymru ac yna mae'n eu gosod mewn trefn o'r fwyaf i'r lleiaf amddifadus. Mae MALIC yn defnyddio 47 o ddangosyddion sydd wedi'u rhannu'n wyth parth – incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol, a'r amgylchedd ffisegol. Mae MALIC yn fesur o amddifadedd lluosog sydd yn fesur seiliedig-ar-ardaloedd ac yn fesur o amddifadedd cymharol.
- 1.11 Mae MaLIC yn gosod pob ardal fach yng Nghymru mewn trefn o 1 (y fwyaf amddifadus) i 1,909 (y lleiaf amddifadus). Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon felly mae'n bosib dweud bod un ardal yn fwy neu'n llai amddifadus nag un arall². Mae'r MALIC llawn yn cael ei ddiwygio bob pedair i bum mlynedd ac fe'i diweddarwyd ddiwethaf yn 2019, cyn y pandemig ac effaith yr argyfwng costau byw presennol. Er hynny, y MALIC yw'r data gorau sydd ar gael o hyd ar gyfer cymharu lefelau tlodi fesul cyngor.

2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bychain yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae MALIC yn gosod yr holl ardaloedd bychain yng Nghymru mewn trefn o 1 (y fwyaf amddifadus) i 1,909 (y lleiaf amddifadus). Mae ardaloedd bach yn cyfeirio at adrannau daearyddol y Cyfrifiad a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI)..

- 1.12 Gan ddefnyddio data MALIC, yn **Arddangosyn 2** rydym yn nodi'r lefelau cymharol o amddifadedd fesul cyngor yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn ar lefel ardaloedd bychain. Yn fras, mae MALIC yn dangos i ni bod gan bob ardal yng Nghymru bocedi o amddifadedd, ond mai yn ardaloedd trefol de-ddwyrain Cymru y mae pobl yn profi tlodi yn barhaus ac yn profi'r trafferthion mwyaf.
- 1.13 Mae mynd i'r afael â thlodi a leddfu tlodi'n greiddiol i ddarparu ar gyfer lles dinasyddion, ac mae llywodraeth ar bob lefel yng Nghymru yn amlwg yn gweithredu rhaglenni lu i gefnogi hyn. Mae hyn yn cynnwys y GIG, addysg, taliadau lles, seilwaith, a chyfleustodau. Mae natur eang tlodi a'r ystod eang o feysydd y mae'n cyffwrdd â hwy'n golygu ei fod yn ei hanfod yn croesi dros wahanol ffiniau cyfansoddiadol y DU.
- 1.14 Mae Cymru wedi bod â lefelau ystyfnig o uchel o dlodi am flynyddoedd lawer (**Arddangosyn 2**) ac o ganlyniad mae tlodi'n dal i fod yn flaenoriaeth hirsefydlog gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod natur tlodi'n golygu na all fynd i'r afael ag ef ar ei phen ei hun a bod rhaid mynd i'r afael â thlodi ar y cyd rhwng pob lefel o lywodraeth. Er gwaethaf hynny, mae gan Lywodraeth Cymru awtonomiaeth sylweddol lle mae mynd i'r afael â thlodi yn y cwestiwn. Er enghraifft, mae'n gyfrifol am feysydd pwysig datblygu economaidd, addysg, iechyd a pholisi tai, a gall benderfynu ble mae'n dyrannu ei chyllidebau.

Arddangosyn 2 – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – Dadansoddiad o Gynghorau fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is

Mae pobl ym mhob rhan o Gymru yn profi tlodi, ond mae i'w deimlo'n fwyaf llym yn ardaloedd trefol a chymoedd De Cymru.



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2019


Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog

1.15 Mae'r rhan fwyaf o fesurau swyddogol o dlodi yn defnyddio incwm cymharol i asesu pwy sydd mewn tlodi; pennir trothwy incwm ac ystyrir bod y rhai sydd islaw'r trothwy 'mewn tlodi'. Y meincnod presennol ar gyfer barnu lefelau cymharol o dlodi yw nifer yr aelwydydd sy'n cael llai na 60% o'r cyflog cyfartalog. Gan ddefnyddio'r mesur hwn³, a defnyddio data a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, mae 23% o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi ac mae Cymru'n dal i fod â'r lefelau uchaf o dlodi yn y Deyrnas Unedig – **Arddangosyn 3**.

3 Incwm cymharol yw'r swm o arian ar ôl talu costau tai fel taliadau llog morgais/rhent, trethi dŵr ac yswiriant tŷ strwythurol.

Arddangosyn 3 – Canran y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol fesul gwlad yn y DU rhwng 2007-08 i 2009-10 a 2017-18 i 2019-20 (cyfartaleddau dros dair blynedd ariannol)

Mae Cymru wedi bod â'r lefelau uchaf o dlodi incwm cymharol yn y DU yn gyson yn ystod y degawd diwethaf.



Ffynhonnell: Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, Arolwg o Adnoddau Teulu, yr Adran Gwaith a Phensiynau, a adroddwyd ar StatsCymru (Dangosydd [SIEQ0031](#)), Mawrth 2021

1.16 Mae cloddio o dan wyneb y prif ffigurau'n ein galluogi i adnabod rhai tueddiadau pwysig o ran tlodi yng Nghymru, a'r gwahaniaethau rhwng Cymru a gwledydd eraill y DU. Er bod nifer y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru wedi gostwng o 32% yn 2010-11 i 28% yn 2018-19, fe gododd y niferoedd yn sydyn yn 2019-20 i 31%. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau⁴ ym mis Mawrth 2022 (fel y'u dadansoddwyd gan Lywodraeth Cymru⁵) yn awgrymu bod y duedd hon yn parhau gyda rhagamcaniad bod 34% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi ym mis Mawrth 2021⁶. Ar draws pedair gwlad y DU, Cymru sydd â'r nifer uchaf o blant mewn tlodi incwm cymharol.

4 [Households Below Average Income](#), Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Mawrth 2022

5 [Mesurau tlodi: Ebrill 2020 i Fawrth 2021](#), Llywodraeth Cymru, Mawrth 2022

6 Dylid nodi bod y data diweddaraf ar gyfer Cymru yn seiliedig ar yr Arolwg o Adnoddau Teulu sy'n samplu tua 900 o aelwydydd yng Nghymru bob blwyddyn. Dyma pam y cyflwynir data fel cyfartaleddau treigl dros dair i bum mlynedd, i leihau (ond nid dileu) annibynadwyedd.

- 1.17 Pensiynwyr sydd â'r lefelau isaf o dlodi yng Nghymru, gyda'r niferoedd yn aros yn gyson ar 18% yn y degawd diwethaf, er bod dadansoddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer mis Mawrth 2021 yn awgrymu bod hyn wedi codi ychydig bach i 19%. Eto, wrth gymharu niferoedd ledled y DU, mae gan Gymru fwy o bensiynwyr mewn tlodi na'r tair gwlad arall. Yn olaf, o ran oedolion o oedran gweithio, mae'r data wedi aros yn sefydlog ar 22%, ond Cymru eto sydd â'r niferoedd uchaf yr ystyrir eu bod mewn tlodi incwm cymharol ar draws pedair gwlad y DU.
- 1.18 Un broblem gynyddol sy'n wynebu llawer o oedolion o oedran gweithio yw 'tlodi mewn gwaith' – tlodi a wynebwr gan unrhyw un sy'n byw ar aelwyd lle mae rhywun mewn gwaith ond nad yw ei incwm (gan gynnwys budd-daliadau lles) yn nac wedi bod yn aros gyfwrch â chostau byw o ddydd i ddydd. Nid yw tlodi mewn gwaith yn newydd ac mae'n fater sydd wedi bod yn tyfu ers canol y 1990au. Fodd bynnag, mae wedi dod yn broblem fwy llym yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r duedd gynyddol hon yn amlygu, er bod gwaith yn lleihau'r risg o dlodi, bod incwm yn aml ddim yn ddigon i alluogi rhywun i ddianc o dlodi. Mae ymchwil yn awgrymu bod tlodi mewn gwaith wedi cynyddu ledled y DU yn 2021 ond ei fod wedi codi'n fwyaf sydyn yn Llundain (22% o aelwydydd), Cymru a Gogledd Lloegr (y ddau – 18% o gartrefi)⁷.

Tlodi Parhaus

- 1.19 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cynhyrchu adroddiad deinameg incwm ar newidiadau mewn incwm dros amser sy'n amlygu cyfraddau incwm isel parhaus ar gyfer gwahanol grwpiau. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'tlodi parhaus'. Ystyrir bod unigolion yn byw mewn tlodi parhaus os ydynt yn cael incwm cymharol isel am o leiaf dair allan o bedair blynedd yn olynol.

- 1.20 Mae tlodi parhaus yn bryder mawr. Yn ôl tystiolaeth Sefydliad Joseph Rowntree, mae canlyniadau negyddol tlodi yn waeth i deuluoedd po hwyaf y maent yn ei dreulio mewn tlodi, a pho ddyfnaf yw'r tlodi y maent ynddo⁸. Canfu'r data diweddaraf gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 fel a ganlyn:
- a roedd gan unigolyn yng Nghymru a Lloegr siawns o 12% o fod mewn tlodi parhaus rhwng 2016 a 2020 (ar ôl talu costau tai). Mae hyn yn fwy nag yn yr Alban (10%), ac yng Ngogledd Iwerddon (9%);
 - b roedd gan blentyn yng Nghymru tebygolrwydd o 13% o fod mewn tlodi parhaus, sy'n llai nag i Loegr (19%) ond yn uwch nag i Ogledd Iwerddon (12%) a'r Alban (10%);
 - c roedd gan oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru tebygolrwydd o 13% o fod mewn tlodi parhaus, sy'n uwch na Lloegr (11%), Yr Alban a Gogledd Iwerddon (10%); ac
- chroedd gan bensiynwr sy'n byw yng Nghymru tebygolrwydd o 10% o fod mewn tlodi parhaus, sydd yn is nag yn Lloegr a'r Alban, sef 11%. Y tebygolrwydd yng Ngogledd Iwerddon yw 5%.

Mae'r argyfwng costau byw yn gwthio mwy o bobl i mewn i dlodi

- 1.21 Mae'r 'argyfwng costau byw' yn cyfeirio at y gostyngiad mewn incwm gwario 'gwirioneddol' (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant ac ar ôl trethi a budd-daliadau) y mae'r DU wedi'i brofi ers diwedd 2021. Fe'i hachosir yn bennaf gan y ffaith bod chwyddiant uchel yn uwch na'r codiadau mewn cyflogau a budd-daliadau ac mae wedi cael ei waethygu ymhellach gan gynnydd diweddar mewn treth. Mae pris nwyddau, yn enwedig hanfodion, yn cynyddu'n gyflymach nag incwm y rhan fwyaf o bobl ac mae'n creu gwasgfa ar gyllid aelwydydd, yn enwedig y rhai sydd ar gyflogau isel. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn amcangyfrif bod chwyddiant bellach yn uwch nag ar unrhyw adeg ers 1982⁹, gan effeithio ar fforddiadwyedd nwyddau a gwasanaethau i filiynau o aelwydydd.

8 Sefydliad Joseph Rowntree, [UK Poverty 2022](#), Ionawr 2022

9 Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Cyfradd flynyddol CPIH](#), Mai 2022

- 1.22 Ym mis Ionawr 2022, nododd y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol y bydd yr un rhan o ddeg o aelwydydd sydd ar yr incwm isaf yn wynebu tua 1.5 pwynt canran yn fwy o chwyddiant na'r un rhan o ddeg o aelwydydd sydd ar yr incwm uchaf dros y flwyddyn¹⁰. Yn yr un modd, daeth ymchwil gan y Resolution Foundation i'r casgliad y bydd y chwarter o aelwydydd tlotaf yn gweld eu hincwm gwirioneddol yn gostwng 6% yn 2022-23¹¹. Gan bod prisiau ynni'n codi'n arbennig o gyflym, mae Sefydliad Joseph Rowntree yn amcangyfrif y bydd angen yn awr i deuluoedd ar incwm isel wario 19% o'u hincwm ar gostau ynni yn unig yn 2022-23, o'i gymharu â theuluoedd incwm canol y bydd angen iddynt wario 7% o'u cyflog ar ôl didyniadau¹² (er y gallai'r ffigyrau hyn fod yn is yn dilyn cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth gyda biliau¹³ ynni hyd at fis Ebrill 2023). Yn olaf, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd incwm aelwydydd pan gaiff ei addasu ar gyfer chwyddiant yn gostwng mwy (-2.2%) yn 2022-23 nag mewn unrhyw flwyddyn ers i gofnodion ddechrau ar ganol y 1950au¹⁴.
- 1.23 Mae **Arddangosyn 4** yn dwyn ynghyd amrywiaeth o ddata i ddangos y newidiadau cyflym sy'n digwydd mewn costau ynni a bwyd a'r effaith y mae hyn yn ei chael. Mae'r ymchwil hon yn dangos bod niferoedd uwch o bobl bellach yn profi diffyg diogeledd ynni a bwyd, a pho dlotaf ydych chi, po fwyaf yw effaith yr argyfwng costau byw arnoch chi. Yn bwysig, oherwydd ei bod yn anodd cofnodi ac adrodd ar ddata tlodi mewn amser real, mae nifer y bobl yr effeithir arnynt gan yr argyfwng costau byw ac sy'n byw mewn tlodi yn absennol o'r data presennol.

10 Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, Y Wasgfa Gostau Byw, Ionawr 2022

11 Resolution Foundation, Archwiliad Safonau Byw 2022, Gorffennaf 2022

12 Sefydliad Joseph Rowntree, Dadansoddi Prisiau Ynni, Mawrth 2022

13 <https://www.itv.com/news/2022-10-17/jeremy-hunt-to-outline-mini-budget-tax-spending-and-plan-today>

14 Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, [Economic and fiscal outlook](#), Mawrth 2022

Arddangosyn 4 – Newidiadau mewn costau ynni a bwyd a'r effaith a ragwelir

Newidiadau mewn costau ynni a bwyd yn 2021 a 2022

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Ebrill 2022, bu cynnydd o 95% ym mhrisiau nwy domestig ac o 54% ym mhrisiau trydan domestig.

Ar 1 Ebrill 2022, daeth y cap newydd ar brisiau i rym. Cyhoeddodd y rheoleiddwr Ofgem y byddai'r cap yn codi o'i lefel flynyddol gyfatebol bresennol o £1,277 y flwyddyn i £1,971; cynnydd o 54%.

Dywedodd Prif Weithredwr Ofgem ar 24 Mai ei fod yn disgwyl i'r cap ar brisiau gynyddu i tua £2,800 ym mis Hydref 2022, cynnydd o 40%. Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu y bydd hwn yn codi eto i £4,200 erbyn mis Ionawr 2023. Mae Ofgem yn amcangyfrif y bydd y cynnydd yn y cap ar brisiau'n effeithio ar tua 22 miliwn o gwsmeriaid.

Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd yn rhewi biliau ynni ar gyfartaledd o £2,500 y flwyddyn am ddwy flynedd o 1 Hydref 2022.

Rhwng mis Awst 2021 a mis Awst 2022 mae pris petrol di-blwm wedi codi 48.6 ceiniog y litr a phris diesel wedi codi 56.2 ceiniog y litr.

Effaith ar bobl


Dywedodd YouGov fod 87% o oedolion yn y DU wedi nodi cynnydd yn eu costau byw ym mis Mawrth 2022 a bod 83% wedi nodi bod cynnydd mewn costau nwy ac ynni wedi gwneud cyfraniad sylweddol.

Ym mis Awst 2022, nododd YouGov fod 78% o bobl ym Mhrydain Fawr yn poeni am bris presennol biliau ynni eu haelwyd – gan gynnwys traean (37%) sy'n poeni 'yn fawr' am y gost. O'r rhai sydd â'r incwm aelwyd isaf (£19,999 y flwyddyn neu lai), mae 83% yn dweud eu bod yn pryderu ynghylch faint maen nhw'n ei wario ar ynni.

Roedd aelwydydd yn y grŵp incwm isaf yn gwario 7.1% o'u gwariant ar y cyfan ar drydan a nwy, o'i gymharu â 2.5% ar gyfer aelwydydd yn y grŵp incwm uchaf.

Yn ôl arolwg barn YouGov ym mis Ionawr 2022, mae 49% o bobl o aelwydydd sydd ag incwm o lai na £15,000 y flwyddyn yn dweud na allant fforddio gwresogi eu cartref pan yw hi'n oer iawn y tu allan.

Yn ôl ymchwil gan Lywodraeth Cymru mae 14% o aelwydydd Cymru bellach yn byw mewn 'tlodi tanwydd' ac mae 11% yn wynebu risg o 'dlodi tanwydd'.



Newidiadau mewn costau ynni a bwyd yn 2021 a 2022

Roedd prisiau bwyd a diodydd di-alcohol 6.7% yn uwch yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill 2022. Mae hyn i fyny o 5.9% ac mae'r cynnydd hwn ar y gyfradd fwyaf ers mis Mehefin 2011.

Fe wnaeth mynegai o brisiau bwyd y byd a luniwyd gan Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig gyrraedd ei lefel uchaf erioed ym mis Mawrth 2022. Gostyngodd ychydig ym mis Ebrill ond mae'n dal i fod 29.8% yn uwch nag ym mis Ebrill 2021.

Effaith ar bobl

Dywedodd YouGov fod 80% o oedolion yn y DU wedi gweld cynnydd yn eu costau byw ym mis Mawrth 2022 a bod 85% o'r rhain wedi nodi mai prisiau bwyd uwch oedd y rheswm. Mae 54% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg a ddywedodd fod eu costau byw wedi cynyddu ym mis Mawrth 2022 yn dweud eu bod yn gwario llai ar eitemau dianghenraid o ganlyniad ac mae 33% yn dweud eu bod yn gwario llai ar fwyd a hanfodion. Mae'r dadansoddiad diweddaraf gan YouGov ym mis Medi 2022 yn nodi bod 21% o ddinasyddion y DU bellach yn dweud eu bod wedi cael eu gorfodi i wneud toriadau i'w gwariant ar eitemau bwyd hanfodol.

Nododd Offeryn Tracio Diffyg Diogeledd y Sefydliad Bwyd fod 13.8% o aelwydydd y DU (7.3 miliwn o oedolion) wedi profi diffyg diogeledd bwyd ym mis Ebrill 2022. Ymhlith y rhai ar Gredyd Cynhwysol, roedd y ffigwr yn codi i 47.7%.



Ffynonellau: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Energy prices and their effect on households](#), Chwefror 2022; Ofgem, [Default Tariff Cap Level](#), Chwefror 2022; [Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru \(prif ganlyniadau\): ym mis Hydref 2021 \(llyw.cymru\)](#); Y Sefydliad Bwyd, [Food Insecurity Tracking](#), Ebrill 2022; Cornwall Insights, [Price Cap Forecasts](#), Awst 2022; YouGov, [Eurotrack Survey Results](#), Mawrth 2022; Yougov, [Finances Survey Results](#), Mawrth 2022; a Chanlyniadau YouGov, [Energy Bills](#), Awst 2022; a YouGov, [Essential Spending Results](#), Medi 2022

1.24 I gloi, ac o ystyried yr wybodaeth yn yr adran hon yn ei chyfanrwydd, mae tlodi yn broblem hirdymor sy'n wynebu pob rhan o Gymru, ond ardaloedd yn y de yn arbennig. Yn gymharol, mae data'n awgrymu mai Cymru sydd â'r lefelau tlodi uchaf ar draws pedair gwlad y DU, ac mae hyn yn tyfu. Mae niferoedd sylweddol o hyd sy'n byw'n barhaus mewn tlodi ac yn ei chael hi'n anodd dianc rhag ei effaith. Ac mae effaith yr 'argyfwng costau byw' presennol yn gwthio mwy o bobl i mewn i dlodi. O ystyried y sefyllfa yma, yn yr adrannau nesaf rydym yn ystyried sut y mae llywodraeth yng Nghymru'n ymateb.



**Her mynd i'r afael
â thlodi a lleddfu
tlodi yng Nghymru**

02

2.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad rydym yn nodi sut y mae llywodraeth yn lleddfu ac yn mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru ar hyn o bryd. Rydym yn tynnu sylw at y cyfyngiadau sydd ar Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol o ran ymateb i dlodi a hefyd yn adolygu cynlluniau a strategaethau cyfredol. Rydym yn nodi sut y darperir adnoddau ar gyfer gwaith i leddfu a mynd i'r afael â thlodi a sut y mae gwendidau yn y trefniadau presennol yn cyfyngu ar effaith gadarnhaol bosibl y cyllid hwn.

Mae mynd i'r afael â thlodi yn dal i fod yn flaenoriaeth i bob haen o lywodraeth ond mae nifer o'r ysgogiadau i leddfu tlodi y tu hwnt i reolaeth Cymru

Arddangosyn 5 – Diben 'Llywodraeth'

Mae gan lywodraethau democrataidd y gorllewin, yn gyffredinol, yr un dibenion allweddol, er bod y modd y maent yn eu cyflawni'n amrywio. Dyma'r dibenion:



Sefydlu cyfreithiau

Mae gan y llywodraeth yr awdurdod cyfreithlon i osod cyfraith y mae'n ofynnol i bawb ei dilyn.



Cynnal cyfraith a threfn

Gall y llywodraeth, drwy'r llysoedd neu'r heddlu, orfodi'r gyfraith a chosbi'r rhai nad ydynt yn ei dilyn i reoleiddio a diogelu eraill rhag niwed.



Amddiffyn rhag bygythiadau allanol

Gall y Llywodraeth ddefnyddio camau gweithredu milwrol, diplomyddol, neu gytundebau rhyngwladol i amddiffyn dinasyddion rhag bygythiadau.



Darparu ar gyfer lles cyffredinol dinasyddion

Mae'r Llywodraeth yn ceisio sicrhau iechyd, hapusrwydd, a ffyniant dinasyddion trwy ofal iechyd, addysg, a rhaglenni eraill.

- 2.2 Ond mewn ffyrdd eraill cyfyngir yn sylweddol ar Lywodraeth Cymru, yn fwyaf amlwg ei hanallu i reoli meysydd allweddol sydd wedi'u cadw'n ôl gan Lywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnwys budd-daliadau lles, nawdd cymdeithasol ehangach, trethiant a chyfraith cyflogaeth, fel yr isafswm cyflog. Nid yw Llywodraeth Cymru'n gallu dylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU na'r pwerau y mae hi wedi'u cadw'n ôl, ond yn aml mae ganddi farn wahanol am rôl y wladwriaeth wrth fynd i'r afael â thlodi a lleddfu tlodi. Mae hyn yn gadael Llywodraeth Cymru heb yr ysgogiadau allweddol i weithredu ar y maes blaenoriaeth hwn.

Strategaethau Llywodraethau'r DU a'r Alban

- 2.3 Tan 2016, roedd gan Lywodraethau'r DU dan arweiniad y ddwy blaid fawrdarged hirsefydlog i roi terfyn ar dlodi plant erbyn 2020 a hwnnw wedi'i ymgorffori yn Neddf Tlodi Plant 2010. Cafodd hon ei diddymu yn 2016 ac ers hynny ni fu unrhyw dargedau ar lefel y DU.
- 2.4 Mewn ymateb, gosododd Llywodraeth yr Alban ei thargedau ei hun i leihau tlodi plant erbyn 2030 trwy Ddeddf Tlodi Plant (Yr Alban) 2017 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth yr Alban gyhoeddi cynllun cyflawni cenedlaethol ac adroddiadau blynyddol, a'r rheiny'n cael eu hategu gan adroddiadau blynyddol ar y cyd gan gynghorau a byrddau iechyd i ddangos sut y mae'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith. Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Comisiwn Tlodi ac Anghydraddoldeb i fonitro cynnydd a dwyn Llywodraeth yr Alban i gyfrif.
- 2.5 Mae cynnydd ar dlodi yn yr Alban yn cael ei hybu gan y ffaith bod mwy o bwerau wedi'u datganoli o San Steffan. Mae gan Lywodraeth yr Alban bwerau ychwanegol dros gyllid a lles sydd heb eu datganoli i Gymru sy'n ei galluogi i fuddsoddi a datblygu polisi sy'n helpu i liniaru a mynd i'r afael â thlodi'n uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys Taliad Plant yr Alban. Mae Llywodraeth yr Alban yn amcangyfrif y gallai hyn ar ei ben ei hun arwain at ostyngiad o 5% mewn tlodi plant yn 2023-24¹⁵.

Nid oes targed cenedlaethol ar gyfer lleihau tlodi plant ac mae angen adnewyddu'r Strategaeth Tlodi Plant bresennol

- 2.6 Yn 2011, fe wnaeth Llywodraeth Cymru osod targed cenedlaethol i ddileu tlodi plant erbyn 2020 o dan Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Cafodd hyn ei ailadrodd wedyn yn 2015 ond cafodd y targed ei ollwng yn ystod y Bumed Senedd. Er bod y strategaeth yn dal i fod yn berthnasol ac yn rhoi'r ffocws ar gyfer gwaith ar dlodi, nid yw'n adlewyrchu'r heriau presennol sy'n wynebu pobl yng Nghymru ac nid yw'n cynnwys targedau i roi ffocws i waith ac ymdrech.

15 Scottish Child Payment – estimating the effect on child poverty (gov.scot)

- 2.7 Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru Tlodi Plant: Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm hefyd ym mis Tachwedd 2020. Roedd hwn yn nodi cyfres o gamau gweithredu ymarferol i helpu i gynyddu incwm teuluoedd sy'n byw mewn tlodi, lleihau costau byw hanfodol a rhoi cymorth i adeiladu eu cydnerthedd ariannol. Fodd bynnag, nid yw'n gyfystyr â strategaeth wedi'i hadnewyddu a'i diweddarau.
- 2.8 O'n gwaith maes, rydym yn dod i'r casgliad y byddai strategaeth genedlaethol ddiwygiedig yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyfleu gweledigaeth gyfoes, cyfarwyddo'r broses gyflawni i gefnogi amcanion a sefydlu mesurau priodol i farnu'r effaith. Byddai strategaeth genedlaethol wedi'i diweddarau yn helpu i osod gweledigaeth strategol gyda disgwyliadau ac uchelgeisiau i'r sector cyhoeddus cyfan eu cyflawni ar y cyd. Ac mae'r angen i ddiweddarau ac adnewyddu'r strategaeth wedi cael ei gydnabod gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, sydd wedi ymrwymo i gyflwyno Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig¹⁶. Hefyd, o dan Reoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cydbwyllgorau Corfforedig) (Cymru) 2021, bydd yn ofynnol i'r pedwar Cydbwyllgor Corfforedig a sefydlwyd yn ddiweddar adolygu strategaethau tlodi plant lleol a llunio adroddiad. Mae hyn yn gyfle i gynghorau ailystyried eu cynlluniau lleol a chydweithio â chymdogion. Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gerrig milltir cenedlaethol newydd sy'n cynnwys mesurau sy'n gysylltiedig â gwella incwm y pen aelwydydd a thlodi incwm.¹⁷
- 2.9 Er hyn, fel mae'r adrannau isod yn amlinellu, mae Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill yn parhau i fuddsoddi mewn ystod eang o fentrau i fynd i'r afael â thlodi a'i leddfu. Mae Llywodraeth Cymru, trwy grantiau costau byw penodol, yn cynorthwyo cyrrff cyhoeddus i ddarparu rhaglenni sy'n helpu'r rhai mewn tlodi, ac mae llawer o arian yn cael ei fuddsoddi fel hyn. O fewn cynghorau mae hyn yn cynnwys rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, yn ogystal â grantiau wedi eu targedu, fel y rhai ar gyfer tlodi bwyd neu dlodi mislif. Gallai'r elfennau hyn gael eu cydlynu'n well a'u mesur drwy strategaeth a dangosyddion cenedlaethol.
- 2.10 Er mwyn gwella hyn mewn cyfnod o angen dybryd, mae rhai wedi galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy gan ddilyn arweiniad Llywodraeth yr Alban. Er enghraifft, mae Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree wedi galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu 'System Budd-daliadau Cymru', a fyddai'n cymryd rhaglenni presennol o gymorth ariannol a chymorth o fath arall i deuluoedd ac yn eu hintegreiddio'n un system lles. Byddai hyn yn golygu y byddai nifer dirifedi o raglenni cyllido presennol, nifer ohonynt yn cael eu gweinyddu gan gynghorau, yn cael eu cyfuno'n un gronfa, a fyddai'n helpu i symleiddio a gwella effeithlonrwydd.

16 Senedd Cymru, Cofnod Llawn, 13 Gorffennaf 2022

17 Llunio Dyfodol Cymru: Defnyddio Dangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol i fesur cynnydd ein Cenedl (llyw.cymru)

Mae cyngorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond mae'r cymysgedd o ddulliau a thirwedd gyflawni gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n eang

- 2.11 Roedd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar gynghorau i lunio strategaeth tlodi plant i ategu'r strategaeth genedlaethol. Ers 2015, mae hyn wedi bod yn cael ei gyflawni trwy gynlluniau llesiant lleol gan gynghorau neu Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Ar y cyfan, canfu ein hadolygiad ddarlun cymhleth o ran sut y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio i fynd i'r afael â thlodi ledled Cymru.
- 2.12 Er bod gan bob cyngor amcanion llesiant a fyddai'n cefnogi'r rhai sy'n byw mewn tlodi, dim ond 12 sydd ag amcanion penodol sy'n mynd i'r afael â thlodi. Gwelsom fod gan bum cyngor strategaethau gwrthdlodi pwrpasol hefyd sy'n cwmpasu'r cyngor cyfan ac sy'n tynnu ar eu hamcanion corfforaethol a llesiant. Mae cynghorau eraill yn targedu dimensiynau unigol o dlodi, fel tlodi ynni neu dlodi bwyd. Mae rhai hefyd yn cynnwys tlodi fel un o amcanion neu themâu'r BGC i gael sylw ochr yn ochr â phartneriaid eraill. Mae naw hefyd yn cyfeirio at dlodi o fewn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.
- 2.13 Mae'r strategaethau cryfaf yn rhoi diffiniadau clir o dlodi ac yn cysylltu ag amcanion corfforaethol ehangach. Mae Fframwaith Trechu Tlodi Abertawe yn enghraifft o hyn, gan amlinellu gweledigaeth gyda themâu a chanlyniadau, sy'n gysylltiedig â chynlluniau eraill. Mae Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn cysylltu ei gynllun yn effeithiol trwy ddefnyddio amcanion sy'n gyson â strategaethau eraill. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i ffocws ar dlodi fodoli ochr yn ochr ag amcanion corfforaethol ehangach.
- 2.14 Thema gyffredin ar draws nifer o gynghorau, serch hynny, yw diffyg uchelgais i fynd i'r afael ag achosion tlodi dros gyfnod hwy. Er bod mae prif sbardunau tlodi, yn bennaf penderfyniadau am wariant a hawliau lles, y tu hwnt i reolaeth cynghorau, mae newidiadau lleol y gellir eu gwneud i gefnogi pobl. Adweithiol yn unig yw'r rhan fwyaf o gynghorau ac maen nhw'n canolbwyntio ar ddarparu grantiau a rhaglenni Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn arwain at ffocws tuag i mewn ar yr hyn y gall y cyngor ei gyflawni ar gyfer pobl mewn argyfwng sydd eisoes yn hysbys iddynt ac o fewn y system darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhai sydd ar ymylon tlodi, a'r rhai sy'n cael eu gwrthio i mewn i dlodi gan yr argyfwng costau byw, yn aml yn cael eu hanwybyddu.

- 2.15 Mae'n achos pryder bod rhai swyddogion y gwnaethom ni gyfweld â hwy wedi dweud nad oes angen strategaethau tlodi am eu bod yn ystyried bod mynd i'r afael â thlodi'n rhan annatod o holl waith eu cynghorau. Yn eu tyb hwy, roedd bod â strategaeth yn peri i dlodi gael ei 'golli' yn y cynllun corfforaethol ar y cyfan. Er bod y farn hon yn cydnabod natur gyfannol tlodi, gall hefyd arwain at ddiffyg cydlynu ac at weithio mewn seilos, gyda phob gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddarparu'r rhaglenni y maent hwy'n gyfrifol amdanynt yn hytrach nag ar sut y maent yn cyfrannu ar y cyd at y darlun ehangach.
- 2.16 Mae cyflogaeth yn dal i fod yn thema flaenllaw i gynghorau, fel un o achosion tlodi ond hefyd fel datrysiad iddo. Fodd bynnag, fel a nodir uchod, mae hyn yn aml yn anwybyddu'r niferoedd mawr a chynyddol o bobl sy'n profi tlodi mewn gwaith. Mae'r prif naratif sy'n ymwneud â'r rhai sydd ar fudd-daliadau lles mewn tlodi, yn arwain at ffocws rhy sylweddol ar raglenni cyflogadwyedd dros gamau gweithredu eraill. Er nad yw lefelau isafswm incwm yn cael eu pennu yng Nghymru, dylid ystyried cyflogadwyedd yng nghyd-destun y materion ehangach y mae'r rhai sy'n byw mewn tlodi yn eu profi.
- 2.17 Oherwydd natur eang yr agenda tlodi, mae ystod eang o bartneriaid posibl i gynghorau ymgysylltu â hwy. Mae hyn yn cynnwys BGCau, Cydbwyllgorau Corfforedig, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a fforymau lleol eraill. Gwelsom fod cynghorau wedi mabwysiadu dulliau gwahanol iawn o weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â thlodi a lleddfu tlodi. Ac, oherwydd y cyfyngiadau yn y strategaeth genedlaethol a diffyg targedau, mae'r anghysondeb rhwng cynghorau yn ychwanegu lefel ddiangen o gymhlethdod at weithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda chyrrff cyhoeddus sy'n gweithredu'n rhanbarthol.
- 2.18 Er mwyn i wasanaethau allu cael yr effaith fwyaf, mae angen i gynghorau gynllunio'n benodol i fynd i'r afael â thlodi a lleddfu tlodi, gan ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth a chydweithio ystyrion â phartneriaid. Fodd bynnag, canfuom fod cynllunio'n aml yn canolbwyntio ar gyfraniad y cyngor yn unig, yn hytrach na chyfraniad yr holl bartneriaid. Mae cynghorau'n darparu ystod fawr o wasanaethau sy'n helpu ac yn cefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi, ond prin yw'r rheini sy'n amcanu at adeiladu ar hyn gyda chysylltiadau ystyrion â phartneriaid eraill. Mae diffyg cydlynu yn aml yn golygu bod cynghorau'n ddibynnol ar drefn lle mae gwasanaethau unigol yn ffurfio eu cysylltiadau eu hunain, er nad oes ganddynt gapasiti sbâr i wneud hyn.

- 2.19 Mae cydweithio mewn rhai cynghorau yn digwydd o fewn fforymau presennol sy'n gorgyffwrdd â'r agenda tlodi, yn fewnol ac yn allanol, ond mae cynghorau eraill wedi mynd ymhellach. Ffurfiodd Abertawe grŵp cydlynu ar draws y cyngor cyfan, sy'n dod ag uwch swyddogion at ei gilydd o fewn eu Fframwaith Trechu Tlodi. Yn yr un modd, mae Wrecsam wedi creu gweithgor costau byw yn ddiweddar i ategu trigolion lleol o ran gwneud y mwyaf o fudd-daliadau, gan leihau costau ar ynni, tlodi tanwydd a phwysau'r gaeaf. Mae eraill, megis Sir Fynwy a Sir y Fflint, wedi dwyn ynghyd grwpiau cyfeirio allanol i gynnwys partneriaid eraill, megis banciau bwyd neu Cyngor ar Bopeth. Mae'r BGC wedi cyflawni rôl debyg yng Ngheredigion.
- 2.20 Mae'r cynghorau gorau wedi blaenoriaethu eu gwaith gyda phartneriaid yn y trydydd sector i fuddsoddi a darparu gweithgarwch cyngor a gwybodaeth er mwyn helpu'r rhai mewn tlodi yn benodol. Er enghraifft, mae Caerdydd yn ariannu'r ganolfan Cyngor ar Bopeth leol ac Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro i ddarparu cyngor pwrpasol i unigolion sy'n mynd at Dîm Cynghori Ariannol y cyngor. Er mwyn lleddfu baich gweinyddol eu partneriaid, mae gan Ben-y-bont ar Ogwr dîm grantiau canolog i symleiddio grantiau a ddarperir.
- 2.21 Mae angen arweinyddiaeth effeithiol hefyd i yrru'r agenda tlodi yn ei blaen. Gall arweinyddiaeth gref a chydlynol gynbig yr ysgogiad i gynghorwyr a swyddogion chwalu seilos er mwyn cydweithio i gyflawni amcanion a rennir a darparu ffocws ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Canfuom mai dim ond wyth cyngor sydd ag aelod cabinet â chyfrifoldeb am dlodi, ac mai dim ond wyth cyngor sydd ag uwch swyddog â chyfrifoldeb corfforaethol am arwain ar fynd i'r afael â thlodi.
- 2.22 Un pryder cynyddol yw'r anhawster o ran denu digon o dalent i ddarparu'r hyn sy'n aml yn wasanaethau sy'n gofyn llawer ac sy'n gryn her. Roedd cyfran sylweddol o swyddogion cynghorau y gwnaethom ni gyfweld â hwy yn nodi problem gynyddol o ran recriwtio a chadw staff hanfodol, o fewn eu sefydliad hwy ond hefyd yn sefydliadau eu partneriaid allweddol yn y trydydd sector. Cafodd materion llwyth gwaith cynyddol, gostyngiadau mewn capasiti, mwy a mwy o ddiffygio o ganlyniad i waith rheng-flaen yn ystod y pandemig, cyflogau llai cystadleuol ac effaith chwyddiant ar gyflogau i gyd eu nodi fel risgiau mawr.

2.23 Yn 2022, sefydlodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) Grŵp Tlodi sy'n dod â swyddogion cynghorau at ei gilydd i rannu dulliau, adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio a lobio dros newid. Er mai dim ond newydd ddechrau datblygu y mae, mae'r grŵp hwn yn cynnig fforwm posibl ar gyfer cyfnewid arferion da a chydweithio. Mae rolau swyddogion sy'n mynychu yn eang, gan adlewyrchu'r agenda tlodi eang, ond hefyd diffyg tîm gwrth-dlodi canolog yn y rhan fwyaf o gynghorau. Bydd hyn yn ei gwneud yn anos i'r grŵp gydlynw a chytuno ar gamau gweithredu ar y cyd oherwydd bod cyfrifoldebau a dylanwad swyddogion unigol yn amrywio o un cyngor i'r llall. Mae hyn yn rhywbeth y mae CLILC yn bwriadu mynd i'r afael ag ef.

Mae symiau mawr o arian yn cael eu buddsoddi mewn mynd i'r afael â thlodi a lleddfu tlodi, ond ni wŷr neb faint, ac mae'r ffordd y caiff arian ei ddyrannu a'i reoli yn cyfyngu ar ei effaith gadarnhaol

Mae Llywodraeth Cymru yn trefnu bod arian refeniw sylweddol ar gael i gynghorau i leddfu effaith tlodi ond nid yw cyfanswm lefel y gwariant yn hysbys

2.24 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu ystod eang o raglenni sy'n cefnogi pobl mewn tlodi. Mae hyn yn cynnwys dyfarniadau eang, megis y Grant Plant a Chymunedau, a chyllid sy'n cael ei dargedu'n fwy, megis cynhwysiant digidol. Ar y cyd, rydym yn amcangyfrif bod y cyllid refeniw hwn yn werth dros £1 biliwn yn 2021-22.¹⁸

2.25 Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol yn 2021-22 a 2022-23. Darparwyd £152 miliwn yn 2021-22 i ariannu taliadau cymorth o £150 i aelwydydd sy'n byw mewn eiddo o fewn bandiau treth gyngor A i D. Trefnwyd hefyd fod £25 miliwn arall ar gael ar gyfer cynllun yn ôl disgrisiwn i roi cymorth gyda'r dreth gyngor, gyda meini prawf talu i gael eu pennu gan gynghorau yn ôl yr angen lleol. Mae hyn wedi cynnwys:

- a taliadau i'r rhai sydd wedi'u heithrio o'r dreth cyngor;
- b taliadau i bobl sy'n byw mewn cartrefi ym mandiau E ac F;
- c taliadau i rai sy'n cael prydau ysgol am ddim;
- ch cefnogi cymorth atal digartrefedd; ac
- d ychwanegu at daliadau disgrisiwn at gostau tai.

Roedd cyfanswm y cymorth ychwanegol wedi'i gyllidebu ar gyfer 2022-23 yn £162 miliwn ac mae'n cynnwys cronfa cymorth tanwydd y gaeaf, cymorth gyda llwgu yn ystod gwyliau, a chymorth i deuluoedd agored i niwed.

2.26 Gan fod yr agenda tlodi mor eang a bod cyllid ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â thlodi wedi'i gynnwys o fewn cyllidebau sylfaen ehangach Llywodraeth Cymru, mae'n anodd adnabod a mesur y lefel benodol o wariant sy'n cael ei ddarparu i fynd i'r afael â thlodi a lleddfu tlodi yng Nghymru. Mae hyn, yn ei dro, yn ei gwneud yn anodd asesu effaith neu fesur gwerth am arian y cyllid hwn.

Ni wŷr yr un cyngor beth yw maint llawn ei wariant ar leddfu a mynd i'r afael â thlodi

2.27 Nid oes gan yr un cyngor gyllideb wedi'i neilltuo ac nid yw'r un cyngor yn gallu nodi cyfanswm y gwariant refeniw a ddefnyddir i fynd i'r afael â thlodi a'i liniaru. Fel yn achos Llywodraeth Cymru, y diffiniad eang o raglenni sy'n cefnogi'r rhai mewn tlodi, cyfyngiadau mewn dynodiadau cyllidebol a diffyg dealltwriaeth ynghylch sut y mae arian yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio sy'n bennaf gyfrifol am hyn.

2.28 Mae rhai cyngorau, fel Abertawe a Sir Gâr, yn gwybod bod cyfanswm yr arian grant gan Lywodraeth Cymru a roddwyd iddynt ac a neilltuwyd i fentrau atal tlodi. Ond nid oedd yr un swyddog cyngor y gwnaethom ni gyfwrdd â hwy'n gallu meintoli cyfran y gwariant na faint o staff mewn gwasanaethau rheng-flaen sy'n helpu i leddfu a mynd i'r afael â thlodi. O ystyried y swm sylweddol o weithgarwch sy'n ymwneud â thlodi, byddai hon yn dasg sylweddol nad oes gan gynghorau'r capasiti i'w chyflawni.

Mae pob cyngor yn ddibynnol ar grantiau ond mae gwendidau mewn rhaglenni yn golygu nad yw arian yn cael yr effaith y gallai ei chael

2.29 Roedd y mwyafrif llethol o swyddogion y gwnaethom gyfwrdd â hwy'n cydnabod bod y cyllid a roddir gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol i helpu cynghorau i fynd i'r afael â thlodi a lleddfu ei effaith. Heb y cyllid hwn mae'n amlwg y byddai'r sefyllfa'n llawer gwaeth nag ar hyn o bryd. Er gwaethaf hyn, yn ystod ein cyfweiliadau, nodwyd rhai gwendidau cyffredin.

2.30 Yn aml, mae grantiau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â thlodi yn cael eu cysylltu â rhaglenni diffiniedig i gynghorau eu darparu, fel Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r rhain yn aml yn cael eu hystyried yn rhai ar wahân i raglenni a gychwynnwyd gan gynghorau o fewn cynlluniau corfforaethol. O ganlyniad, yn aml pan fydd cyllid Llywodraeth Cymru'n dod i ben bydd y rhaglen yn dod i ben, gan arwain at ymyriadau cyfyngedig, byrdymor.

- 2.31 Yn gyffredinol, dyrennir cyllid i fentrau sydd â ffocws tynn a/neu sydd â baich gweinyddol uchel i'w prosesu a'u cyflawni. Yn aml mae gan grantiau raddfeydd amser byr a all ei gwneud yn gryn her cyflwyno cynigion cynhwysfawr, sy'n cael effaith fawr neu wario cyllid yn llawn cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Nododd llawer y gwnaethom ni gyfweled â hwy ac a ymatebodd i'n harolwg nad yw'r cylch cynigion blynyddol yn cynorthwyo cynghorau i fynd i'r afael â'r problemau anos a mwy hirsefydlog. Mae hyn yn hybu'r arfer o wario ar fentrau hawdd i'w cyflawni, yn hytrach nag ar weithgarwch sy'n gallu cael mwy o effaith. Mae hefyd yn golygu bod swyddogion dan bwysau sylweddol i gyflawni gwaith presennol ac ymateb i grantiau oherwydd diffyg adnoddau wedi toriadau yn ystod blynyddoedd o gynydd.
- 2.32 Gall gwendidau mewn canllawiau a chyfyngiadau ar grantiau gyfyngu hefyd ar effaith cyllid. Mae rhai cyfyngiadau ar grantiau'n golygu nad yw grwpiau sy'n profi tlodi, fel preswylwyr mewn Tai Amlfeddiannaeth neu aelodau o gymuned y teithwyr, yn gallu cael cyllid. Gall trigolion sydd wedi'u hallgau'n ddigidol gael eu hatal hefyd lle mae cynlluniau'n cael eu gweinyddu a'u hadnoddau'n cael eu darparu ar-lein.
- 2.33 Mae hyn yn cynyddu pwysigrwydd bod y staff sy'n ymwneud â chwsmeriaid yn wybodus er mwyn ymgodymu â'r ystod gymhleth o ffrydiau cyllido a'r gwahanol amodau ar gyfer rhaglenni. Dywedodd rhai cynghorau eu bod wedi ei chael hi'n arbennig o anodd recriwtio i rolau sy'n cael eu hariannu gan grantiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd natur fyr dymor gweithio ar brosiectau ac ansicrwydd pa un a fydd cyllid grant yn parhau. Mae prosesau ymgeisio lluosog, cyfyngiadau o ran cymhwysra ar gyfer rhaglenni, ac anawsterau wrth wneud cais i gyd wedi arwain at lefelau is o ran y rhai sy'n hawlio'r cyllid dan rai rhaglenni, sydd wedi ei gwneud yn ofynnol i gynghorau fuddsoddi adnoddau ychwanegol i gynyddu eu cwmpas. Mae'r rhain i gyd yn gweithredu fel rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael y cymorth arfaethedig ac yn cyfyngu ar effaith rhaglenni ac ymyriadau.
- 2.34 Nid yw'n syndod bod rhai cynghorau wedi ceisio mynd i'r afael â hyn trwy symleiddio gweithgarwch i leihau biwrocratiaeth ac achosion o ddyblygu. Er enghraifft, daeth Rhondda Cynon Taf â rhaglenni cyllid gwahanol ynghyd mewn un gwasanaeth i helpu i anelu camau gweithredu at y bobl sydd fwyaf agored i niwed ac i osgoi sefyllfa lle byddai pobl yn llithro drwy'r rhwyd. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy i'w wneud, ond mae'r dull un porth newydd hwn yn cynorthwyo'r cyngor i newid i ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac atal. Yn yr un modd, daeth Pen-y-bont ar Ogwr â phum ffrwd gyllido wahanol ym maes cyflogaeth ynghyd o dan Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr i greu un porth i wasanaethau. Yn ddiweddar, creodd Caerffili gronfa caledi costau byw gwerth £3 miliwn i ymgymryd â chyfres o fentrau i geisio rhoi cymorth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf anghenus¹⁹.

19 <https://www.southwalesargus.co.uk/news/23019836>

- 2.35 Mae cyllid grant i gefnogi pobl mewn tlodi hefyd wedi bod yn cael ei ddarparu'n hanesyddol gan Gronfeydd Strwythurol yr UE (ESF). Rhwng 2014 a 2020, gwariodd Cymru £595.12 miliwn o gyllid ESF ar ystod o raglenni sgiliau, cyflogaeth a chyrhaeddiad ieuencid a chyflogadwyedd. Mae Llywodraeth y DU wedi disodli ESF â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) a'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF). Mae'r arian SPF yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla ac yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i gynghorau yn hytrach na'i reoli gan Lywodraeth Cymru. Dyrennir arian LUF gan Lywodraeth y DU yn ôl cynigion yn erbyn meini prawf asesu.
- 2.36 Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrifo y bydd Cymru'n cael peth wmbreidd yn llai o gyllid trwy SPF nag ESF, diffyg o £772 miliwn rhwng 2021-22 a 2024-25²⁰. A chan bod LUF yn seiliedig ar gynigion, mae rhai ardaloedd yn y wlad yn debygol o gollir cyllid hwn yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, rhagwelir y bydd gan Gymru lai o arian ar gael i fynd i'r afael â thlodi a'i leddfu yn y dyfodol²¹.

20 Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Colli cyllid i Gymru o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid yr UE](#), Ebrill 2022

21 Senedd Cymru, [Y Cronfeydd Ffyniant Gyffredin a Ffyniant Bro: beth yw'r diweddaraf?](#), Ebrill 2022



**Darparu gwasanaethau
llywodraeth leol i
helpu pobl mewn tlodi**

03

- 3.1 Yn yr adran olaf hon o'n hadroddiad, rydym yn ystyried sut y mae cynghorau'n llunio eu gwasanaethau i ystyried anghenion pobl sy'n byw mewn tlodi, gan edrych ar bwysigrwydd mapio profiadau a gwaith comisiynau'r gwirionedd am dlodi. Rydym yn ystyried sut y mae cynghorau'n newid ac yn moderneiddio'r modd y darperir gwasanaethau a sut y mae angen iddynt siapio'r ymatebion hyn i ystyried pobl mewn tlodi. Yn olaf, rydym yn ystyried sut y mae cynghorau'n gwerthuso gwaith blaenorol i helpu i benderfynu ar ddewisiadau polisi yn y dyfodol ac yn ystyried cadernid asesiadau o'r effaith economaidd-gymdeithasol.

Gan amlaf, nid yw'r profiad personol o dlodi yn dylanwadu ar y modd y mae cynghorau'n darparu gwasanaethau

- 3.2 Gan nad yw pobl yn aml ond yn chwilio am gymorth pan ydynt mewn argyfwng, mae'n hanfodol bod cynghorau'n creu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â thlodi sy'n dwyn gwarthnod o embaras a chywilydd. Fe wnaeth pobl y siaradom ni gyda hwy'nodi, erbyn yr amser eu bod yn ceisio cymorth, eu bod yn aml yn ymdrin â phroblemau sy'n eithriadol o bersonol ac yn ymddangos yn amhosibl, sy'n creu straen a gorbryder sylweddol. Er mwyn i gynghorau ddeall yn llawn beth yw natur byw gyda thlodi, a sut y mae'r penderfyniadau y maent hwy'n eu gwneud a'r gwasanaethau y maent hwy'n eu darparu yn gwella neu'n gwaethygu'r profiad hwn, yna mae angen iddynt ddeall sut beth yw dod o hyd i'ch ffordd trwy brosesau cynghorau, sy'n aml yn gallu bod yn gymhleth ac yn frawychus.
- 3.3 Er mwyn deall y profiadau hyn ar y raddfa ofynnol, mae'n well gweithio trwy fapio profiadau – **Arddangosyn 6**.

Arddangosyn 6 – Mapio profiadau

Gall mapio profiadau helpu cyngor i ddeall y profiad cyffredinol y mae cwsmer yn ei gael gyda'i wasanaethau, yn rhai ffisegol a digidol. Mae hynny wedyn yn galluogi cynghorau i wneud penderfyniadau mwy seiliedig-ar-wybodaeth wrth bennu polisi a chytuno ar gyllidebau i sicrhau eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i helpu pobl mewn tlodi. Gall nodi rhwystrau sy'n gyffredin i bobl sy'n chwilio am gymorth gan gynghorau ysgogi newidiadau i wasanaethau gan ei wneud yn brofiad llai brawychus a mwy cynhwysol i bobl.

Byddai elfennau o brofiad llwyddiannus yn cynnwys:

- canolbwyntio ar dlodi o brofiad personol y defnyddiwr i benderfynu a yw gwasanaethau'n gymwys ac wedi'u strwythuro i helpu i fynd i'r afael â thlodi;
- barnu pa mor dda y mae cynghorau'n targedu adnoddau lle gallant gael yr effaith fwyaf;
- cydweithio gyda phobl i ddeall yr achosion a arweiniodd at eu profiadau o dlodi;
- sicrhau mai cyswllt wyneb-yn-wyneb cyson yw'r norm i gynnig gwasanaeth personol a siarad trwy'r broses a gweithredu fel eiriolwr i'w helpu i ddod o hyd i'w ffordd trwy wasanaethau;
- gweithio i ddeall 'yr hyn sy'n bwysig' i'r person hwnnw;
- deall y rhwystrau sy'n atal y person hwnnw rhag cael mynediad at wasanaethau – ble y mae'r manau cyfyng, ac a yw gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n ddigonol ac yn ddigon integredig; a
- chynnwys yr unigolyn wrth greu cynllun gweithredu sy'n helpu i'w godi allan o dlodi.



- 3.4 Un dull o gasglu safbwyntiau 'profiad personol' i helpu i oleuo dewisiadau o ran polisi a chyllidebau yw trwy ddefnyddio 'Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi'. Mae Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi yn fodolau o ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion wrth wneud penderfyniadau, a hwythau'n cael eu lletya fel arfer gan gynghorau ond yn annibynnol arnynt. Maen nhw'n dod â phobl â phrofiadau personol o dlodi, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, arweinwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat a'r gymdeithas sifil ehangach at ei gilydd. Mae model ymarfer a gydnabyddir yn genedlaethol, Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi, yn galluogi trigolion i oleuo a dylanwadu ar bolisiau a rhaglenni cynghorau a phartneriaid yn uniongyrchol i sicrhau bod y rhai sy'n profi tlodi yn cynnig her ac adborth.
- 3.5 Un o fanteision ychwanegol y Comisiynau yw'r perthnasoedd a gaiff eu meithrin rhwng y gymuned – bydd y ddwy set o Gomisiynwyr yn cael mewnwleidiad gwerthfawr gan y llall, a all wedyn fwydo'r wybodaeth hon yn ôl i'w rhwydweithiau cymdeithasol a phroffesiynol. Maen nhw wedi llwyddo i alluogi cynghorau fel [Glasgow](#) a [Leeds](#) i ddylunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl mewn tlodi yn well.
- 3.6 Mae Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe²² yn dod â'r rhai sy'n byw yn y tlodi mwyaf enbyd ynghyd â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol i gydweithio tuag at fynd i'r afael â thlodi a goresgyn tlodi yn Abertawe. Mae'n gwneud y rhai yr effeithir arnynt gan dlodi'n ganolog i benderfyniadau am dlodi trwy greu manau diogel i bobl sydd â phrofiad personol o dlodi i adrodd eu straeon, meithrin perthynas â'i gilydd, a chyda'r penderfynwyr dylanwadol yn yr ardal leol. Mae comisiwn Abertawe newydd gael ei sefydlu a megis dechrau trefnu ei raglen waith y mae. Fodd bynnag, nid yw cynghorau eraill wedi mabwysiadu'r model hwn a nododd pobl y gwnaethom ni gyfwrdd â hwy nad yw defnyddwyr gwasanaethau'n dylanwadu'n gyson ar bolisiau, dewisiadau o ran darparu gwasanaethau a chyllidebau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddf.

Profiad comisiynwyr yn Abertawe...

'Mae mynd at y gwasanaethau yn dalcen caled bob amser. Nid dim ond gorfod ailadrodd y stori drwy'r amser, ond methu â chyrraedd rhywun sydd ddim yn swyddog ceiniog a dimau.'

'Mae angen cydnabod bod gwasanaethau yn achosi llawer o'r trawma a brofir gan bobl. Boed hynny'n ofal cymdeithasol, addysg neu iechyd. Mae llawer o'r gwasanaethau yn achosi trawma. Nid yw'n ymwneud â chyfathrebu yn unig hyd yn oed. Mae gan y system brosesau i weithio drwyddynt sy'n niweidiol.'

'Mae fel y rheilffordd danddaearol gyda'r trê'n dod at y plattform a neges yn dweud 'gochelwch rhag y bwlch'. Mae'r bwlch hwn newydd fynd yn fwy ac yn fwy dros y blynyddoedd.'



Ffynhonnell: Cyfweiliad Archwilio Cymru gyda Chomisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe, Ebrill 2022

Mae cynghorau'n newid sut y maent yn darparu gwasanaethau o ganlyniad i'r pandemig a phwysau cyllidebol parhaus, ond nid yw'r modelau darparu newydd wastad yn helpu pobl mewn tlodi

- 3.7 Creodd y pandemig nifer o heriau i gynghorau. Caeodd swyddfeydd, ysgolion a gweithleoedd, a daeth rhyngweithio wyneb-yn-wyneb rhwng llawer o staff a phobl yr oedd angen gwasanaethau arnynt i ben. O ganlyniad, bu'n rhaid i gynghorau ymateb yn greadigol i sicrhau bod y gwasanaethau yr oedd eu hangen ar bobl ac yr oeddent yn dibynnu arnynt ar gael ac yn hygyrch. Yn sgîl y pandemig, mae'r datrysiadau, strategaethau a thechnolegau arloesol hyn wedi helpu i greu tirwedd newydd ar gyfer darparu gwasanaethau.
- 3.8 Mae cynghorau a dinasyddion fel ei gilydd bellach yn byw mewn hinsawdd sy'n her ac yn drawsnewidiol lle mae darpariaeth 'brics a mortar' yn llai amlwg a pherthnasol, a lle mae opsiynau digidol yn dod yn opsiynau diofyn ar gyfer llawer o wasanaethau. I rai cynghorau, mae hyn yn rhan o daith y dechreuon nhw arni cyn y pandemig. I eraill, dim ond y dechrau ydyw. Ond i bob cyngor, mae'n bwysig eu bod yn parhau i gysylltu â'r rhai y mae arnynt fwyaf angen eu cymorth ac i weithio gyda hwy, yn enwedig pobl mewn tlodi. Dylai hyn fod yn ganolog i'r penderfyniadau a'r dewisiadau maen nhw'n eu gwneud.

Mae symud gwasanaethau ar-lein yn dal i dyfu mewn pwysigrwydd ond mae allgau digidol yn dal i fod yn her fawr, yn enwedig i bobl mewn tlodi

- 3.9 Mae manteision amlwg i symud i wasanaethau digidol , i ddefnyddwyr y gwasanaeth a chynghorau. Mae annog y rhai sydd â'r risg fwyaf o dlodi i gael mynediad at wasanaethau ar-lein yn helpu pobl i fod yn fwy hunan-ddibynnol, yn rhoi mynediad iddynt at gyngor cyfredol ac yn gallu helpu defnyddwyr sy'n methu â theithio'n bell i gael mynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. I gynghorau, maen nhw'n gallu lleihau costau gweinyddu, a chyda system sydd wedi'i chynllunio'n dda, yn gallu sicrhau bod gwasanaethau wedi'u hintegreiddio'n well.
- 3.10 Fodd bynnag, gall digideiddio gwasanaethau achosi anawsterau. Dengys data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol²³ (ONS) fod nifer y bobl sydd erioed wedi defnyddio'r rhyngwyd yn dal i fod yn ystyfnig o uchel yng Nghymru - 8% o'r boblogaeth. Mae hynny'n uwch na'r Alban a Lloegr ond yn is na Gogledd Iwerddon. Yr ardaloedd yng Nghymru sydd â'r lefelau cysylltedd gwaethaf yw Powys (20.3%); Cymoedd Canol De Cymru (15.4%); a Chymoedd Gwent (14%). Yr ardaloedd â'r cysylltedd gorau a'r defnydd gorau o'r rhyngwyd yw Sir Fynwy a Chasnewydd (4.2%); Abertawe (5.3%); a Chaerdydd a Bro Morgannwg (5.4%).
- 3.11 O ran statws gweithgarwch economaidd, ar lefel y DU mae'r rhai sydd â'r lefelau gwaethaf o ran defnydd o'r rhyngwyd yn bobl sydd wedi ymddeol (y dywedodd 28.9% ohonynt nad ydynt byth neu mai prin eu bod yn defnyddio'r rhyngwyd) a phobl sy'n economaidd anweithgar (9.5% o'r cyfanswm). Canfu ymchwil a gyhoeddwyd gan Lloyds²⁴ hefyd mai Cymru sydd â'r nifer uchaf o bobl sydd heb ddefnyddio'r rhyngwyd yn ystod y tri mis diwethaf - 13% o'r boblogaeth - ac mae'r rhai sy'n ennill llai nag £20,000 yn fwy tebygol o beidio â bod ar-lein ac o feddu ar lai o allu i ddefnyddio gwasanaethau digidol.

23 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Internet Users, 2020](#), Ebrill 2021

24 Lloyds Bank, [UK Consumer Digital Index 2021](#)

- 3.12 Mae sicrhau nad yw'r newid cynyddol i ddigidol yn gadael unrhyw un ar ôl neu, os yw pobl yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau'n ddigidol, bod cymorth yn cael ei roi ar waith i'w helpu yn hanfodol felly. Fe ganfuom ni fod y rhan fwyaf o gynghorau'n cydnabod problem allgau digidol, gan bod 14 o'r 22 o gynghorau yng Nghymru wedi mabwysiadu strategaeth ddigidol a bod nifer o'r rhain yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag allgau digidol. Er enghraifft, mae strategaeth ddigidol Cyngor Caerdydd yn gwneud ymrwymiad i leihau allgau posibl o wasanaethau digidol trwy:
- a cyflogi swyddogion â chyfrifoldebau penodol am gynhwysiant digidol;
 - b darparu dyfeisiau 4G i rai nad ydynt yn gallu fforddio prynu offer;
 - c cynnig meddygfeydd digidol ar ledled y ddinas;
 - ch cyflwyno sesiynau galw heibio wythnosol am ddim i roi cymorth i bobl sy'n llai hyderus wrth ddefnyddio TG; ac
 - d creu llinell ffôn gyhoeddus bwrpasol ar gyfer ymholiadau digidol.
- 3.13 Fodd bynnag, nid yw ystod a natur gynhwysfawr y cymorth yng Nghaerdydd bob amser yn cael eu hefelychu mewn mannau eraill. Er bod 15 o'r 22 o gynghorau yn cyfeirio'n benodol at effaith negyddol allgau digidol fel maes ar gyfer gweithredu mewn cynllun corfforaethol neu strategaeth gorfforaethol, dim ond 12 cyngor sy'n rhoi mynediad i bobl at raglen cynhwysiant sgiliau digidol a dim ond pump sy'n darparu dyfeisiau i helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau ar-lein. Hefyd, nid oes gan yr un cyngor dudalen lanio nac adnoddau gwe pwrpasol â ffocws ar dlodi sy'n dod â holl waith y cyngor ynghyd mewn un lle hawdd-dod-o-hyd-iddo sy'n hyrwyddo'n rhagweithiol mewn un lle yr hyn y mae angen i bobl ei wneud i gael yr help y mae ei angen arnynt.
- 3.14 Un o'r blaenoriaethau yn Tlodi Plant: Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm gan Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn cael eu cynorthwyo i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo trwy ddatblygu dull 'dywedwch wrthym unwaith'. Mae bod ag 'un pwynt mynediad' i wasanaethau yn helpu i leihau cymhlethdod yn y system ac yn gwneud y dinesydd yn ganolog i'r drefn darparu gwasanaethau trwy ei gwneud yn ofynnol i gynghorau greu'r cysylltiadau a darparu gwasanaethau yn hytrach na bod rhywun yn gorfod ysgrifennu, ffonio neu hyd yn oed ymweld â phob gwasanaeth yn unigol i ofyn am help.

3.15 Mae canfyddiadau ein hadolygiad yn amlygu bod cynghorau yn dal i weinyddu, rheoli a darparu gwasanaethau mewn amrywiaeth eang o ffyrdd ac nad yw'r un cyngor wedi creu un porth i mewn i wasanaethau. Er enghraifft, mae'n rhaid i bobl gwblhau ffurflenni cais lluosog sy'n aml yn cofnodi'r un wybodaeth wrth wneud cais am wasanaethau tebyg. Mae gorfod adrodd ac ailadrodd eich stori er mwyn cael mynediad at wasanaethau cysylltiedig, gan nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng sefydliadau, yn gallu atal pobl rhag chwilio am gymorth. Er enghraifft, mae cysylltiadau â mathau eraill o gymorth a roddir gan sefydliadau eraill megis rheoli dyledion, banciau bwyd a chyngor ehangach yn amrywio'n fawr. Ceir hefyd wrthwynebiad parhaus i rannu gwybodaeth ar draws systemau, rhwng adrannau cynghorau a chyda phartneriaid oherwydd pryderon ynghylch diogelu data ac ofn cael eu cosbi.

Gall gwasanaethau cyhoeddusrwydd, cyngor a gwybodaeth cynhwysfawr ac integredig helpu pobl sy'n cael trafferthion yn sylweddol ond mae'r darlun ledled Cymru yn gymysg, ac mae cynghorau'n ei chael hi'n anodd blaenoriaethu gwaith ataliol oherwydd y niferoedd uchel o bobl sydd mewn argyfwng

3.16 Mae tirwedd gwasanaethau cyhoeddus yn eang, yn amrywiol ac yn gymhleth gyda chymysgedd o sefydliadau o wahanol sectorau yn darparu ystod enfawr o wasanaethau sydd prin yn cael eu cydlynu â'i gilydd. Gall pobl ei chael hi'n anodd dod o hyd i'w ffordd trwy'r system a chael mynediad at y cymorth y mae ei angen arnynt, yn enwedig pan ydynt yn cael trafferth cael deupen llinyn ynghyd.

3.17 Gwelsom rai enghreifftiau cadarnhaol o sut mae gwasanaethau cyngor a gwasanaethau'r trydydd sector yn integreiddio a chydweithio i ddarparu ymateb cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar helpu pobl mewn angen. Er enghraifft, yng Nghaerdydd, mae'r ganolfan Cyngor ar Bopeth leol, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro a gwasanaethau cynghori Cyngor Caerdydd yn gweithredu o Hybiau Cymunedol ledled y ddinas. Trwy'r gwaith cydweithredol hwn mae'r cyngor a'i bartneriaid yn darparu gwasanaeth cynghori un stop sy'n helpu pobl i gael mwy o arian a chymorth.

3.18 Yn yr un modd, mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio trwy Fwrdd Datblygu Cymunedol y Rhyl i dargedu'r rhai mwyaf anghenus ac i roi cymorth a chynhorthwy. Mae rhai cynghorau hefyd yn cynnal ymgyrchoedd hysbysebu yn rheolaidd i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael a'r hyn y mae ganddynt hawl iddo. Ymgyrch [Llwgu yn ystod y Gwyliau](#) Sir y Fflint a roddodd gymorth i ddsbarthu miloedd o brydau bwyd yn ystod gwyliau ysgol ac ymgyrch gyfathrebu ar y cyd gan gynghorau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe i gynyddu'r nifer sy'n hawlio credyd pensiwn.

- 3.19 Fodd bynnag, nid yw'r dulliau hyn bob amser yn cael eu hefelychu, ac mae rhai cynghorau'n gweithredu'n annibynnol ar bartneriaid, sy'n gallu creu anawsterau i bobl mewn tlodi. Fe wnaeth y rhai y gwnaethom ni siarad gyda hwy nodi eu bod yn aml yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth, nad ydynt yn gwybod ble i ddechrau, nac at bwy i fynd, yn enwedig pan fydd sawl sefydliad yn cynnig gwasanaethau tebyg. Roedd adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cynghori'n nodi, pan fyddant yn gallu cael mynediad at wasanaethau'n gyflym a chael cyngor a chymorth manwl, bod hyn yn aml yn ddigon i atal problemau llai rhag troi'n argyfwng na ellir ei reoli.
- 3.20 Nododd Cyngor ar Bopeth Cymru a Chyngor Abertawe ill dau fod pobl yn aml yn gyndyn o ymgysylltu â chyngor a cheisio cymorth os oes arnynt arian iddo hefyd, gan ofni y bydd y cyngor yn mynd ar eu holau am beidio â thalu dyled. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Cyngor Abertawe'n datblygu Polisi Adfer Dyled Bersonol Corfforaethol a fydd yn amlinellu'r egwyddorion ar gyfer cefnogi pobl sydd â dyled bersonol heb ei thalu gyda'r cyngor.
- 3.21 Yn ystod cyfweiliadau, roedd y rhan fwyaf o swyddogion yn teimlo bod gweithgarwch y cyngor yn canolbwyntio gan amlaf ar ymdrin â phobl mewn argyfwng yn hytrach nag atal pobl rhag mynd i mewn i dlodi yn y lle cyntaf. Mae hyn gan mwyaf yn adlewyrchiad o'r lefelau uchel o alw am wasanaethau gan bobl sy'n ei chael hi'n anodd o ddydd i ddydd ac sy'n methu â dygymod heb gymorth. Er enghraifft, dywedodd Cyngor ar Bopeth yn ddiweddar bod y galw am eu gwasanaethau wedi cynyddu 200% yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf²⁵. Gwelsom hefyd mai prif ffocws gwaith atal yw rhoi cyngor amserol, yn enwedig sicrhau bod pobl yn cael mynediad at y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael, a chynorthwyo pobl i gael cyflogaeth. Gall y gwasanaethau hyn gael eu darparu'n uniongyrchol gan gynghorau ond hefyd gan gyrff y trydydd sector, yn arbennig, sefydliadau fel Cyngor ar Bopeth.

25 <https://www.itv.com/news/wales/2022-10-03/its-a-scary-time-citizens-advice-sees-200-jump-in-people-needing-help>

Mae hybiau cymunedol yn cynnig cyfle i gynghorau helpu pobl pan ydynt mewn argyfwng

- 3.22 Fe wnaeth symud gwasanaethau i gymunedau, yn enwedig trwy ddatblygu hybiau cymunedol, alluogi cynghorau i gydlyn ymatebion a sicrhau bod gwasanaethau'n dal i fod ar gael yn ystod y pandemig. Fe wnaeth yr hybiau hyn gryfhau amlygrwydd gwasanaethau cynghorau yn y gymuned yn ystod y pandemig a'r rhain yn aml oedd y man galw cyntaf i bobl fregus. Gyda thlodi mewn golwg gallant hefyd weithredu fel y man galw cyntaf i sicrhau bod pobl yn cael cymorth.
- 3.23 Roedd rhai'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol tra bo eraill yn cynnig gwasanaeth brysbennu, gan asesu'r angen a gwneud atgyfeiriadau at wasanaethau eraill y cyngor neu bartneriaid. Yn ystod y pandemig, fe wnaethant helpu i ddsbarthu cyllid tlodi tanwydd a rhoi taliadau hunan-ynysu ar y llwybr carlam. Er enghraifft, creodd Caerdydd 22 o hybiau cymunedol, mae gan Geredigion bum hyb cymunedol, mae gan Gasnewydd bedwar hyb cymunedol, ac o dan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, mae pum Hyb Cymorth Covid.
- 3.24 Mae hybiau hefyd yn aml yn aml yn amlbwrpas, gan ddarparu a lletya ystod o weithgareddau a gwasanaethau a ddefnyddir gan lawer o wahanol bobl. Mae'r ystod o wasanaethau'n adlewyrchu'r angen lleol a gallant gael eu darparu gan bobl leol, sefydliadau eraill neu asiantaethau cyhoeddus. Maent hefyd yn cefnogi cydweithio gwell a gwasanaethau mwy integredig. Gallant drawsnewid adeiladau presennol, nas defnyddir a darparu ffocws ar gyfer adfywio a arweinir gan y gymuned. Eu cryfder craidd yw eu bod yn darparu presenoldeb cryfach mewn cymunedau ac yn gallu ymateb yn gynt i bobl sydd mewn trafferthion. Felly, gall hybiau cymunedol helpu i adeiladu cymunedau mwy cydlynus a chydnerth.

Mae'r arfer o ddeall effaith bosibl penderfyniadau polisi a gwybod beth sy'n gweithio'n amrywio'n eang

- 3.25 Mae deall effaith penderfyniadau polisi a phenderfyniadau am gyllidebau, ar yr adeg pan ydych yn cytuno ar gamau gweithredu ond hefyd pan ydych yn gwerthuso effaith a llwyddiant eich penderfyniadau, yn hanfodol er mwyn i gynghorau wneud y gorau o'u hymdrechion o ran mynd i'r afael â thlodi a lleddfdu tlodi. Bydd asesiad effaith trylwyr a gwybodus yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i osgoi gwneud penderfyniadau gwael ac yn eu cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol. A bydd bod â data cynhwysfawr, o ansawdd da a pherthnasol sy'n cael ei werthuso, ei herio ac y creffir arno'n cryfhau atebolrwydd ac yn ei gwneud yn bosibl cymryd camau cywiro yn gyflym.

Mae pob cyngor yn cynnal rhyw fath o asesiad i bennu effaith economaidd-gymdeithasol debygol dewisiadau a phenderfyniadau polisi, ond mae'r dull yn amrywio ac nid yw bob amser yn effeithiol

- 3.26 Daeth y [Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#) i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Ei nod yw gwella'r broses benderfynu a helpu'r rhai sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Yn awr, rhaid i gynghorau feddwl sut y gall eu penderfyniadau strategol, fel pennu amcanion a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, wella cydraddoldeb o ran canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn benodol, wrth wneud penderfyniadau strategol am fynd i'r afael â thlodi, rhaid i gynghorau ddangos sut y maent yn rhoi ystyriaeth effeithiol i farn y rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau hynny. Dim ond trwy gynnwys pobl trwy ymgysylltu ac ymgynghori effeithiol y gellir cyflawni hyn, gan ystyried eu barn yn ofalus a sicrhau bod polisi'n adlewyrchu barn dinasyddion.
- 3.27 Canfuom fod pob cyngor yn cynnal rhyw fath o asesiad i benderfynu ar effaith economaidd-gymdeithasol debygol penderfyniadau. Mae llawer yn defnyddio asesiad effaith integredig sy'n dod â phob ystyriaeth polisi statudol a chorfforaethol allweddol at ei gilydd mewn un lle, gan ganolbwyntio ar y goblygiadau mewn perthynas, fel arfer, â blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol; amcanion llesiant; y Gymraeg; cydraddoldeb; materion ehangach yn y cyngor o safbwynt cyfreithiol, pobl a chyllid; a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd. Mae rhai hefyd yn ystyried y Ddeddf Hawliau Dynol a chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn.
- 3.28 Mae gan Gyngor Abertawe asesiad effaith integredig cynhwysfawr sydd nid yn unig yn ystyried yn fanwl effaith debygol penderfyniad polisi ar yr amryw gyfrifoldebau statudol ond sydd hefyd yn cynnwys adrannau sy'n ymdrin â'r canlynol:
- a gweithgarwch cynnwys sy'n nodi'r rhai y mae'r gwasanaeth wedi ymgysylltu â nhw wrth benderfynu ar ei bolisi strategol megis partneriaid, defnyddwyr gwasanaeth a'r rhai y mae'n cyd-gynhyrchu â hwy;
 - b asesiad o'r effaith gronnydd/campau lliniaru i sicrhau bod y polisi yn cael ei ystyried yn ei gyflawnder sy'n dangos sut y mae'n cysylltu ar draws gwasanaethau a ddarperir ar draws y cyngor;
 - c sut y bydd gwasanaeth y cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r effaith er mwyn gallu gwneud newidiadau'n gyflym; a
 - ch cynllun gweithredu sy'n nodi'r gweithgareddau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Integredig.

- 3.29 Mae Caerffili hefyd yn cynnwys chwe asesiad economaidd-gymdeithasol manwl yn hytrach nag un ystyriaeth sy'n cynnwys pawb. Mae'r rhain yn cwmpasu asesiadau penodol sy'n edrych ar incwm isel/tlodi incwm; cyfoeth isel a/neu ddim cyfoeth; amddifadedd materol; amddifadedd ardal; cefndir economaidd-gymdeithasol; ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i ystyried materion economaidd-gymdeithasol mewn dyfnder sylweddol i dargedu camau gweithredu yn well.
- 3.30 Gwelsom hefyd wendidau yn asesiadau cynghorau eraill o'r effaith economaidd-gymdeithasol. Roedd llawer o asesiadau effaith a adolygwyd gennym yn dod i'r casgliad nad oes angen cynnal asesiad trylwyr hyd yn oed pan fo'r polisi'n dwyn goblygiadau economaidd-gymdeithasol amlwg. Er enghraifft, gostyngiadau mewn gwasanaethau a thoriadau mewn cyllidebau. Mewn eraill gwelsom fod rhai asesiadau a gwblhawyd yn fyr iawn, nad oeddent ond yn rhyw fras ystyried effaith gymdeithasol-economaidd bosibl polisi a bod diffyg manylion am oblygiadau economaidd-gymdeithasol tyngedfennol mewn perthynas â chynlluniau Adfer COVID, newidiadau i feini prawf ar gyfer grantiau a chymorth arall. Ac roedd hyn er bod sawl cyngor yn fframio'r polisi a gyflwynwyd ar gyfer penderfyniad fel un a fyddai'n ei helpu i fynd i'r afael â thlodi.
- 3.31 Mae'r dystiolaeth y dibynnir arni ac a ddefnyddir i gwblhau asesiadau hefyd yn amrywio o ran dyfnder ac ansawdd ac nid yw pob un yn defnyddio'r trylwyredd a fabwysiadwyd yn Abertawe a Chaerffili. Er enghraifft, gwelsom fod gwybodaeth ymgynghori a chynnwys yn aml wedi dyddio gan dynnu ar ddata cyn y pandemig neu ei bod yn annigonol i roi adborth ystyrlon i helpu i lunio casgliadau yn yr asesiad effaith.

Mae deall angen a thynnu ar ystod eang o ddata i lunio ymatebion yn dal i fod yn faes ar gyfer gwella ac mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n cael trafferth dangos gwerth eu gwaith o ran lleddfu a mynd i'r afael â thlodi

- 3.32 Mae angen dealltwriaeth dda am ddata lleol a chenedlaethol er mwyn datblygu camau gweithredu penodol, amserol a all gael yr effaith fwyaf. Mae'r ddealltwriaeth hefyd yn galluogi cynghorau i nodi rhaglenni effeithiol â chanlyniadau cadarnhaol, sy'n hanfodol i greu goruchwyliaeth a chraffu effeithiol ar weithgarwch. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn tynnu ar ddata MALIC i adnabod ardaloedd lleol o amddifadedd. Er bod hyn yn sylfaen ddefnyddiol, mae'r data hwn yn hanesyddol ac yn hen gan mwyaf. Mae'n arbennig o wan yn awr am ei fod wedi cael ei ddiweddarau ddiwethaf cyn y pandemig a'r argyfwng costau byw²⁶.

- 3.33 Fodd bynnag, gwelsom nad yw cynghorau'n gwneud defnydd llawn o'r symiau sylweddol o ddata y maent yn ei gasglu a'i ddal. Ar hyn o bryd, mae cynghorau'n canolbwyntio'n fwy ar gofnodi'r modd y cyflawnir prosiectau penodol gan gasglu manylion y niferoedd a gynorthwywyd a dim digon am effaith, lles a manteision ehangach buddsoddiadau. Nid yw'r gwendidau a'r cyfyngiadau hyn o ran sylw a ffocws yn darparu ar gyfer gwerthusiad o berfformiad, yn enwedig gan bod cynghorau'n aml yn adrodd ar wybodaeth mewn seilos ac nad ydynt yn coladu data i'w gwneud yn bosibl creu darlun cynhwysfawr o weithgarwch ac effaith ar draws y cyngor.
- 3.34 Yn yr un modd, gwelsom nad oes llawer o gymharu na meincnodi perfformiad gyda chynghorau eraill i helpu i nodi cyfleoedd i wella. Nid yw hyn yn cael ei helpu gan y diffyg dangosyddion a thargedau cenedlaethol. O ganlyniad, er bod cynghorau'n gallu nodi'r camau maen nhw'n eu cymryd, mae'r gwendidau hyn yn ei gwneud hi'n anodd gwybod yn iawn pa mor dda maen nhw'n perfformio ac a yw'r adnoddau maen nhw'n eu gwario yn cael yr effaith orau y gallant ei chael ac yn cynrychioli gwerth am arian.
- 3.35 Felly mae ymdrechion i wella trefniadau casglu a dadansoddi data i dargedu camau ac effaith yn well yn faes i'w wella. Mae cynghorau Ynys Môn a Cheredigion wedi datblygu dangosfyrddau o ddata sydd ar gael yn gyhoeddus er mwyn helpu i flaenoriaethu camau gweithredu yn y dyfodol. Bu Ynys Môn yn gweithio ar y cyd â Data Cymru i ddatblygu dangosfwrdd o'r fath.
- 3.36 A mynd ymhellach, mae Castell-nedd Port Talbot yn defnyddio offeryn tracio incwm isel sy'n cyfuno data'r cyngor a data sydd ar gael yn gyhoeddus i wella sut a ble maen nhw'n targedu cymorth i'r rhai sy'n hysbys i'r cyngor ac sydd eisoes yn cael gwasanaethau. Hefyd, yn ddiweddar cyhoeddodd Data Cymru offeryn data sy'n coladu data allweddol sydd ar gael yn gyhoeddus mewn un lle.
- 3.37 Mae Caerdydd yn casglu data da i ddangos effaith ei ymyriadau. Yn 2020-21, fe wnaeth y Cyngor gynorthwyo tua 17,000 o bobl trwy ei ganolfan cynghori a thrwy'r Llinell Gyngor, a hawlio £14 miliwn yn ychwanegol mewn budd-daliadau lles ar ran pobl. Yn yr un modd, fe wnaeth rhaglen 'Gofal Caerffili' yn 2020-21 sicrhau £5 miliwn o incwm ychwanegol ar gyfer tenantiaid tai cyngor yn y fwrdeistref sirol ac atal unrhyw droi allan o dai'r cyngor.



Atodiadau

1 Dull ac ymagweddau archwilio

1 Dull ac ymagweddu archwilio

Ymagwedd

Ein dull gweithredu oedd deall cynlluniau strategol cynghorau a'r modd y maent yn cymryd camau gweithredu i gefnogi'r rhai sy'n byw mewn tldi. Fe archwiliom ni'r gallu i leddfu effaith uniongyrchol tldi ar bobl, yn ogystal â gallu cynghorau i fynd i'r afael ag ef fel mater yn y tymor hir.

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd ag adolygiadau eraill sydd ar y gweill sy'n archwilio sut y mae cynghorau'n grymuso cydnerthedd cymunedau a rôl mentrau cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Gyda'i gilydd maent yn archwilio sut y mae cynghorau'n grymuso dinasyddion i fynd i'r afael â materion ac atal materion rhag datblygu i fod yn argyfwng sy'n gofyn am ymyrraeth statudol.

Fe wnaethom archwilio pob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru ar lefel uchel, gan reoli'r broses gyflawni i fod yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar swyddogion cynghorau yn ystod y pandemig a'r argyfwng costau byw. Fe wnaethon ni sicrhau bod y cwmpas yn ddigon i gael golwg ar y sector cyfan ond heb dynnu sylw'n sylweddol oddi wrth waith cyflawni swyddogion. Roedd ein dull gweithredu yn hyblyg i gyd-fynd â swyddogion wrth gytuno a chyflawni ein gwaith maes.

Dulliau

Fe gwblhaom ni ein hadolygiad rhwng mis Ebrill 2021 a mis Medi 2022 ac fe ddefnyddiom ni ystod o ddulliau wrth gyflawni ein hadolygiad:

- **adolygu dogfennau:** fe wnaethon ni adolygu dogfennaeth gan Lywodraeth Cymru, cynghorau, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff cyhoeddus perthnasol eraill. Fe wnaethom hefyd adolygu ystod o gyhoeddiadau gan elusennau, grwpiau cynrychiolaidd, cyrff cyhoeddus eraill yng ngwledydd eraill y DU, a chyhoeddiadau gan Lywodraeth y DU.
- **cyfweliadau** – fe gynhaliom ni amrywiaeth o wahanol fathau o gyfweliadau:
 - cyfweliadau â swyddogion – fe gyfwelom ni â swyddogion a enwebwyd gan holl brif gynghorau Cymru, yn gyffredinol y rhai â chyfrifoldeb am dlodi neu faes gwasanaeth cysylltiedig, megis cyflogadwyedd, budd-daliadau, neu raglenni Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y rhain rhwng mis Ionawr a mis Mai 2022.
 - cyfweliadau cenedlaethol - fe gyfwelom ni â chynrychiolwyr elusennau o Gymru, banciau bwyd, grwpiau'r trydydd sector, a gweision sifil. Fe wnaethom hefyd gyfweld â chynrychiolwyr elusennau a sefydliadau yn y DU a swyddogion cynghorau yng ngwledydd eraill y DU. Cynhaliwyd y rhain rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2022.
 - cyfweliadau academaidd – gwnaethom gyfweld ag academyddion a oedd yn canolbwyntio ar dlodi a ansefydlogrwydd o dair prifysgol yn y DU. Cynhaliwyd y rhain rhwng Mawrth ac Ebrill 2022.
- **grwpiau ffocws** – fe gynhaliom ni ddau fath o grwpiau ffocws:
 - grwpiau ffocws swyddogion - yn unol â'n dull gweithredu, roedd rhai cynghorau'n teimlo ei bod yn fwy priodol i ni siarad gydag ystod o swyddogion mewn grwpiau ffocws i leihau ein heffaith ar ddarparu gwasanaethau.
 - grŵp ffocws ar brofiad personol – cynhaliwyd grŵp ffocws ym mis Ebrill 2022 gyda chynrychiolwyr Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi Abertawe i ddeall eu profiadau a gwranddo arnynt.
- **arolwg** – fe wnaethom gynnal arolwg o 16 o gleientiaid Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf i gael gwybod am eu profiadau tlodi ym mis Mehefin 2022.
- **dadansoddi data** – buom yn casglu ac yn dadansoddi ystod o setiau data sydd ar gael yn gyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a sefydliadau'r trydydd sector.



Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-mail: post@archwilio.cymru

Website: www.archwilio.cymru

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: 'Amser am Newid' – Tlodi yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen:

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A1	<p>Strategaeth genedlaethol a thargedau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu Ym Mharagraffau 2.8 – 2.12 rydym yn nodi nad oes targed penodol ar gyfer lleihau tlodi yng Nghymru ar hyn o bryd a bod angen diweddarau'r strategaeth Tlodi Plant bresennol. Rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru, wrth ddiweddarau ei</p>	Amherthnasol gan fod yr argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru		

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<p>strategaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn pennu camau gweithredu cenedlaethol CAMPUS; • yn sefydlu cyfres o fesurau perfformiad i farnu'r modd y'i cyflawnir a'i heffaith; • yn gosod targed ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu; ac • yn mynd ati'n rheolaidd i gynnal gwerthusiad o berfformiad a chyhoeddi adroddiadau cyhoeddus 			
A2	<p>Strategaethau, targedau ac adroddiadau ar berfformiad lleol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu</p> <p>Ym Mharagraffau 2.13 – 2.23 a Pharagraffau 3.33 – 3.35 rydym yn amlygu bod cynghorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond bod y cymysgedd o ddulliau a thirwedd cyflawni gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n eang. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod gwerthuso gweithgarwch a'r modd yr adroddiad ar berfformiad hefyd yn amrywiol gyda llawer o fylchau. Rydym ni'n</p>	<p>Mae mynd i'r afael â chaledi a thlodi yn thema drawsbynciol yng Nghynllun Llesiant Lleol 2023-28 BGC Ceredigion.</p> <p>Mae dangosfyrddau data Ceredigion yn darparu cyfres gadarn o ddangosyddion a mesurau sy'n gwella ein dealltwriaeth o dlodi yng Ngheredigion.</p> <p>Mae adroddiad blynyddol ar fynd i'r afael â thlodi yn cael ei gyflwyno bob Hydref sy'n cynnwys camau gweithredu lleol ac asesiad o ba mor bell yr ydym wedi cyflawni 3 amcan allweddol y strategaeth a'r heriau parhaus / camau nesaf, Mae'r strategaeth yn cael ei datblygu a'i gweithredu gyda phartneriaid BGC. Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 19.10.23 ac i'r Cabinet ar 07.11.23. Cliciwch yma am ddolen i'r ddogfen</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>	<p>Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd</p>

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<p>argymell bod y cynghorau'n defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i roi ffocws cynhwysfawr ar fynd i'r afael â thlodi i gydlynu eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi'r targedau a'r camau gweithredu yn y cynllun cenedlaethol diwygiedig. Dylai hyn</p> <ul style="list-style-type: none"> •gynnwys camau gweithredu lleol CAMPUS gyda mwy o bwyslais ar atal; •cynnwys cynllun adnoddau manwl ar gyfer oes y strategaeth; •cael ei ddatblygu gydag ymwneud gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a'r rhai sydd â phrofiad o dlodi; •cynnwys set gadarn o ddangosyddion a mesurau canlyniadau cyson i gynyddu dealltwriaeth am dlodi yn lleol; a •bod yn destun adroddiadau cyhoeddus blynyddol er mwyn gallu bod â golwg system gyfan ar dlodi'n lleol i helpu i wella'r broses gyflawni a chymorth. 			

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A3	<p>Arweinyddiaeth ar yr agenda tlodi</p> <p>Ym Mharagraff 2.23 rydym yn nodi bod gan ychydig dros draean o'r cynghorau aelodau arweiniol a swyddogion arweiniol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. O ystyried pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol i yrru'r agenda tlodi yn ei blaen a thorri seilos o fewn cynghorau a rhwng cyrff cyhoeddus, rydym yn argymhell bod pob cyngor yn dynodi aelod cabinet fel hyrwyddwr tlodi'r cyngor ac yn dynodi uwch swyddog i arwain a bod yn atebol am yr agenda wrthdlodi.</p>	<p>Mae'r Cynghorydd Elaine Evans wedi'i dynodi fel Hyrwyddwr Tlodi'r Cyngor a hi yw Is-gadeirydd is-grŵp tlodi'r BGC.</p> <p>Mae'r Cynghorydd Catrin Davies wedi'i dynodi'n Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Cyngor ac mae'n cadeirio is-grŵp Tlodi'r BGC.</p> <p>Nid oes angen camau gweithredu pellach.</p>	Cwblhawyd	Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
A4	<p>Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd rhaglenni sy'n cael eu hariannu â grantiau</p> <p>Ym Mharagraffau 2.31 – 2.38 rydym yn nodi bod yr holl gynghorau'n ddibynnol ar grantiau ond bod gwendidau mewn rhaglenni'n golygu nad yw cyllid yn cael yr effaith y gallai ei chael. Er mwyn sicrhau bod cynghorau'n gallu manteisio i'r eithaf ar effaith cyllid a mynd i'r afael â'r</p>	Amherthnasol gan fod yr argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru		

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<p>problemau anos a hirsefydlog, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> •ddarparu amserlenni hwy ar gyfer cyhoeddi a chael cynigion i'w gwneud yn bosibl cynllunio adnoddau'n well; •newid o gyloedd cynigion blynyddol i ddyraniadau amlflwyddyn; •ei gwneud yn bosibl gwario cyllid yn fwy hyblyg er mwyn osgoi pwyslais ar brosiectau cyflymach, yn hytrach nag ymyriadau sy'n cael mwy o effaith ac sy'n cymryd mwy o amser i'w sefydlu; •caniatáu i gynghorau gydgrynhoi cyllid i leihau biwrocratiaeth; •symleiddio prosesau ac amodau grant i leihau'r baich gweinyddol; a •chyfyngu i'r eithaf ar geisiadau am wybodaeth a deunyddiau ategol gan gynghorau. 			
A5	<p>Mapio profiadau i greu gwasanaethau cynhwysol i bobl mewn tloidi</p> <p>Ym Mharagraffau 3.2 – 3.6 rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl mewn tloidi yn aml mewn argyfwng, yn ymdrin â materion personol a materion sy'n llawn straen, ond maent yn aml yn ei chael hi'n anodd</p>	<p>Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth ymgysylltu a chyfranogi newydd sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac sy'n hyrwyddo a chefnogi arfer da. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi profiad personol pobl mewn tloidi ac mae'n gweithio gyda'i bartneriaid trwy is-grŵp tloidi'r BGC i goladu profiad dinasyddion ar draws pob gwasanaeth, nid y Cyngor yn unig, er mwyn galluogi datblygu mentrau ar y cyd.</p>		<p>Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd</p>

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<p>cael gafael ar gymorth gan gynghorau oherwydd y ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu. Rydym yn argymhell bod cynghorau'n gwella eu dealltwriaeth am 'brofiad personol' eu trigolion trwy eu cynnwys mewn modd ystyrlon wrth wneud penderfyniadau gan 'fapio profiadau' a/neu ddefnyddio 'Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi' i adolygu a gwella hygyrchedd gwasanaethau'r cyngor a'r defnydd ohonynt.</p>	<p>Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi datblygu a chyhoeddi Pecyn Cymorth Ymgysylltu a Chyfranogiad i swyddogion sy'n eu hannog i ymgymryd â mapio profiad o lygad y ffynnon, a fydd yn cynorthwyo i adolygu a gwella gwasanaethau'r cyngor i'r rhai mewn tlodi. Cyflwynwyd y pecyn cymorth i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 07.12.23</p>	Cwblhawyd	
A6	<p>Un dudalen lanio ar y wefan ar gyfer pobl sy'n chwilio am gymorth</p> <p>Ym Mharagraff 3.14 rydym yn tynnu sylw at yr anawsterau y mae pobl mewn tlodi yn eu hwynebu wrth geisio mynediad at wasanaethau ar-lein a digidol. Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael yr wybodaeth a'r cyngor y mae eu hangen arnynt, rydym yn argymhell bod cynghorau'n optimeiddio eu gwasanaethau digidol trwy greu un dudalen lanio ar eu gwefan sydd:</p>	<p>Mae tudalen Cymorth Costau Byw yn rhestru'r cymorth ariannol sydd ar gael i drigolion Ceredigion. Mae modd cael mynediad at y dudalen hon yn uniongyrchol o'n hafan.</p> <p>Fe'i diweddarwyd ddiwethaf ar 03/05/23.</p> <p>Dolen i dudalen Costau Byw: Cymorth Costau Byw - Cyngor Sir Ceredigion</p>		<p>Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd / Alan Morris – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh</p>

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> • yn uniongyrchol hygyrch ar yr hafan; • yn darparu dolenni i'r holl wasanaethau a ddarperir gan y cyngor sy'n ymwneud â thlodi; ac • yn darparu gwybodaeth am waith partneriaid sy'n gallu cynorthwyo pobl mewn tlodi. 			
A7	<p>Symleiddio a gwella gwasanaethau ymgeisio a gwybodaeth i bobl mewn tlodi</p> <p>Ym Mharagraffau 3.15 a 3.16 rydym yn nodi nad yw'r un cyngor wedi creu un porth i mewn i wasanaethau. O ganlyniad, mae'n rhaid i bobl gwblhau ffurflenni cais lluosog sy'n aml yn cofnodi'r un wybodaeth wrth wneud cais am wasanaethau tebyg. Rydym yn amlygu, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, bod angen i gynghorau hefyd rannu data er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Rydym yn argymhell y dylai cynghorau:</p>	<p>Mae Ceredigion wedi canoli gwasanaethau cwsmeriaid i un tîm a chanoli cyswllt cwsmeriaid trwy CRM unigol. Mae hyn yn lleihau'n uniongyrchol yr angen i ail-esbonio materion ac i gadw hanes o faterion a chefnogaeth.</p> <p>Ar hyn o bryd rydym wrthi'n lansio gwefan Fy Nghyfrif, wedi'i hintegreiddio i'n system Custom CRM i weithredu fel y prif borth i wasanaethau'r cyngor. Mae Fy Nghyfrif yn dilysu hunaniaeth, a bydd yn gweithredu fel prif gofnod cwsmeriaid yr awdurdod.</p> <p>Wrth ddefnyddio Fy Nghyfrif ar ôl cofrestru, bydd data hysbys yn cael ei lenwi yn awtomatig ar unrhyw ffurflen sy'n cael ei chwblhau, ac mae'r systemau yn cefnogi cyfathrebu hawdd a diogel â'r dinesydd. Bydd angen ail-wneud llawer o brosesau busnes a ffurflenni a fydd yn cymryd amser ond mae'r cynnydd wedi bod yn dda.</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Yn parhau (prif ffurflenni i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon)</p>	<p>Alan Morris Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh</p>

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> •sefydlu safonau data a dull codio corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd; •cynnal archwiliad i ganfod pa ddata sy'n cael ei gadw gan wasanaethau a nodi unrhyw achosion o ddyblygu cofnodion a cheisiadau am wybodaeth; •creu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau; •cynnal archwiliad data i ddarparu hyfforddiant diweddarau i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data a pha ddata y gallant ac na allant ei rannu; ac •adolygu a diweddarau protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data. 	<p>Rydym hefyd yn cynnal gwaith gwirio a dilysu data cadarn yn erbyn ôl-systemau i wella ansawdd data a byddwn yn defnyddio data'n effeithiol i'n helpu i ddeall sut i gefnogi'r dinesydd a'u cymuned yn well.</p> <p>Mae protocolau rhannu data yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae Aseidiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd Data (DPIA) yn cael eu cynnal ar weithgareddau prosesu.</p> <p>Mae archwiliad data ar y gweill, ac mae tîm Rheoli Data Meistr canolog wedi'i greu ac mae'n cefnogi'r ffrwd waith gyfan hon.</p> <p>Mae dogfennu'r holl ffynonellau data yn parhau ac yn ffurfio llyfrgell allweddol ar gyfer y timau Rheoli Data Meistr a Chymorth Systemau.</p>	<p>Yn parhau (prif rannau yn fyw o Gorff 24)</p> <p>Yn parhau (Medi 24)</p> <p>Yn parhau (datblygiad parhaus)</p> <p>Yn parhau (datblygiad parhaus)</p>	
A8	<p>Cydymffurfio â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol</p> <p>Ym Mharagraffau 3.27 i 3.32 rydym yn nodi, er bod pob cyngor yn cynnal rhyw fath o asesiad i bennu effaith economaidd-gymdeithasol debygol dewisiadau a phenderfyniadau polisi, bod dulliau'n amrywio ac nad ydynt bob amser yn effeithiol. Rydym ni'n</p>	<p>Mae ein hofferyn asesu effaith integredig yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r offeryn drafft yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid, lliniaru effaith a monitro effaith y cynllun/polisi arfaethedig.</p> <p>Mae'r canllawiau cysylltiedig yn cynnwys data cyfrifiad 2021.</p>	Cwblhawyd	

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<p>argymell bod cyngorau yn adolygu eu hasesiadau effaith integredig neu ddogfennau cyfwerth er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau eu bod yn defnyddio data perthnasol, cynhwysfawr a chyfredol (dim byd dros 12 mis oed) i ategu dadansoddiad; • sicrhau bod asesiadau effaith integredig yn casglu gwybodaeth am: <ul style="list-style-type: none"> - weithgarwch cynnwys sy'n nodi'r rhai y mae'r gwasanaeth wedi ymgysylltu â hwy wrth benderfynu ar ei bolisi strategol megis partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a'r rhai y mae'n cyd-gynhyrchu â hwy; - yr effaith gronnu/camau lliniaru i sicrhau bod yr asesiad yn ystyried materion yn eu crynswth a sut mae'n cysylltu ar draws gwasanaethau a ddarperir ar draws y cyngor; - sut y bydd y cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r effaith ac yn cymryd camau cywiro; a - chynllun gweithredu sy'n nodi'r gweithgareddau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Integredig. 	<p>Mae ein AEI wedi cael ei adolygu ac fe gafodd ei graffu gan Bwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu ar 11.09.23 a'i gymeradwyo gan Y Cabinet ar 12.09.23. Mae hwn bellach yn cael ei ddefnyddio gan holl swyddogion y cyngor.</p> <p>Mae'r asesiad effaith yn ystyried effaith gymdeithasol, economaidd debygol newidiadau a phenderfyniadau polisi yn ogystal ag ymgysylltu ac agweddau eraill ar y egwyddorion cynaliadwyedd. Mae'r AEI hefyd yn manylu ar gamau lliniaru gweithredu.</p>		<p>Alun Williams – Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd</p>

Cyd-bwyllgorau Corfforedig – sylwebaeth ar eu cynnydd

Tachwedd 2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Crynodeb o'r adroddiad	4
Adroddiad manwl	8
Cefndir	8
Pam y gwnaethom yr adolygiad hwn	9
Yr hyn yr oeddem yn edrych arno	10
Methodoleg	11
Canfyddiadau	11
Argymhellion	19



Crynodeb o'r adroddiad

Canfyddiad cyffredinol

- 1 Yn eu dyddiau cynnar o hyd y mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig. I ddechrau, roeddwn yn pryderu am eu cynnydd araf ac amrywiol, a pharodrwydd Llywodraeth Cymru i hwyluso eu gweithrediad, ond bu arwyddion mwy cadarnhaol bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn symud ymlaen yn ddiweddar.

Yr hyn y mae'r adroddiad hwn yn ei gwmpasu

- 2 Rwyf wedi anfon llythyrau i bob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yn nodi fy safbwyntiau ar eu cynnydd. Yn yr adroddiad hwn, nodaf grynodedd lefel uchel o'm canfyddiadau cronus a'm disgwyliadau o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig dros y 12 i 18 mis nesaf.
- 3 Gan fod canfyddiadau'r adroddiad hwn yn fwy cyffredinol, efallai y bydd rhai yn fwy perthnasol i rai Cyd-bwyllgorau Corfforedig nag eraill. Felly, dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'r llythyrau unigol a anfonais i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r rhain ar gael ar fy ngwefan yn y fan [yma](#).

Cefndir

- 4 Sefydlodd Llywodraeth Cymru bedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig i helpu i gryfhau cydweithrediad rhanbarthol rhwng awdurdodau:
 - Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru
 - Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
 - Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
 - Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru
- 5 Daethant i rym ym mis Ebrill 2021 a rhoddwyd y swyddogaethau canlynol iddynt o fis Mehefin 2022:
 - datblygu polisiau trafndiaeth
 - paratoi cynllun datblygu strategol
 - llesiant economaidd – unrhyw beth y mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig o'r farn ei fod yn debygol o hybu neu wella llesiant economaidd ei ardal

- 6 Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnwys arweinwyr y cynghorau yn y rhanbarth penodol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd o fewn y rhanbarth hwnnw.

Pwyslais fy archwiliad

- 7 Gan fod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrrff corfforedig newydd, edrychais ar eu cynnydd wrth ddatblygu eu trefniadau ar gyfer cyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithrediad rhanbarthol. Gwnaeth fy nhîm waith cychwynnol yn ystod hydref 2022 ac yna gwnaeth ychydig o waith pellach rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023 i ddiweddarau fy nghanfyddiadau.

Crynodeb o'm canfyddiadau

- 8 O'm gwaith cychwynnol yn hydref 2022, roeddwn yn pryderu bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gwneud cynnydd amrywiol i sefydlu eu hunain ac roeddwn yn teimlo na allwn benderfynu yn hyderus a fyddent yn cyflawni fel y bwriadwyd. Roeddwn yn pryderu y byddent yn gwneud y mymryn lleiaf ac yn bodoli mewn enw yn unig. Roeddwn yn gwerthfawrogi bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu gweithredu ar adeg pan oedd cyrff cyfansoddol yn wynebu pwysau ariannol a galw sylweddol, a'u bod yn parhau i wneud hynny.
- 9 Dros ddwy flynedd ar ôl iddynt gael eu sefydlu ym mis Ebrill 2021 a 12 mis ar ôl iddynt gael eu dyletswyddau a'u swyddogaethau craidd ym mis Mehefin 2022, mae'n amlwg bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dal yn eu dyddiau cynnar. Mae cynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn wahanol mewn gwahanol feysydd, ond yn gyffredinol, nid yw'r trefniadau llywodraethu i gyd ar waith eto ac mae llawer o waith i'w wneud i fodloni eu cyfrifoldebau cynllunio strategol.
- 10 Er eu bod yn adeiladu ar drefniadau bargaen ddinesig/twff, nid yw pob un ohonynt wedi penderfynu sut y byddant yn gweithio gyda phartneriaethau a chyrrff eraill i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau ac arbenigedd. Mae hyn yn hanfodol o ystyried mai'r brif resymeg dros sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig oedd cryfhau cydweithrediad rhanbarthol.
- 11 Fel y nodaf yn yr adroddiad hwn a'm llythyrau unigol, byddwn wedi disgwyl mwy o gynnydd mewn rhai meysydd.

- 12 Nododd fy ngwaith rai canfyddiadau cadarnhaol am gynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi gosod y blociau adeiladu ar gyfer eu datblygiad ac i fodloni amcanion Llywodraeth Cymru. Gwelais enghreifftiau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn archwilio sut y gallent fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r trefniadau newydd yn eu darparu. Er enghraifft, fel fforwm mwy effeithlon ar gyfer gwneud penderfyniadau rhanbarthol a chydweithredu i fynd i'r afael â rhai heriau sylweddol. Roedd Cyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd yn manteisio i'r eithaf ar yr hyblygrwydd i addasu eu trefniadau fel eu bod yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau rhanbarthol.
- 13 Yn yr un modd, canfûm nifer o faterion, yn enwedig yn ystod fy ngwaith cychwynnol yn hydref 2022, a oedd yn peri risgiau i ddatblygiad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Er enghraifft, cymysg oedd yr ymrwymiad i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac roedd eglurder a chynnydd cynlluniau i gyflawni eu swyddogaethau ar y pryd yn amrywiol.
- 14 Roedd safbwynt cryf hefyd ymhlith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi paratoi'n well ar ystod o faterion i hwyluso'r broses o weithredu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd hyn yn cynnwys:
 - sefydlu statws TAW a statws ariannol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig;
 - deall y goblygiadau i'r Bargeinion Dinesig/Twf;
 - disgwyliadau cliriach o ran cyflawni swyddogaethau a dyletswyddau cyhoeddus y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ymarferol.
- 15 Effeithiodd oedi wrth ddatrys y materion hyn ar weithrediad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- 16 Fodd bynnag, gan fod y materion statws ariannol bellach wedi eu datrys, gallaf weld bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn symud ymlaen, ac rwy'n fwy optimistaidd am eu cynnydd. Mae'r awydd am y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn fwy cadarnhaol ac mae gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, neu maen nhw'n datblygu, eu cynlluniau a'u huchelgeisiau.
- 17 Yn wahanol i drefniadau eraill ar y cyd, mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn endidau cyfreithiol yn eu rhinwedd eu hunain. Mae angen iddynt sicrhau'r buddion mwyaf posibl y mae hyn yn ei roi iddynt os ydynt wedi ymrwymo'n wirioneddol i sicrhau buddion cadarnhaol i'w rhanbarthau.
- 18 Byddwn yn disgwyl gweld y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn datblygu ymhellach yn ystod y 12 i 18 mis nesaf. Bydd fy nhimau archwilio yn parhau i fonitro cynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Byddwn yn pryderu pe byddai fy nhimau'n canfod nad yw'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi gwneud llawer o gynnydd ac nad ydynt wedi mynd i'r afael â'r pwyntiau a godaf yn yr adroddiad hwn.

Argymhellion

- 19 Rwyf wedi gwneud pum argymhelliad i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel y nodir ar dudalen 14, sy'n ymwneud â'r hyn a ganlyn:
- trefniadau llywodraethu,
 - cyflawni eu swyddogaethau cynllunio strategol,
 - cyflawni eu dyletswyddau sector cyhoeddus,
 - gweithio mewn partneriaeth a chynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol,
 - cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 20 Mae'r argymhellion hyn yn nodi lle byddwn yn disgwyl gweld y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gwneud cynnydd pellach yn ystod y 12-18 mis nesaf yn unol â'r meysydd hynny a godir yn yr adroddiad hwn. Bydd rhai o'r rhain yn fwy perthnasol i rai Cyd-bwyllgorau Corfforedig nag eraill, felly bydd angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fyfyrho hefyd ar y pwyntiau a godir yn fy llythyrau unigol. Fodd bynnag, prif fyrdwn yr adroddiad hwn yw y byddwn yn disgwyl gweld bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi datblygu ymhellach yn fwy cyffredinol pan fyddaf yn cynnal fy asesiad nesaf o gynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Adroddiad manwl

Cefndir – beth yw Cyd-bwyllgor Corfforedig

- 21 Cyrff corfforedig newydd sydd â rhai pwerau a dyletswyddau tebyg i gynghorau yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Gallant fod yn berchen ar asedau yn uniongyrchol a chyflogi staff. Rhaid iddynt benodi Prif Weithredwr, Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro. Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnwys arweinwyr y cynghorau yn y rhanbarth penodol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sydd o fewn y rhanbarth hwnnw.
- 22 2Sefydlwyd pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig drwy reoliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i helpu cydweithrediad rhanbarthol rhwng awdurdodau::
 - Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru
 - Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
 - Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
 - Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru
- 23 Daeth y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i rym ym mis Ebrill 2021 a rhoddwyd y swyddogaethau canlynol iddynt o fis Mehefin 2022:
 - Datblygu polisïau trafndiaeth
 - Paratoi cynllun datblygu strategol
 - Llesiant economaidd – unrhyw beth y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig o'r farn ei fod yn debygol o hybu neu wella llesiant economaidd ei ardal.
- 24 Mae'n ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gydymffurfio ag ystod o reoliadau a dyletswyddau, gan gynnwys:
 - Dyletswydd Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
 - Y Gymraeg
 - Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
 - Bioamrywiaeth
 - Tlodi plant

Pam y gwneuthum yr adolygiad hwn

- 25 Yn fy mhapur ymgynghori ar raglenni ym mis Mawrth 2022, nodais y byddwn yn cadw golwg ar drefniadau llywodraethu ynghylch creu cyrff newydd. Roedd hyn yn cynnwys y Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd lle mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru swyddogaeth statudol. Gan fod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn endidau newydd a sefydlwyd o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd¹, roeddwn yn dymuno cael sicrwydd cynnar am eu cynnydd. Roeddwn hefyd yn dymuno nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg y mae angen mynd i'r afael â nhw a darparu sylwadau cynnar i helpu Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth iddynt barhau i ddatblygu.
- 26 Gwneuthum yr archwiliad hwn yn unol ag Adran 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i ymgymryd ag astudiaethau a gynlluniwyd i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni swyddogaethau neu wasanaethau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru.
- 27 Gwneuthum yr archwiliad hefyd i helpu i gyflawni fy nyletswyddau o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1 Sefydlwyd pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig drwy reoliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Yr hyn yr edrychais arno – cwmpas yr archwiliad hwn

- 28 Ceisiodd fy ngwaith ateb y cwestiwn: A yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu trefniadau ar gyfer cyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithrediad rhanbarthol? I wneud hyn, gwnaeth fy nhîm archwilio'r meysydd canlynol:
- dealltwriaeth o nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig;
 - trefniadau llywodraethu datblygol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig;
 - cynlluniau Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gyflawni nodau Llywodraeth Cymru ac i fodloni eu rhwymedigaethau statudol;
 - sut mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ymwneud â'r trefniadau partneriaeth presennol;
 - cynlluniau Cyd-bwyllgorau Corfforedig i fodloni eu gofynion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys pennu eu hamcanion llesiant.
- 29 Ni wneuthum yr adolygiad hwn i benderfynu dilysrwydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, na'r gofyniad amdanynt.
- 30 Gwnaeth fy nhîm y gwaith cychwynnol rhwng mis Hydref 2022 a mis Chwefror 2023 a gwnaeth ychydig o waith pellach i ddiweddarau eu canfyddiadau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023.

Methodoleg

- 31 Mae fy nghanfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, arsylwi cyfarfodydd a chyfweliadau gydag Arweinwyr, Prif Weithredwyr a swyddogion Adran 151 pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. Cynhaliodd fy nhîm gyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd a gofyn am safbwyntiau aelodau cyfansoddol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'n cyfarfodydd cyswllt arferol. Cyfarfu fy nhîm â chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd.

Yr hyn a ddarganfûm: Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dal yn eu dyddiau cynnar. I ddechrau, roeddwn yn pryderu am eu cynnydd araf ac amrywiol, a pharodrwydd Llywodraeth Cymru i hwyluso eu gweithrediad, ond bu arwyddion mwy cadarnhaol bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gwella yn ddiweddar

Dealltwriaeth o nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig

- 32 Yn gyffredinol, roedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn deall ac yn cydnabod buddion posibl nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd y buddion hyn yn cynnwys y cyfle i ddenu buddsoddiadau ychwanegol, i gydweithredu i leihau allyriadau carbon ac i gynyddu capasiti a chadernid drwy gyfuno adnoddau er mwyn mynd i'r afael â heriau recriwtio.
- 33 Ond ar adeg fy ngwaith cychwynnol yn hydref 2022, roedd lefel y derbyniad, yr optimistiaeth a'r ymgysylltiad mewn cysylltiad â Chyd-bwyllgorau Corfforedig ymhlith Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r cyrff cyfansoddol yn amrywio'n sylweddol. Gwelais rai enghreifftiau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn croesawu cyfleoedd ac yn datblygu trefniadau, ond gwelais amheuaeth hefyd gan rai am yr angen am Gyd-bwyllgorau Corfforedig o gwbl. O ystyried y pwysau ariannol a'r galw sylweddol y mae cyrff cyfansoddol yn eu hwynebu, nid oedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth.

- 34 Darparodd Llywodraeth Cymru grant gweithredu o £250,000 i bob rhanbarth i gefnogi eu gwaith cynllunio cychwynnol. Fodd bynnag, roedd ymdeimlad clir o rwystredigaeth ymhlith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ynghylch parodrwydd Llywodraeth Cymru ar ystod o faterion a fyddai wedi hwyluso cynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd y rhain yn cynnwys:
- eglurder ynghylch statws ariannol Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sy'n berthnasol, er enghraifft, at ddibenion benthyca a phensiynau;
 - sefydlu statws TAW er mwyn osgoi ychwanegu 20% o TAW;
 - deall y goblygiadau ar gyfer Bargeinion Dinesig/Twf y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt;
 - disgwyliadau a dealltwriaeth gliriach o gyflawni eu swyddogaethau'n ymarferol a chyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus.
- 35 Roedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn rhwystredig nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried y materion hyn ar y dechrau ac ynghylch cyflymder y cynnydd i'w datrys nhw.
- 36 Roedd y dull fesul cam o ymdrin â deddfwriaeth a chanllawiau yn eithaf anhrefnus ac anghysylltiol, ac roedd yn rhychwantu nifer o adrannau Llywodraeth Cymru. Roedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithio drwy ganllawiau a gofynion wrth iddynt ddod allan, gan ymateb iddynt. Nododd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig rai heriau ymarferol i fodloni eu gofynion, a godwyd ganddynt yn rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod ganddynt rai gwersi clir i'w dysgu o'r profiad hwn.
- 37 Effeithiodd y materion hyn ar gyflymder cynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ond gwnaethant hefyd leihau'r awydd am y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a chanfûm fod hyn hefyd yn effeithio ar gynnydd rhai o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- 38 Yn gynharach yn 2023, roeddwn yn pryderu bod risg na fyddai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn datblygu'n effeithiol ac y byddent yn bodoli mewn enw yn unig, gan godi cwestiynau am eu gallu i gyflawni eu swyddogaethau statudol, i fodloni amcanion Llywodraeth Cymru ac i ddarparu gwerth am arian.
- 39 Yn fwy diweddar ac ers i'r materion statws ariannol gael eu datrys, mae'n ymddangos bod agwedd fwy cadarnhaol am y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Pan ddiweddarais fy ngwaith ar ddechrau'r haf, canfûm fod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dechrau dangos arwyddion o gynnydd. O ganlyniad, rwyf yn fwy optimistaidd am eu siawns o gyflawni fel y bwriadwyd nag oeddwn yn hydref y llynedd. Bydd yn bwysig nawr eu bod yn parhau i gynnal y momentwm hwn.

Trefniadau llywodraethu

- 40 Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi sefydlu eu trefniadau llywodraethu craidd, ond ar adeg fy ngwaith diweddaredig ar ddechrau haf 2023, nid oedd yr holl drefniadau ar waith ar draws yr holl Gyd-bwyllgorau Corfforedig. I ryw raddau, roedd hyn yn adlewyrchu gweithgareddau cyfyngedig y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyd yn hyn.
- 41 Adlewyrchir cynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig unigol wrth sefydlu eu trefniadau llywodraethu yn y llythyrau yr wyf wedi anfon i bob un ohonynt.
- 42 Ar y cyfan, canfûm mai cymysg yw cynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu a gweithredu rhai o'u trefniadau llywodraethu. Roedd pob un ohonynt wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer swyddogion statudol, a threfniadau interim oedd rhai o'r rhain. Roedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd wedi sicrhau cymaint o hyblygrwydd â phosibl er mwyn addasu eu trefniadau a defnyddio trefniadau presennol rhai cyrff cyfansoddol. Yng ngweddill yr adran hon, tynnaf sylw at rai meysydd penodol y byddwn yn disgwyl gweld cynnydd pellach ynddynt dros y 12 mis nesaf.
- 43 Mae'n ofynnol bod gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio, ond yr hyn a ganfûm ar ddechrau haf 2023, oedd nad oedd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pob Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi ei benodi ac yn cwrdd. Roedd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio De-orllewin Cymru wedi cwrdd ddwywaith.
- 44 Yn yr un modd, heblaw am Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, nid oedd yr holl drefniadau craffu wedi eu cytuno a'u gweithredu. Nid oes rhaid i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod â'u pwyllgor craffu penodol eu hunain, ond mae'n rhaid iddynt gydweithredu, a darparu cymorth ar gyfer y gwaith craffu a ymgwymerir gan y cyrff cyfansoddol neu drwy gydbwyllgor craffu.
- 45 Cyrff llywodraeth leol sy'n defnyddio arian cyhoeddus yw'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'n bwysig bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r cyrff cyfansoddol yn penderfynu sut y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu dwyn i gyfrif. Dylai trefniadau craffu a Phwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio fod yn darparu trosolwg o weithgareddau a threfniadau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac yn craffu arnynt. Heb hyn, mae risg y gallai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig weithredu mewn gwactod â gwaith craffu a thryloywder cyhoeddus cyfyngedig.

- 46 Mae'r canllawiau statudol ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn nodi'r disgwyliad y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn sefydlu is-bwyllgorau penodol ar gyfer ei swyddogaethau allweddol. Roedd tri o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi sefydlu is-bwyllgorau gweithredol yn unol â'r canllawiau. Fodd bynnag, ar yr adeg y diweddarwyd fy ngwaith ar ddechrau'r haf, dim ond is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol oedd wedi cwrdd mewn gwirionedd ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru. Felly, nid oedd y rhan fwyaf o'r is-bwyllgorau hyn yn weithredol eto a dim ond ar bapur yr oeddent wedi eu sefydlu.
- 47 Rwyf yn cydnabod bod gweithgareddau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi bod yn gyfyngedig hyd yn hyn. Fodd bynnag, byddwn yn disgwyl gweld mwy o gynnydd dros y chwech i 12 mis nesaf, a threfniadau llywodraethu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu rhoi ar waith i ddarparu'r rhwystrau a'r gwrthbysau angenrheidiol yn unol â safonau llywodraethu da.

Eglurder a chynnydd cynlluniau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer cyflawni nodau Llywodraeth Cymru ac i fodloni eu rhwymedigaethau statudol

- 48 Roedd Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar wahanol gamau yn eu gwaith cynllunio. Roedd gan rai ohonynt uchelgeisiau clir i gynyddu cyfleoedd penodol cymaint â phosibl ar gyfer eu rhanbarthau. Roedd eraill yn dechrau egluro eu cynlluniau. Gan ystyried yr angen i ddatrys y materion statws ariannol, roedd yr holl Gyd-bwyllgorau Corfforedig wedi cymryd dull ystyriol a phragmatig o fynd i'r afael â'u gwaith cynllunio.
- 49 Roedd gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyder yn eu galluoedd i gyflawni eu dyletswydd llesiant economaidd gan adeiladu ar waith presennol a chynnydd y bargeinion dinesig a thwf. Pan ddiweddarais fy nghanfyddiadau ar ddechrau'r haf, nid oedd pob Cyd-bwyllgor Corfforedig yn bwriadu trosglwyddo eu bargeinion dinesig/twf i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Roedd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru uchelgais clir o'r dechrau i godi a symud rhaglen bargaen ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac roedd wedi datblygu cynllun pontio i gefnogi hyn.
- 50 Trefniadau rhanbarthol yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig a bargeinion dinesig/twf; mae ganddynt amcanion tebyg sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, ond gwahanol seiliau ariannol a chyfreithiol. Felly, beth bynnag y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn penderfynu arno, bydd angen iddyn nhw a chyrrff y fargen ddinesig/twf benderfynu sut y gallant optimeiddio adnoddau i reoli'r trefniadau hyn yn effeithlon ac yn effeithiol er budd eu rhanbarthau. O ystyried mai fy swyddogaeth i yw archwilio sut mae cyrrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sut maent yn sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, byddaf yn awyddus i weld sut mae'r ddau drefniant rhanbarthol hyn yn gweithredu.

- 51 Canfûm fod cynnydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth gyflawni eu swyddogaethau cynllunio datblygu strategol a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol yn fwy cyfyngedig. Roedd y cyllidebau a ddyrannwyd gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ddwy swyddogaeth hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.
- 52 Roedd Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru wedi penderfynu ar ei ddewisiadau ar gyfer cyflawni ei swyddogaeth cynllunio datblygu strategol, gan gynnwys adnoddau staff i gefnogi hyn. Roedd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru wedi cytuno ar strwythurau staffio i gefnogi'r ddwy swyddogaeth gynllunio. Ond ar adeg fy ngwaith diweddaedig ym mis Mai a Mehefin, roedd y cynnydd yn y meysydd hyn yn llai datblygedig gyda'r ddau Gyd-bwyllgor Corfforedig arall.
- 53 Rwyf yn sylweddoli bod rhywfaint o oedi wrth ddatrys y materion statws ariannol ac nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r canllawiau cynllunio trafndiaeth rhanbarthol. Fodd bynnag, fel y pwysleisiaf yn fy llythyrau i bob un o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ynghylch y swyddogaethau datblygu strategol a chynllunio trafndiaeth felly dylai'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod wedi cael rhywfaint o ddealltwriaeth o ddisgwyliadau. Er enghraifft, rhannodd swyddogion Llywodraeth Cymru hysbysiadau cynghori yn argymhell paratoi yn gynnar ar gyfer y cynlluniau datblygu strategol ym mis Awst 2021. Roedd digwyddiad hefyd i drafod swyddogaethau cynllunio Cyd-bwyllgorau Corfforedig ym mis Ionawr 2022. Mae'r broses cynllunio datblygu strategol, yn benodol, yn gymhleth ac yn hir ac mae angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddechrau ar hyn.
- 54 Felly, er gwaethaf y materion statws ariannol, byddwn wedi hoffi gweld mwy o gynnydd gyda swyddogaethau datblygu strategol a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Byddwn yn disgwyl gweld y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gwneud cynnydd pellach gyda'r swyddogaethau hyn yn ystod y 12 mis nesaf.

55 Canfûm fod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i gyflawni eu dyletswyddau sector cyhoeddus, ond roedd hyn yn amrywio ar draws y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac yn adlewyrchu eu gweithrediad cyfyngedig hyd yn hyn. Yn gyffredinol, roedd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi cytuno ar drefniadau i gyflawni eu dyletswyddau Cymraeg a chyd-raddoldeb yn aml gan fabwysiadu trefniadau a ddefnyddir gan un o'r cyrff cyfansoddol. Ac eithrio Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru, nid oedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi cyhoeddi eu cynlluniau gweithredu ar gyfer trechu tlodi plant. Mae strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi plant allan at ddibenion ymgynghori ar hyn o bryd felly bydd angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig sicrhau bod eu cynlluniau'n adeiladu ar y strategaeth hon ac yn gyson â hi. O ystyried cyrhaeddiad posibl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r nodau sylfaenol, bydd angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig sicrhau bod y dyletswyddau hyn yn cael eu hystyried yn weithredol yn eu gweithgareddau ac nad ydynt yn cael eu gwneud mewn ffordd symbolaidd er mwyn ticio blwch yn unig.

Gweithio mewn partneriaeth

- 56 Rwyf wedi gwneud sylwadau yn aml ar y dirwedd bartneriaeth gymhleth yng Nghymru, felly roeddwn yn awyddus i weld sut yr oedd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn archwilio'r modd y maent yn ymwneud â phartneriaethau presennol ac yn gweithio gyda nhw er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau presennol a mynd i'r afael â heriau mewn modd mwy cydweithredol.
- 57 Canfûm fod y mwyafrif o Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn adeiladu ar eu trefniadau bargaen ddinesig/twf mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, ond heblaw am Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, nid oedd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi penderfynu'n ffurfiol sut y gallant weithio gyda chyrff a phartneriaethau eraill, gan gynnwys manteisio cymaint â phosibl ar gyfraniad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Ac felly, mae hynny'n golygu'r posibilrwydd o gollu'r cyfle i gyd-gysylltu gweithgareddau ac adnoddau er budd y rhanbarth.
- 58 Roedd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi edrych y tu hwnt i'w aelodaeth statudol i'w helpu i gynyddu cyfraniadau rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth cymaint â phosibl. Cadarnhaol oedd gweld ei fod wedi cyfethol cyrff eraill, megis prifysgolion a byrddau iechyd lleol. Roedd hefyd wedi manteisio ar y cyfle i gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn llawnach yn ei drefniadau, y tu hwnt i swyddogaeth statudol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o ran cynllunio datblygu strategol.

- 59 Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir o ran y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill, nad oedd wedi archwilio i raddau helaeth sut y gallent gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y tu hwnt i'w swyddogaeth cynllunio strategol. Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ofynion ynghylch datblygu economaidd hefyd. O ystyried hyn a'u daearyddiaeth a'u cyrhaeddiad, mae cyfle gwirioneddol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gynyddu'r cyfraniad cadarnhaol y gallai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ei gael ar y broses o gyflawni amcanion a swyddogaethau llesiant y Cyd-bwyllgorau Corfforedig cymaint â phosibl, y tu hwnt i'w swyddogaeth cynllunio datblygu strategol.
- 60 Bydd yn allweddol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig archwilio sut y gallant ymgysylltu â chyrrff eraill, a gweithio gyda nhw, er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau ac arbenigedd. Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi eu sefydlu er mwyn cryfhau cydweithrediad rhanbarthol ac mae angen iddynt ddangos eu bod yn gallu gwneud hyn. Byddwn yn disgwyl gweld mwy o gynnydd ar hyn ar draws yr holl Gyd-bwyllgorau Corfforedig pan fyddaf yn gwneud fy ngwaith nesaf ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

- 61 Fel y cyrff eraill a enwir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol², mae'n rhaid i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig bennu a chyhoeddi amcanion llesiant. Rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r amcanion hynny ac wrth gymryd camau i'w cyflawni nhw. Roedd yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig bennu eu hamcanion llesiant cyntaf erbyn mis Ebrill 2023.
- 62 Yn ystod fy ngwaith cychwynnol yn hydref 2022, roedd y ffaith bod rhai cyfweleion yn ymddangos yn eithaf anymwybodol o ddyletswyddau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig o amgylch y Ddeddf yn peri pryder. Ond rwyf yn sylweddoli, bryd hynny, fod gweithgareddau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyfyngedig iawn ac nad oedd pennu amcanion llesiant yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth.
- 63 Pan ddiweddarais fy ngwaith ym mis Mai a mis Mehefin, canfûm fod dau o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig (De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru) wedi cyhoeddi eu hamcanion llesiant, er mai dim ond De-orllewin Cymru oedd wedi ymgynghori arnynt. Roedd Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru wedi drafftio ei rai ef. Nododd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru y byddai ei amcanion llesiant yn cael eu dylanwadu gan drosglwyddiad Uchelgais Gogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a phan fyddai wedi cael y canllawiau terfynol ar ddatblygu strategol a chynllunio trafniadaeth rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru a swyddogion cynllunio penodedig.

2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu ar gyfer diben a rennir trwy saith nod llesiant i Gymru. Mae'r nodau llesiant hyn yn anwahanadwy oddi wrth ei gilydd ac yn esbonio beth yw ystyr llesiant Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am y nodau hyn yn [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: yr hanfodion](#)

- 64 Roedd consensws cyffredinol ymhlith y Cyd-bwyllgorau Corfforedig o fod eisiau cymryd dull sy'n gymesur â'r Ddeddf sy'n gyfestynnol â'u swyddogaeth a'u gweithgareddau. Roedd yn gadarnhaol eu bod wedi trafod eu dulliau gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Serch hynny, byddwn yn disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru wneud cynnydd â'r broses o bennu a chyhoeddi eu hamcanion llesiant yn unol â gofynion deddfwriaethol.
- 65 Yn ehangach, mae gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae gan y fframwaith hwnnw y potensial o ychwanegu gwerth at sut maent yn cynllunio ac yn cyflawni eu gwaith. Gan eu bod yn endidau newydd, mae gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyfle i sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn tanategu'r hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn gwneud hynny o'r cychwyn cyntaf.
- 66 Wrth i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fwrw ymlaen â'u cynlluniau a dechrau gwneud penderfyniadau am eu rhanbarthau, byddwn yn disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig allu dangos eu bod yn rhoi'r datblygiad cynaliadwy wrth wraidd eu gweithgareddau. Byddai'n golled cyfle sylweddol pe na fyddent yn gwneud hyn. Byddai hefyd yn codi cwestiynau ynghylch y graddau y mae ganddynt drefniadau gwerth am arian priodol o ystyried bod y pum ffordd o weithio yn rhan annatod o'r trefniadau hyn. Byddaf yn archwilio i ba raddau y maent wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Felly, byddaf yn awyddus i weld sut mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi croesawu'r cyfle hwn.
- 67 Mae fy nhîm wedi datblygu rhai dangosyddion cadarnhaol sy'n darparu set o nodweddion sy'n darlunio sut mae da yn edrych pan fo sefydliadau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd y cyrff cyfansoddol yn gyfarwydd â'r rhain, a bydd yn ddefnyddiol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu defnyddio wrth iddynt gyflawni eu hamcanion llesiant.

Argymhellion

- 68 Mae fy argymhellion isod yn nodi lle byddwn yn disgwyl gweld y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gwneud cynnydd pellach yn ystod y 12-18 mis nesaf yn unol â'r meysydd hynny a godir yn yr adroddiad hwn. Bydd rhai o'r rhain yn fwy perthnasol i rai Cyd-bwyllgorau Corfforedig nag eraill, felly bydd angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fyfyrion hefyd ar y pwyntiau a godir yn fy llythyrau unigol. Fodd bynnag, prif fyrdwn yr adroddiad hwn yw y byddwn yn disgwyl gweld bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi datblygu ymhellach yn fwy cyffredinol pan fyddaf yn gwneud fy ngwaith nesaf ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Argymhellion

Trefniadau llywodraethu

- A1 Dylai'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu ar waith a'u bod yn darparu'n effeithiol y rhwystrau a'r gwrthbwysau angenrheidiol i gefnogi penderfyniadau cadarn a thryloyw a gwaith craffu effeithiol.

Cynllunio datblygiad strategol a chynllunio trafndiaeth rhanbarthol

- A2 The four CJC's should ensure that they take action to further progress with these functions over the next 12 months in order to facilitate an integrated, efficient and consistent approach to strategic planning in line with Welsh Government's aims.

Argymhellion

Dyletswyddau sector cyhoeddus

- A3 Mae angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau sector cyhoeddus lle nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Er enghraifft, cyhoeddi cynlluniau gweithredu ar gyfer trechu tlodi plant ac adroddiadau bioamrywiaeth. Ond yn bwysicach, mae angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig sicrhau eu bod yn ystyried y dyletswyddau hyn yn weithredol yn eu penderfyniadau a'u gweithgareddau.

Gweithio mewn partneriaeth ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

- A4 Er bod Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi cyfethol gwahanol sefydliadau ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ei drefniadau, mae angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill benderfynu yn llawnach sut y gallant ymgysylltu â chyrff eraill, a gweithio gyda nhw, i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau ac arbenigedd. Mae hyn yn cynnwys archwilio sut y gallant fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol y tu hwnt i'w swyddogaeth cynllunio datblygu strategol statudol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- A5 Dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd o ran datblygu eu hamcanion llesiant yn unol â'r gofynion. Yn fwy cyffredinol, dylai'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig sicrhau eu bod yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn effeithiol, fel eu bod mewn sefyllfa dda i wella llesiant y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu a sicrhau eu bod yn gallu dangos bod ganddynt drefniadau gwerth am arian priodol.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

'Cyfle wedi'i gollu' – Mentrau Cymdeithasol

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rhagfyr 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Cyd-destun	4
Canfyddiadau Allweddol	5
Ffeithiau Allweddol	7
Argymhellion	8

Prif adroddiad

1 Gall Mentrau Cymdeithasol ddarparu gwasanaethau pwysig, ond nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol strategaeth gydlynol ac nid ydynt yn cydweithio i helpu i gefnogi eu twf a'u datblygiad	10
2 Nid oes gan awdurdodau lleol y mecanweithiau cywir ar waith i sicrhau'r gwerth gorau am arian o'u gwaith gyda Mentrau Cymdeithasol	22
3 Nid yw awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac mae gwendidau mewn data a gwerthuso yn cyfyngu ar eu gallu i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol	28

Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio	35
2 Rhestr Wirio i awdurdodau lleol ar ymgysylltu a gweithio'n effeithiol gyda Mentrau Cymdeithasol	37
3 Gwahaniaethau mewn deddfwriaeth, polisi a chyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol ar draws tair gwlad Prydain Fawr	46
4 Nifer y Mentrau Cymdeithasol fesul awdurdod lleol yng Nghymru a'r newid canrannol rhwng 2016 a 2020	47
5 Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol De-ddwyrain Cymru	48
6 Crynodeb o Arfer Da a nodwyd yn yr adolygiad hwn	49

Cyd-destun

- 1 Fel sefydliadau, mae Mentrau Cymdeithasol yn eistedd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Maent yn cymhwyso strategaethau masnachol i gael y gwelliannau mwyaf posibl mewn llesiant ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn aml ar gyfer grwpiau unigol mewn cymdeithas, cymunedau diffiniedig neu ardaloedd. Yn benodol, gall Mentrau Cymdeithasol fod o fudd i gymunedau difreintiedig; creu cyfoeth lle mae arian yn brin; a helpu i drechu tlodi a mynd i'r afael ag anghenion. Mae strwythur Mentrau Cymdeithasol yn amrywio ac yn cynnwys partneriaethau er elw neu ddielw, cwmnïau cydweithredol, sefydliadau cydfuddiannol, busnesau cymdeithasol, cwmnïau buddiannau cymunedol ac elusennau.
- 2 Gall menter gymdeithasol felly weithio ym mhob un o sectorau economi Cymru ac ym mhob rhan o'r wlad ac maent yn fwyfwy amlwg yn neddfwriaeth Senedd Cymru. Mae adran 16 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i 'hyrwyddo mentrau cymdeithasol i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol'. Yn yr un modd, mae ethos a dull Mentrau Cymdeithasol yn cyd-fynd yn dda â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Gall mentrau cymdeithasol wneud cyfraniad sylweddol at gyrraedd y saith nod llesiant cenedlaethol trwy helpu i greu gwlad decach a mwy cyfartal.
- 3 Yn bwysig, oherwydd bod Mentrau Cymdeithasol yn canolbwyntio ar gadw cyfoeth o fewn cymunedau, maen nhw'n gallu cynorthwyo pobl sydd mewn tlodi drwy:
 - helpu pobl mewn cymunedau difreintiedig yn uniongyrchol drwy ddarparu gwasanaethau na fyddai ar gael fel arall;
 - dwyn manteision cyhoeddus sylfaenol fel gwasanaethau cymdeithasol, addysgol, iechyd a diddordeb economaidd cyffredinol i gymunedau lleol, gan gynnwys i bobl sy'n methu talu;
 - creu cyfleoedd cyflogaeth newydd o ganlyniad i'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu;
 - cyfrannu at ddatblygiad economaidd cymunedau difreintiedig; a
 - thargedu eu gwaith i helpu pobl ddifreintiedig, gan gynnwys menywod sy'n agored i niwed, pobl ag anabledau a grwpiau o leiafrifoedd ethnig.
- 4 Mae'r adroddiad hwn felly yn edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn gweithio i dyfu a gwneud y gorau o Fentrau Cymdeithasol gan sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chyfalaf cymdeithasol yn aros mewn cymunedau ac yn helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd. Dyma hefyd yr ail adroddiad o'n tri adolygiad ar her lleddfu a mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru. Mae **Atodiad 1** yn nodi ein hymagwedd a'n dulliau archwilio ac yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ein gwaith ar thema tlodi.

Canfyddiadau Allweddol

- 5 Ein casgliad ar y cyfan yw nad yw awdurdodau lleol yn gweithio'n effeithiol gyda Mentrau Cymdeithasol i gynyddu eu heffaith i'r eithaf, defnyddio adnoddau'n well a gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau.
- 6 Yn **Rhan 1** o'r adroddiad, rydym yn ystyried dull strategol awdurdodau lleol o weithio gyda Mentrau Cymdeithasol. Er eu bod yn honni eu bod yn gwerthfawrogi Mentrau Cymdeithasol, ychydig o awdurdodau lleol sydd wedi mapio eu gweithgarwch. Mae llai na thraean o awdurdodau lleol yn ystyried bod ganddynt berthynas ragweithiol a chefnogol gyda Mentrau Cymdeithasol ac nid oes gan yr un ohonynt strategaeth neu bolisi a neilltuwyd yn benodol sy'n egluro sut maen nhw'n bwriadu hyrwyddo a thyfu'r sector.
- 7 Canfuom hefyd fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu rôl arweinyddiaeth oddefol, a hwythau'n aml yn ymateb i Fentrau Cymdeithasol sy'n mynd atyn nhw ond heb fynd ati'n rhagweithiol i geisio gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol neu helpu i ysgogi rhai newydd. Mae'r gwactod arweinyddiaeth hwn yn golygu bod Mentrau Cymdeithasol yn aml ar gyrion busnes awdurdodau lleol. Mae dull rhy adweithiol a threfniadau cymorth amrywiol hefyd yn golygu bod awdurdodau lleol yn peidio â manteision ar botensial Mentrau Cymdeithasol i helpu i ddarparu gwasanaethau a all wella ansawdd bywyd pobl.
- 8 Yn **Rhan 2** rydym yn ystyried y mecanweithiau sydd gan awdurdodau lleol ar waith i sicrhau eu bod yn cynyddu gwerth am arian posibl Mentrau Cymdeithasol i'r eithaf. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu grantiau i fusnesau a'r trydydd sector, nid ydynt yn eu defnyddio i gefnogi Mentrau Cymdeithasol yn benodol. Mae trefniadau caffael a chomisiynu presennol yn aml yn anfwriadol yn rhwystro mentrau cymdeithasol rhag ymgysylltu. Mae dulliau rhy fiwrocraidd a diffyg capasiti ac adnoddau o fewn llywodraeth leol hefyd yn cyfyngu ar y potensial i dyfu rôl Mentrau Cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau. Nid yw gwerth cymdeithasol – y gwerth ychwanegol y gall prosesau comisiynu ei ddwyn – yn un o'r cymhellion allweddol i lawer o awdurdodau lleol.

- 9 Yn olaf, yn **Rhan 3** rydym yn archwilio trefniadau gwerthuso ac effaith. Canfuom nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol yn effeithiol. Nid yw'r un Adroddiad Blynnyddol gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi sut mae eu hawdurdod yn cyflawni'r ddyletswydd dan Adran 16 ac nid yw'r mwyafrif o adroddiadau yn cyfeirio rhyw lawer at Fentrau Cymdeithasol. Yn gadarnhaol, mae nifer o awdurdodau'n gweithio i ddatblygu micro fusnesau sy'n fentrau cymdeithasol ac mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl gynyddol i lywio newid cadarnhaol. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gyfleoedd da ar gyfer y dyfodol. Er hyn, nid oes gan dros dri chwarter yr awdurdodau lleol systemau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad, adrodd arno a'i werthuso i allu barnu effaith a gwerth gwaith Mentrau Cymdeithasol.



Mae Mentrau Cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig yn yr anghenion sy'n diwallu a helpu pobl mewn cymunedau ledled Cymru. Gallai awdurdodau lleol wneud mwy i uchafu effaith Mentrau Cymdeithasol, cael gwell gwerth am arian o'u gwaith, a gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru



Ffeithiau Allweddol

Gwerth Mentrau Cymdeithasol

- Yn 2021 roedd gan y DU dros **100,000 o Fentrau Cymdeithasol**, a hwythau'n werth **£60 biliwn** ar y cyd i economi'r DU ac yn cyflogi 2 filiwn o bobl.
- Y sector Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru yn 2020 - hyd at **2,309** o fusnesau'n cyflogi **56,000** o bobl ac yn cynhyrchu **£3.1 – £3.8 biliwn** mewn gwerth.
- Yn yr Alban yn 2019 amcangyfrifwyd fod **6,025** o fusnesau a oedd yn Fentrau Cymdeithasol, gydag **88,318** o staff a gwerth net o **£6.1 biliwn**.
- Rhwng 2016 a 2020 fe wnaeth y sector Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru gynyddu **12%** gan godi o **1,601** o sefydliadau yn 2016 i **2,247** yn 2020.
- Yn yr Alban cynyddodd Mentrau Cymdeithasol **15.9%** rhwng 2015 a 2019 gan godi o **5,199** i **6,025** yn y cyfnod hwn.



Maint a throsiant y sector yng Nghymru

- Mae **5%** o Fentrau Cymdeithasol Cymru yn ganolig neu fawr o ran maint (h.y. mae ganddyn nhw o leiaf 50 o weithwyr), sydd ymhell uwchlaw'r ganran gyfatebol ar gyfer pob busnes yn economi Cymru (dim ond **1%**).
- Doedd gan **32%** o'r Mentrau Cymdeithasol a holwyd ddim staff cyflogedig o gwbl, tra bo gan **9%** arall un yn unig.
- Yn 2020 roedd lefel y trosiant cymedrig yn **£1.25 miliwn**, ac o blith yr holl Fentrau Cymdeithasol:
 - Mae gan **43%** drostiant sydd rhwng **£0** a **£50,000**;
 - Mae gan **34%** drostiant sydd rhwng **£50,001** a **£250,000**;
 - Mae gan **14%** drostiant sydd rhwng **£250,001** ac **£1 filiwn**;
 - Mae gan **6%** drostiant sydd rhwng **£1.01 miliwn** a **£5 miliwn**; ac
 - Mae gan **4%** drostiant sydd dros **£5 miliwn**.

Argymhellion

- 10 Mae ein hargymhellion wedi'u nodi isod. Rydym yn disgwyl bod pob cyngor yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn a'n hargymhellion, a bod ei bwyllgor llywodraethu ac archwilio'n cael yr adroddiad hwn ac yn monitro ei ymateb i'n hargymhellion mewn ffordd amserol.

Argymhellion

- A1 I gael y gorau o'u gwaith gyda a'u cyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a'r systemau cywir yn eu lle. Rydym yn argymhell bod swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio yn **Atodiad 2** i:
- hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arfer mewn perthynas â Mentrau Cymdeithasol ar hyn o bryd;
 - adnabod cyfleoedd i wella cydweithio; a
 - mynd ati ar y cyd i ddrafftio a chyflawni cynllun gweithredu gyda graddfeydd amser a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd trwy'r hunan-werthusiad.
- A2 I lywio gwelliant rydym yn argymhell bod yr awdurdod lleol:
- yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a gwblhawyd yn ffurfiol;
 - yn mynd ati'n rheolaidd i adrodd ar berfformiad, ei fonitro a'i werthuso mewn pwyllgorau craffu perthnasol; ac
 - yn diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

Argymhellion

- A3 Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol rydym yn argymhell ei fod yn adrodd ar weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn dilyn gwerthuso ei Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.



**Gall Mentrau
Cymdeithasol ddarparu
gwasanaethau pwysig,
ond nid oes gan y rhan
fwyaf o awdurdodau
lleol strategaeth
gydlynol ac nid
ydynt yn cydweithio
i helpu i gefnogi eu
twf a'u datblygiad**

01

- 1.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried dull strategol awdurdodau lleol o weithio gyda Mentrau Cymdeithasol. Rydym yn adolygu cynlluniau awdurdodau lleol, yr amrywiaeth o wybodaeth a ddefnyddir i nodi a blaenoriaethu camau gweithredu a threfniadau i gefnogi datblygiad Mentrau Cymdeithasol. Rydym hefyd yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol a Mentrau Cymdeithasol yn cydweithio.

Er eu bod yn honni eu bod yn gwerthfawrogi Mentrau Cymdeithasol, ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi mapio'u gweithgarwch neu wedi cynllunio sut y byddant yn cydweithio gyda hwy i gynyddu eu heffaith i'r eithaf

Nid yw awdurdodau lleol wedi mapio'r sector mentrau cymdeithasol yn eu hardal

- 1.2 Er mwyn cynyddu eu heffaith i'r eithaf, mae'n hanfodol bod gan awdurdodau lleol wybodaeth lawn a manwl am y gwasanaethau y mae Mentrau Cymdeithasol yn eu darparu. Oni bai eich bod yn gwybod pwy sy'n gweithio yn eich ardal chi, pa wasanaethau maen nhw'n eu darparu a pha gyfleoedd maen nhw'n eu cynnig, mae'n anodd datblygu ymateb strategol cydlynol. Yn y cyd-destun hwn, mae mapio'n hanfodol er mwyn i awdurdodau lleol ddeall y cyfraniad y mae Mentrau Cymdeithasol yn ei wneud a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth geisio tyfu eu rôl a gwella eu gwerth mewn cymunedau.
- 1.3 Canfuom mai ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi cwblhau unrhyw ymarfer mapio ffurfiol naill ai i ddeall rôl a chyfraniad presennol Mentrau Cymdeithasol yn eu hardal neu i nodi cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Er bod rhai wedi nodi bod ganddynt gronfeydd data o Fentrau Cymdeithasol, mae'r rhain wedi mynd yn hen, yn bennaf o ganlyniad i'r pandemig.
- 1.4 Yn gyffredinol, roedd gan yr awdurdodau lleol hynny â staff dynodedig sydd â chyfrifoldeb am weithio gyda'r sector mentrau cymdeithasol, neu staff cymorth busnes ym maes datblygu economaidd, well dealltwriaeth am y sefyllfa leol a gallent hefyd ddisgrifio cryfderau, gwendidau a chyfleoedd cymharol. Fodd bynnag, hyd yn oed o dan yr amgylchiadau hyn, roedd swyddogion yn cydnabod bod bylchau o hyd yn eu dealltwriaeth ac nad oedd eu gwybodaeth yn ddigon i lywio dewisiadau a blaenoriaethau strategol yn y dyfodol.

- 1.5 Mae **Arddangosyn 1** isod yn dangos bod y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n gymunedol gan mwyaf gyda'r rhan fwyaf o sefydliadau'n gweithredu yn ardal un awdurdod lleol yn unig. Mae hyn yn wahanol iawn i Loegr lle mae Mentrau Cymdeithasol yn fwy tebygol o weithio ar draws ardaloedd sawl awdurdod lleol ac yn aml yn gweithredu'n rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, yn 2021 dim ond 23% o fentrau cymdeithasol yn Lloegr sy'n gweithio mewn un awdurdod lleol¹.

Arddangosyn 1 – nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru yr oedd Mentrau Cymdeithasol yn gweithredu ynddynt

Mae ychydig dros 60% o Fentrau Cymdeithasol Cymru yn gweithio yn ardal un awdurdod lleol ac mae llai na chwarter mewn chwech awdurdod lleol neu fwy

Nifer yr awdurdodau lleol	2016	2018	2020
Un	62%	59%	61%
Dau	7%	7%	7%
Tri	8%	7%	7%
Pedwar	3%	3%	2%
Pump	2%	3%	2%
Chwech i bymtheg	6%	4%	4%
Un ar bymtheg i ddau ar hugain	12%	15%	18%

Ffynhonnell: [Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020](#), Mehefin 2021.

- 1.6 O ystyried bod mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n gymunedol yn bennaf, a hwythau'n aml wedi'u crynhoi mewn ardaloedd amddifadus², mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cynnal ymarfer mapio ehangach i ddeall y sector a'r cyfleoedd y maent yn eu cyflwyno yn well a defnyddio'r wybodaeth hon i oleuo eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Os nad oes gan awdurdodau ddealltwriaeth dda am y sector yna bydd yn anodd iddynt adnabod cyfleoedd i gydweithio a chytuno ar gamau gweithredu i hyrwyddo a thyfu Mentrau Cymdeithasol.

1 Social Enterprises UK, No Going Back: State of Social Enterprise Report 2021.

2 Canfu ymchwil gan [Busnes Cymdeithasol Cymru](#) fod 45% o fusnesau cymdeithasol yn gweithredu yn y 40% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru, ac mai dim ond 30% sy'n gweithredu yn y 40% o ardaloedd lleiaf amddifadus.

Mae awdurdodau lleol yn siarad am werth Mentrau Cymdeithasol ond nid ydynt bob amser yn trosi hyn yn gamau gweithredu

- 1.7 Bydd dull strategol o weithio gyda Mentrau Cymdeithasol yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd yn deall yr hyn y mae Mentrau Cymdeithasol yn ei gynnig a bydd yn nodi sut y mae'r awdurdod lleol yn ceisio cynyddu i'r eithaf fanteision gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol. Ar ben hynny, o ystyried bod Mentrau Cymdeithasol yn cyfrannu at wella cydlyniant cymdeithasol, at groniad cyfalaf cymdeithasol, ac at ddatblygu economaidd mwy teg ar lefel gymunedol, maent yn gyrff sydd â ffocws cryf ar leihau tlodi. Mae nifer fach o awdurdodau lleol yn cydnabod y gallai Mentrau Cymdeithasol felly fod yn ddull mwy cynaliadwy yn ei hanfod o ddarparu gwasanaethau o ystyried bod eu gwaith wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn cymunedau a bod ganddynt yn aml ffocws ataliol cryf.
- 1.8 Mae ymchwil gan Busnes Cymdeithasol Cymru yn dangos bod Mentrau Cymdeithasol yn arbennig o gryf mewn meysydd sydd naill ai'n ategu gwaith llywodraeth leol neu lle mae rôl a gwaith awdurdodau lleol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae **Arddangosyn 2** yn dangos presenoldeb cryf ym maes y celfyddydau, hamdden a gwaith ieuenctid yn y gymuned a chyfraniadau pwysig ym meysydd gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg.

Arddangosyn 2 – cyfran y Mentrau Cymdeithasol sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau

Mae Mentrau Cymdeithasol yn torri ar draws ystod eang o sectorau gweithredol ond maent yn ymwneud yn bennaf â'r celfyddydau a hamdden, canolfannau/ grwpiau cymunedol, addysg, ac iechyd a gofal

Sector	Cyfran 2018	Cyfran 2020 ³
Y celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill	22%	26%
Canolfan Gymunedol / Man Cymdeithasol / Clwb Ieuenctid	8%	20%
Addysg	14%	10%
Iechyd a Gofal	19%	9%
Gwasanaethau gweinyddu a chymorth busnes	4%	6%
Arall	9%	6%
Gwasanaethau llety a bwyd	3%	6%
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota	0%	3%
Gwybodaeth a chyfathrebu	2%	3%
Manwerthu	5%	3%
Eiddo	6%	3%
Cludo a storio	1%	2%
Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	6%	2%

Ffynhonnell: Busnes Cymdeithasol Cymru, [Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020](#), Mehefin 2021.

3 Mae'r adroddiad yn awgrymu, oherwydd y dull o gasglu data (arolygon), bod sefydliadau a oedd yn fwy tebygol o gau eu drysau (megis mannau cymunedol) yn haws cysylltu â hwy ac yn fwy tebygol o ymateb na sefydliadau gofal iechyd sydd dan lawer o straen oherwydd COVID-19.

- 1.9 Dywedodd awdurdodau lleol wrthym eu bod yn gwerthfawrogi nodweddion da Mentrau Cymdeithasol a'u potensial, pa un a ydynt yn darparu gwasanaethau a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol ynteu'n weithgar ar lefel gymunedol yn yr ardal leol yn unig. Fodd bynnag, canfuom nad oes gan yr un awdurdod lleol strategaeth Mentrau Cymdeithasol bwrpasol. Ac, er bod 10 o'r 21 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'n harolwg⁴ wedi nodi bod ganddynt bolisi, strategaeth a/neu gynllun ehangach sy'n nodi cyfraniad Mentrau Cymdeithasol, canfu ein hadolygiad o'r cynlluniau hyn eu bod yn gyfyngedig gan mwyaf, gyda diffyg manylion am flaenoriaethau a chyfleoedd yn y dyfodol i'r awdurdodau lleol a'r sector.
- 1.10 Er enghraifft, nid yw'r un o'r dogfennau a adolygwyd gennym ni'n nodi gweledigaeth ar gyfer Mentrau Cymdeithasol na'r deilliannau posibl y gall Mentrau Cymdeithasol eu cyflawni ar gyfer awdurdodau lleol, trigolion a chymunedau. Roedd dadansoddiad cadarn o anghenion ar goll gan mwyaf o'r Cynlluniau a adolygwyd gennym ni ac nid yw Strategaeth Adfer COVID-19 yr un awdurdod lleol yn gwneud mwy na sôn am Fentrau Cymdeithasol wrth fynd heibio. O ganlyniad, mae blaenoriaethau a chymunedau gweithredu ar gyfer gwella yn ddiuchelgais ac yn gyfyngedig, a hwythau'n aml yn anwybyddu deilliannau o ran gwerth cymdeithasol ychwanegol a chyfalaf cymdeithasol y gall Mentrau Cymdeithasol eu sicrhau. Canfu ein harolwg o swyddogion awdurdodau lleol hefyd mai dim ond saith o'r 21 o awdurdodau a ymatebodd sy'n ymgysylltu'n rhagweithiol â Mentrau Cymdeithasol wrth ddatblygu cynlluniau a gweithgarwch ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, mae manteision sylweddol gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol yn llai amlwg ac yn aml nid ydynt yn dylanwadu ar flaenoriaethau awdurdodau lleol.

4 Fe wnaethom gynnal arolwg o bob awdurdod lleol a chael ymatebion gan 21 o'r 22. Nid ymatebodd Cyngor Dinas Casnewydd i'n harolwg.

Nid yw awdurdodau lleol yn harneisio potensial Mentrau Cymdeithasol i helpu i ddarparu gwasanaethau gwell, ac ansawdd bywyd gwell i bobl

1.11 Gall Mentrau Cymdeithasol llwyddiannus fod â gafael dda ar anghenion lleol, bod yn gweithio o fewn rhwydweithiau lleol cryf a meddu ar ddilysrwydd fel llais ar ran gymuned. Maent felly mewn sefyllfa dda i ddarparu gwasanaethau'n effeithlon ac yn arloesol. Mae'n bwysig felly bod awdurdodau lleol yn helpu cymunedau i adnabod anghenion, cyfleoedd ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r sector i ddarparu'r gwasanaethau y mae ar bobl eu heisiau. Felly, mae twf a chynaliadwyedd Mentrau Cymdeithasol yn fwyfwy dibynnol ar y cyfle a'r capasiti ar gyfer cydweithio.

Mae arweinyddiaeth effeithiol gan awdurdodau lleol ar Fentrau Cymdeithasol yn absennol gan mwyaf

1.12 Mae arweinyddiaeth ar yr agenda mentrau cymdeithasol yn aml yn gorwedd gyda llond llaw o unigolion ym maes datblygu economaidd neu ofal cymdeithasol, ond yn rhy aml rheolwyr gwasanaeth yw'r rhai sy'n rheoli'r perthnasoedd hyn ac yn aml nid ydynt ar reng ddigon uchel i gyfarwyddo adnoddau, polisïau a phenderfyniadau. Er enghraifft, canfu ein harolwg o swyddogion awdurdodau lleol mai dim ond tri o'r 21 o awdurdodau lleol a ymatebodd i'n harolwg sydd ag aelod arweiniol ar gyfer Mentrau Cymdeithasol ac mai dim ond chwech sydd â swyddog arweiniol.

1.13 Canfuom hefyd fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu rôl arweinyddiaeth oddefol, a hwythau'n aml yn ymateb i Fentrau Cymdeithasol sy'n mynd atyn nhw yn hytrach nag yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol presennol a helpu i ysgogi rhai newydd. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o'r ffaith bod rhai yn ystyried bod 'risgiau' yn gysylltiedig â Mentrau Cymdeithasol, a hwythau'n nodi materion gyda llywodraethu, trin arian, a dilysrwydd fel meysydd sy'n peri pryder. Beth bynnag, nid yw'r gwactod arweinyddiaeth hwn yn helpu i ddod â Mentrau Cymdeithasol oddi ar gyrion busnes awdurdodau lleol i fod â rôl fwy canolog.

1.14 Roedd dros hanner y swyddogion awdurdodau lleol y gwnaethom ni gyfwrdd â hwy'n cydnabod bod llawer mwy y gallent ac y dylent ei wneud i arwain ar yr agenda hon, gan gydnabod, heb fuddsoddiad yn amser uwch arweinwyr, nad yw'r awdurdod lleol yn debygol o lwyddo i ddenu busnesau ac entrepreneuriaid newydd i neilltuo adnoddau. Gan bod arweinyddiaeth yn wael ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth gyffredin am sut y mae arnynt eisiau gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol, sy'n golygu na all Mentrau Cymdeithasol fod â rôl fwy gweithredol mewn gwaith i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais.

- 1.15 Mae nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr⁵ wedi ceisio creu dull arwain mwy cydlynus trwy godi ymwybyddiaeth er mwyn gwella dealltwriaeth. Er enghraifft:
- a cynnal diwrnod mentrau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol;
 - b cynnal gweithdai i gynghorwyr ac uwch reolwyr;
 - c sicrhau bod uwch dimau rheoli yn cymryd cyfrifoldeb am gyfleu eu gweledigaeth ar gyfer Mentrau Cymdeithasol;
- ch gosod targedau ar gyfer twf y sector mentrau cymdeithasol; ac
- d datblygu gweithgareddau i ddathlu a hyrwyddo mentrau cymdeithasol.
- 1.16 Mae arweinyddiaeth dda ac effeithiol felly'n hanfodol i roi cymorth i symud yr agenda Mentrau Cymdeithasol i'r brif ffrwd. Yn enwedig gan bod cryn dipyn o 'fynd a dod' yn y farchnad Mentrau Cymdeithasol sy'n digwydd gan amlaf y tu allan i unrhyw ymgysylltu ag awdurdodau lleol neu gefnogaeth ganddynt. Mae ymchwil yn dangos bod y sector busnesau cymdeithasol yng Nghymru'n ddeinamig iawn, a'i fod yn cynnwys grŵp craidd o sefydliadau sydd wedi hen ennill eu plwyf ond hefyd grŵp cynyddol o fusnesau newydd.
- 1.17 Er enghraifft, yn 2020 roedd ychydig o dan un rhan o bump o Fentrau Cymdeithasol (17%) wedi dechrau masnachu o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf⁶ a oedd ddwywaith yn fwy na nifer y busnesau newydd yn 2016. Mae gweithgarwch busnesau newydd wedi'i ganoli'n arbennig yng ngogledd-ddwyrain Cymru — mae Sir Ddinbych a Wrecsam yn rhoi cyfrif am 15% o'r holl fusnesau newydd. Gyda sector mor fywiog sy'n newid yn barhaus, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn mabwysiadu dull mwy rhagweithiol a llai goddefol wrth weithio gyda Mentrau Cymdeithasol os ydynt am gynyddu eu potensial i'r eithaf a helpu i gefnogi busnesau sy'n ei chael hi'n anodd.

5 Er enghraifft, fe gododd Cyngor Swydd Northumberland ymwybyddiaeth o'r gwaith a wneir gan fentrau cymdeithasol drwy stondinau gwybodaeth a oedd wedi'u hanelu at staff, diwrnod mentrau cymdeithasol a gweithdai ar gyfer uwch reolwyr i wella dealltwriaeth am y rôl a'r weledigaeth ar gyfer y sector mentrau cymdeithasol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn gobeithio creu grŵp gorchwyl trawsbleidiol ar gyfer yr aelodau i ystyried sut y gall yr awdurdod lleol gefnogi mentrau cymdeithasol. Bydd y grŵp gorchwyl hefyd yn hyrwyddo mentrau cymdeithasol fel cysyniad ac yn hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd.

6 Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021

Er bod enghreifftiau da o sut mae rhai awdurdodau lleol yn cydweithio'n effeithiol gyda Mentrau Cymdeithasol, nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau yn mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo cyfleoedd i ehangu eu rôl a chynyddu eu heffaith i'r eithaf


- 1.18 Gall cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r sector Mentrau Cymdeithasol ddarparu mwy o gyfleoedd i bob parti. Gall hefyd gynyddu'r dealltwriaeth drwy rannu gwybodaeth. Mae gan ychydig dros hanner yr awdurdodau lleol fyrdau partneriaeth neu fforymau, fel arfer gyda'r trydydd sector, sy'n cynnwys Mentrau Cymdeithasol, ac mae gan nifer llai bresenoldeb rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol lleol a arweinir gan y sector. Er enghraifft, mae 'grŵp sector gwirfoddol' Blaenau Gwent yn dod â llawer o bartneriaid ynghyd, gan gynnwys Mentrau Cymdeithasol, ac mae'n gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, Canolfan Byd Gwaith, ac eraill i flaenoriaethu gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys cyfleoedd i weithio gyda Mentrau Cymdeithasol, yn y sir.
- 1.19 Hefyd, mae gan nifer fach o awdurdodau lleol swyddogion sydd â chyfrifoldeb penodol am ymgysylltu â mentrau Cymdeithasol a datblygu perthnasoedd â hwy. Er enghraifft, y Swyddog Menter a Busnes yn Wrecsam yw cyswllt allweddol yr awdurdod lleol â'r Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol lleol. Yn gyffredinol, mae awdurdodau sydd â gwell dealltwriaeth am y rhwystrau sy'n wynebu Mentrau Cymdeithasol mewn sefyllfa well i weithio gyda'r sector yn y dyfodol.
- 1.20 Mae'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru'n gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau'n amrywio'n sylweddol. Mae nifer fach o awdurdodau wedi creu ac ariannu eu Mentrau Cymdeithasol eu hunain. Er enghraifft, yn Nhorfaen, mae Circulate yn gweithredu canolfan ailgylchu, gan ddarparu gwasanaethau ailgylchu a gwaredu gwastraff sydd yn eu tro'n helpu i gyrraedd nodau cynaliadwyedd amgylcheddol yr awdurdod lleol. Ym Mro Morgannwg, mae'r Big Fresh Catering Company yn fenter gymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau bwyd ar gyfer ysgolion, busnesau a digwyddiadau preifat, gan fuddsoddi'r holl elw mewn ysgolion lleol. Mae awdurdodau lleol eraill wedi allanoli gwasanaethau'r awdurdodau lleol megis gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd ac wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb am eu darparu i Fentrau Cymdeithasol sydd â hanes profedig o gyflawni'r gweithgareddau hyn.
- 1.21 Hefyd, fe wnaeth swyddogion y gwnaethom ni gyfweld â hwy amlygu rôl bwysig Mentrau Cymdeithasol a'r trydydd sector yn fwy cyffredinol yn ystod y pandemig. Fe wnaeth Mentrau Cymdeithasol 'gamu i'r adwy' i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth yn dilyn cau swyddfeydd rheng-flaen. Nododd un swyddog fod 'Mentrau Cymdeithasol wedi gwneud gwaith anhygoel yn ystod COVID-19, gan ddsbarthu bwyd a gwneud cyfarpar diogelwch personol. Maen nhw'n haeddu cydnabyddiaeth. Fe gamon nhw i'r adwy ar adeg pan fu'n rhaid i rai elusennau roi eu staff i gyd ar ffyrlo!'

- 1.22 Fodd bynnag, fe wnaeth nifer o swyddogion awdurdodau lleol fyfyrto ynghylch y ffaith mai cyfleoedd cyfyngedig a fu yn ystod y pandemig i gynnwys Mentrau Cymdeithasol yng ngwaith yr awdurdod lleol. Fe wnaeth eraill nodi ar y llaw arall bod Mentrau Cymdeithasol yn 'gwerthfawrogi eu hannibyniaeth' ac nad ydynt yn ymateb yn dda i ymwneud gan awdurdodau lleol. Mae rhai swyddogion mewn awdurdodau lleol yn ystyried bod sefydliadau cenedlaethol fel CWMPAS a Busnes Cymdeithasol Cymru mewn sefyllfa well i weithio gyda'r sector ac i bennu strategaethau twf ar gyfer y dyfodol. Hefyd, mae gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol hwythau rôl bwysig o ran cefnogi a datblygu gan gysylltu rhwng awdurdodau lleol a Mentrau Cymdeithasol.
- 1.23 Er bod bron pob awdurdod lleol yn cyfeirio at wybodaeth am Fentrau Cymdeithasol ar eu gwefan, dim ond chwe awdurdod lleol oedd â thudalen wedi'i neilltuo i Fentrau Cymdeithasol, ac nid oedd gan nifer fach unrhyw wybodaeth am Fentrau Cymdeithasol o gwbl. Ar y cyfan, rydym yn barnu mai cyfyngedig yw ansawdd a lefel yr wybodaeth ar wefannau am Fentrau Cymdeithasol. Yn rhy aml nid yw gwybodaeth yn hawdd dod o hyd iddi ac mae'n fwy na '3 chlic' i ffwrdd⁷. Gan mwyaf, nid yw awdurdodau lleol yn mynd ati'n frwd i hyrwyddo cyfleoedd i weithio gyda Mentrau Cymdeithasol presennol nac yn rhoi anogaeth effeithiol i greu rhai newydd.
- 1.24 Mae'r gwefannau gorau gan awdurdodau lleol yn cynnwys:
- a diffiniad clir sy'n nodi beth yw Menter Gymdeithasol;
 - b dolenni i amrywiaeth eang o sefydliadau i gael mynediad at wybodaeth bellach a manylach, yn enwedig am faterion cyfreithiol, megis Busnes Cymdeithasol Cymru, CWMPAS, Social Enterprise UK neu CGGC; ac
 - c manylion cyswllt a gwybodaeth am raglenni a grantiau cymorth lleol sy'n cael eu gweinyddu gan yr awdurdod lleol.
- 1.25 Mae canfyddiadau ein harolwg o swyddogion a nodir yn **Arddangosyn 3** yn dangos, y tu hwnt i weithio gyda fforymau neu rwydweithiau sy'n cynnwys Mentrau Cymdeithasol fel aelodau, nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio'r holl gyfleoedd sydd ar gael i gyflawni eu cyfrifoldebau i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol.

7 Mae'r rheol tri chlic yn rheol answyddogol ar gyfer dylunio gwefannau sy'n ymwneud â dyluniad trefn we-lywio gwefannau. Mae'n awgrymu y dylai defnyddiwr gwefan allu dod o hyd i unrhyw wybodaeth heb fwy na thri chlic ar y llygoden. Mae'n seiliedig ar y gred y bydd defnyddwyr gwefan yn mynd yn rhwystredig ac yn aml yn gadael os na allant ddod o hyd i'r wybodaeth o fewn y tri chlic.

Arddangosyn 3 – arolwg o swyddogion awdurdodau lleol – opsiynau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i hybu twf Mentrau Cymdeithasol

Nid yw awdurdodau lleol yn mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo cyfleoedd i wella'r sector Mentrau Cymdeithasol sy'n gwanhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol



Ffynhonnell: Archwilio Cymru, Arolwg o Swyddogion awdurdodau Lleol, Ionawr – Mai 2022.

- 1.26 Yn ôl nifer fach o swyddogion awdurdodau lleol, roedd codi ymwybyddiaeth yn faes i'w wella. Er enghraifft, nododd un y 'Dylai fod [yn rhan o'n rôl], ond dydyn ni ddim yn gwneud llawer o hynny, oherwydd nad oes gennym strategaeth ffurfiol. Dydyn ni ddim wir yn adrodd ar ein heffaith ychwaith.' Ac mae rhai awdurdodau lleol wedi ceisio annog Mentrau Cymdeithasol i gydweithio er mwyn cynnig am gontractau mwy neu eu hannog i symud i mewn i feysydd gweithgarwch sy'n cyd-fynd yn well â grantiau a rhaglenni ariannu'r awdurdod lleol.
- 1.27 Fodd bynnag, nododd awdurdodau lleol eraill, er y byddent yn cefnogi Mentrau Cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg, na fydden nhw o reidrwydd yn eu 'gwthio' fel opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Nododd un swyddog eu bod 'ychydig yn ochelgar ynghylch gorfodi model neu ddull penodol ar bobl.' Nid yw'r dull goddefol hwn o ymgysylltu ac ymwneud â Mentrau Cymdeithasol yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o'r sector ac rydym yn dod i'r casgliad bod llawer mwy i'w wneud.



**Nid oes gan
awdurdodau lleol y
mecanweithiau cywir
ar waith i sicrhau'r
gwerth gorau am
arian o'u gwaith gyda
Mentrau Cymdeithasol**

02

2.1 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried sut mae awdurdodau lleol yn gweithio i fanteisio ar werth posibl Mentrau Cymdeithasol. Rydym yn ystyried pa mor effeithiol yw dulliau caffael a chomisiynu ac a ydynt yn sicrhau gwerth am arian ac yn ychwanegu gwerth cymdeithasol i bobl.

Nid yw trefniadau caffael a chomisiynu yn annog Mentrau Cymdeithasol i ymgeisio am gyllid cyhoeddus. Nid oes gan awdurdodau lleol ddigon o gapasiti ac adnoddau i dyfu'r sector

2.2 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos bod tua dwy ran o dair o Fentrau Cymdeithasol yn cynhyrchu incwm trwy fasnach gyda'r cyhoedd ac ychydig yn llai na hanner o grantiau'r sector cyhoeddus. Daw'r rhain yn bennaf gan Lywodraeth Cymru a/neu ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau yn hytrach nag awdurdodau lleol ac yn 2020 roeddent yn ymwneud yn bennaf â'r cymorth ariannol y trefnwyd ei fod ar gael i helpu busnesau trwy'r pandemig. O ran cynnig am wasanaethau wedi'u comisiynu a darparu gwasanaethau o'r fath mae'r data'n amlygu'r ffaith bod gostyngiad bach wedi bod mewn masnach gyda'r sector cyhoeddus rhwng 2018 a 2020, gan nodi potensial digyffwrdd sylweddol Mentrau Cymdeithasol ar gyfer awdurdodau lleol.

Arddangosyn 4 – o ble'r oedd mae mentrau cymdeithasol yng Nghymru'n cael eu harian yn 2016, 2018 a 2020

Masnachu gyda'r cyhoedd yw'r brif ffynhonnell incwm ar gyfer Mentrau Cymdeithasol o hyd er bod grantiau'r sector cyhoeddus yn tyfu mewn pwysigrwydd

Ffynonellau incwm	2016	2018	2020
Masnachu gyda'r cyhoedd	57%	63%	64%
Grantiau'r sector cyhoeddus	39%	49%	49%
Grantiau eraill	39%	44%	42%
Masnachu gyda'r sector cyhoeddus	23%	40%	32%
Rhoddion	24%	33%	33%
Masnachu gyda sefydliadau'r trydydd sector	15%	32%	25%
Masnachu gyda'r sector preifat	17%	29%	25%
Masnachu gyda Mentrau Cymdeithasol eraill	8%	22%	17%

Ffynhonnell: Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

- 2.3 Mae dadansoddiad gan Busnes Cymdeithasol Cymru yn amlygu, er bod 32% o Fentrau Cymdeithasol yn masnachu gyda'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd, nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau (61%) yn tendro am waith y sector cyhoeddus, a bod ychydig yn llai na thraean (31%) yn ystyried bod eu hanallu i gael mynediad at gyllid gan awdurdodau lleol a chyrrff eraill y sector cyhoeddus yn rhwystr i'w cynaliadwyedd a'u twf.⁸ Nododd yr ymchwili hon hefyd yn fwy cyffredinol fod yr arfer o gyllido Mentrau Cymdeithasol gan awdurdodau lleol wedi lleihau'n sylweddol ers 2014, yn rhannol oherwydd mwy o ddibyniaeth ar fasnach gyda'r cyhoedd ond hefyd oherwydd anawsterau gweithio o fewn rheolau comisiynu a chaffael cyrrff cyhoeddus.⁹ Hefyd, canfu canfyddiadau prosiect 'Prynwch yn Gymdeithasol Prynwch yn Lleol' CWMPAS – a sefydlwyd i nodi gwariant gan y sector cyhoeddus y gallai Mentrau Cymdeithasol ei sicrhau – mai'r gwir yn rhy aml yw nad yw'r sector yng Nghymru wedi'i baratoi i weithio gyda chyrrff cyhoeddus.
- 2.4 Mae awdurdodau lleol o dan bwysau parhaus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gyda chyllidebau ac adnoddau cyfyngedig. Ar y cyd â disgwyliadau cynyddol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'r galw cynyddol am lawer o wasanaethau statudol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gwneud i bob £1 gyfrif trwy eu prosesau caffael a chomisiynu.
- 2.5 Mae gan awdurdodau lleol hanes cryf lle mae gwaith datblygu economaidd lleol yn y cwestiwn, gan hybu twf ac, yn arbennig, rhoi cymorth i fusnesau bach a chanolig. Fodd bynnag, nid oedd dros hanner y swyddogion o awdurdodau lleol y gwnaethom ni gyfweld â hwy'n gwahaniaethu rhwng eu gwaith datblygu economaidd ehangach a'r cyfleoedd penodol a gyflwynir gan Fentrau Cymdeithasol, a hwythau'n ystyried mai un opsiwn o blith llawer yn lleol oedd Mentrau Cymdeithasol. Ac, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau a'r trydydd sector, mae'r grantiau hyn ar gyfer busnesau yn gyffredinol, heb unrhyw ffofws penodol ar dyfu Mentrau Cymdeithasol. Nododd rhai awdurdodau lleol fod eu dulliau caffael a chomisiynu yn ceisio creu 'chwarae teg' ac nad oedd yn ffafrio un grŵp o sefydliadau dros eraill.

8 Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

9 cy.cwmpas.coop/wp-content/uploads/2022/06/3.2.7.-SBW-MAPPING-SOCIAL-BUSINESS-full-2020-CYM.pdf

- 2.6 Er hynny, fe wnaeth swyddogion awdurdodau a ymatebodd i'n harolwg nodi gwahanol rwystrau hefyd sy'n atal Mentrau Cymdeithasol rhag cael budd o gyfleoedd caffael a chomisiynu awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- a rheolau caffael 'beichus' ac 'anghymesur' sy'n atal busnesau llai rhag cynnig;
 - b prosesau sy'n canolbwyntio'n ormodol ar elw ac arbedion a dim digon ar werth cymdeithasol, cydnerthedd cymunedol a llesiant, sydd ill tri'n feysydd lle gall Mentrau Cymdeithasol ychwanegu gwerth;
 - c Mentrau Cymdeithasol yn peidio â gweithredu yn y sector priodol, neu'n peidio â chynnig yr holl wasanaethau y mae eu hangen;
 - chei bod yn well gan awdurdodau lleol fynd at ddarparwyr presennol a 'gweithio gyda'r hyn rydyn ni'n ei wybod' yn hytrach na gwthio'r ffiniau a mynd ati i geisio datblygu cyfleoedd newydd; ac
 - d capasiti, sgiliau ac adnoddau cyfyngedig mewn awdurdodau lleol sy'n lleihau cyfleoedd i ehangu'r sylfaen gontractwyr a thargedu Mentrau Cymdeithasol yn benodol.
- 2.7 Fodd bynnag, er gwaethaf y gwendidau hyn canfuom hefyd nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu adnoddau i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol. Er enghraifft, canfu ein harolwg o awdurdodau lleol mai dim ond dau o'r 21 a ymatebodd i ni sydd â chyllideb bwrpasol i gefnogi twf Mentrau Cymdeithasol. Mae Social Enterprise UK yn cydnabod pedwar o'r saith awdurdod lleol - Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam - fel 'Lleoedd Mentrau Cymdeithasol' – ardaloedd lle mae gweithgarwch busnesau cymdeithasol yn ffynnu a lle ceir ymrwymiad i fuddsoddi yn y sector a gweithio gydag ef.¹⁰
- 2.8 Fe wnaeth nifer o gyfweleion hefyd nodi effaith colli rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol De-ddwyrain Cymru (SEWCED) a gyllidwyd gan yr UE, rhaglen a oedd yn werth £13.5 miliwn mewn chwe awdurdod (Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen) a gyllidodd waith ar ddatblygu Mentrau Cymdeithasol. Daeth rhaglen SEWCED i ben yn 2015 er gwaethaf ei llwyddiant. Roedd swyddogion o'r chwe awdurdod a gyflawnodd fenter SEWCED yn teimlo bod colli cyllid yr UE wedi eu hatal rhag cydweithio i dyfu'r sector busnesau cymdeithasol. Mae **Atodiad 5** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn.

10 Ceir 33 o [leoedd mentrau cymdeithasol](#) cydnabyddedig yn y DU y mae pedwar ohonynt yng Nghymru.

Nid yw gwerth cymdeithasol yn ymddangos yn un o'r cymhellion allweddol yng ngweithgarwch comisiynu awdurdodau lleol

- 2.9 Nid oes un diffiniad o werth cymdeithasol; fodd bynnag mae Social Enterprise UK wedi diffinio gwerth cymdeithasol yng nghyd-destun caffael fel 'y budd ychwanegol i'r gymuned o broses gomisiynu/caffael drosodd y tu hwnt i brynu nwyddau, gwasanaethau a deilliannau yn uniongyrchol.' I awdurdodau lleol sy'n comisiynu gwasanaethau mae'n bwysig ystyried a mesur y gwerth cymdeithasol hwn o safbwynt y rhai y mae gwaith y sefydliad yn effeithio arnynt. Trwy gasglu gwybodaeth ar ffurf ariannol am werth ystod eang o ddeilliannau, mae comisiynwyr wedyn yn gallu nodi'n fras faint o werth cymdeithasol y gallant ei gael am bob £1 o fuddsoddiad. Mae'r model gwerth cymdeithasol o gyflawni felly yn fframwaith sydd o gymorth i ail-ddylunio gwasanaethau'n gydweithredol ym mhob maes gweithgarwch.¹¹
- 2.10 Canfu ein harolwg o swyddogion awdurdodau lleol, o'r 21 a ymatebodd, fod naw awdurdod yn ystyried gwerth cymdeithasol yn benodol wrth sgorio tendrau am wasanaethau, fod naw ddim yn gwneud hynny a bod tri ddim yn gwybod. O'r naw awdurdod lleol sy'n ystyried gwerth cymdeithasol, dywedodd pump fod lefel y pwysoliad yn amrywio ar draws tendrau ond nid oedd pedwar yn gwybod.
- 2.11 Mae ymchwil ddiweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn adleisio'r casgliadau hyn gan nodi, am nad oes digon o adnoddau gan awdurdodau lleol, bod timau caffael a chomisiynu'n aml heb y sgiliau a'r capasiti i wireddu manteision gwerth cymdeithasol¹². Mae dulliau presennol, sydd â gormod o ffocws ar gost, yn arwain at fodolau darparu llai cynaliadwy oherwydd yn rhy aml yr unig faes lle gall sefydliadau ostwng prisiau yw trwy wasgu cyflogau a/neu delerau ac amodau staff.
- 2.12 Er hynny, nododd ein hadolygiad o strategaethau caffael awdurdodau lleol rai dulliau da o ehangu effaith a gwella gwerth cymdeithasol. Er enghraifft, mae Strategaeth Gaffael Caerffili yn cynnwys opsiwn i ddefnyddio 'Cymalau Budd Cymdeithasol/Cymunedol' mewn contractau. Mae Sir y Fflint hefyd wedi cyflwyno 'System Brynu Ddeinamig,' sy'n galluogi busnesau llai i gyflawni rhannau bach o archebion mwy, yn hytrach na'u bod yn mynd i un cyflenwr mawr. Gall hyn hefyd annog busnesau presennol i sefydlu canghennau sy'n fentrau cymdeithasol. Mae Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf hefyd wedi creu 'Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol' (neu rôl debyg), sef rôl bwrpasol sy'n arbenigo mewn craffu ar dendrau a chyllidebau ac sy'n nodi ac yn hyrwyddo cyfleoedd i gynyddu gwerth cymdeithasol i'r eithaf.

11 cy.cwmpas.coop/wp-content/uploads/2022/07/Social-value-CtoC-Brochure-Welsh-20.11.20-compressed.pdf

12 CWMPAS, [Dros newid economaidd a chymdeithasol: Adolygiad gwerth cymdeithasol Llywodraeth Cymru - Adroddiad Cryno](#), Mehefin 2022.

- 2.13 Mae nifer o awdurdodau yn defnyddio metrigau Themâu, Deilliannau a Mesuriadau¹³ (TOMS) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) sy'n darparu pwysoliad gwerth cymdeithasol ar gyfer dadansoddi a sgorio tendrau. Er enghraifft, dywedodd Sir y Fflint wrthym 'Byddwn yn debygol o ddibynnu ar ein TOMS, i fesur llwyddiant, gan bod y rhain wedi'u gwneud ymlaen llaw ac yn safonol ar draws y sector mentrau cymdeithasol a'r awdurdod lleol.' Mae TOMS Sir y Fflint, sy'n ymwneud â'u blaenoriaethau corfforaethol a'u hamcanion llesiant, yn galluogi'r Cyngor i ddefnyddio ei weithgareddau caffael comisiynu i gynhyrchu deilliannau strategol seiliedig ar leoedd yn unol ag anghenion cymunedau lleol. Yn yr un modd, nododd Rhondda Cynon Taf eu bod 'yn defnyddio'r system TOMS gan eu bod yn genedlaethol ac yn cynnwys elfen gwerth cymdeithasol sylfaenol. Mae'n cael ei hystyried pan ydym yn edrych ar eu cynllun busnes.' Fodd bynnag, nododd sawl awdurdod lleol nad oedd TOMS, o'u profiad hwy, yn rhoi ateb defnyddiol nac ymarferol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol.
- 2.14 Byddai'r mwyafrif o awdurdodau lleol hefyd yn ei ystyried yn gyfrifoldeb arnyn nhw i 'gamu i'r adwy' i gefnogi Menter Gymdeithasol sy'n ei chael hi'n anodd pe baen nhw wedi comisiynu gwasanaethau gan y sefydliad. Fodd bynnag, o ystyried y swm cyfyngedig o gomisiynu sy'n digwydd a chyndynrwydd naturiol i achub croen sefydliadau sy'n ei chael hi'n anodd, ni fyddai'r rhan fwyaf yn ceisio eu cefnogi'n ariannol neu fel arall, gan ystyried bod hyn yn ormod o risg ac yn ansicr.
- 2.15 O ystyried cyfyngiadau o ran sut y mae awdurdodau'n hyrwyddo gwerth cymdeithasol wrth gomisiynu a chaffael, mae Llywodraeth Cymru wedi ailbenodi CWMPAS yn ddiweddar i gefnogi'r gwaith y mae ei angen i drawsnewid gwasanaethau yn y sector gofal cymdeithasol, trwy fwrw ymlaen â datblygu modelau gwerth cymdeithasol ar gyfer gofal. Mae CWMPAS wedi cyhoeddi ei fwriad i 'helpu i gryfhau'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer ailbennu cydbwysedd y farchnad gofal cymdeithasol trwy gyflwyno mwy o gwmnïau cydweithredol, Mentrau Cymdeithasol a modelau darparu gwerth cymdeithasol yn sector gofal cymdeithasol Cymru'.¹⁴ Hefyd, mae is-grŵp i'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn cynhyrchu canllaw ar gyfer gwerth cymdeithasol mewn comisiynu ym maes gofal cymdeithasol. Er mai drafft yw'r canllaw o hyd, mae'n nodi bod angen i gomisiynwyr feddwl yn wahanol gyda mwy o ffocws ar le, pobl, a defnyddio asedau er mwyn gwneud i gaffael weithio'n fwy effeithiol.

13 Mae'r canllaw Themâu, Deilliannau a Mesuriadau a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010 mewn tair rhan gyda [Rhan 1](#) yn rhoi trosolwg o'r dull.

14 www.wales247.co.uk/welsh-government-appoints-cwmpas-to-transform-social-care-delivery-across-wales



Nid yw awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac mae gwendidau mewn data a gwerthuso yn cyfyngu ar eu gallu i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol

3.1 Yn yr adran olaf hon o'r adroddiad, rydym yn archwilio sut y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rydym hefyd yn asesu cryfder trefniadau goruchwyllo a pha un a ydynt yn galluogi awdurdodau i werthuso gwaith ac effaith Mentrau Cymdeithasol yn llawn, a nodi cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Nid yw'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol

3.2 Mae Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y 'Ddeddf') yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i 'hyrwyddo datblygiad Mentrau Cymdeithasol hyrwyddo mentrau cymdeithasol i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol'. Mae mentrau cymdeithasol eu hunain mewn sefyllfa dda i gydweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Yn ôl ymchwil gan Busnes Cymdeithasol Cymru.¹⁵

a Mae 54% o Fentrau Cymdeithasol yn ymwybodol o'r 'Ddeddf';

b Dywedodd 21% fod y 'Ddeddf' yn ganolog i'r gwaith y maent yn ei wneud;

c Roedd 19% ohonynt yn ymgorffori gofynion y 'Ddeddf' yn eu dogfennau llywodraethu a pholisi;

ch Mae'n ofynnol yn gyfreithiol bod 9% o Fentrau Cymdeithasol yn ymlynu wrth y 'Ddeddf';

d Eglurodd 9% fod y 'Ddeddf' yn rhan o'u polisiau diogelu;

dd Dywedodd 8% fod y 'Ddeddf' yn goleuo'u rhaglen hyfforddi staff; ac

e Mae 7% yn defnyddio'r 'Ddeddf' at ddibenion llobio a marchnata.

3.3 Canfuom mai nifer gymharol fach o swyddogion awdurdodau lleol y siaradom ni gyda hwy oedd yn ymwybodol o'u dyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo'r defnydd o Fentrau Cymdeithasol ac mai ychydig iawn a allai nodi sut maen nhw'n gweithio i dyfu'r sector a chyflawni eu cyfrifoldebau dan Adran 16. Nid yw'r iaith amhendiant yn y Ddeddf o gymorth yn y cyddestun hwn; yn benodol, y gair 'hyrwyddo'. Yn ymarferol, mae awdurdodau lleol yn dehongli eu cyfrifoldebau i 'hyrwyddo' yn eang iawn. Mae nifer o awdurdodau yn syml yn canolbwyntio eu hymdrechion ar weithio gyda Mentrau Cymdeithasol presennol heb fawr ddim gwaith hyrwyddo gweithredol i roi anogaeth ar gyfer rhai eraill a helpu i greu rhai newydd. Ychydig o awdurdodau sy'n buddsoddi amser ac adnoddau wrth ddiweddarau polisiau a gweithdrefnau caffael i feithrin capasiti a darparu mwy o gyfleoedd i Fentrau Cymdeithasol presennol, yn ogystal â helpu i ysgogi rhai newydd.

15 Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

- 3.4 Mae ymchwil ddiweddar yn adleisio'r canfyddiadau hyn gan nodi na fu newid mawr gan awdurdodau lleol o ran comisiynu i ddarparu mwy o wasanaethau gofal cymdeithasol trwy Fentrau Cymdeithasol, ac mai'r sector preifat yw'r partner blaenllaw o hyd¹⁶. Fe wnaeth partneriaid yn y trydydd sector y gwnaethom gyfwrdd â hwy a'u harolygu nodi yn yr un modd, ers i'r Ddeddf fynd yn fyw yn 2016, nad oes rhyw lawer o newid wedi bod yn y modd y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol ac yn annog pobl i sefydlu Mentrau Cymdeithasol. O ganlyniad, nid yw uchelgeisiau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cael eu gwireddu.
- 3.5 Un cyfle i gyflawni'r newid hwn yw trwy'r Fforymau Gwerth Cymdeithasol newydd a grëwyd o dan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol¹⁷ y bwriedir iddynt gefnogi twf y sector gwerth cymdeithasol yn y farchnad iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod y fforymau hyn yn cael cymorth i raddau amrywiol gan bartneriaid a chomisiynwyr statudol, maent yn rhoi cyfle da i ymgysylltu â'r sector, Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac eraill o fewn rhanbarth i nodi cyfleoedd ar gyfer buddsoddi a thwf. Mae'r dyraniad o 20% o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol¹⁸ ar gyfer y sector gwerth cymdeithasol, a reolir trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi cyfle go iawn i weithio gyda Mentrau Cymdeithasol i fuddsoddi mewn ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau.
- 3.6 Hefyd, ceir disgwyliad gan Lywodraeth Cymru bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn creu Fforwm Gwerth Cymdeithasol i fynd ati'n benodol i gyflawni'r cyfrifoldebau dan adran 16. Er enghraifft, mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru¹⁹ wedi creu Fforwm Gwerth Cymdeithasol i archwilio sut i hyrwyddo gwerth cymdeithasol mewn gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth. Mae'r Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad Ranbarthol²⁰ - a gwblhawyd yn ddiweddar gan awdurdodau lleol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol - hefyd yn darparu cyfoeth o wybodaeth am raddfa a sefydlogrwydd y farchnad gwerth cymdeithasol o fewn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a byddant yn cefnogi gwaith Fforymau Gwerth Cymdeithasol.

16 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/adolygiad-gwerth-cymdeithasol-adroddiad-cryno.pdf.

17 Ym mis Ebrill 2016, daeth saith partneriaeth ranbarthol statudol i fodolaeth. Eu pwrpas yw llywio'r drefn strategol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yn rhanbarthol mewn cydweithrediad agos â'r sector iechyd.

18 Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gronfa 5 mlynedd sy'n rhedeg o fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2027..

19 Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Bwrdd a phartneriaid eraill. Y nod yw gwella gwasanaethau, gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, lleihau dyblygu a gwneud gwasanaethau'n fwy cyson ledled Gogledd Cymru.

20 Mae Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad yn adolygu digonolrwydd gofal a chymorth mewn ardal i roi cipolwg ar y sector i helpu i gynllunio a llunio gwasanaethau, gan gynnwys gofal ar gyfer y dyfodol.

- 3.7 Mae nifer o awdurdodau lleol fel Rhondda Cynon Taf a Sir Benfro eisoes yn defnyddio (neu wrthi'n creu) micro-fentrau. Busnesau bach sy'n darparu gwasanaethau gofal neu gymorth annibynnol ac sy'n cyflogi llai na 10 o bobl yw micro-fentrau. Maent yn ddewis arall yn lle gwasanaethau gofal dydd sy'n aml yn ddrud. Oherwydd y pwysau staffio presennol mewn gwasanaethau cymdeithasol, mae Micro-Fentrau yn cynnig ateb mwy cynaliadwy yn ogystal â sicrhau deilliannau gwell.
- 3.8 Fe gyflwynodd y Ddeddf hefyd ofyniad i bob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol lunio adroddiad blynyddol sy'n nodi taith wella'r awdurdod lleol o ran darparu gwasanaethau i bobl yn ei ardal²¹. Mae'r canllawiau ar gyfer yr adroddiadau blynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar eu perfformiad yn erbyn chwe safon ansawdd. Mae safon un – 'Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni' – yn ymdrin yn benodol â hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol.
- 3.9 Canfu ein hadolygiad o holl adroddiadau'r Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol mai dim ond wyth adroddiad oedd yn cyfeirio at ddefnyddio micro-fentrau a bod tri arall yn sôn am Fentrau Cymdeithasol mewn rhyw gymhwyster, boed yn tynnu sylw at waith menter gymdeithasol benodol yn yr ardal neu wasanaeth a gomisiynwyd gan fusnes cymdeithasol. Nid oedd yr 11 adroddiad arall yn sôn am Fentrau Cymdeithasol a dim ond yn fras yr oeddent yn mynegi gwerth gweithio gyda'r trydydd sector. Canfuom hefyd nad oedd yr un adroddiad yn enwi'r ddyletswydd Adran 16 yn benodol, er bod sawl un yn cynnwys datganiadau a oedd yn cydnabod bod y 'Ddeddf' yn ei gwneud yn ofynnol cyd-gynhyrchu neu weithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector. Ar y cyfan, rydym yn dod i'r casgliad bod mwy i awdurdodau lleol ei wneud yn eu hadroddiadau cyhoeddus ar sut maen nhw'n hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol.

21 Llywodraeth Cymru ac ADDS Cymru, Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol - Arweiniad

Ychydig iawn o oruchwylio a gwerthuso Mentrau Cymdeithasol a wneir gan awdurdodau lleol

3.10 Mae gan Fentrau Cymdeithasol rôl bwysig o ran diwallu anghenion a helpu pobl mewn cymunedau ledled Cymru. Er enghraifft, mae canfyddiadau Cyfrifiad Busnes Cymdeithasol Cymru yn 2020, a nodir yn Arddangosyn 5, yn dangos bod gwella cymunedau lleol a gwella llesiant y bobl yn amcanion allweddol ar gyfer dros hanner yr holl Fentrau Cymdeithasol.

Arddangosyn 5 – meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwaith Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru

Mae Mentrau Cymdeithasol yn ehangu ffocws eu gwaith ac yn gynyddol yn cyflawni gweithgarwch er budd y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymunedau ledled Cymru

Amcanion cymdeithasol a/neu amgylcheddol Mentrau Cymdeithasol	2016	2018	2020
Gwella cymuned benodol	64%	57%	66%
Gwella iechyd a llesiant	39%	45%	52%
Cefnogi pobl agored i niwed	35%	46%	48%
Mynd i'r afael ag allgau ariannol	26%	28%	44%
Annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden	-	32%	42%
Cefnogi plant a phobl ifanc agored i niwed	20%	29%	34%
Creu cyfleoedd cyflogaeth	21%	24%	31%
Hyrwyddo addysg a llythrennedd	32%	29%	29%
Diogelu'r amgylchedd	16%	26%	29%
Darparu mynediad at wasanaethau	-	22%	27%
Cefnogi Mentrau Cymdeithasol / sefydliadau eraill	9%	16%	25%
Hyrwyddo a diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg	-	21%	24%
Mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol	7%	9%	21%
Darparu tai fforddiadwy	5%	4%	3%

Ffynhonnell: Busnes Cymdeithasol Wales, Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

- 3.11 Er bod Mentrau Cymdeithasol yn darparu gwasanaethau sy'n helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant a'u cyfrifoldebau statudol eraill, gan mwyaf nid yw awdurdodau lleol yn monitro nac yn gwerthuso'u gweithgareddau na'u heffaith. Nododd pum awdurdod lleol a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi cytuno ar fesurau i farnu effaith Mentrau Cymdeithasol yn eu hardal leol a'u bod yn adrodd yn erbyn y rhain. Nid oes gan dros hanner (13) unrhyw drefniadau i werthuso gweithgarwch, ac nid oedd y gweddill a ymatebodd yn gwybod.
- 3.12 Oherwydd gwendidau o ran rheoli perfformiad, adrodd arno a'i werthuso, mae'n anodd i awdurdodau lleol farnu pa mor dda y maent yn perfformio ar hyn o bryd a nodi sut y gallant gefnogi twf ac ehangiad yn rôl Mentrau Cymdeithasol yn y dyfodol. Er bod ambell i awdurdod lleol yn cynnwys mesurau mewnbwn/allbwn bras mewn dogfennau craidd ar waith partneriaid, mae'r rhain yn aml yn gyfyngedig i gofnodi 'nifer y Mentrau Cymdeithasol yr ydym yn gweithio gyda hwy'. Dywedodd lleiafrif o awdurdodau lleol eu bod yn ystyried cael gwybodaeth 'ansoddol' am effaith Mentrau Cymdeithasol, gan dynnu ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau, ond ni ddaethom o hyd i ryw lawer o dystiolaeth bod awdurdodau lleol yn cyflawni hyn yn ymarferol.
- 3.13 Gan mwyaf, nid yw awdurdodau lleol yn adrodd wrth aelodau etholedig ar Fentrau Cymdeithasol. O ganlyniad, nid yw'r swyddogion hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn cael eu dwyn i gyfrif ac mae'r gallu i herio a nodi cyfleoedd datblygu yn cael eu colli. Mae nifer o swyddogion y gwnaethom ni gyfweld â hwy yn cydnabod bod diffyg adrodd ar berfformiad wrth aelodau yn cyfyngu ar gyfleoedd i annog aelodau etholedig i gymryd perchnogaeth ar yr agenda hon a mynd ati'n weithredol i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol.
- 3.14 Yn gyffredinol, mae gan awdurdodau lleol sy'n comisiynu gwasanaethau gan Fentrau Cymdeithasol Gytundeb Lefel Gwasanaeth a danategir gan ystod o fesurau perfformiad y cytunwyd arnynt i werthuso gwasanaethau a gomisiynwyd. Fodd bynnag, canfuom fod adroddiadau ar berfformiad Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn canolbwyntio'n fawr ar 'fewnbynnau' ac 'allbynau' – er enghraifft, nifer y defnyddwyr gwasanaeth yr ymdriniwyd â hwy – yn hytrach nag asesu budd cymdeithasol ehangach gwaith Mentrau Cymdeithasol a'r effaith y maent yn ei chael ar bobl sy'n cael eu gwasanaethau.



Atodiadau

- 1 Ymagwedd a dulliau archwilio
- 2 Rhestr Wirio i awdurdodau lleol ar ymgysylltu a gweithio'n effeithiol gyda Mentrau Cymdeithasol
- 3 Gwahaniaethau mewn deddfwriaeth, polisi a chyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol ar draws tair gwlad Prydain Fawr
- 4 Nifer y Mentrau Cymdeithasol fesul awdurdod lleol yng Nghymru a'r newid canrannol rhwng 2016 a 2020
- 5 Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol De-ddwyrain Cymru
- 6 Crynodeb o Arfer Da a nodwyd yn yr adolygiad hwn

1 Ymagwedd a dulliau archwilio

Ymagwedd

Yr adroddiad hwn yw'r ail o'n gwaith thematig ar gyfer 2022 sy'n edrych ar dlodi. Mae'r adroddiad hwn yn eistedd ochr yn ochr â'n hadroddiad cynharach ar dlodi yng Nghymru a'n hadolygiad sydd i ddod a fydd yn ystyried sut y mae awdurdodau lleol yn grymuso pobl i fod yn fwy hunanddibynnol a chydnerth.

Ar gyfer y gwaith hwn ein hymagwedd fu deall pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda, yn hyrwyddo ac yn datblygu Mentrau Cymdeithasol. Yn benodol, rydym wedi edrych ar ba mor gadarn yw gwybodaeth am anghenion, strategaethau, cynlluniau a pholisïau ar gyfer Mentrau Cymdeithasol a sut y mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn cyflawni eu hymrwymadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol.

Fe wnaethom archwilio pob un o'r 22 o brif awdurdodau lleol yng Nghymru ar lefel uchel, gan reoli'r broses gyflawni i fod yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar swyddogion awdurdodau lleol yn ystod y pandemig a chyda'r argyfwng costau byw. Sicrhawyd fod y cwmpas yn ddigon i gael golwg ar y sector cyfan ond i beidio â mynd â'r sylw'n sylweddol oddi ar gyfrifoldebau darparu gwasanaethau'r swyddogion. Roedd ein hymagwedd yn hyblyg i gyd-fynd â'r galwadau ar swyddogion wrth gytuno ar ein gwaith maes a'i gyflawni.

Dulliau

Cwblhawyd ein hadolygiad rhwng mis Awst 2021 a mis Medi 2022 ac fe ddefnyddiwyd ystod o ddulliau wrth gyflawni ein gwaith:

- **adolygu dogfennau:** fe wnaethom adolygu dogfennau gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chyrrff cyhoeddus perthnasol eraill. Roedd hyn yn cynnwys cofnodion pwyllgorau perthnasol, strategaethau corfforaethol, strategaethau economaidd, busnes, adfywio a chaffael; cynlluniau adfer COVID-19; ac Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Fe wnaethom hefyd adolygu gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Busnes Cymdeithasol Cymru, Social Enterprise UK a Social Enterprise Scotland.

- cyfweiliadau – fe gynhaliom ni ystod o wahanol gyfweiliadau:
 - cyfweiliadau â swyddogion – fe gyfwelom ni â swyddogion a enwebwyd gan bob prif awdurdod lleol yng Nghymru, yn gyffredinol y rhai sydd â chyfrifoldeb am Fentrau Cymdeithasol, gofal cymdeithasol neu ddatblygu economaidd. Cynhaliwyd y rhain rhwng mis Ionawr a mis Mai 2022.
 - cyfweiliadau cenedlaethol – fe gyfwelom ni â chynrychiolwyr Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru a'r Alban, cyrff cynrychioliadol cenedlaethol megis CWMPAS, elusennau, melinau trafod, sefydliadau academaidd a chyrrff ymchwil. Cynhaliwyd y rhain rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2022.
- **grwpiau ffocws** – yn unol â'n hymagwedd, roedd rhai awdurdodau lleol o'r farn ei bod yn fwy priodol i ni siarad gydag ystod o swyddogion mewn grwpiau ffocws i leihau ein heffaith ar ddarparu gwasanaethau.
- **arolwg** – fe gynhaliom ni arolwg gyda swyddogion awdurdodau lleol. Roedd yr arolwg ar agor rhwng mis Ionawr a mis Mai 2022, ac fe gawsom ymatebion gan bob awdurdod lleol heblaw Cyngor Dinas Casnewydd.
- **Gwefannau** – awdurdodau lleol ac adnoddau allanol, e.e. DEWIS.
- **dadansoddi data** – fe wnaethom ddadansoddi ystod o ddata a gesglir ac a gyhoeddir gan Busnes Cymdeithasol Cymru Social Enterprise UK a Social Enterprise Scotland.

2 Rhestr Wirio i awdurdodau lleol ar ymgysylltu a gweithio'n effeithiol gyda Mentrau Cymdeithasol

Cam Gweithredu	Wedi'i gwblhau	Wedi'i ddechrau	Heb ei ddechrau
<h3>1 Trefniadau Strategol</h3> <h4>Gweledigaeth</h4>			
Mae gennym weledigaeth y cytunwyd arno ar gyfer sut y byddwn yn gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol.			
Mae'r weledigaeth wedi cael ei rhannu gyda'r holl staff perthnasol yn yr awdurdod lleol, ac maent yn ei deall.			
Mae'r weledigaeth wedi cael ei rhannu gyda aelodau etholedig, wedi'i chymeradwyo ganddynt, ac mae'n cael ei deall ganddynt.			
Datblygwyd y weledigaeth mewn trafodaeth gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.			
Mae'r weledigaeth wedi cael ei lledaenu i Fentrau Cymdeithasol yr ydym yn gweithio gyda hwy.			
<p>Mae'r weledigaeth yn nodi'n glir sut yr ydym yn bwriadu cyflawni ein cyfrifoldebau Adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ein gwaith i hyrwyddo gwerth cymdeithasol trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; a • defnyddio'r Gronfa Integredig Rhanbarthol i hyrwyddo a datblygu Mentrau Cymdeithasol. 			

Cam Gweithredu	Wedi'i gwblhau	Wedi'i ddechrau	Heb ei ddechrau
Dull Corfforaethol			
Mae gennym ddull a arweinir yn gorfforaethol ar gyfer gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol sy'n cwmpasu pob adran a gwasanaeth.			
Mae'r dull corfforaethol yn trosi ein gweledigaeth yn gamau gweithredu ymarferol.			
Rydym wedi dynodi arweinydd corfforaethol ar gyfer Mentrau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu ein gwaith gyda'r sector.			
Deall y sector Mentrau Cymdeithasol lleol			
<p>Rydym wedi mapio'r sector Mentrau Cymdeithasol yn ardal ein hawdurdod lleol ac rydym yn gwybod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nifer y sefydliadau sy'n gweithio'n lleol; • y gwasanaethau y maent yn eu darparu; • y cymunedau y darperir y gwasanaethau ynddynt; • y bobl y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer; • sut y mae'r gwasanaethau'n cael eu cyllido; • oriau/dyddiau gweithredu gwasanaethau; • y meini prawf cymhwysra ar gyfer y gwasanaeth (os o gwbl); • sut y mae'r gwasanaeth yn cyd-fynd â'n cyfrifoldebau Adran 16 ar gyfer hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol; a • phwy i gysylltu â hwy am ragor o wybodaeth. 			
Mae gennym gofnod o'n holl gyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol.			

Cam Gweithredu	Wedi'i gwblhau	Wedi'i ddechrau	Heb ei ddechrau
<p>Rydym yn coladu gwybodaeth ariannol ac yn adrodd o leiaf yn flynyddol ar gyfanswm ein cyllid i Fentrau Cymdeithasol sy'n cwmpasu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pa sefydliadau yr ydym yn eu cyllido; • gwerth y contract; • hyd y contract; • pa adran/gwasanaeth sydd wedi contractio; • y mesurau llwyddiant a sefydlwyd ar gyfer y gwaith; a • beth yw manteision arfaethedig y gwaith. 			
<p>Rydym yn codi ymwybyddiaeth am y manteision a gyflwynir gan Fentrau Cymdeithasol i sicrhau bod yr holl staff yn nodi cyfleoedd i gydweithio gyda hwy trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gynnal diwrnod mentrau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol; • cynnal gweithdai i gynghorwyr ac uwch reolwyr; a • datblygu gweithgareddau i ddathlu a hyrwyddo mentrau cymdeithasol. 			

Trefniadau cydweithio a phartneriaeth

<p>Rydym wedi nodi a chytuno sut y bydd gwaith Mentrau Cymdeithasol yn cael ei reoli a sut y byddir yn craffu arno ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lefel gorfforaethol – yng ngwaith partneriaethau strategol a phwyllgorau craffu corfforaethol; • lefel adrannol – mewn trefniadau partneriaeth penodol i gefnogi agendâu polisi ehangach o fewn meysydd diffiniedig; a • lefel gwasanaethau – ar bartneriaethau lleol a mentrau penodol sy'n cael eu harwain gan wasanaethau. 			
--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--

Cam Gweithredu	Wedi'i gwblhau	Wedi'i ddechrau	Heb ei ddechrau
Rydym yn codi ymwybyddiaeth o waith mentrau cymdeithasol yn effeithiol ac yn cynnwys pobl leol a chymunedau wrth ddatblygu Mentrau Cymdeithasol newydd.			
Mae gennym berthynas glir ac effeithiol â'n Cyngor Gwirfoddol Sirol fel partner strategol a chyflawni allweddol			
Mae gennym uwch swyddog arweiniol enwebedig i hyrwyddo ac arwain gwaith trwy'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol rhanbarthol.			

Strategaeth

Mae ein dull o ymdrin â Mentrau Cymdeithasol wedi'i integreiddio â'n strategaethau a'n cynllun allweddol – e.e. Cynllun Llesiant, blaenoriaethau corfforaethol a strategaethau cymunedol a rhanbarthol eraill.			
Rydym wedi pennu amcanion a chamau gweithredu CAMPUS ar sut y byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo twf Mentrau Cymdeithasol.			
Rydym yn gwybod yn glir beth yw manteision a risgiau Mentrau Cymdeithasol i ddinasyddion, cymunedau lleol a'r awdurdod lleol.			

Cyflawni'r strategaeth

Mae gennym ddigon o staff ac adnoddau i hyrwyddo a thyfu Mentrau Cymdeithasol.			
Mae gennym staff yn y gwasanaethau cywir ac sy'n meddu ar y lefel hynafedd ofynnol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Mentrau Cymdeithasol.			
Mae gennym feddylfryd sy'n seiliedig ar ddiwylliant hyderus o fewn y cyngor i wneud y defnydd gorau o Fentrau Cymdeithasol.			
Rydym yn rhoi'r cyfle i staff gymryd risgiau a reolir yn dda ac archwilio arferion arloesol			

Cam Gweithredu	Wedi'i gwblhau	Wedi'i ddechrau	Heb ei ddechrau
----------------	----------------	-----------------	-----------------

2 Comisiynu a Chaffael

Dylunio gwasanaethau

Rydym yn tynnu ar arbenigedd a gwybodaeth Mentrau Cymdeithasol wrth ddylunio gwasanaethau newydd.			
Mae ein comisiynwyr yn gwneud defnydd da o broses Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad i oleuo gweithgarwch comisiynu a siapio'r farchnad ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.			
Wrth ddylunio gwasanaethau, rydym yn nodi'n glir: <ul style="list-style-type: none"> • pa alw fydd y gwasanaeth yn ei ateb; • sut yr ydym wedi penderfynu ar y math o wasanaeth y mae ei angen arnom; a • sut y byddwn yn ymgysylltu â darparwyr presennol a phosibl i ddatblygu'r gwasanaeth. 			
Rydym yn sicrhau bod ein proses dendro'n hygyrch i'r holl gydweithwyr posibl.			
Gallwn ddangos bod gennym y capasiti a'r sgiliau i gyflawni'r broses gomisiynu strategol.			
Rydym yn mynd ati i chwilio am ffyrdd o wahodd cyrff i gydweithio			

Cam Gweithredu	Wedi'i gwblhau	Wedi'i ddechrau	Heb ei ddechrau
Systemau dyfarnu effeithiol			
<p>Rydym wedi creu un system gyllido ganolog a chorfforaethol ar gyfer rheoli a dyfarnu'r holl gyllid i Fentrau Cymdeithasol.</p>			
<p>Mae gennym systemau effeithiol i ddyfarnu cyllid i sefydliadau sy'n nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amserlen gyllido glir sydd ar gael i bob cynigydd posibl fel y gallant baratoi ar gyfer cyfleoedd; • y broses a ddefnyddir i benderfynu (er enghraifft, ceisio dyfyniadau neu ddefnyddio proses dendro neu broses gynnig); • y gwerth a'r risg sy'n gysylltiedig â'r gwahanol lwybrau cyllido; • meini prawf clir a chyhoeddedig sy'n cael eu deall gan bob sefydliad sy'n ceisio cyllid, gan gynnwys cymalau budd cymunedol a gwerth cymdeithasol; • y gost a'r adnoddau i oruchwylio'r broses a'i gweinyddu; ac • am faint o amser y darperir y cyllid hwnnw. 			
Systemau dyfarnu effeithlon			
<p>Mae gennym systemau corfforaethol effeithlon i ddyfarnu cyllid yn seiliedig ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • brosesau ymgeisio cryno a chlr; • defnyddio systemau ar-lein ac electronig i ddosbarthu a chasglu gwybodaeth a chynigion; • trefniadau penderfynu byr o'r dechrau i'r diwedd; • isafswm y camau a'r prosesau sy'n ofynnol i benderfynu; a • phenderfyniadau'n cael eu dirprwyo i'r lefel isaf. 			

Cam Gweithredu	Wedi'i gwblhau	Wedi'i ddechrau	Heb ei ddechrau
Mae ein telerau ac amodau contract yn gymesur â lefel y cyllid sy'n cael ei roi ac maen nhw'n benodol i'r gwaith sy'n cael ei gyllido.			
Rydym yn adolygu ein prosesau cyllido er mwyn sicrhau nad ydym yn allgau Mentrau Cymdeithasol rhag sicrhau gwaith.			

Hyfforddiant a rhannu gwybodaeth

<p>Rydym yn darparu hyfforddiant i gefnogi Mentrau Cymdeithasol sy'n cwmpasu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut i wneud cais am gyllid – yr hyn y dylid ac na ddylid ei wneud; • cydymffurfio â'n systemau comisiynu a chaffael; • prosesau casglu data; • trefniadau rheoli perfformiad a chraffu arno; • cylchoedd talu a thargedau perfformiad; a • gofynion terfynu/parhad contract. 			
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--	--

Cam Gweithredu	Wedi'i gwblhau	Wedi'i ddechrau	Heb ei ddechrau
----------------	----------------	-----------------	-----------------

3 Rheoli perfformiad

Casglu gwybodaeth

Rydym wedi nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol i fonitro a gwerthuso perfformiad y Mentrau Cymdeithasol yr ydym yn eu cyllido.			
Mae'r wybodaeth yn mesur gweithgarwch perthnasol yn unig.			
Mae'r systemau i gasglu gwybodaeth wedi'u symleiddio ac yn effeithlon, a dim ond unwaith ac yn electronig a hynny o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt y mae Mentrau Cymdeithasol yn cyflwyno gwybodaeth.			

Adolygiad o berfformiad

<p>Rydym yn adrodd yn rheolaidd ar ein cyllid i Fentrau Cymdeithasol wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad sy'n cwmpasu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y safonau gwasanaeth yr ydym yn eu gosod i'r Fenter Gymdeithasol a gyllidir gennym berfformio yn eu herbyn; • gwelliannau yn neilliannau llesiant a chymdeithasol pobl; a • data perthnasol am berfformiad sy'n seiliedig ar wasanaethau; a • chasgliadau adolygiadau archwilio/arolygu allanol. 			
<p>Mae ein prosesau craffu a gwerthuso:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn gymesur â gwerth y cyllid a ddarparwn; ac • yn rhoi sicrwydd i ni bod ein cyllid yn cyflawni'r deilliannau disgwylidiedig. 			

Cam Gweithredu	Wedi'i gwblhau	Wedi'i ddechrau	Heb ei ddechrau
<p>Yn flynyddol rydym yn adrodd yn gyhoeddus:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar waith Mentrau Cymdeithasol; • ar berfformiad presennol Mentrau Cymdeithasol yr ydym yn eu cyllido; • ar y modd y byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd pellach i'r sector yn y dyfodol; ac • ar ba mor dda yr ydym yn perfformio o ran cyflawni ein cyfrifoldebau A.16 ar gyfer Mentrau Cymdeithasol. 			

Rheoli risg

<p>Rydym yn adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n cyllid ar gyfer Mentrau Gymdeithasol yn rheolaidd.</p>			
<p>Rydym yn cytuno ar gynlluniau rheoli risg os nad yw risgiau'n cael eu rheoli a'u lliniaru.</p>			
<p>Mae gennym raglen dreigl o brofi systemau ac adolygiadau cydymffurfio gan y tîm archwilio mewnol er mwyn sicrhau cadernid, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein cyllid i wasanaethau Mentrau Cymdeithasol.</p>			

3 Gwahaniaethau mewn deddfwriaeth, polisi a chyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol ar draws tair gwlad Prydain Fawr

Materion	Lloegr	Yr Alban	Cymru
Deddfwriaeth ar Fentrau Cymdeithasol	Yn canolbwyntio'n bennaf ar wneud gwell defnydd o gcontractau Gwerth Cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012	Yn bennaf trwy ddefnydd tir/asedau a gofyniad i gyrff cyhoeddus fod ag o leiaf un contract gyda Menter Gymdeithasol	Ydy, mae A.16 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol 'Hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector'. Gallai hyn hefyd gael ei ehangu yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus
Strategaeth Genedlaethol ar gyfer tyfu Mentrau Cymdeithasol	Mae Social Enterprises UK wedi cyhoeddi adroddiad ar gyfer y dyfodol – Social Value 2032 .	Strategaeth Mentrau Cymdeithasol yr Alban 2016-2026	Roedd gan Lywodraeth Cymru strategaeth yn 2005 ond mae hon wedi dod i ben. Cafodd y strategaeth gyfredol – Trawsnewid Cymru drwy Fentrau Cymdeithasol – ei datblygu gan y sector ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer Mentrau Cymdeithasol	Benthyciad Dechrau Busnes a gefnogir gan y Llywodraeth o £500 i £25,000 ac arian Ffyniant Bro	Just Enterprise, Developing Markets, Social Growth, Business Gateway, ac ati	Cronfa Cadernid Economaidd Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru
Cymorth y Llywodraeth i Fentrau Cymdeithasol	Fe'i darperir yn bennaf trwy Linell Gymorth Busnes Llywodraeth y DU a 38 o 'hybiau twf' lleol	Fe'i cydlynir yn bennaf trwy Business Support Scotland	Busnes Cymdeithasol Cymru Llywodraeth Cymru
Gweinidog â chyfrifoldeb am Fentrau Cymdeithasol	Is-Weinidog Cymdeithas Sifil ac Ieuenctid	Gweinidog y Cabinet dros Fusnes, Masnach, Twristiaeth a Menter	Gweinidog Cabinet yr Economi

4 Nifer y Mentrau Cymdeithasol fesul awdurdod lleol yng Nghymru a'r newid canrannol rhwng 2018 a 2020

Awdurdod Lleol	2018	2020	Gwahaniaeth	% y cynnydd
Bro Morgannwg ²²	41	217	176	429%
Caerdydd	228	265	37	16%
Casnewydd	51	76	25	49%
Abertawe	135	158	23	17%
Wrecsam	62	78	16	26%
Ceredigion	71	79	8	11%
Sir y Fflint	65	70	5	8%
Sir Fynwy	29	34	5	17%
Ynys Môn	56	60	4	7%
Conwy	76	78	2	3%
Sir Ddinbych	71	72	1	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	83	85	2	2%
Gwynedd	127	128	1	1%
Caerffili	99	98	-1	-1%
Merthyr Tudful	67	64	-3	-4%
Sir Benfro	121	115	-6	-5%
CNPT	79	73	-6	-8%
RhCT	162	155	-7	-4%
Sir Gâr	174	164	-10	-6%
Blaenau Gwent	45	38	-7	-16%
Powys	110	100	-10	-9%
Torfaen	51	40	-11	-22%
Cyfanswm a nodwyd	2,003	2,247	244	12%

Ffynhonnell: Busnes Cymdeithasol Cymru, [Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020](#), Mehefin 2021.

²² Fel yn yr adroddiad gan CWMPAS, mae'r ffigwr ar gyfer Bro Morgannwg yn allanolyn, o ganlyniad i gynnwys ffynhonnell ychwanegol a ddarperir gan Wasanaeth Gwirfoddol Bro Morgannwg. Ni wyddys a fabwysiadwyd y dull hwn mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.

5 Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol De-ddwyrain Cymru

Fe wnaeth chwe awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen) gyllido rhaglenni Mentrau Cymdeithasol pwrpasol gan ddefnyddio £13.5m o arian yr UE o dan raglen Datblygu Economaidd Cymunedol De-ddwyrain Cymru (SEWCED). Canfu gwerthusiad o raglen SEWCED a gomisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fod y prosiect wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau o ran cynhyrchu swyddi newydd, a chafodd pob agwedd ar y prosiect sgôr uchel mewn arolygon gyda menter gymdeithasol a gafodd fudd ohono. Er enghraifft, rhoddodd SEWCED gymorth fel a ganlyn:

- creu 30 o swyddi newydd a 3 Menter Gymdeithasol newydd;
- rhoi cynhorthwy ariannol i 28 o sefydliadau lleol;
- 15 o sefydliadau i fabwysiadu a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Amgylcheddol; ac
- 13 i fabwysiadu Strategaethau Cydraddoldeb a gwella eu systemau ar gyfer monitro a gwerthuso prosesau cyflawni.

Daeth rhaglen SEWCED i ben yn 2015 ac, er gwaethaf llwyddiant y prosiect a'r canfyddiadau gwerthuso, ni pharhawyd â'r gweithgarwch ac ni chafodd ei ddisodli yn y mwyafrif o achosion. Dim ond dau awdurdod lleol a gafodd gyllid trosiannol i gadw'r staff yr oeddent yn eu cyflogi i weithio gyda Mentrau Cymdeithasol o dan SEWCED.

Penderfynodd y gwerthusiad fel a ganlyn: 'heb gymorth SEWCED, ni fyddai'r sector mentrau cymdeithasol yn Ne-ddwyrain Cymru wedi cyflawni'r un deilliannau ag a wnaeth. Ar ben hynny, heb gymorth tebyg yn y dyfodol, byddai'r canlyniadau hyn yn awgrymu na fydd y sector mentrau cymdeithasol dwyn yr un manteision ag y mae wedi'i wneud o ganlyniad i raglen SEWCED.' Mae'r cyfweiliadau gydag awdurdodau lleol lle soniwyd am SEWCED wedi cadarnhau hyn, gan nad oes ymdrech gyfatebol a threfnus i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol yn weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd.

6 Crynodeb o Arfer Da a nodwyd yn yr adolygiad hwn

Arfer da – sut rydym yn ei bennu

Dyma'r paramedrau a ddefnyddiwn i farnu a ddylid cynnwys astudiaeth achos fel arfer da:

- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth ag effeithiolrwydd profedig, a ategir gan werthusiad cynhwysfawr.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth y dangoswyd ei f/bod yn dwyn deilliannau llwyddiannus ac a ategir i ryw raddau gan ffynonellau data goddrychol a gwrthrychol.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sydd wedi gweithio o fewn un sefydliad ac sy'n dangos addewid yn ystod ei g/chyfnod cynnar ar gyfer dod yn ymarfer ac iddo effaith gynaliadwy hirdymor.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sydd â'r potensial i gael ei (h) efelychu ymhlith sefydliadau eraill.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sy'n rhoi gwerth am arian. Diffinnir gwerth am arian fel y defnydd gorau posibl o adnoddau i ddwyn y manteision bwriadedig.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sy'n dwyn arbedion/gostyngiadau mewn gwariant heb gael unrhyw effaith neu gan gael effaith fach ar berfformiad.

O fewn corff yr adroddiad, rydym wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – gwaith Grŵp y Sector Gwirfoddol sy'n arwain ar ymgysylltu â Mentrau Cymdeithasol – paragraff 1.18.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – gwaith y Swyddog Menter a Busnes i gefnogi a hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol – paragraff 1.19.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bro Morgannwg – creu Mentrau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau lleol – paragraff 1.20.

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – defnyddio Cymalau Budd Cymdeithasol a Chymunedol mewn contractau – paragraff 2.12.
- Cyngor Sir y Fflint – System Brynu Ddeinamig sy'n galluogi busnesau llai i gyflawni rhannau bychain o archebion mwy - paragraff 2.12.
- Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – creu swyddogion â chyfrifoldebau penodol i ganfod a hyrwyddo cyfleoedd i gynyddu gwerth cymdeithasol i'r eithaf mewn prosesau tendro – paragraff 2.12.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Sir Penfro – hyrwyddo a gweithio gyda Micro-Fentrau – paragraff 3.7.



Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Ffurflen Ymateb y Cyngor

Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i'r argymhellion gan Archwilio Cymru

Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

Teitl yr adroddiad: 'Cyfle wedi'i Gollu' – Mentrau Cymdeithasol

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2022

Cyfeirnod y ddogfen:

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
A1	I gael y gorau o ariannu a'u gwaith gyda Mentrau Cymdeithasol mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod y trefniadau a'r systemau cywir ar waith. Rydym yn argymhell bod swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio yn Atodiad 2 i:	Rhaid i ymagwedd y Cyngor fod yn un hollistaidd a chydlynus. I'r diben hwn, rhaid i'r weledigaeth a geir yn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant yng nghyswllt hynny fod yr un mor berthnasol i bob maes gwasanaeth. Bydd y broses o nodi'r amcanion hyn yn cynnwys ystod o asiantaethau partner a sefydliadau ac	31/03/2024	Grŵp Arweiniol

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> • hunanwerthuso ymgysylltiad, rheolaeth, perfformiad ac ymarfer cyfredol Mentrau Cymdeithasol; • nodi cyfleoedd i wella cydweithio; ac ymarfer; • drafftio ar y cyd a rhoi cynllun gweithredu ar waith gan nodi'n glir y ffrâm amser a'r cyfrifoldebau er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodir yn yr hunanwerthusaid. 	<p>yn galluogi trefniadau ac arferion cydweithio yn y dyfodol.</p> <p>I gyflawni hyn, bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd dangosyddion perfformiad penodol yn mesur y buddion o gydweithredu ac arferion cydweithio.</p> <p>Rhaid i unrhyw gydweithredu a chydweithio ddangos gwerth ychwanegol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion a chyd-fynd â gweledigaeth y Strategaeth Gorfforaethol.</p> <p>Cam Gweithredu 1: Gwerthusiad cynhwysfawr o'r trefniadau cyfredol ar gyfer mentrau cymdeithasol ar draws pob maes gwasanaeth a nodi unrhyw fylchau ar gyfer cydweithio (e.e. cludiant cymunedol) a chyfleoedd i gydweithredu. Byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrwng allweddol i gyflawni'r dasg hon.</p> <p>Mae'r setliad cyllideb drafft ar gyfer 2024/25 wedi lleihau'n sylweddol y cyfleoedd i gefnogi'r weithred hon mewn modd ystyrlon. Mae gwaredu'r cyllid ar gyfer cynllun trafndiaeth wledig wedi llwyr ddiystyru gallu'r awdurdodau i ymgysylltu ag unrhyw gynlluniau trafndiaeth gymunedol i lenwi'r bwlch. Nid oes cyllid o gwbl ar gael i gymell cynlluniau o'r fath.</p>	<p>Nid yn mynd ar ei drywydd bellach</p>	

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
		<p>Cam Gweithredu 2: Llunio Cytundebau Lefel Gwasanaeth priodol ar y cyd gydag unrhyw sefydliad neu gorff partner allanol a all gyflenwi gwasanaethau yn fwy effeithlon ac effeithiol nag y gall y Cyngor eu cyflawni yn annibynnol.</p> <p>Cam Gweithredu 3: Nodi mesurau perfformiad priodol a fydd yn dangos gwerth ychwanegol a gwerth am arian o unrhyw drefniant menter gymdeithasol.</p>	<p>Yn parhau</p> <p>Yn parhau</p>	
A2	<p>I yrru gwelliant rydym yn argymhell bod yr awdurdod lleol yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymeradwyo'n ffurfiol y Cynllun Gweithredu wedi'i gwblhau; • adrodd ar, monitro a gwerthuso perfformiad yn rheolaidd mewn cyfarfodydd craffu; ac • adolygu gweithredoedd a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad. 	Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu ar gwblhau'r tasgau sy'n gysylltiedig ag A1 uchod.	31/03/2024	Grŵp Arweiniol
A3	I sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau A.16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol, rydym yn argymhell ei fod yn adrodd ar	Mae ein gweledigaeth yn ymestyn yn ehangach na'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Fodd bynnag, bydd data a gesglir gan Dîm Perfformiad	31/03/2024	Grŵp Arweiniol

Cyf	Argymhelliad	Camau gweithredu gan y Cyngor wedi'u cynllunio mewn ymateb i argymhelliad gan Archwilio Cymru	Dyddiad targed ar gyfer cwblhau camau gweithredu	Swyddog cyfrifol
	weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau'r dyfodol yn dilyn y gwerthusiad o'i Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Corfforaethol yr Awdurdod yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac felly'n cyflawni cyfrifoldebau Adran 16.		